

*Chwilio am eiriau a chywair addas  
ar gyfer y Gair i Gymry'r unfed  
ganrif ar hugain*

Gruffydd Rhys Davies

160033847

Traethawd a gyflwynir ar gyfer gradd M.Phil.

Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd

Prifysgol Aberystwyth

2022



Cyfanswm nifer geiriau y traethawd ymchwil	62,504
<b>DATGANIAD:</b> Nid yw sylwedd y gwaith hwn wedi cael ei dderbyn o'r blaen ar gyfer unrhyw radd, ac nid yw'n cael ei gyflwyno ar yr un pryd wrth ymgeisio am unrhyw radd:	
Enw'r ymgeisydd	<u>Gruffydd Rhys Davies</u>
Llofnod:	
Dyddiad:	10/03/2023

### GOSODIAD 1

Canlyniad fy ymchwiliadau i yw'r traethawd ymchwil hwn, oni nodir yn wahanol. Lle mae **\*gwasanaethau cywiro** wedi eu defnyddio, nodir maint a natur y cywiriad yn eglur mewn troednodyn

Cydnabyddir ffynonellau eraill mewn troednodiadau sy'n rhoi cyfeiriadau eglur. Atodir llyfryddiaeth.

Llofnod:	
Dyddiad	10/03/2023

[\* Mae hyn yn cyfeirio at i ba raddau y cywirwyd y testun gan bobol eraill]

### GOSODIAD 2

Yr wyf, drwy hyn, yn rhoi caniatâd i'm traethawd ymchwil, os yw'n cael ei dderbyn, fod ar gael i'w lungopïo ac ar gyfer benthyciadau rhwng llyfrgelloedd, ac i'r teitl a'r crynodeb fod ar gael i gyrff allanol.

Llofnod:	
Dyddiad	10/03/2023

**DS:** *Dylai ymgeiswyr y mae gwaharddiad mynediad (copi caled) wedi'i gymeradwyo ar eu rhan gan y Brifysgol ddefnyddio'r fersiwn canlynol o Osodiad 2:*

Yr wyf, drwy hyn, yn rhoi caniatâd i'm traethawd ymchwil, os yw'n cael ei dderbyn, fod ar gael i'w lungopïo ac ar gyfer benthyciadau rhwng llyfrgelloedd wedi i gyfnod y gwaharddiad ar fynediad a gymeradwywyd gan Brifysgol Aberystwyth ddod i ben.

Llofnod:	
Dyddiad	

## *Crynodeb*

Am bedair canrif, bu cyfieithiad William Morgan o'r Beibl, wedi ei ddiwygio gan John Davies a Richard Parry, bron yn hollbresennol ar aelwydydd Cymru. Ym mlwyddyn dathlu pedwar can mlwyddiant y cyfieithiad cyntaf hwnnw, cyhoeddwyd cyfieithiad cwbl newydd, *Y Beibl Cymraeg Newydd*, er mwyn adlewyrchu'r newid a fu yn yr iaith Gymraeg a sicrhau bod yr Ysgrythur yn parhau i fod yn ddealladwy i gynulleidfa gyfoes. Yna, lai na 30 mlynedd yn ddiweddarach, cafwyd cyfieithiad cwbl newydd eto, beibl.net, mewn iaith lafar ac anffurfiol. Bwriad yr astudiaeth hon yw craffu ar y fersiynau mwyaf diwygiedig o'r cyfieithiadau hyn ac ystyried pa mor addas ydynt ar gyfer cynulleidfa'r Gymru gyfoes. Bydd hyn yn golygu craffu ar nodweddion ieithyddol y cyfieithiadau, yn ogystal ag archwilio perthynas pobl Cymru â hwy a'u gallu i'w darllen a'u deall.

Trafodir canlyniadau holiadur a ddosbarthwyd rhwng Mehefin a Gorffennaf 2020 yn casglu ymatebion gan dros bedwar cant o ddarllenwyr Cymraeg o bob oed i nifer o gwestiynau perthnasol am y cyfieithiadau Cymraeg o'r Beibl er mwyn canfod pa fersiwn a sut fersiwn yw'r un mwyaf addas ar gyfer Cymry'r unfed ganrif ar hugain.

## *Diolchiadau*

Carwn ddiolch o waelod calon i Dr Bleddyn Owen Huws am ei gymorth, ei ddiddordeb yn y gwaith, ei amynedd a'i holl gynghorion doeth wrth oruchwylio'r gwaith hwn. Diolch hefyd i Dr Rhianedd Jewell am fod mor barod i gynnig ei chyngor arbenigol ym maes theori cyfieithu, ac i holl aelodau staff Adran y Gymraeg, Prifysgol Aberystwyth am eu cefnogaeth gydol fy nghyfnod o astudio. Hoffwn ddiolch yn fawr i Ymddiriedolaeth Pantyfedwen hefyd am ddyfarnu ysgoloriaeth imi er mwyn imi allu dilyn cwrs gradd M.Phil. Yn olaf, mae fy nyled a'm diolch yn fawr i'm teulu a'm ffrindiau, ac yn arbennig i Eleri, fy ngwraig, am ei holl gefnogaeth.

## Cynnwys

<i>Crynodeb</i> .....	<i>i</i>
<i>Diolchiadau</i> .....	<i>ii</i>
<i>Byrfoddau a Thestunau</i> .....	<i>iv</i>
1. <i>Cyflwyniad</i> .....	1
2. <i>Genesis</i> .....	26
3. <i>Salmau</i> .....	56
4. <i>Eseia</i> .....	87
5. <i>Mathew</i> .....	112
6. <i>Rhufeiniaid</i> .....	139
7. <i>Holiadur</i> .....	166
8. <i>Casgliad</i> .....	221
<i>Atodiad A – Copi o’r Holiadur</i> .....	234
<i>Atodiad B – Llyfr Numeri</i> .....	245
<i>Llyfryddiaeth</i> .....	269

## *Byrfoddau a Thestunau*

Yn y traethawd hwn, ceir astudiaeth o dri chyfieithiad o'r Beibl sef Y Beibl Cysegr-Lân (1620), Y Beibl Cymraeg Newydd, Argraffiad Diwygiedig (2004), a beibl.net (2015). Gan mai argraffiad diwygiedig o gyfieithiad blaenorol yw fersiwn 2004, a bod y fersiwn gwreiddiol yn parhau i fod yn boblogaidd, sef Y Beibl Cymraeg Newydd (1988), cyfeirir at hwnnw o bryd i'w gilydd hefyd. Er hwylustod, defnyddir y byrfoddau isod wrth gyfeirio at y gwahanol fersiynau.

BWM	Y Beibl Cysegr-Lân (1620)
BCN	Y Beibl Cymraeg Newydd (1988)
BCND	Y Beibl Cymraeg Newydd, Argraffiad Diwygiedig (2004)
BNET	beibl.net (2015)

Cyfeirir hefyd at gyfieithiadau Saesneg, a defnyddir y byrfoddau isod o bryd i'w gilydd.

KJV	King James Version (1611)
NIV	New International Version (1979)
NKJV	New King James Version (1982)
GNB	Good News Bible – Second Edition (1994)
ESV	English Standard Version (2001)

Pan ddyfynnir o'r Beibl er mwyn cyflwyno gwybodaeth gefndirol am ryw lyfr neu ryw gysyniad diwinyddol, gwneir hynny o'r Beibl Cymraeg Newydd, Argraffiad Diwygiedig, oni nodir yn wahanol.

# 1. Cyflwyniad

## *Cefndir Hanesyddol*

Mae cael y Beibl yn Gymraeg yn wir yn rhywbeth y mae rhai Cymry yn tueddu i'w gymryd yn ganiataol y dyddiau hyn. Y Gymraeg, i lawer, yw iaith y capel, iaith yr ysgol Sul ac iaith dysgu adnodau ac amlygir hynny yn yr ymatebion i'r holiadur a luniwyd at ddiben yr ymchwil hwn. Mae llawer o'n llenorion a'n hysgolheigion amlycaf ar hyd y canrifoedd wedi ysgrifennu am themâu Beiblaidd: enwau cyfarwydd iawn yng Nghymru yw William Morgan, Williams Pantycelyn, Ann Griffiths, Thomas Charles o'r Bala, Thomas Jones o Ddinbych a Thomas Gee. Amlygir y berthynas agos hon rhwng y Gymraeg a Christnogaeth gan y defnydd tra helaeth o'r ymadrodd 'iaith y nefoedd', yr ymadrodd hwnnw sy'n awgrymu mai Cymraeg fydd ar bob tafod yn y nefoedd a bod rhyw oruchafiaeth i'r Gymraeg dros bob iaith arall. Fodd bynnag, nid yw Cristnogaeth a'r Gymraeg wastad wedi rhannu llwybrau ac wrth gwrs, nid oedd y Beibl wastad ar gael yn Gymraeg.

Ysgrifennwyd y Beibl yn wreiddiol gan nifer o awduron gwahanol dros gannoedd o flynyddoedd. Derbynnir yn gyffredinol mai Moses yw awdur y rhannau hynaf o'r Beibl<sup>1</sup> a chredir ar y cyfan i Foses farw oddeutu cc 1406.<sup>2</sup> Credir mai'r rhannau diweddaraf o'r Beibl

---

<sup>1</sup> Nid oes sicrwydd ynglŷn â dyddiad ysgrifennu Llyfr Job gan na wyddys pwy yw'r awdur. Ceir awgrymiadau gan rai ei fod yn dyddio o oes Moses (bu farw oddeutu cc 1406 ) a'i fod o bosibl yn hŷn na gweithiau Moses. Dywed eraill mai o oes Solomon y daw (tua chanol y 10fed ganrif cc), ac eraill o gyfnod y Gaethlud ym Mabilon (cc 587 i 538 ) neu hyd yn oed wedi'r Gaethglud (wedi cc 538). Fodd bynnag, y pwynt yw fod y Beibl cyfan wedi cael ei ysgrifennu dros gyfnod hir o amser, oddeutu mil a hanner o flynyddoedd.

<sup>2</sup> 'Llyfr Genesis', *Y Beibl Canllaw* (Bangor, 2015), t. 1.

yw gweithiau yr Apostol Ioan: ei gofnod o'r Efengyl, ei epistolau cyffredinol, a'i Ddatguddiad; a chredir i'r Datguddiad hwnnw gael ei ysgrifennu oddeutu 95-96 oc.<sup>3</sup> Bu i o leiaf fil a hanner o flynyddoedd dreiglo felly rhwng ysgrifennu rhannau cynharaf a diweddaraf y Beibl ac mae'n rhaid cofio hefyd, wrth gwrs, fod llyfr Genesis yn cyfeirio yn ôl at ddigwyddiadau filoedd o flynyddoedd cyn ei ysgrifennu, yn wir yr holl ffordd yn ôl at y Creu, at ddechrau amser. Felly rhwng cloriau'r Beibl, gwelir sawl oes wahanol iawn a cheir amrywiaeth eang o draddodiadau a diwylliannau. Ceir amrywiaeth hefyd o ran ieithoedd. Dwy brif iaith a ddefnyddiwyd i ysgrifennu'r Beibl, sef Hebraeg yn yr Hen Destament a Groeg yn y Testament Newydd. Erbyn cyfnod y Testament Newydd, roedd yr Hen Destament ar gael mewn Groeg hefyd; y cyfieithiad mwyaf dylanwadol oedd y *Septuagint* neu'r *LXX* a gyfieithwyd tua chanol y drydedd ganrif CC,<sup>4</sup> a defnyddir y cyfieithiad hwn yn aml gan awduron y Testament Newydd wrth ddyfynnu'r Hen. Roedd Lladin yn cael ei defnyddio gan yr Ymerodraeth Rufeinig mewn meysydd megis y gyfraith a milwriaeth sydd wrth gwrs yn amlwg yn hanes y Testament Newydd gyda chroeshoeliad Iesu Grist a nifer o'i ddilynwyr wedi hynny. Derbynnir hefyd mai Aramaeg oedd yr iaith lafar ar y pryd ac mai dyna'r iaith y byddai Iesu ei hun wedi ei siarad. Er bod nifer helaeth o ieithoedd wedi cael eu defnyddio ar lafar ac yn ysgrifenedig yn y ganrif gyntaf, canrif llunio'r Testament Newydd, mae'r llawysgrifau y cyfeiriwyd atynt ar hyd y canrifoedd fel y fersiynau gwreiddiol o Air Duw mewn Hebraeg a Groeg.

Gyda sefydliad Eglwys Rufain fel yr eglwys fawr, gatholig, fyd-eang, daeth ei threfn yn drefn i ddilynwyr y ffydd ledled y byd gorllewinol. Lladin oedd ei hiaith ac felly cyfieithiad Lladin o'r Beibl a ddefnyddiwyd ganddi, sef y *Fwlgat*. Cyfieithwyd y *Fwlgat* gan Sant Sierôm

---

<sup>3</sup> 'The Theology of the New Testament', *ESV Study Bible* (Wheaton, Illinois, 2008), t. 1807.

<sup>4</sup> 'Septuagint', F. L. Cross (gol.), *The Oxford Dictionary of the Christian Church* (Llundain, 1958), t. 1240.



dan orchymyn y Pab Damasus a chwblhawyd y gwaith oddeutu'r flwyddyn 404.<sup>5</sup> Yn wahanol i lawer o ymdrechion cynnar eraill, defnyddiodd Sant Sierôm yr Hen Destament Hebraeg yn hytrach na'r *Septuagint* Groeg a ddaeth yn boblogaidd, felly roedd y *Fwlgat* yn gyfieithiad uniongyrchol o'r gwreiddiol. Ystyr yr enw *Fwlgat* yw 'yr un poblogaidd', neu 'yr un a ddefnyddir yn gyffredin', fel y dywed Gerald Bray:

Jerome produced an excellent translation, based on the best manuscripts available to him and it soon superseded all other Latin versions to become the 'popular' one – the *Vulgata*, or Vulgate, as we call it. As Christianity spread northwards, beyond the bounds of the Roman Empire, the Latin language and the Vulgate went with it.<sup>6</sup>

Dyma'r cyfieithiad a ddefnyddid felly, o fewn yr Ymerodraeth a hefyd yn y gwledydd hynny lle'r oedd yr Ymerodraeth yn cenhadu. Fodd bynnag, defnyddid y cyfieithiad mor helaeth, a rhoddid cymaint o fri arno fel ei fod yn cael ei gydnabod, o bosibl, yn uwch nag y dylai. Eto, fel yr esbonia Bray:

Some westerners even claimed that because Pontius Pilate had written the words 'Jesus of Nazareth, king of the Jews' on the cross in Hebrew, Greek and Latin, the Bible could only be read in one of those three sacred languages. But as Hebrew was the language of the Jews who had rejected Christ, and Greek was the language of the eastern church which had broken away from Rome, Latin was the only one that could be relied on to convey the truth!<sup>7</sup>

Dyma ddyrchafu'r Lladin felly, a hynny ar draul yr ieithoedd gwreiddiol, ac am ganrifoedd Lladin oedd iaith yr eglwys ac iaith y Beibl ledled y byd gorllewinol. Fodd bynnag, er bod yr ysgolheigion a'r gwŷr eglwysig yn medru darllen a deall Lladin, roedd y mwyafrif o ddinasyddion gwledydd y gorllewin yn anlythrennog a llawer yn methu â deall Lladin ar lafar chwaith. Tybiai'r Eglwys fod y drefn hon yn dderbynol ac yn fanteisiol hyd yn oed, gan fod y gwŷr eglwysig yn cael y cyfrifoldeb llwyr am gyfathrebu Gair Duw â'r bobl heb gael eu

---

<sup>5</sup> 'Vulgate', *Ibid.*, t. 1431.

<sup>6</sup> Gerald Bray, 'In the beginning', *Translating the Bible* (Llundain, 2010), t. 3.

<sup>7</sup> *Ibid.*, tt. 3-4.

cwestiynu am yr hyn a ddysgent ac a wnaent. Am y sefyllfa yn Lloegr yn y blynyddoedd cyn y Diwygiad Protestannaidd, dywed Bray,

... those who really wanted to know what the Bible said could always enter a monastery or university, become priests, monks or nuns, and indulge their passion to their heart's content. If they wanted to, they could then go and tell everyone else what the Bible said, and that was felt to be enough. Ordinary people who lacked special training were no more expected to understand the Bible for themselves than most of us would be expected to understand a legal or medical textbook today.<sup>8</sup>

Tebyg iawn oedd y sefyllfa yng Nghymru, ond nad oedd gan Gymru brifysgolion. Er glaniad Gwilym Goncwerwr yn 1066, yr un patrwm eglwysig fu yng Nghymru a Lloegr, gyda phedair esgobaeth yng Nghymru ac roedd y pedwar esgob yn atebol i Archesgob Caer-gaint. Ceisiai rhai megis Gerallt Gymro apelio ar i'r Pab ddyfarnu y dylai'r Eglwys yng Nghymru gael ei chanolfan ei hun yn Nhyddewi, ac felly ei Harchesgob ei hun, ond nid felly a fu. Yn hytrach, Archesgob Caer-gaint oedd Archesgob Cymru o hynny allan gan olygu yn y pen draw mai'r duedd, meddai Gwyn Davies, 'oedd i Saeson gael eu penodi i'r swyddi uchaf' yng Nghymru.<sup>9</sup> Roedd Owain Glyndŵr hefyd yn un a welai'r angen am i Gymru gael ei Harchesgob ei hun yn ben ar eglwys Gymreig dan nawdd Pab Avignon, ond eto aflwyddiannus fu ei ymdrechion i wireddu'r cynllun. Gellir dadlau felly fod y broblem o gyfathrebu Beibl mewn iaith ddieithr hyd yn oed yn anos yng Nghymru nag yn Lloegr, os mai Cymraeg oedd unig iaith trwch y boblogaeth a bod yr esgobion a deiliaid swyddi uchel yr eglwys yn Saeson.

Yn y blynyddoedd hyn, bu ymdrechion gan unigolion yng Nghymru a Lloegr i gyfieithu rhannau o'r Beibl i'w hieithoedd eu hunain. Roedd Eglwys Rufain yn gwrthwynebu cyfieithiadau amgen o'r Beibl, yn wir yr oedd cyfieithu'r Beibl i ieithoedd eraill yn nodweddu'r

---

<sup>8</sup> Ibid., tt. 1-2.

<sup>9</sup> Gwyn Davies, *Golau Gwlad* (Pen-y-Bont ar Ogwr, 2002), t. 39.

carfanau hynny o bobl a adawai Eglwys Rufain i sefyflu eu mudiadau eu hunain, megis y Waldensiaid dan arweiniad Peter Waldo.

Fodd bynnag, yn yr unfed ganrif ar bymtheg, digwyddodd dau beth a newidiodd gwrs hanes Cymru a chrefydd yng Nghymru yn llwyr, sef y Diwygiad Protestannaidd a phasio'r Deddfau Uno. Er i'r Deddfau Uno ddiddymu'r Gymraeg fel iaith swyddogol, gwelai'r Frenhines Elisabeth fod sicrhau Beibl yn iaith y werin yn allweddol, os oedd am lwyddo i droi Cymru yn wlad Brotestannaidd. Aeth William Salesbury ati i gyfieithu'r Testament Newydd a'r Salmau i'r Gymraeg, gyda chymorth yr Esgob Richard Davies a Thomas Huet, a chyhoeddwyd y cyfieithiad hwnnw yn 1567. Fodd bynnag, roedd rhai o nodweddion ieithyddol ac orgraffyddol Salesbury yn chwithig ac yn ddieithr i'r Cymry cyffredin, ac aeth William Morgan ati i ddiwygio cyfieithiad Salesbury, yn ogystal â llunio cyfieithiad o'r newydd o'r 38 llyfr yn yr Hen Destament a oedd heb eu cyfieithu hyd hynny, a chyhoeddwyd y cyfieithiad Cymraeg cyflawn cyntaf yn 1588. Yn fuan, gwelwyd yr angen i'w ddiwygio a dechreuodd Morgan arni, tan y bu farw yn 1604, a daeth yr argraffiad diwygiedig yn 1620 dan ofal Dr John Davies o Fallwyd a'r Esgob Richard Parry, a oedd yn frodyr yng nghyfraith. Cafwyd Salmau Cân Edmwnd Prys yn 1621, ac yn ystod y tair canrif a hanner ddilynol, cafwyd ambell gyfieithiad yma ac acw o rai rhannau o'r Beibl. Daeth Beibl 1620 yn bresenoldeb cyson ar aelwydydd Cymru drwy'r holl gyfnod hwn; ac er i'r fersiwn hwnnw gael ei ddiwygio ar hyd y blynyddoedd i adlewyrchu orgraff safonol yr oes, nid tan chwarter olaf yr ugeinfed ganrif y gwelwyd datblygiadau newydd, gwirioneddol arwyddocaol, ym maes cyfieithu'r Ysgrythur i'r Gymraeg.

Yn 1975, cyhoeddwyd cyfieithiad newydd sbon o'r Testament Newydd, a phennwyd 1988 yn darged ar gyfer cael cyfieithiad cyflawn newydd, a hithau'n flwyddyn pedwar can mlwyddiant cyhoeddi BWM. Cyhoeddwyd y cyfieithiad hwnnw yn y flwyddyn honno a dod yn

boblogaidd iawn, er bod llawer nad oeddent yn fodlon gyda'r cyfieithiad mewn rhai manau, o achos defnydd neu ddiffyg defnydd o rai termau, yn ogystal ag anghysondeb termau, rhai materion testunol ac esboniadol, a diffyg iaith gynhwysol lle roedd hynny'n gywir.<sup>10</sup> Cynigiwyd 2020 fel blwyddyn rhyddhau argraffiad diwygiedig, bedair canrif yn dilyn rhyddhau argraffiad diwygiedig BWM;<sup>11</sup> fodd bynnag gwelwyd yr angen iddo gael ei gyhoeddi cyn hynny a gwnaethpwyd hynny yn 2004. Yn y cyfamser, roedd Arfon Jones, swyddog maes Gobaith i Gymru, yn llunio cyfieithiad newydd eto a'i ryddhau fesul llyfr ar y We, ar wefan [beibl.net](http://beibl.net), heb unrhyw fwriad i'w argraffu.<sup>12</sup> Nod y cyfieithiad hwn oedd cyrraedd cynulleidfa newydd ac iau, apelio at ddysgwyr y Gymraeg a oedd yn garfan a oedd yn tyfu o ran maint, a chynnig neges y Beibl yn syml ac yn eglur. Daeth galw cynyddol ar i'r cyfieithiad hwn gael ei argraffu, ac felly wedi i'r cyfieithiad gael ei gwblhau a'i ryddhau ar y We, cyhoeddwyd *beibl.net* yn 2015. Canlyniad hyn i gyd yw bod nifer o gyfieithiadau yn cael eu defnyddio yn y Gymru gyfoes, a BWM, y BCN, y BCND a BNET yn boblogaidd dros ben. Bydd canlyniadau'r holiadur yn amlygu rhywfaint ar hyn, ond defnyddir pob un ohonynt o bulpudau mewn oedfaon, mewn astudiaethau a seiadau, gan ddarllenwyr unigol yn eu defosiwn, a phob un yn dylanwadu rywfaint ar lenyddiaeth ei oes, yn arbennig felly lenyddiaeth Gristnogol. Bwriedir trafod tri o'r cyfieithiadau hyn yn y traethawd hwn, BWM, y BCND a BNET, gyda'r nod o ystyried addasrwydd iaith pob un i'r gynulleidfa gyfoes.

Mae'r maes hwn yn faes hynod o gyfoes, gan fod trafodaethau wedi eu cynnal yn ddiweddar ar ddatblygu cyfieithiad newydd i'r dyfodol. Yn 2018, cynhaliwyd ymgynghoriad

---

<sup>10</sup> Iwan Rhys Jones, 'Y Beibl Cymraeg Newydd: Cyfraniad y Gweithgor Efengylaidd', yn Iwan Rhys Jones a Julie Rhys Jones (gol.), *Diwinydda Ddoe a Heddiw* (Pen-y-Bont ar Ogwr, 2012), tt. 13-33.

<sup>11</sup> *Ibid.*, t. 14.

<sup>12</sup> 'Rhagair', *beibl.net* (2015).

yn Aberystwyth a thrafodwyd rhai o'r materion allweddol, gan gynnwys y testunau gwreiddiol y dylid eu defnyddio, y fethodoleg y dylid ei defnyddio wrth gyfieithu, a natur yr iaith Gymraeg y cyfieithir iddi.<sup>13</sup> Cafwyd rhifyn arbennig o'r *Cylchgrawn Efengylaidd* er mwyn trafod y mater<sup>14</sup> a sefydlwyd gwefan i fod yn ganolfan i'r ymgynghoriad.<sup>15</sup>

## *Cefndir Theori Cyfieithu*

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae cyfieithu wedi dod yn amlycach yn y gymdeithas yng Nghymru nag erioed o'r blaen; yn wir, cafwyd 'chwyldro i fyd cyfieithu rhwng y Gymraeg a'r Saesneg yn ystod yr ugeinfed ganrif' yn ôl Tegau Andrews.<sup>16</sup> Cyfieithu proffesiynol sydd dan sylw yn y gyfrol y daw'r sylw hwn ohoni, ond mae cyfieithu gweithiau llenyddol wedi digwydd ers canrifoedd hefyd, yn farddoniaeth ac yn rhyddiaith o bob math. Golyga hynny fod Astudiaethau Cyfieithu yn ddisgyblaeth academaidd eang iawn ynddi ei hun. Rhoddir, maes o law, gyflwyniad i'r theorïau a'r egwyddorion y bydd cyfieithwyr y Beibl yn eu hystyried wrth lunio a golygu eu cyfieithiadau. Ond cyn dod at theori cyfieithu yn ymwneud yn benodol â chyfieithu'r Ysgrifur, dylid cyflwyno'r maes yn ehangach.

---

<sup>13</sup> Carwyn Graves, 'Ymgynghoriad ar 'Y Beibl i'r Dyfodol'', E. Wyn James, 'Beibl Cymraeg i'r Dyfodol: Rhai Materion Sylfaenol', ac Arfon Jones, 'Cyfieithu'r Beibl a Gweledigaeth beibl.net' yn *Y Cylchgrawn Efengylaidd*, 55:2 (2018).

<sup>14</sup> *Y Cylchgrawn Efengylaidd*, 55:2 (2018).

<sup>15</sup> <https://www.beibligymru.com/> (cyrchwyd 08/08/2022).

<sup>16</sup> Tegau Andrews, 'Cyd-destun gwleidyddol a chymdeithasol cyfieithu yn y Gymru gyfoes' yn Delyth Prys a Robot Trefor (gol.), *Ysgrifau a Chanllawiau Cyfieithu* (Caerfyrddin, 2015), t. 6.

Un theori ddylanwadol ym maes theori cyfieithu yw ‘anweledigrwydd y Cyfieithydd’ (*the translator’s invisibility*), theori a briodolir i Lawrence Venuti. Hanfod y theori hon yw’r graddau y mae cyfieithwyr a darllenwyr yn trin cyfieithiad megis hynny, yn hytrach nag fel darn gwreiddiol.<sup>17</sup> Wrth ddisgrifio cyd-destun diwylliannol a hanesyddol dieithr i gynulleidfa, gall cyfieithydd gadw elfen o ddieithriwch yn y cyfieithiad, neu gall geisio disgrifio’r pethau hynny fel petaent yn perthyn i gyd-destun y gynulleidfa darged. Yn yr un modd, gall darllenwyr ddarllen cyfieithiad fel pe bai’n destun gwreiddiol, yn hytrach na chadw mewn cof mai cyfieithiad ydyw.

Cysyniadau allweddol o fewn y theori hon, felly, yw ‘cartrefoli’ (*domestication*) ac ‘estroneiddio’ (*foreignization*). Yr hyn a wneir wrth gartrefoli yw cyfieithu yn anweledig, fel nad yw’n amlwg mai cyfieithiad yn wir yw’r cyfieithiad. Gwneir hyn drwy sicrhau bod y darn yn llifo fel petai wedi cael ei ysgrifennu yn yr iaith darged yn wreiddiol, heb dynnu ar briod-ddulliau, darluniau a chefnidir diwylliannol yr iaith wreiddiol. Dylai cyfieithiad o’r fath daro tant i’r darlennydd felly, ym mha bynnag iaith y cyfieithir iddi. Ystyrier enwau cymeriadau a lleoliadau *The Chronicles of Narnia*<sup>18</sup> gan C. S. Lewis a’r modd y cânt eu cyfieithu gan Edmund T. Owen, megis yn *Yn ôl i Wernyfed*. Daw Peter, Susan, Edmund a Lucy yn Rhodri, Meinir, Edward (Ned) a Luned, a daw Narnia yn Wernyfed; enwau yw’r rhain i gyd a fyddai’n ddigon cartrefol mewn nofel wreiddiol Gymraeg.<sup>19</sup> Ar y llaw arall, estroneiddio yw cyfieithu gan amlygu mai cyfieithiad yw’r cyfieithiad. Gwneir hynny drwy gadw priod-ddulliau, darluniau a

---

<sup>17</sup> Jeremy Munday, *Introducing Translation Studies* (Abingdon, 2016), tt. 224-5.

<sup>18</sup> Megis yn C. S. Lewis, *Prince Caspian, the Return to Narnia* (Llundain, 1951).

<sup>19</sup> Edmund T. Owen, *Yn ôl i Wernyfed* (Pen-y-Bont ar Ogwr, 1984). Dylid nodi bod rhai enwau ‘estron’ yn cael eu cadw a’u Cymreigio yn y gyfres, megis Aslan, Caspar, a Miras; ond mae’r enwau hyn *i fod* yn ddieithr gan eu bod yn perthyn i fyd ffantasi.

dibyniaeth ar gefndir diwylliannol yr iaith wreiddiol yn llythrennol yn y cyfieithiad. Mae hyn yn atgoffa'r darllynydd yn gyson nad dyma'r testun gwreiddiol, ond mai cyfrwng yw'r cyfieithiad i ddod â'r darllynydd at yr awdur gwreiddiol. Mae Venuti yn amlygu'r gwahaniaeth rhwng y ddau ddull drwy ddweud am gartrefoli, '[it] leaves the reader in peace, as much as possible, and moves the author toward him'.<sup>20</sup> Ar y llaw arall, dywed am estroneiddio, 'the translator leaves the writer in peace, as much as possible and moves the reader toward [the writer]'.<sup>21</sup> Mae cryfderau a gwendidau i'r ddau ddull, a gwelir yn y traethawd hwn y modd y mae gwahanol gyfieithwyr modern y Beibl yn amrywio yn eu hagwedd yng nghyd-destun y theori hon. O fanylion megis dulliau mesur<sup>22</sup> i bethau arwyddocaol iawn,<sup>23</sup> mae'n rhaid i bob cyfieithydd bwysu a mesur yr ystyriaethau a godir gan y theorïau hyn, mabwysiadu egwyddorion cyffredinol i'w dilyn, a'u cymhwyso fel y bo'n briodol wrth lunio'u cyfieithiad.

## *Cefndir Diwinyddol*

Tra bo rhai o egwyddorion cyffredinol cyfieithu yn berthnasol i faes cyfieithu ysgrythur, megis y rhai a enwir uchod, mae nifer o ystyriaethau ychwanegol a gwahanol iawn. Yn yr adran nesaf felly, cyflwynir rhai o'r ystyriaethau hyn.

---

<sup>20</sup> Lawrence Venuti, *The Translator's Invisibility* (Llundain, 2008), t. 15.

<sup>21</sup> Ibid. tt. 15-6.

<sup>22</sup> Ystyrier sut y mesurir arch Noa yn Genesis 6:15; 'tri chan cufydd' yw ei hyd yn BWM a'r BCND, ond '130 metr' yn BNET. O ran yr amser hefyd, mae'r 'nawfed awr' yn BWM yn 'dri o'r gloch' yn y BCND a BNET (Mathew 27:46).

<sup>23</sup> Mae ymadrodd Iesu, 'Myfi yw bara'r bywyd' yn disgrifio rhywbeth digon cyfarwydd yng Nghymru: bara. Ond i lawer, dyma beth estron iawn, a chan hynny, defnyddir 'bwyd' wrth gyfieithu 'bara' mewn sawl iaith. Gw. John Beekman a John Callow, *Translating the Word of God* (Grand Rapids, Michigan, 1974), t. 187.

Cyflwynna'r Beibl ei hun fel Gair Duw: 'Y mae pob Ysgrythur wedi ei hysbrydoli gan Dduw ac yn fuddiol i hyfforddi, a cheryddu, a chywirow, a disgyblu mewn cyfiawnder.'<sup>24</sup> Y gair Groeg am 'ysbrydoli' yw 'theopneustos' a'r ddwy elfen yn y gair hwn yw 'Duw' ac 'anadlu'. Dywed Millard J. Erickson mai'r 'ysbrydoliaeth' hon felly yw:

...that supernatural influence of the Holy Spirit upon the Scripture writers which rendered their writings an accurate record of the revelation or which which resulted in what they wrote actually being the Word of God.<sup>25</sup>

Yn ôl y ddealltwriaeth draddodiadol o'r Beibl felly, y Beibl yn gyfan yw Gair Duw ei hun, hynny yw nid darn o destun sy'n cynnwys Gair Duw yw'r Beibl, ond Gair Duw yw'r Ysgrythur gyfan. Dylid cofio, fodd bynnag, mai'r testunau gwreiddiol yw'r testunau ysbrydoledig tra bo'r cyfieithiadau yn fater arall.

Dylid nodi, yn gyntaf, fod gwreiddiau cyfieithu ysgrythur yn yr Ysgrythur ei hun. Derbynnir i'r mwyafrif o'r Hen Destament gael ei ysgrifennu yn wreiddiol mewn Hebraeg Clasurol, gydag ambell ran mewn Aramaeg.<sup>26</sup> Mae'n debyg mai'r Aramaeg hefyd oedd yr iaith a siaradai Iesu ei hunan<sup>27</sup> fel iaith bob dydd,<sup>28</sup> ond ysgrifennwyd y Testament Newydd yn wreiddiol mewn Groeg Cyffredin (*Koine*).<sup>29</sup> Felly, hyd yn oed yn yr ysgrifau gwreiddiol, mae geiriau Iesu wedi cael eu cyfieithu eisoes, yn ogystal â'r holl gyfeiriadau a'r dyfyniadau o'r Hen Destament. Mewn gwirionedd, roedd cyfieithiad cyfan o'r Hen Destament i'r Roeg eisoes yn bod cyn ysgrifennu'r Testament Newydd, cyfieithiad a elwir yn gyffredin heddiw yn 'Septuagint'. Cafodd Pumlyfr Moses eu cyfieithu oddeutu cc 280, y mwyafrif o weddill yr Hen

---

<sup>24</sup> 2 Timotheus 3:16

<sup>25</sup> Millard J. Erickson, *Christian Theology* (Grand Rapids, Michigan, 1985), t. 199.

<sup>26</sup> 'The Original Languages of the Bible', *ESV Study Bible*, t. 2595.

<sup>27</sup> *Ibid.*, t. 2598.

<sup>28</sup> Er y byddai'n siarad Hebraeg a Groeg mewn sefyllfaoedd penodol, mae'n debyg.

<sup>29</sup> 'The Original Languages of the Bible', *ESV Study Bible*, t. 2598.



Destament erbyn cc 130, ac ambell un rywfaint yn ddiweddarach.<sup>30</sup> Cafwyd diwygiadau cyson i'r cyfieithiad hefyd, arfer sy'n parhau gan gyfieithwyr hyd heddiw; a diddorol yw y nodir mewn traethawd ar y Septuagint yn *ESV Study Bible*,

Finally, the history of the Greek Old Testament bears witness to the debates over approaches to translation and to the problem of variations in the text of the Bible at the time of Jesus. This can shed some light on debates over similar topics today.<sup>31</sup>

Dyma sylwadau diddorol dros ben, gan amlygu nad trafodaethau newydd yw'r rhai a geir ynghylch cyfieithu.

Un o'r materion sy'n rhaid i bob cyfieithydd wneud penderfyniad yn ei gylch yw pa lawysgrifau i droi atynt. Nid oes yr un o'r llawysgrifau gwreiddiol wedi goroesi, ond mae nifer fawr o gopiau cynnar iawn ohonynt. Wrth lunio cyfieithiad felly, rhaid yw i'r cyfieithwyr benderfynu pa destunau i'w defnyddio. Defnyddir y Testun Masoretig fel sail i gyfieithiadau o'r Hen Destament ar y cyfan, er y cyfeirir at Sgroliau'r Môr Marw gan rai cyfieithwyr modern hefyd, yn ogystal ag ambell ffynhonnell arall. Ynglŷn â'r Testament Newydd, fodd bynnag, ceir peth gwahaniaeth rhwng y testunau a ddefnyddiwyd ar gyfer cyfieithiadau Protestannaidd cynnar a chyfieithiadau mwy diweddar. *Textus Receptus* (sef testun printiedig Erasmus o'r Testament Newydd Groeg (1516)) a ddefnyddiwyd fel prif sail y mwyafrif o gyfieithiadau cynnar yn dilyn y Diwygiad Protestannaidd, ond daeth testunau eclecticig ar sail beirniadaeth destunol yn sail i gyfieithiadau diweddarach.<sup>32</sup> Ni fwriedir trafod effaith ac addasrwydd defnyddio'r gwahanol ffynonellau hyn yn y traethawd hwn yn gyffredinol, ond gall gael effaith arwyddocaol o bryd i'w gilydd, er enghraifft pan gynhwysir neu pan hepgorir rhannau o

---

<sup>30</sup> 'The Septuagint', *ESV Study Bible*, t. 2601.

<sup>31</sup> *Ibid.* t. 2603.

<sup>32</sup> Er, mae cyfieithiadau megis *The New King James Version* yn parhau i ddefnyddio *Textus Receptus*, ac mae Cymdeithas Feiblaidd y Trindodwyr yn parhau i annog defnydd ohono hefyd (BWM yw'r cyfieithiad Cymraeg a gymeradwyir gan y gymdeithas honno).

destun, neu y cyfeirir at absenoldeb posibl testun o'r llawysgrifau gwreiddiol.<sup>33</sup> Pan gyfeirir yn y traethawd hwn at y 'testun gwreiddiol', cyfeirir at ffurf ar y Testun Masoretig ar gyfer yr Hen Destament, a thestun eclecticig ar gyfer y Newydd.<sup>34</sup> Er bod rhai llawysgrifau yn cynnwys llyfrau rhwng yr Hen Destament a'r Newydd, a elwir yr Apocryffa, a bod fersiynau o BWM a'r BCND ar gael yn cynnwys yr Apocryffa, ni thrafodir hwynt yn y traethawd hwn. Ceir trafodaeth bellach ar lawysgrifau'r Beibl mewn erthygl yn *ESV Study Bible*.<sup>35</sup>

Cyn mynd ati i lunio cyfieithiad, rhaid yw i'r cyfieithwyr benderfynu ar egwyddorion bras i'w dilyn. Gan gadw'r gynulleidfa darged mewn cof, dewisa rhai cyfieithwyr gyfieithu'n llythrennol, ar y cyfan, er mwyn ceisio cyfleu yr hyn a ddywed y testun gwreiddiol yn ei holl lawnder, a hynny o bosibl ar draul eglurder syml yn yr iaith darged. Eto, gan gadw'r gynulleidfa darged mewn cof, dewisa cyfieithwyr eraill gyfieithu'n ddeinamig, gan flaenoriaethu eglurder syml yn yr iaith darged dros gyfleu ystyr cyflawn y gwreiddiol. Mae i'r ddau ddull gryfderau a gwendidau, a'r gwir yw nad yw cyfieithiadau byth yn gwbl lythrennol nac yn gwbl ddeinamig.<sup>36</sup>

<sup>33</sup> Gweler Marc 16:9-20 a Ioan 7:53-8:11 yn y tri chyfieithiad.

<sup>34</sup> Wrth drafod cyfieithiadau llythrennol o'r Roeg, cyfeirir o bryd i'w gilydd at *Novum Testamentum Graece* (NA28), a ddefnyddir yn *The Greek-English Interlinear ESV New Testament*, (Wheaton, Illinois, 2018).

<sup>35</sup> 'Reliability of Bible Manuscripts', *ESV Study Bible*, tt. 2585-9.

<sup>36</sup> Ceir ystod ehangach ymhlith cyfieithiadau Saesneg, gyda *The Message* (2002) yn enghraifft o gyfieithiad deinamig dros ben, i'r graddau y gellir dadlau nad cyfieithiad mohono ond aralleiriad. Gweler isod Mathew 6:9-13 (Gweddi'r Arglwydd) gyda chyfieithiad cyfarwydd *The King James Version* a chyfieithiad deinamig *The Message* yn gyfochrog.

King James Version (1611)	The Message (2002)
Our Father which art in heaven, Hallowed be thy name. Thy kingdom come. Thy will be done in earth, as it is in heaven. Give us this day our daily bread. And forgive us our debts, as we forgive our debtors. And lead us not into temptation, but deliver us from evil: For thine is the kingdom, and the power, and the glory, for ever. Amen.	Our Father in heaven, Reveal who you are. Set the world right; Do what's best— as above, so below. Keep us alive with three square meals. Keep us forgiven with you and forgiving others. Keep us safe from ourselves and the Devil. You're in charge! You can do anything you want! You're ablaze in beauty! Yes. Yes. Yes.

O ran hyn o beth, mae cyfieithu'r Beibl yn bwysig yn hanes a datblygiad disgyblaeth cyfieithu yn ehangach. Dywed Ben Screen mewn cyfrol ar gyfieithu proffesiynol, ei bod yn 'drawiadol bod theori ynghylch cyfieithu'r Beibl wedi gadael argraff mor amlwg a hirhoedlog ar faes Astudiaethau Cyfieithu.'<sup>37</sup> Eilio hyn a wna Kirsten Malmkjær, gan ei osod mewn cyd-destun hanesyddol, '[a] tradition that has been extremely influential in shaping Western translation theory is Bible translation.'<sup>38</sup> Aiff yn ei blaen i ddweud:

Where Bible translation is concerned, the main consideration tends to be the production of the most authentic, though accessible, guide to the words of the deity. While the quest for authenticity tends to pull Bible translators in the direction of exact rendition of the original, the quest for accessibility tends to make them lean toward a degree of license, particularly in matters of imagery, and this tension culminates in Nida's distinction between Formal and Dynamic equivalence.<sup>39</sup>

Ceir amrywiaeth ymhlith y cyfieithiadau Cymraeg o ran y dull a ddefnyddiwyd, gyda BWM, yn gyffredinol, yn magu'r arfer o gyfieithu'n gymharol llythrennol, ond yn cyfieithu'n fwy deinamig o bryd i'w gilydd pan na fyddai cyfieithiad llythrennol yn arbennig o fuddiol. Mae BNET ar y llaw arall yn cyfieithu'n fwy deinamig, ar y cyfan, ond eto gan gynnig cyfieithiad llythrennol o dro i dro pan fo hynny'n fuddiol. Yna mae BCND yn cynnig cyfuniad o'r ddau: nid yw'n gyfieithiad llythrennol ond eto nid ydyw mor ddeinamig â BNET. Sylwadau go gyffredinol yw'r rhain, a bwriedir defnyddio corff y traethawd hwn i gefnogi'r sylwadau hyn ac i archwilio ymhellach rywfaint o'r egwyddorion a ddefnyddiwyd, ac ystyried sut mae'r rheini yn fanteisiol i gynulleidfa darged y cyfieithiadau.

---

<sup>37</sup> Ben Screen, *Sylfeini Cyfieithu Testun* (Caerdydd, 2021), t. 49.

<sup>38</sup> Kirsten Malmkjær, *Linguistics and the Language of Translation* (Caeredin, 2005), t. 3.

<sup>39</sup> Ibid.

Cyfeiria Malmkjær uchod at waith Eugene Nida hefyd, ffigur dylanwadol a fathodd y termau, 'cyfystyriaeth ddeinamig' (*dynamic equivalence*) a 'chyfystyriaeth ffurfiol' (*formal equivalence*).<sup>40</sup> Ystyriaeth hollbwysig, yn ôl Nida, yw'r tyndra a ddisgrifia fel hyn:

The translator is under constant pressure from the conflict between form and meaning. If he attempts to approximate the stylistic qualities of the original, he is likely to sacrifice much of the meaning, while strict adherence to the literal content usually results in considerable loss of the stylistic flavour.<sup>41</sup>

Eto, gwelir gydol y traethawd hwn ymateb y cyfieithwyr Cymraeg i'r tyndra hwn. Nid yn unig y mae'n rhaid iddynt benderfynu natur yr eirfa, hynny yw, a ydynt am ddefnyddio geiriau arbenigol sy'n cyfleu'r ystyr yn fanwl, ynteu rhai symlach sy'n cyfleu prif ystyr, neu ystyr rannol y testun gwreiddiol; ond mae'n rhaid iddynt benderfynu ar arddull y darn cyfan. Gan fod y Beibl yn gasgliad o lyfrau â 'stylistic qualities' mor eang, o adroddiadau hanes i farddoniaeth i broffwydoliaethau, priodol fydd trafod ymateb y cyfieithwyr Cymraeg i'r tyndra hwn. Gan ei bod anorfod y bydd yn rhaid addasu'r ffurf wreiddiol o bryd i'w gilydd, gan golli mymryn ar yr ystyr, crynhoa Dave Brunn y rhesymau dros orfod gwneud hyn mewn pedwar pwynt bwled:

1. Adjustment is often required by the grammar of the target language.
2. Adjustment is often needed to make sure the correct meaning comes through.
3. Adjustment is often needed for clarity of meaning.
4. Adjustment is often necessary for the sake of naturalness.<sup>42</sup>

Derbynnir felly nad oes modd llunio cyfieithiad cwbl lythrennol a bod yn rhaid i'r cyfieithydd ymyrryd yn achlysurol. Cyfyd hynny ystyriaeth arall, sef i ba raddau y dylai cyfieithydd ddehongli wrth gyfieithu. Dywed Brunn,

---

<sup>40</sup> Defnyddir 'cyfystyriaeth' gan Ben Screen yn *Sylfeini Cyfieithu Testun*, t. 52; ond 'cywerthedd' yn y rhestr o dermau a geir yn Delyth Prys a Robot Trefor (gol.), *Ysgrifau a Chanllawiau Cyfieithu* (Caerfyrddin, 2015), t. 118.

<sup>41</sup> Eugene Nida, *Toward a Science of Translating* (Leiden, 1964), t. 2.

<sup>42</sup> Dave Brunn, *One Bible, Many Versions* (Nottingham, 2013), tt. 85-6.

One feature that sets idiomatic versions apart is that they tend to interpret more often than other versions do. But it is not only the idiomatic versions that interpret. All translation involves a certain amount of interpretation.<sup>43</sup>

Cyfeiria at Robert Young, a aeth ati yn fwriadol i lunio cyfieithiad tra llythrennol, *Young's*

*Literal Translation* (1862), a dywed amdano:

His goal was to translate each Hebrew or Greek word and leave the interpretation up to the reader. That was a commendable ideal. But even Young realized that part of his job as a translator was to do a certain amount of interpreting. He knew that if he left all the interpretation up to the reader, some of the meaning of Scripture would be lost or distorted.<sup>44</sup>

Yng nghyd-destun hyn a theori Venuti ynghylch anweledigrwydd y cyfieithydd, bydd yn ddiddorol sylwi ar ymyrraeth y gwahanol gyfieithwyr, ar unrhyw ymdrechion i osgoi ymyrryd ond hefyd ar yr enghreifftiau ble dewisir ymyrryd er mwyn cynorthwyo'r darllenydd.

Mater arall sy'n gefndir i'r drafodaeth ar gyfieithu'r Ysgrythur yn yr oes bresennol yw iaith gynhwysol, ac mae'n rhaid i gyfieithwyr bennu egwyddorion cyn mynd ati i lunio cyfieithiad. Siarada'r Beibl yn aml yn nhermau dynion, er y gall y cyfeiriadau at ddynion gyfeirio at fenywod yn ogystal. Gweler trafodaeth D. A. Carson ar y mater hwn,<sup>45</sup> gyda dadleuon o blaid defnyddio iaith gynhwysol yn aml iawn, ond hefyd yn ei herbyn o bryd i'w gilydd. Yn gyffredinol, dilyna BWM yr hyn sy'n y gwreiddiol, gan gyfeirio at ddynion a meibion, er nad yw hynny wastad yn wir chwaith. Defnyddiwyd egwyddorion tebyg wrth lunio'r BCN hefyd, ond erbyn yr argraffiad diwygiedig (BCND), defnyddiwyd iaith gynhwysol. Defnyddia BNET iaith gynhwysol hefyd. Y ddadl o blaid yw na ddefnyddir y ffurfiau gwrywaidd yn gyffredinol gan Gymry heddiw, ac felly bod yr iaith gynhwysol yn golygu bod y cyfieithiad yn efelychu'r iaith darged yn fwy llwyddiannus. Gellir dadlau ar y llaw arall fod rhai enghreifftiau

---

<sup>43</sup> Ibid. t. 166.

<sup>44</sup> Ibid. t. 167.

<sup>45</sup> D. A. Carson, *The Inclusive Language Debate* (Caerlŷr, 1998).

yn cyfeirio yn unig at ddynion, sy'n golygu rhywfaint o ddehongli ar ran y cyfieithydd; a hefyd y gall y cyfieithiad llythrennol gynnwys elfen o'r ystyr na chyfleu'r iaith gynhwysol. Ystyrier, er enghraifft, gyd-destun y Beibl a'r syniad o etifeddiaeth. Meibion yn unig a dderbyniai etifeddiaeth ac nid merched, ac felly bob tro y cyfeiria'r Beibl at bobl yn dod yn 'feibion i Dduw', er enghraifft yn Ioan 1:12<sup>46</sup> ceir cyfeiriad cynnil at holl gyfoeth a llawnder yr etifeddiaeth a dderbynia 'meibion i Dduw'. Fodd bynnag, er bod y darlun yn nhermau meibion yn unig, mae'r etifeddiaeth ysbrydol y mae Ioan yn ei disgrifio yn perthyn i ddynion a merched sy'n 'feibion i Dduw', ac felly defnyddia'r BCND a BNET 'plant' i Dduw.

### *Strwythur y traethawd*

Yn y traethawd hwn, bwriedir craffu ar bum llyfr o'r Beibl, rhai sy'n gynrychioladol o'r gwahanol *genres* a geir ynddo, yn ogystal â dadansoddi ymatebion cyfranwyr i holiadur, cyn dod i gasgliadau. Amlinellir isod y llyfrau a ddewiswyd yn samplau.

#### *Y Gyfraith a'r Llyfrau Hanes – Genesis*

Dyma lyfr tra phwysig yn y Beibl, sy'n unigryw iawn ac yn cynnwys nifer fawr o hanesion mwyaf cyfarwydd yr Hen Destament. Dyma lyfr cyntaf y Beibl a'r llyfr sy'n cynnwys hanes creu'r byd. Mae'n cynnwys hefyd hanes y Cwmp, sef dyfodiad pechod i'r byd, sydd yn digwydd yn gynnar iawn yn y llyfr ac i'r Cristion, mae'n ddigwyddiad hollbwysig yn hanes

---

<sup>46</sup> Ioan 1:12, BWM.

dynoliaeth. Mae gweddill y Beibl yn trafod canlyniadau'r digwyddiad hwn, a thrwy lyfrau cynharaf y Beibl ceir sawl cyfamod rhwng Duw a'i bobl ac mae gweddill yr Hen Destament yn edrych ymlaen at un cyfamod, cyfamod newydd, sydd i iacháu'r berthynas rhwng dyn a Duw am byth, sy'n cael ei gyflawni yn y Testament Newydd trwy Iesu Grist. Yn llyfr Genesis felly, gwelir rhai o'r cyfamodau cynharaf, ac yn dilyn rhestr o achau yn dilyn Adda, gwelir hanes Noa a chyfamod Duw ag ef. Yn dilyn rhestr arall o achau, ceir hanes Tŵr Babel, ac wedi rhestr arall o achau, cyrhaeddir hanes Abram, a ddaeth yn ddiweddarach yn Abraham, a chyfamod Duw gydag yntau. Mae'r hanes hwn eto'n un pwysig yn naratif y Beibl cyfan gan ei fod yn sefydlu'r syniad o 'bobl Dduw' neu genedl Israel. Clywir hanesion Isaac, Jacob ac yna Joseff a'i hanes ef sy'n cloi'r llyfr.

Mae'r llyfr hwn yn llyfr ac iddo naratif glir iawn. Mae'n cynnwys llawer o nodweddion arferol iawn o ryddiaith y gorllewin: mae yna naratif, pobl yn sgwrsio â'i gilydd, disgrifiadau a chan nad oes llawer o farddoniaeth ynddo, mae'n bosibl fod gan gyfieithwyr ryw faint mwy o ryddid wrth ddewis cywair ac ieithwedd. Mae defnyddio berfau cwmpasog, er enghraifft, yn anodd iawn wrth gyfieithu barddoniaeth, ond gyda rhyddiaith, mae'n llawer haws. Fel y nodir uchod, mae'r llyfr hwn yn cynnwys sawl rhestr achau ac felly llawer o enwau pobl yn ogystal ag enwau lleoedd. Mae'r enwau hyn yn destun trafod yn sicr, gan fod ymgais i newid y sillafu er mwyn symleiddio'r ynganu ar enwau yn enwedig yn BNET, a bod treigladau ar enwau wedi llacio gydag amser. Diddorol fydd cymharu hynny â'r duedd yn gyffredinol yn y Gymraeg. Mae fformatio'r rhestr achau yn ddiddorol hefyd ac mae'r drafodaeth hon yn perthyn i'r un ar Numeri, a geir mewn atodiad i'r traethawd hwn.

## *Llyfrau Doethineb – Y Salmau*

Mae'r adran hon o'r Beibl yn cynnwys nifer fawr o ystyriaethau diddorol ym maes cyfieithu'r Beibl i unrhyw iaith ac nid yw'r Gymraeg yn eithriad. Mae llyfr y Salmau yn gywaith o bum 'llyfr', sef Salmau 1-41, 42-72, 73-89, 90-106, 107-150, ac mae pob un o'r 'llyfrau' hyn yn gorffen gyda mawlgan fer.<sup>47</sup> Nid oes modd crynhoi y 'llyfrau' hyn yn unigol yn hawdd iawn nac ychwaith grynhoi adrannau o fewn llyfr y Salmau. Mae themâu sy'n rhedeg gydol y casgliad ond nid yw Salmau tebyg o reidrwydd yn dilyn ei gilydd, er bod hynny weithiau'n wir. Mae cyflwyniad *Y Beibl Canllaw* yn amlygu hyn drwy restru gwahanol fathau o Salmau yn ôl eu thema a nodi rhifau'r Salmau sy'n perthyn i'r thema honno. Enghreifftiau yw 'Salmau sy'n cyhoeddi brenhiniaeth Duw (er enghraifft, 2, 24, 47, 93, 95-100)' a 'Salmau edifeirwch a maddeuant (er enghraifft, 6, 32, 38, 51, 102, 130, 143)'.<sup>48</sup> Gwelir felly fod Salmau tebyg yn aml wedi cael eu gwasgaru, ond weithiau ceir casgliad o salmau tebyg gyda'i gilydd fel y rhai sy'n cyhoeddi brenhiniaeth Duw o Salm 95-100. Fodd bynnag, i grynhoi'r llyfr yn ei gyfanrwydd, llyfr o ganeuon ydyw ac mae'r holl ganeuon yn addoliad i Dduw. Mae diolch, mawrygu, moli ac edmygu yn themâu amlwg ond ceir hefyd Salmau galar a Salmau sydd yn weddi daer gan Salmydd llawn gofid a phryder, fel Salm 88. Yr hyn sy'n sicr yw bod nifer o'r Salmau yn gyfarwydd iawn i genedlaethau o Gymry ac mae rhai Salmau, megis 23, yn dra adnabyddus. Y mae'r Salmau yn hoff lyfr gan lawer o Gristnogion a thybir ei fod yn cael ei ddarllen yn amlach na'r un llyfr arall, mewn gwasanaethau cyhoeddus a hefyd mewn defosiwn personol. Arferol iawn yw darllen Salm bob dydd ond byddai'n dipyn o her darllen pennod o

---

<sup>47</sup> Mae Salm 150 yn fawlgan i gloi nid yn unig y pumed 'llyfr' ond hefyd y llyfr cyfan o Salmau.

<sup>48</sup> 'Cyflwyniad i Lyfr y Salmau', *Y Beibl Canllaw*, t. 568.



bob llyfr yn y Beibl bob dydd. Am hynny, credaf ei fod yn llyfr sydd yn deilwng iawn o'i le fel sampl yn yr astudiaeth hon.

Gan mai llyfr o farddoniaeth ydyw'r llyfr hwn, mae'r ystyriaethau wrth gyfieithu a thrafod cyfieithiadau yn ddyrys ond yn ddiddorol. Y mae'r Salmau gwreiddiol wrth reswm yn dilyn patrymau barddoniaeth Hebraeg, megis y mae nifer ohonynt yn dilyn patrwm acrostig, sef bod pob adnod yn dechrau gyda llythyren wahanol gan ddilyn trefn yr wyddor Hebraeg. Nodwedd arall ar farddoniaeth Hebraeg yw bod ystyr un llinell yn aml yn cael ei hailgyfleu yn y llinell nesaf. Yn aml hefyd, mae un llinell yn cwblhau ystyr y llinell flaenorol neu'n cyferbynnu â'r llinell flaenorol. Mae nodweddion hefyd sydd yn debyg i farddoniaeth ein gwlad a'n diwylliant ni, megis mydr ac odl; ac mae rhai o'r nodweddion hyn yn haws i'w cyfieithu nag eraill. Mae'r cyfieithwyr i gyd wedi gorfod gwneud penderfyniadau ynghylch sut y maent yn mynd ati i gyfieithu'r Salmau, sy'n llyfr gwahanol i rannau eraill o'r Beibl. Penderfynodd William Morgan geisio adlewyrchu natur farddonol y gwreiddiol o ran rhythm ond nid o ran mydr ac odl: nid ydynt yn rhai y medrir eu canu yn rhwydd. Mae BNET ar y llaw arall yn rhoi llai o bwyslais ar rythm a mwy ar eglurder yr ystyr. Wrth gwrs, y mae gennym yng Nghymru y Salmau Cân hefyd, sef y rhai a gyhoeddwyd gan Edmwnd Prys yn 1621 a'r rhai a gyhoeddwyd gan Gwynn ap Gwilym yn 2008. Y mae'r cyfieithiadau hyn yn pwysleisio'r mydr a'r odl, fel y bo modd rhoi'r Salmau ar emyn donau, ond gall hynny amharu ar allu'r cyfieithydd i gyfieithu mor gywir. Mae'r nodwedd acrostig wedi cael ei hepgor o'r cyfieithiadau Cymraeg am resymau teilwng iawn, ond gellir dadlau, wrth gwrs, fod y nodwedd acrostig yn hollbwysig ac wedi cael ei chynnwys yn y gwreiddiol nid ar hap a damwain ond am reswm, sef i hwyluso eu dysgu ar y cof efallai. Mae pob math o ystyriaethau unigryw i farddoniaeth yn ychwanegol at yr ystyriaethau cyffredinol, a bydd y rhain yn cael sylw yn y bennod hon.

O ran geirfa, un ystyriaeth arall a gaiff sylw amlwg yn y bennod hon oherwydd y defnydd helaeth o'r math hwn o eiriau yw'r cyfieithiadau o rannau o'r corff. Yn aml iawn, y mae'r hyn a fyddai'n cyfieithu'n llythrennol i 'aren' yn cael ei gyfieithu i 'galon' neu 'meddwl' neu 'ymysgaroedd', ond mae BWM yn aml wedi glynu at 'aren'. Cwestiwn diddorol i'w drafod yw pa mor addas yw hynny heddiw, gan nad yw'r aren ond yn cael ei chrybwyll mewn cyd-destun meddygol yn ein diwylliant ni. Eto o ran geirfa, mae'r Salm sydd enwocaf am gynnwys ailadrodd wedi cael ei chyfieithu mewn ffyrdd amrywiol iawn hefyd, gyda'r gair allweddol yn datblygu o fod yn 'drugaredd' i fod yn 'gariad' i fod yn 'haelioni'. Egyr hynny drafodaeth ar ein dealltwriaeth o ystyr y geiriau ac mae'n bosibl y bydd yr holiadur o fudd gyda hynny.

#### *Proffwydoliaethau – Eseia*

Llyfr Eseia yw'r broffwydoliaeth fwyaf o ran hyd ac mae hi'n sicr yn broffwydoliaeth bwysig iawn. Mae'r llyfr hwn eto yn cynnwys nifer o rannau cofiadwy ac yn cynnwys llawer o ddarluniau byw a chywir iawn am y Meseia sydd i ddod yn ogystal â phwysleisio sofraniaeth Duw gydol y llyfr. Y mae'r llyfr yn dechrau gyda chyflwyniad ac atgofiad o bechod dynolryw ac mae hanner cyntaf y llyfr yn sôn yn gyffredinol am ddirywiad ysbrydol Jwda a barn Duw ar y cenhedloedd. Yn yr ail hanner, y mae'n edrych ymlaen at ddyfodiad Gwas gan Dduw i gyflawni ei gynllun i achub ei bobl, a'r bennod enwocaf i gyd mae'n debyg yw pennod 53 am y Gwas dioddefus. Nid oes llinell naratif o'r dechrau i'r diwedd fel llyfr Genesis ac mae'r *ESV Study Bible* yn annog ei drin fel blodeugerdd.<sup>49</sup> Drwyddo draw, mae'r llyfr yn mynd yn ôl ac ymlaen

---

<sup>49</sup> 'Introduction to Isaiah', *ESV Study Bible*, t. 1238.

rhwng datguddiadau am farn a datguddiadau am iachawdwriaeth, ac mae'r pwyslais yn symud yn raddol oddi wrth ddrygioni a barn tuag at iachawdwriaeth gydol y llyfr.

Y mae'r llyfr hwn yn un diddorol i'w astudio am fod llawer iawn o ddarluniau byw ynddo. Derbyniodd Eiseia weledigaethau gan Dduw a chofnodi hynny a wna yn ei lyfr. Y mae llawer o ymadroddion a darluniau trosiadol i'w cael, felly, ac nid yw'r proffwydoliaethau i gael eu deall yn llythrennol bob tro. Mae llawer o ansoddeiriau a nodweddion arddull cyffredinol eraill hefyd yn y llyfr hwn, a bydd yn ddiddorol ystyried i ba raddau y mae'r cyfieithwyr Cymraeg wedi cadw unrhyw ddarluniau blodeuog. Mae BWM yn adnabyddus am ei natur farddonol a'i rythmau cofiadwy, a thybir y bydd hynny eto'n amlwg yn y llyfr hwn ac y bydd BNET unwaith eto yn ffafrio eglurder ystyr dros rythm.

Yr hyn sy'n nodedig am y llyfr hwn hefyd yw fod sawl cyfeiriad ato yn y Testament Newydd a bod y llyfrau sy'n rhan o'r sampl hwn yn cyfeirio ato, neu yn ei ddyfynnu, ar sawl achlysur. Nid yw dyfyniadau o'r Hen Destament yn y Testament Newydd wastad yn cyfateb air am air. Un rheswm am hynny yw bod y dyfyniadau hynny, hyd yn oed yn y gwreiddiol, wedi gorfod cael eu cyfieithu o'r Hebraeg i'r Roeg. Ond mae'r berthynas rhwng y llyfrau yn mynd i wneud eu dadansoddi yn haws o bosibl ac mae'n cyflwyno ystyriaethau diddorol eraill am gysondeb termau ac yn y blaen.

#### *Yr Efengylau a'r Actau – Mathew*

Teimlaf mai priodol yw dewis yr efengyl yn ôl Mathew fel yr efengyl i'w dadansoddi am nifer o resymau. Mae'r llyfr hwn yn un o'r 'efengylau synoptig', sef y tair efengyl gyntaf yn y canon, pob un oni bai am yr Efengyl yn ôl Ioan. Mae llyfrau Mathew, Marc a Luc i raddau helaeth yn debyg iawn, yn cynnwys yr un hanesion ac yn aml yn yr un drefn ac felly bydd Mathew yn

cynrychioli'r ddwy arall yn dda iawn hefyd yn yr astudiaeth hon. Dyma'r efengyl hwyaf o ran hyd ac mae'n cynnwys llawer o rannau tra chyfarwydd i lawer o Gymry. Mae'r llyfr yn agor gyda llinach Iesu Grist cyn disgrifio sut y bu genedigaeth Iesu a sut y bu i'r seryddion ymweld ag ef. Mae'n trafod y pethau eraill hynny a ddigwyddodd cyn i Iesu ddechrau ar ei weinidogaeth megis y ffoi i'r Aiff, ymgyrch Herod i ladd pob bachgen ifanc, pregethu Ioan Fedyddiwr, bedydd Iesu yn yr Iorddonen a themtiad Iesu yn yr anialwch. Yna darllenir am Iesu yn dechrau galw ei ddisgyblion cyn dod at adran enwog iawn, y Bregeth ar y Mynydd. Yn y bregeth hon gan Iesu y darllenwn y Gwynfydau, y gorchymyn i garu ein gelynyon, Gweddi'r Arglwydd a llawer o ddysgeidiaethau eraill ar sut i fyw fel un o'i ddilynwyr. Yn dilyn y bregeth hon, darllenir am Iesu yn gweinidogaethu mewn sawl lle, yn dysgu, iacháu ac yn adrodd damhegion. Adroddir hanesion adnabyddus megis hanes porthi'r pum mil, datganiad Pedr ynglŷn â Iesu a gwednewidiad Iesu a cheir damhegion adnabyddus megis damhegion yr heuwr, y ddafad golledig a'r gwas anfaddeugar. Yn chwarter olaf y llyfr, rhoddir y sylw i'r wythnos olaf cyn y croeshoeliad. Ymhlith yr hanesion olaf hyn mae hanes glanhau'r deml, sefydlu Swper yr Arglwydd, rhagfynegiad a chyflawniad gwadiad Pedr, arestio, dedfrydu a chroeshoelio Iesu ac yna wrth gwrs yr atgyfodiad. Mae'r cofnod hwn o'r efengyl yn gorffen gyda'r Comisiwn Mawr, y gorchymyn hwnnw i'w ddisgyblion fynd a gwneud disgyblion o'r holl genhedloedd.

Mae sawl rhan o'r llyfr hwn sydd wedi bod yn bwysig iawn i'r Cymry ar hyd y canrifoedd. Y darn sylweddol y mae'r rhan fwyaf o bobl Cymru yn ei adnabod o'r Beibl, mae'n debyg, yw Gweddi'r Arglwydd ac mae'r weddi honno a'i chyfieithiadau i'r Gymraeg yn cynnwys ystyriaethau diddorol a di-rif. Mae'r Gwynfydau yn codi trafodaethau diddorol hefyd gan fod cymaint o derminoleg wrth drafod y deyrnas. A yw'r termau hyn yn ddealladwy gan

y Cymry heddiw? Tybir bod sawl rhan o'r Bregeth ar y Mynydd wedi cael eu camddeall gan genedlaethau felly bydd yn ddiddorol cymharu dealltwriaeth ysgolheigion Beiblaidd ohonynt â dealltwriaeth y cyhoedd ohonynt yn yr holiadur, er enghraifft. Mae BWM a BCN yn debyg iawn yn y Gwynfydau ond mae BNET yn cyflwyno llawer o ddywediadau newydd.

### *Y Llythyrau – Rhufeiniaid*

Naturiol iawn yw dewis un o lythyrau Paul fel y llythyr i gynrychioli'r cyfan gan mai Paul yw awdur 13 o'r 21 llythyr sydd yn y Testament Newydd, gyda rhai yn dadlau bod un llythyr arall, at yr Hebreaid, yn eiddo iddo hefyd. Mae'r llythyrau yn fyrrach o lawer na'r llyfrau eraill sydd wedi cael eu dewis i fod yn samplau yn yr astudiaeth hon: mae'r ddau lythyr hiraf yn 16 pennod tra bo Genesis yn 50 pennod, Salmau yn 150, Eiseia yn 66 a Mathew yn 28. Felly, er mwyn sicrhau rhyw fath o gydbwysedd, dewisir un o'r llythyrau 16 pennod hynny, sef y llythyr at y Rhufeiniaid. Drachefn, mae'r llythyr hwn yn cynnwys rhai o wirioneddau mwyaf elfennol y ffydd Gristnogol. Disgrifia'r *Beibl Canllaw* ef fel '*magnum opus* Paul'<sup>50</sup> a dywed hefyd 'Go brin i unrhyw ran arall o'r Beibl gael cymaint o ddylanwad ar hanes y ffydd Gristnogol.'

Y mae Paul yn agor y llythyr hwn yn yr un modd ag y gwna y mwyafrif o'i lythyrau, sef trwy gyfarch y darllenwyr a'i gyflwyno ei hun. Sonia am ei awydd i ymweld â'r Eglwys yn Rhufain. Aiff yn ei flaen i drafod gallu'r efengyl, euogrwydd y ddynolryw, a barn gyfiawn Duw. Trafoda'r gyfraith Iddewig ac anallu pobl i fod yn gyfiawn trwy gyflawni'r ddeddf cyn dod at adran sy'n trafod cyfiawnder trwy ffydd yn Iesu Grist. Mae'n trafod Abraham fel esiampl, sy'n ymddangos yn llyfr Genesis a gynhwysir yn sampl y traethawd hwn, gan eto bwysleisio

---

<sup>50</sup> 'Llythyr Paul at y Rhufeiniaid', *Y Beibl Canllaw*, t. 1345.

pwysigrwydd ffydd. Aiff yn ei flaen i gymharu Adda a Christ fel cynrychiolwyr, mae Adda eto yn ymddangos yn llyfr Genesis, a pharhau i wahaniaethu rhwng marwolaeth oherwydd pechod gan ddilyn Adda, a bywyd yng Nghrist. Yn yr wythfed bennod mae Paul yn trafod bywyd yn yr Ysbryd, y gogoniant sydd i ddod a chariad Duw cyn mynd ymlaen i drafod Israel a phwysleisio mai plant ysbrydol Abraham trwy ffydd sy'n profi bendithion addewidion Duw, nid y genedl ddaearol. Aiff yn ei flaen i drafod sut y mae iachawdwriaeth ar gael i bawb o bob cenedl ac yna mae'n trafod rhai o reolau y bywyd Cristnogol. Mae'n dod at y terfyn gan fynegi eto ei fwriad i ymweld â'r Rhufeiniaid a chyda chyfarchion personol, ac yn cloi gyda mawlgan hardd sy'n grynhoad o'r efengyl.

Un o'r pwyntiau trafod amlwg gyda'r llythyrau i gyd yn BNET yw absenoldeb y gair 'gras'. Y mae 'gras' yn ymddangos lawer tro yn y llythyr hwn yn BWM a'r BCND ond nid yw'n ymddangos unwaith yn BNET, gyda 'haelioni' yn gyffredinol yn cymryd ei le. Pwyslais mawr y llythyr yw mai trwy ffydd yn Iesu Grist y mae unrhyw un, ni waeth beth fo cenedl rhywun, yn cael bywyd. Nid cyflawniad y ddeddf sy'n rhoi bywyd, ond ffydd ac mae'r ffydd honno yn dod i rywun oherwydd gras Duw. Y mae sawl cyfeiriad hefyd at 'deyrnas gras', gras yw union natur y deyrnas. Mae'n air pwysig felly ac yn un y mae'n hollbwysig ystyried rheswm ac arwyddocâd ei hepgor o BNET. Byddai rhai, wrth gwrs, yn brysio i drafod manteision hyn ac eraill ei anfanteision, ond bydd yn rhaid ystyried yn ofalus pa mor briodol ydyw yn y Gymru gyfoes.

### *Yr Holiadur*

Yn y bennod hon, bwriedir cyflwyno'r holiaduron a luniwyd ac a ddosbarthwyd gan egluro eu pwrpas. Bwriedir trafod cynnwys yr holiadur fesul cwestiwn yn ogystal â chyfiawnhau cynnwys pob cwestiwn ynddo. Er bod yr holiaduron yn ddiennw, roedd yn rhaid casglu

rhywfaint o wybodaeth am y sawl a atebodd yr holiadur, er enghraifft categori oedran, lefel addysg, cefndir crefyddol ac eglurir yn y bennod hon y rheswm dros gasglu'r wybodaeth honno. Ceir cwestiynau am arfer darllen y sawl a holir, a ydynt yn darllen yn unigol yn rheolaidd ac os ydynt, o ba gyfieithiad. Holir a ydynt yn trafod eu darllen gyda rhywun arall, er enghraifft mewn astudiaeth, ac a ydynt yn darllen esboniadau neu fyfyrdodau gyda'r Beibl. Roedd cwestiynau yn dilyn hynny lle gofynnwyd i ba raddau y mae'r unigolyn yn deall rhyw adnod ac yn gofyn am ddiffiniad o ystyr rhyw adnod. Y bwriad oedd gweld faint o ddealltwriaeth sydd gan bobl o wahanol garfanau o'r ieithwedd a ddefnyddir yn y cyfieithiadau gwahanol am y byddai hynny'n rhoi gwell syniad o addasrwydd a defnyddioldeb y cyfieithiadau yn y Gymru gyfoes.

## 2. Genesis

Llyfr cyntaf y Beibl yn ei drefn draddodiadol yw llyfr Genesis (y gair Groeg am 'Dechreuad') ac fel yr awgryma'i deitl, llyfr ydyw hwn sy'n adrodd hanes dechreuad y byd.<sup>51</sup> Ceir cyflwyniad trawiadol iddo yn y Beibl Canllaw:

Mae'r enw'n hollol addas, oherwydd llyfr dechreuadau yw hwn: dechreuad y cosmos, y ddaear, yr hil ddynol, perthynas gŵr a gwraig, pechod, barn, angau, cenedl Israel, a chyfamod achubol Duw. Mae'r cyfan yn dechrau yma: dyma lyfr allweddol, felly, er mwyn deall bywyd, y bydysawd – a phopeth.<sup>52</sup>

Perthyn i gasgliad o lyfrau a elwir 'Pumllyfr Moses' (neu'r *Pentateuch*) a Moses a gydnabyddir yn gyffredin fel yr awdur gwreiddiol. Yn wir, y teitl a roddir iddo yn BWM yw 'Llyfr Cyntaf Moses / yr hwn a elwir Genesis',<sup>53</sup> a dyma'r patrwm a ddefnyddir gan Morgan yn nheitl pob un o'r Pumllyfr. Y mae'n werth nodi hefyd mai *Torah* yw'r term Hebraeg am y casgliad hwn o lyfrau, a gyfieithir yn gyffredin i'r Gymraeg yn 'y gyfraith'. Yn y Testament Newydd, cyfeirir yn aml iawn at 'y gyfraith' a chan amlaf, y Pumllyfr a olygir. Fodd bynnag, eglura Iwan Rhys Jones fod y cyfieithiad hwn fymryn yn gamarweiniol 'oherwydd ei fod yn tueddu i gyfyngu'r ystyr yn ein meddyliau ni i fyd 'cyfraith a threfn'.<sup>54</sup> Yn hytrach, dywed mai 'ystyr sylfaenol y gair *torah* yw 'cyfarwyddyd', neu 'hyfforddiant'. Mae'r gair yn gysylltiedig â berf sy'n gallu dynodi dysgu neu gyfarwyddo.<sup>55</sup> Y mae'n wir fod y *Torah* yn cynnwys llawer o reolau a deddfau, ynddo y

---

<sup>51</sup> 'Llyfr Genesis', *Y Beibl Canllaw* (Bangor, 2015), t. 1.

<sup>52</sup> *Ibid.*

<sup>53</sup> Genesis, BWM.

<sup>54</sup> Iwan Rhys Jones, '*Torah*', *Geiriau Bywyd* (Bangor, 2017), t. 28.

<sup>55</sup> *Ibid.*



ceir y Deg Gorchymyn yn llyfr yr Exodus. Ond, y mae'r Beibl fel cyfanwaith yn disgrifio'r gyfraith mewn modd ehangach na hynny, megis yn Salm 19:7 pan ddywed Dafydd:

Y mae cyfraith yr ARGLWYDD yn berffaith,  
yn adfywio'r enaid;  
y mae tystiolaeth yr ARGLWYDD yn sicr,  
yn gwneud y syml yn ddoeth.<sup>56</sup>

Dyma sy'n peri i awdur y Salm hir fynegi ei gariad at y gyfraith:

O fel yr wyf yn caru dy gyfraith!  
Hi yw fy myfyrdod drwy'r dydd.<sup>57</sup>

Y gyfraith yw un o themâu pwysicaf y Beibl, y mae'n codi ei phen dro ar ôl tro, o'r dechrau hyd y diwedd. Mae'n gwbl naturiol fod gwaith Moses yn ymddangos ar ddechrau'r Beibl yn hytrach nag yn ei ganol neu ar y diwedd. Dyma'r awdur sy'n disgrifio'r cyfnod cynharaf, sef dechreuadau'r byd, gyda'r manylder mwyaf, ac yn dilyn hanes y byd o hynny hyd at ei farwolaeth. Ond nid cyd-ddigwyddiad yw datguddiad y gyfraith i Moses yn hytrach nag i unrhyw awdur diweddarach. Nid ychwanegiad hwyr at neges y Beibl yw'r gyfraith, ond yn hytrach, sylfaen y Beibl cyfan. Dyma a ddywed yr *ESV Study Bible*:

The Pentateuch is not simply the beginning of the Bible; it is also the foundation of the Bible. It serves to orient the reader for reading the rest of the biblical story line. It introduces the key promises that show God's purposes in history and that lay the groundwork for the coming of Christ. Its theological ideas and ethical principles inform the rest of the Bible so that the subsequent books assume its authority and appeal to it as they evaluate people's deeds and character.<sup>58</sup>

---

<sup>56</sup> Salm 19:7.

<sup>57</sup> Salm 119:97.

<sup>58</sup> 'Introduction to the Pentateuch', *ESV Study Bible* (Wheaton, Illinois, 2008), t. 35.

Rhan bwysig o'r Ysgrhythur yw'r Pumlyfr felly, a Genesis yw'r llyfr cyntaf. Yn y llyfr hwn, ceir hanesion y Creu, Adda ac Efa a'r cwmp, Noa a'i arch, Tŵr Babel, Abraham ac Isaac, a Jacob a Joseff. Ceir ynddo nifer o hanesion tra chyfarwydd, hanesion a rennir yn aml mewn ysgolion Sul ledled y wlad. Llyfr hanes ydyw felly, cofnod o ddigwyddiadau, gan ddechrau yn eang gyda hanes y ddynoliaeth yn gyffredinol hyd at hanes Tŵr Babel, cyn manylu wedi hynny ar un genedl yn arbennig, cenedl Israel sef Abraham a'i ddisgynyddion. Naratif a geir yn y llyfr ar y cyfan felly, adroddiad cryno<sup>59</sup> o'r digwyddiadau gyda chofnodi'r hanes a chyflwyno gwybodaeth yn flaenoriaeth gan yr awdur. Y mae'n wir fod rhai disgrifiadau blodeuog, megis y disgrifiad sydd mewn print trwm isod:

*Yn y chwe chanfed flwyddyn o oes Noa, yn yr ail fis, ar yr ail ddydd ar bymtheg o'r mis, y diwrnod hwnnw **rhwygwyd holl ffynhonnau'r dyfnder mawr ac agorwyd ffenestri'r nefoedd**, fel y bu'n glawio ar y ddaear am *ddeugain diwrnod a deugain nos*.<sup>60</sup>*

Ond yr hyn sydd fwyaf trawiadol am y llyfr yw'r holl fanylion sy'n cael eu cynnwys, megis yn y print italig uchod. Mae manylion di-rif yn y llyfr, dyddiadau yw llawer iawn ohonynt, ond ceir rhestrau achau manwl iawn hefyd a gwelir ymdrech gyson i sicrhau eglurder perffaith ar fanylion o'r fath. Mor fuan â'r bumed bennod, ceir rhestrau hirion o achau, lle maent yn aml yn dilyn patrwm fel yr un isod:

Bu Seth fyw am gant a phump o flynyddoedd cyn geni iddo Enos. Ac wedi geni Enos, bu Seth fyw am wyth gant a saith o flynyddoedd, a bu iddo feibion a merched eraill. Felly yr oedd oes gyfan Seth yn naw cant a deuddeg o flynyddoedd; yna bu farw.

---

<sup>59</sup> Nid yw'n llyfr byr, ac mae rhai hanesion yn cael sylw manwl. Ond eto mae'n llwyddo i grynhoi miloedd o flynyddoedd a llawer o hanesion a digwyddiadau mawr eu harwyddocâd mewn 50 pennod.

<sup>60</sup> Genesis 7:11-12, BCND – ychwanegwyd y print italig a'r print trwm.

Bu Enos fyw am naw deg o flynyddoedd cyn geni iddo Cenan. Ac wedi geni Cenan, bu Enos fyw am wyth gant a phymtheg o flynyddoedd, a bu iddo feibion a merched eraill. Felly yr oedd oes gyfan Enos yn naw cant a phump o flynyddoedd; yna bu farw.<sup>61</sup>

Yn wir, gydol y bennod honno, dilyna'r naratif y patrwm canlynol:

Bu Person A fyw am X o flynyddoedd cyn geni iddo Person B. Ac wedi geni Person B, bu Person A fyw am Y o flynyddoedd. Felly yr oedd oes gyfan Person A yn Z o flynyddoedd; yna bu farw.

Ar ddiwedd un cylch o frawddegau, daw Person B yn Person A wrth i'r cylch nesaf gymryd ei le. A cheir sawl rhestr debyg yn y llyfr hwn, ac yn wir yn llyfrau hanes eraill y Beibl.<sup>62</sup> Ond wrth gwrs, nid rhestr o restrau ydyw llyfr Genesis, ond adroddiad traethiadol; a mentraf ddweud ei bod yn haws cael cyfieithiad sy'n taro deuddeg yn yr iaith darged gyda'r math hwn o lyfr na chydag ambell ran arall o'r Ysgrythur, megis llyfrau barddoniaeth. Ceir deialogau hefyd, sydd yn nodweddiadol o'r llyfrau hanes, ac eto sydd yn achosi llai o gur pen i gyfieithwyr, o bosibl, na mathau gwahanol o lenyddiaeth, o ran mynegiant yn yr iaith darged beth bynnag.

Priodol yn y fan hon felly fyddai trafod yr achresi hyn yn gryno, fel yr un a welir uchod (o BCND). Dyma adnodau 6-8 o'r bennod honno yn y tri chyfieithiad:

---

<sup>61</sup> Genesis 5:6-11, BCND.

<sup>62</sup> Ceir atodiad ar restrau a.y.b. yn llyfr Numeri yn nes ymlaen, yn Atodiad B, lle cymherir gwahanol ddulliau o gyflwyno'r wybodaeth mewn gwahanol gyfieithiadau.

BWM	BCND	BNET
<p><u>Seth hefyd a fu fyw bum mlynedd a chan mlynedd</u>, ac a genhedlodd Enos. A Seth a fu fyw wedi iddo genhedlu Enos, saith mlynedd ac wyth gan mlynedd, ac a genhedlodd feibion a merched. A holl ddyddiau Seth oedd ddeuddeng mlynedd a naw can mlynedd; ac efe a fu farw.</p>	<p><u>Bu Seth fyw am gant a phump o flynyddoedd</u> cyn geni iddo Enos. Ac wedi geni Enos, bu Seth fyw am wyth gant a saith o flynyddoedd, a bu iddo feibion a merched eraill. Felly yr oedd oes gyfan Seth yn naw cant a deuddeg o flynyddoedd; yna bu farw.</p>	<p><u>Pan oedd Seth yn 105 oed</u> cafodd ei fab Enosh ei eni. Buodd Seth fyw am 807 o flynyddoedd ar ôl i Enosh gael ei eni, a chafodd blant eraill. Felly roedd Seth yn 912 oed yn marw.</p>

Nodir yn gyntaf fod prif gymal y frawddeg gyntaf yn amrywio. Defnyddia'r BCND y frawddeg normal, 'Bu Seth fyw', ond defnyddia BWM (fel y gwna gydol y cyfieithiad) y frawddeg annormal, 'Seth hefyd a fu fyw'. Nid oes unpeth yn anghyffredin am hynny felly, ond mae'r prif gymal hwnnw yn diflannu yn BNET ac yn dod yn gymal adferfol, gyda'r cysylltair isradd 'pan' yn ei gyflwyno. Mae prif bwyslais y frawddeg yn newid felly; nid prif bwyslais y frawddeg yw bod Seth wedi byw am 807 o flynyddoedd cyn geni iddo fab, ond bod Enosh wedi ei eni *pan oedd* Seth yn 807. Gwneir rhywbeth tebyg yn yr ail frawddeg. Noda'r cyfieithiadau hyn beth oedd oes gyfan Seth mewn un prif gymal, cyn defnyddio cysylltair i gyflwyno prif gymal newydd. Unig brif gymal BNET fodd bynnag yw nodi bod Seth wedi marw ac yntau'n 912 oed, ac felly mae'r pwyslais yn newid ryw fymryn. Gwelir felly fod BNET yn mabwysiadu egwyddorion cywerthedd dynamig (*dynamic equivalence*) ac yn cymryd rhywfaint o ryddid

wrth gyfieithu i ganolbwyntio ar gyfleu'r wybodaeth yn eglur yn yr iaith darged. Sylwer hefyd ar y rhifeiriau a ddefnyddir yn BWM a'r BCND, tra defnyddia BNET symbolau'r rhifau. Yn draddodiadol, y sistem ugeiniol yw'r dull mwyaf safonol o gyfrif yn y Gymraeg, er bod y sistem ddegol wedi tyfu fwyfwy mewn poblogrwydd. Defnyddia BWM y sistem ugeiniol yn ddieithriad, tra defnyddia'r BCND gyfuniad o'r systemau ugeiniol a degol. Un o nodweddion y sistem ugeiniol yw ei bod yn arferol, fel yr esbonia Gramadeg Peter Wynn Thomas, 'i unedau'r rhifolion ragflaenu'r ugeiniau mewn mathau safonol.'<sup>63</sup> Â rhifeiriau BWM gam ymhellach, gyda'r rhifolion yn rhagflaenu'r ugeiniau, a'r ugeiniau hefyd yn rhagflaenu'r cannoedd. Ceir enghraifft go drawiadol ymhellach ymlaen yn Genesis 5, yn adnod 17:

BWM	BCND	BNET
A holl ddyddiau Mahalaleel oedd bymtheng mlynedd a phedwar ugain ac wyth gan mlynedd; ac efe a fu farw.	Felly yr oedd oes gyfan Mahalaleel yn wyth gant naw deg a phump o flynyddoedd; yna bu farw.	Felly roedd Mahalal-el yn 895 oed yn marw.

Clogyrnaidd iawn yw'r rhif hwn yn y sistem ugeiniol yn BWM, bron fel bod angen cyfrifiannell i'w gyfrifo. Mae'r BCND yn defnyddio'r sistem ddegol ar y llaw arall, sy'n naturiol iawn ar gyfer y math o rif sydd dan sylw. Sylwer fodd bynnag ar hyd oes gyfan Seth yn yr enghraifft flaenorol, 'naw cant a deuddeg' yw'r rhif a noda'r BCND gan ddefnyddio rhifol ugeiniol, 'deuddeg', sy'n ddigon naturiol. Mae hyn yn gryfder i'r cyfieithiad, gan fod rhai rhifau a ddefnyddir yn fwy naturiol gan ddefnyddio'r sistem ugeiniol, ac eraill â'r sistem ddegol, a

---

<sup>63</sup> Nodyn [ch] ar 4.192 Y Rhifolion ugeiniol a'r trefnolion yn Peter Wynn Thomas, *Gramadeg y Gymraeg* (Caerdydd, 1996), t. 298.

chaiff hyn ei efelychu yn y cyfieithiad. Mae'n werth nodi bod gan y traddodiad Cristnogol rôl fawr yn natblygiad a thwf poblogrwydd y sistem ddegol hon gan mai hwyluso cyhoeddi rhifau emynau mewn gwasanaethau oedd un o'r rhesymau dros ei dyfeisio yn y lle cyntaf.<sup>64</sup> Gwna BNET ddefnydd effeithiol iawn o'r symbolau hefyd, gan mai dyna'r dull mwyaf cyffredin i rifau gael ei hysgrifennu a'u darllen y dyddiau hyn, yn enwedig rifau mawrion. Ymddengys, yn ôl yr enghraifft hon, fod BNET yn dilyn confensiynau ysgrifennu safonol cyfoes yn y modd y noda rifau, sef i ddefnyddio'r ffigurau ar gyfer rhifau hyd at ddeg, a geiriau ar gyfer niferoedd o un ar ddeg a throsodd.<sup>65</sup> Fodd bynnag, nid yw hynny wastad yn wir yn y cyfieithiad, gan yr ysgrifennir niferoedd mwy na deg mewn geiriau weithiau, megis yn Genesis 18:24, lle ceir 'pum deg'. Fodd bynnag, cryfder dull y ffigurau mewn enghraifft fel yr uchod yw y rhydd y dewis i'r darlennydd unigol i'w ynganu yn y modd mwyaf naturiol iddo'i hun, boed yn 'wyth gant naw deg pum', yn 'bymtheg a phedwar ugain ac wyth gant' neu'n 'naw cant namyn pump' hyd yn oed! Ceir ar gyfer y rhestr hon ddull golygu unigryw yn BNET hefyd wrth i bob cylch o frawddegau ddechrau â llinell yn defnyddio holl led y ddalen cyn mewnosod y llinellau nesaf. Gwelir enghraifft isod:<sup>66</sup>

BNET
<p>Pan oedd Adda yn 130 oed, cafodd fab a'i alw'n Seth. Roedd Seth yr un ffunud â'i dad.</p> <p style="padding-left: 40px;">Buodd Adda fyw am 800 mlynedd ar ôl i Seth gael ei eni, a chafodd blant eraill. Felly roedd Adda yn 930 oed yn marw.</p> <p>Pan oedd Seth yn 105 oed cafodd ei fab Enosh ei eni. Buodd Seth fyw am 807 o</p>

<sup>64</sup> Ibid., t. 299.

<sup>65</sup> Rhiannon Ifans, *Y Golygiadur* (Aberystwyth, 2006), tt. 75-6.

<sup>66</sup> Genesis 5:3-11, BNET.

flynyddoedd ar ôl i Enosh gael ei eni, a chafodd blant eraill. Felly roedd Seth yn 912 oed yn marw.

Pan oedd Enosh yn 90 oed cafodd ei fab Cenan ei eni. Buodd Enosh fyw am 815 mlynedd ar ôl i Cenan gael ei eni, a chafodd blant eraill. Felly roedd Enosh yn 905 oed yn marw.

Rhydd y dull hwn o olygu syniad i'r darllenydd yn gyson o bwy sydd dan sylw, wrth i bob cylch ganolbwyntio ar unigolyn penodol. Rhydd hefyd wybod i ddarllenydd ar lafar sut i gymhwysu tŷn y llais wrth ei ddarllen, wrth fod y patrwm yn cael ei amlygu yn y diwyg a'r gorffwysfannau priodol yn cael eu pwysleisio. Paragraffir yn y BCND hefyd, ond gan ddefnyddio'r dull traddodiadol o fewnosod y llinell gyntaf yn unig. Nid yw mor amlwg felly mai achres sydd dan sylw gan fod diwyg y testun yn edrych yr un fath â phob naratif arall yn y cyfieithiad. Mae paragraffu BWM yn llai amlwg fyth, gan na ddefnyddir y dull cyffredin, cyfoes o'i gysodi. Dechreua BWM bob adnod ar linell newydd, hyd yn oed os yw adnod yn dechrau hanner ffordd trwy frawddeg; ac felly er mwyn arwyddo dechrau paragraff newydd, defnyddia'r *pilcrow* ar ei ddechrau. Gweler yr enghraifft isod<sup>67</sup> (gyda rhifau'r adnodau):

#### BWM

3 ¶ Ac Adda a fu fyw ddeng mlynedd ar hugain a chant, ac a genhedlodd fab ar ei lun a'i ddelw ei hun, ac a alwodd ei enw ef Seth.

4 A dyddiau Adda, wedi iddo genhedlu Seth, oedd wyth gan mlynedd, ac efe a genhedlodd feibion a merched.

---

<sup>67</sup> Genesis 5:3-11, BWM.

5 A holl ddyddiau Adda, y rhai y bu efe fyw, oedd naw can mlynedd a deng mlynedd ar hugain; ac efe a fu farw.

6 ¶ Seth hefyd a fu fyw bum mlynedd a chan mlynedd, ac a genhedlodd Enos.

7 A Seth a fu fyw wedi iddo genhedlu Enos, saith mlynedd ac wyth gan mlynedd, ac a genhedlodd feibion a merched.

8 A holl ddyddiau Seth oedd ddeuddeng mlynedd a naw can mlynedd; ac efe a fu farw.

9 ¶ Ac Enos a fu fyw ddeng mlynedd a phedwar ugain, ac a genhedlodd Cenan.

10 Ac Enos a fu fyw wedi iddo genhedlu Cenan, bymtheng mlynedd ac wyth gan mlynedd, ac a genhedlodd feibion a merched.

11 A holl ddyddiau Enos oedd bum mlynedd a naw can mlynedd; ac efe a fu farw.

Y gwir yw bod y llygaid wrth ddarllen darn o destun yn adnabod paragraffau o siap y testun, ac mae'r darllynydd felly yn gwybod pryd y mae'n dod at ddiwedd paragraff mewn da bryd. Caiff hyn yn ei dro effaith ar y modd y darllena'r brawddegau o fewn y paragraff, yn enwedig y cyntaf a'r olaf, o bosibl, a'r gorffwys a geir rhyngddynt. Gwendid dull BWM yw nad yw'n amlwg fod un paragraff wedi dod i ben hyd oni ddaw'r darllynydd at ddechrau'r frawddeg nesaf. Mae'r testun ei hun yn arwyddo diwedd y cylch yn yr achos hwn wrth gwrs, 'efe a fu farw', ond yr arfer yw sicrhau bod diwyg y testun a chynnwys y testun yn cydweddu i hwyluso profiad y darllynydd. I lygaid yr oes hon, mae diwedd adnod 3 yn ymddangos fel diwedd paragraff, oherwydd bod y llinell yn dod i ben ar ei hanner; eto, perthyn adnod 4 i'r un paragraff. Mae'r un peth yn wir am ddiwedd adnod 4, gan wneud diwyg yr hanner llinellau yn ddiystyr, pan ydym wedi arfer adnabod bod hanner llinell yn arwyddo diwedd paragraff. Wrth gyrraedd dechrau adnod 6 felly, a gweld y *pilcrow*, daw hwnnw gyda syndod, gan na chafodd y darllynydd ei baratoi o flaen llaw ar gyfer y paragraff newydd.



Gan y cofnodir llawer o hanesion yn llyfr Genesis, ceir llawer o ddeialogau hefyd. Ceir deialogau rhwng pobl a'i gilydd, ond hefyd rhwng Duw a'i bobl. Sylwer, felly, ar ymdriniaeth y cyfieithiadau o'r deialogau hyn, gan eu bod yn amrywio o ran iaith a diwyg. Yr arfer safonol wrth gofnodi deialog yw defnyddio dyfynodau, boed yn rhai sengl neu'n ddwbl, a hefyd ddechrau llinell newydd bob tro y bydd newid rhwng y siaradwyr.

O ran y dyfynodau, dilynir yr arfer safonol yn y BCND ac yn BNET, gyda'r ddau ohonynt yn defnyddio dyfynodau dwbl. Nid yw BWM yn defnyddio unrhyw ddyfynodau, fodd bynnag, ac y mae i hynny ganlyniadau. Gweler yr enghraifft isod o ddiwedd Genesis 2.<sup>68</sup>

BWM	BCND	BNET
Ac Adda a ddywedodd, Hon weithian sydd asgwrn o'm hesgyrn i, a chnawd o'm cnawd i: hon a elwir gwraig, oblegid o wŵr y cymerwyd hi. Oherwydd hyn yr ymedy gŵr â'i dad, ac â'i fam, ac y glŷn wrth ei wraig: a hwy a fyddant yn un cnawd. Ac yr oeddynt ill dau yn noethion, Adda a'i wraig,	A dywedodd y dyn,  "Dyma hi! Asgwrn o'm hesgyrn, a chnawd o'm cnawd. Gelwir hi yn wraig, am mai o wŵr y cymerwyd hi." Dyna pam y bydd dyn yn gadael ei dad a'i fam, ac yn glynu wrth ei wraig, a byddant yn un cnawd. Yr	A dyma'r dyn yn dweud,  "O'r diwedd! Un sydd yr un fath â fi! Asgwrn o'm hesgyrn, a chnawd o'm cnawd. 'Dynes' fydd yr enw arni, am ei bod wedi'i chymryd allan o ddyn." Dyna pam mae dyn yn gadael ei dad a'i fam ac yn cael ei uno

<sup>68</sup> Genesis 2:23-25.

ac nid oedd arnynt gywilydd.	oedd y dyn a'i wraig ill dau yn noeth, ac nid oedd arnynt gywilydd.	â'i wraig. Byddan nhw'n dod yn uned deuluol newydd. Roedd y dyn a'i wraig yn hollol noeth, a doedd ganddyn nhw ddim cywilydd.
------------------------------	---	---

Dylid nodi na cheir unrhyw baragraffu yn yr enghraifft uchod o BWM chwaith, gan olygu mai dilys fyddai gofyn ble mae'r dyfyniad yn gorffen. Y mae dechrau'r dyfyniad yn gymharol amlwg oherwydd y cyflwyniad a geir iddo yn y geiriau blaenorol, a'r ffaith y rhoddir priflythren i ragenw dangosol yn dilyn y coma, hynny yw er mwyn arwyddo 'dechrau' brawddeg. Y diwedd, fodd bynnag, sy'n llai eglur; heb fedru cymharu â'r cyfieithiadau eraill, nid yw'n eglur ai geiriau Adda ynteu'r naratif yw'r ail frawddeg yn y dyfyniad uchod. Fel mae'n digwydd, mae'r atalnod llawn yn arwyddo diwedd y dyfyniad yn yr achos hwn, ond ni ellir cymryd hynny fel patrwm i'w ddilyn trwy'r cyfieithiad, hynny yw, nid yw atalnod llawn mewn dyfyniad gyfystyr â defnyddio <>. Gwelir hynny yn y bennod nesaf, eto heb unrhyw baragraffu i helpu:

A'r ARGLWYDD DDUW a ddywedodd wrth y sarff, Am wneuthur ohonot hyn, melltigedicach wyt ti na'r holl anifeiliaid, ac na holl fwystfilod y maes: ar dy dor y cerddi, a phridd a fwytei holl ddyddiau dy einioes.

Gelyniaeth hefyd a osodaf rhyngot ti a'r wraig, a rhwng dy had di a'i had hithau: efe a ysiga dy ben di, a thithau a ysigi ei sawdl ef.

Wrth y wraig y dywedodd...<sup>69</sup>

---

<sup>69</sup> Genesis 3:14-16a, BWM.

Y tro hwn, goroesa'r dyfyniad yr atalnod llawn, yn ogystal â'r llinell newydd (sy'n dynodi adnod newydd), ond nid yw'n goroesi'r ail atalnod llawn gan y dychwelir at y naratif yn y drydedd frawddeg. Rhaid yw i'r darllynydd felly benderfynu drosto'i hun beth sy'n ddyfyniad a beth nad yw'n ddyfyniad, a thra bo'r dehongli yn gymharol hawdd yn yr enghraifft uchod o bennod 3, nid yw mor rhwydd yn yr enghraifft flaenorol o bennod 2. Pam felly na cheir dyfynodau yn BWM? Nid oes dyfynodau, nac atalnodi yn gyffredinol, yn y llawysgrifau gwreiddiol ac felly yn hytrach na dehongli eu hunain beth sy'n ddyfyniadau, gadawai'r cyfieithwyr Protestannaidd cynnar y gwaith dehongli hwnnw i'r darllynydd. Wedi'r gyfan, mae'r testun gwreiddiol yn gadael y dehongli i'r darllynydd a llwydda BWM i'w efelychu. Erbyn yr ugeinfed ganrif, dechreuodd cyfieithwyr ddefnyddio dyfynodau gan orfod dehongli eu hunain lle mae'r dyfyniadau, ond mae hefyd yn wir fod nifer o gyfieithiadau modern nad ydynt o hyd yn defnyddio dyfynodau, er mwyn efelychu'r testunau gwreiddiol. Ar un llaw, dylid osgoi dehongli wrth gyfieithu, lle bo modd,<sup>70</sup> gan fod cynnig dehongliad wastad yn peryglu cynnig camdehongliad. Ar y llaw arall, mae dehongliad cyfieithwyr ysgolheigaid ar ran darllynyddwr cyffredin yn siŵr o hwyluso eu profiad o ddarllynydd, ac ar gyfer y mwyafrif helaeth o achosion, nid oes dim yn ddadleuol ynglŷn â'r dehongliadau mwyaf cyffredin.<sup>71</sup> Yn yr enghraifft hon felly (gyda rhifau'r adnodau y tro hwn), *dehongliad* y cyfieithwyr sy'n pennu lle i gloi'r dyfynnod.

---

<sup>70</sup> Nodir pedwar rheswm dros addasu'r testun gwreiddiol wrth gyfieithu yn Dave Brunn, *One Bible, Many Versions*, tt. 85-6. Gw. t. 14 yn y traethawd hwn.

<sup>71</sup> Ceir enghraifft ddiddorol o ddehongli gan ddefnyddio dyfynodau yn 1 Corinthiaid 6:12, lle mae Paul, yn ôl dehongliad y BCND a BNET, yn dyfynnu un o honiadau'r Corinthiaid amdanynt eu hunain gan hyd yn oed ychwanegu berf, cyn ymateb iddo: "Y mae popeth yn gyfreithlon i mi," meddwch; ond nid yw popeth er lles.' (BCND). Yn BWM, ar y llaw arall, ni ddefnyddir dyfynodau ac nid ychwanegir y ferf, 'meddwch', chwaith: 'Pob peth sydd gyfreithlon i mi, ond nid yw pob peth yn llesáu'. Nid yw'n amlwg yma a yw'r cymal cyntaf yn ddatganiad y mae Paul yn hawlio ei fod yn wir amdano'i hun, ynteu ai ymateb i honiad y Corinthiaid y mae. BWM sy'n gyson â'r testun gwreiddiol, ond i gynulleidfa sydd wedi arfer ag arferion atalnodi a dyfynnu yr oes hon, mae perygl i'r cymal cyntaf gael ei ddehongli mewn pob math o ffyrdd.

BWM	BCND	BNET
<p>23 Ac Adda a ddywedodd, Hon weithian sydd asgwrn o'm hesgyrn i, a chnawd o'm cnawd i: hon a elwir gwraig, oblegid o wŵr y cymerwyd hi.</p> <p>24 Oherwydd hyn yr ymedy gŵr â'i dad, ac â'i fam, ac y glŷn wrth ei wraig: a hwy a fyddant yn un cnawd.</p> <p>25 Ac yr oeddynt ill dau yn noethion, Adda a'i wraig, ac nid oedd arnynt gywilydd.</p>	<p><sup>23</sup> A dywedodd y dyn, "Dyma hi! Asgwrn o'm hesgyrn, a chnawd o'm cnawd. Gelwir hi yn wraig, am mai o wŵr y cymerwyd hi."</p> <p><sup>24</sup> Dyna pam y bydd dyn yn gadael ei dad a'i fam, ac yn glynu wrth ei wraig, a byddant yn un cnawd. <sup>25</sup> Yr oedd y dyn a'i wraig ill dau yn noeth, ac nid oedd arnynt gywilydd.</p>	<p><sup>23</sup> A dyma'r dyn yn dweud, "O'r diwedd! Un sydd yr un fath â fi! Asgwrn o'm hesgyrn, a chnawd o'm cnawd. 'Dynes' fydd yr enw arni, am ei bod wedi'i chymryd allan o ddyn."</p> <p><sup>24</sup> Dyna pam mae dyn yn gadael ei dad a'i fam ac yn cael ei uno â'i wraig. Byddan nhw'n dod yn uned deuluol newydd.</p> <p><sup>25</sup> Roedd y dyn a'i wraig yn hollol noeth, a doedd ganddyn nhw ddim cywilydd.</p>

Tra nad yw'r dehongliad yn un a ddadleuir, derbynnir mai diwedd adnod 23 yw diwedd y dyfyniad, gwna'r cyfieithwyr y dehongli hwnnw ar ran y darllenydd. Tra bo angen gofal mawr wrth drafod dehongliad y cyfieithydd, a bod mynegi'r dehongliad yn y cyfieithiad yn rhywbeth i'w osgoi, yn achos y dyfyniadau hyn mae'n hwyluso gwaith y darllenydd yn fawr iawn.

Diddorol felly fyddai athrawiaethu beth fyddai'r Esgobion William Morgan a Richard Parry, a Dr John Davies o Fallwyd wedi ei wneud heddiw petaent yn llunio cyfieithiad. Daeth llawer o'u tueddiadau arloesol wrth ysgrifennu, eu horgraff er enghraifft, yn sylfaen i Gymraeg llenyddol y canrifoedd dilynol, ond dyma un maes nad arloesasant ynddo. Nid penderfynu peidio â defnyddio dyfynodau a wnaethant, fwy na thebyg, gan na chrosodd y syniad eu meddyliau gan nad dyna'r confensiwn. Wedi'r cyfan, nis defnyddiwyd yn y llawysgrifau y cyfieithid ohonynt, nac ychwaith mewn cyfieithiadau mewn ieithoedd eraill o'r un oes. Tra gwneir rhai penderfyniadau wrth gyfieithu a golygu ar sail egwyddorion personol neu argyhoeddiadau crefyddol, confensiwn yr oes yw'r rheswm am hyn.

Gan symud oddi wrth y golygiad yn fwy at iaith y cyfieithiadau, gwelir y ceir amrywiadau eang a nodedig. Creffir yn yr adran hon felly ar iaith y cyfieithiadau o ran cywair, arddull a geirfa, a dechreuir gyda'r adnod gyntaf un yn yr Ysgrhythur gyfan, brawddeg seml iawn, ond ac iddi arwyddocâd sylweddol.

BWM	BCND	BNET
<u>Yn y dechreuad</u> y creodd Duw y nefoedd a'r ddaear.	Yn y dechreuad <u>creodd Duw</u> y nefoedd a'r ddaear.	Ar y dechrau cyntaf, <u>dyma</u> <u>Duw yn creu</u> y bydysawd a'r ddaear.

Naid un gair allan o BNET yn syth, 'bydysawd', mewn cyferbyniad â 'nefoedd'. Dylid nodi bod ystyr y frawddeg yn gyffredinol yn cyfateb yn y tri chyfieithiad (ac eithrio 'bydysawd') gan nad yw hynny wastad yn wir mewn cyfieithiadau Saesneg. Mae'r GNB y perthyn BNET yn agos iddo yn cyfieithu'r ddwy adnod gyntaf fel a ganlyn:

In the beginning, when God created the universe, the earth was formless and desolate.<sup>72</sup>

Mewn cymal adferf amser y trafodir Duw yn creu'r bydysawd yma, ac mae hwn yn benderfyniad diwinyddol sy'n newid yr ystyr yn llwyr. Fodd bynnag, mae'r tri chyfieithiad Cymraeg yn gytûn fod yr adnod gyntaf yn trafod y weithred o greu yn hytrach na disgrifio'r amodau ar gyfer cynnwys yr adnod ddilynol. Gwrthrych y creu sy'n amrywio felly, gyda'r tri yn gytûn ar yr ail elfen, y ddaear, ond bod BNET yn dilyn trywydd gwahanol ar yr elfen gyntaf, 'y bydysawd'. Mater diwinyddol yw hwn yn fwy na mater ieithyddol ac felly ni cheir trafodaeth helaeth arno yn y traethawd hwn. Yn gryno, anghytuna ysgolheigion ar swyddogaeth y frawddeg gyntaf: a yw hi megis teitl sy'n crynhoi'r cyfan a ddigwydd yn y bennod, ynteu a yw hi'n disgrifio'r hyn a ddigwydd *cyn* digwyddiadau gweddill y bennod. Mae hyn yn ei dro yn effeithio ar ein dealltwriaeth o'r gair a gyfieithir, 'nefoedd' a bydysawd'.<sup>73</sup>

Wedi cyflwyniad i hynny, sylwer nawr ar y gystrawen, ac mor debyg yr ymddengys cyfieithiadau BWM a'r BCND. Ceir un llythyren yn unig yn ychwanegol yn BWM, y rhagenw perthynol 'y', sydd yn newid y pwyslais yn llwyr. Brawddeg normal a geir yn y BCND a BNET, gyda'r adferf ategol yn dod cyn y prif gymal ond nid yn *blaenu'r* prif gymal; dynodir hyn yn gliriach yn BNET nag yn y BCND oherwydd ei ddefnydd o'r coma. Canlyniad peidio â blaenu'r prif gymal felly yw bod y pwyslais ar y prif gymal, 'creodd Duw' neu 'dyma Duw yn creu'. Fodd bynnag, mae adferf ategol BWM yn *blaenu'r* prif gymal, gyda'r rhagenw perthynol yn tystio i hynny, a chanlyniad disgwylidig hynny yw bod y pwyslais ar yr adferf, 'yn y dechreuad'. O edrych ar y frawddeg unigol hon y tu allan i'w chyd-destun, y mae'n sicr yn ymddangos fel

---

<sup>72</sup> Genesis 1:1-2, *Good News Bible – Second Edition* (1994).

<sup>73</sup> Ceir trafodaeth fanwl ar hyn ar dudalennau 151-2, Louis Berkhof, *Systematic Theology* (Caeredin, 1958).

brawddeg bwyslais ac mae'n bodloni holl ofynion brawddeg o'r fath. Ac o'i darllen yn uchel, naturiol fyddai pwysleisio 'dechreuad': 'Yn y *dechreuad* y creodd Duw y nefoedd a'r ddaear.' Fodd bynnag, nid yw darllenydd profiadol BWM yn rhoi'r pwyslais hwnnw, gan mai dyma'r patrwm gydol y cyfieithiad. Brawddeg annormal yw hon, a thra'i bod yn ymddangos yn debyg i frawddeg bwyslais i ddarllenydd newydd, fe'i darllenir yn gywir heb unrhyw bwyslais.<sup>74</sup>

Sylwer hefyd ar yr arddodiad a ddefnyddir yn adferf y tri chyfieithiad, 'yn' yn y ddau hynaf ac 'ar' yn BNET. Diddorol yw nodi'r gwahaniaeth rhwng y ddau yn ôl Peter Wynn Thomas,

*Yn a ddefnyddir amlaf wrth gyfeirio at gyfnodau cymharol hir ... Mwy cyfyngedig yw cyd-destunau defnyddio am, ar, a gyda.*<sup>75</sup>

Tybir na fwriadwyd unrhyw arwyddocâd diwinyddol neu athronyddol wrth ddewis yr arddodiad unigryw yn BNET, ond nodir y gall adlewyrchu arferion llafar yr oes a gall mai ymdrech fwriadol i gynnig cyfieithiad amgen ac anllenyddol sydd yma hefyd. Byddai modd ceisio dehongli beth yn union yw 'y dechreuad' ac 'y dechrau cyntaf', a ydynt gyfystyr â'i gilydd? Terfyniad haniaethol sydd i 'dechreuad', a yw'n dynodi pwynt penodol ynteu gyfnod o amser? Mae 'y dechrau cyntaf' yn fwy penodol, o bosibl, er yr awgrym mai un dechrau o blith nifer ydyw. Mae'n debyg y bwriadwyd osgoi 'dechreuad' gan y'i gwelid yn rhy hynafol, a chan nad yw 'dechrau' ar ei ben ei hun yn cyfleu rhywbeth yn ddigon cryf, ychwanegwyd y trefnol. Gallai ychwanegu'r ansoddair 'oll' fod wedi cryfhau'r ymadrodd ymhellach, o fynnu ei ddefnyddio. Ond ynglŷn â'r arddodiad, dywed Peter Wynn Thomas fod 'ar' i gael ei ddefnyddio wrth drafod dyddiau'r wythnos neu rannau o achlysur. Nid yw'r dechreuad yn

---

<sup>74</sup> Gweler trafodaeth ar y gystrawen hon yn Dafydd Glyn Jones, *lawn Bob Tro* (Bangor, 2016), tt. 61-2.

<sup>75</sup> Thomas, 5.33 Amserau penodol yn *Gramadeg y Gymraeg*, t. 366.

ddiwrnod o'r wythnos ac felly deallir 'ar y dechrau cyntaf' fel rhan o achlysur, a rydd iddo elfen anghyflawn, ac a gyfyd y cwestiwn, 'dechrau beth?'. Tra bo 'yn' yn cyfeirio at gyfnod hirach, yn allweddol mae'n cyfleu digwyddiad cyflawn nad yw'n ddibynnol ar unrhyw beth arall.

Mae'n werth cyfeirio at ran arall o'r Ysgrythur sy'n adleisio Genesis 1:1, sef un o'i adnodau mwyaf adnabyddus wrth gwrs, Ioan 1:1. Ceir yn y tabl isod y ddwy adnod yn y tri chyfieithiad ochr yn ochr.

Adnod	BWM	BCND	BNET
Genesis 1:1	Yn y dechreuad y creodd Duw y nefoedd a'r ddaear.	Yn y dechreuad creodd Duw y nefoedd a'r ddaear.	Ar y dechrau cyntaf, dyma Duw yn creu y bydysawd a'r ddaear.
Ioan 1:1a	Yn y dechreuad yr oedd y Gair	Yn y dechreuad yr oedd y Gair	Y Gair oedd yn bod ar y dechrau cyntaf

Gwelir bod cysylltiad amlwg rhwng y ddwy adnod yn y ddau gyfieithiad hynaf, wrth mai'r adferf yw rhan gyntaf y ddwy frawddeg. Nid yw'n amlwg ai brawddegau pwyslais yw'r rhain ai peidio; nodwyd eisoes mai'r patrwm hwn yw'r patrwm mwyaf cyffredin yn BWM, a chan na ddefnyddia'r BCND goma ar ôl yr adferf a bod 'yr oedd' yn medru cael ei ddefnyddio mewn brawddeg normal a'r frawddeg bwyslais, eto nid yw'n amlwg. Tybir y defnyddiwyd yr ymadrodd hwnnw gan mor gyfarwydd oedd yn BWM, ac felly y dylid ei ddarllen yn yr un ffordd, heb y pwyslais ar 'dechreuad'. Dilyna BNET drywydd gwahanol gan ei fod, a hynny yn ddigon cywir, yn defnyddio brawddeg bwyslais gyda'r pwyslais ar 'y Gair'. Byddai sawl cyfuniad o'r geiriau hyn wedi bod yn bosibl, er enghraifft:



Ar y dechrau cyntaf, roedd y Gair yn bod.

Tra byddai'r frawddeg honno wedi cryfhau'r cysylltiad gydag adnod gyntaf Genesis, mae'r frawddeg a ddefnyddiwyd mewn gwirionedd yn cyfleu pwyslais teilwng iawn. BNET hefyd yw'r unig gyfieithiad i ddefnyddio dwy ffurf ar y ferf, ac y mae gwerth i hynny hefyd. Tra bo'n wir fod 'yr oedd y Gair' yn frawddeg lawn, ystyrir 'roedd' ac 'mae' yn ferfau cynorthwyol gan y mwyafrif o bobl (yn ddiarwybod iddynt) a disgwylant draethiad yn eu dilyn. O glywed 'yr oedd y Gair' felly, byddai'r mwyafrif o bobl yn cwestiynu, 'yr oedd y Gair yn *beth*?' Cyfleu bodolaeth a wna'r ffurf hon ar 'bod' wrth gwrs, ond nid yw hynny o reidrwydd yn eglur. O'i chynnwys mewn brawddeg sydd eisoes yn ymdrin â chysyniadau anarferol ac arallfydol, hawdd fyddai i'r darllenydd dibrofiad ei diystyru fel un gyfriniol i ysgolheigion ymdrin â hi heb sylwi ar haen sylfaenaf ei chynnwys. Llwydda BNET i osgoi'r perygl hwn gan ailadrodd y ferf a phwysleisio mai neges y testun yw bod y Gair yn *bod*. Canlyniad hyn yw bod y cyfieithiad, er nad yw'n cysylltu gystal â'r adnod yn Genesis, yn llawer eglurach i ddarllenydd dibrofiad, ac felly mae BNET yn bodloni ei feini prawf ei hun.

Gan barhau i graffu ar iaith y cyfieithiadau, ceir hyd i odrwydd adnabyddus yng nghyfieithiad William Morgan cyn gynted â'r bedwaredd bennod, pan gaiff Adda ac Efa gyfathrach sy'n arwain at eni Cain. Gweler y tabl isod:<sup>76</sup>

---

<sup>76</sup> Genesis 4:1.

BWM	BCND	BNET
Ac Adda a adnabu Efa ei wraig: a hi a feichiogodd, ac a esgorodd ar Cain	Cafodd Adda gyfathrach â'i wraig Efa, a beichiogodd ac esgor ar Cain	Cysgodd Adda gyda'i wraig Efa, a dyma hi'n beichiogi. Cafodd blentyn, sef Cain

Y BCND sy'n dilyn y ffurf fwyaf safonol o gyflwyno'r weithred dan sylw a gellir derbyn hwnnw fel y safon. Mae'r ferf a ddefnyddir gan BWM yn un a ddefnyddir bob dydd gan siaradwyr Cymraeg, ond ar gyfer ystyr cwbl wahanol wrth gwrs. Dywed James Hughes, 'Dull gweddus o lefaru ydyw hyn, am y weithred o genhedlu, a arferir yn aml yn yr Ysgrythur a chan awdwyr eraill.'<sup>77</sup> Tra bo hynny'n wir am y cyfnod yr oedd James Hughes yn byw ynddo ddwy ganrif yn ôl, anodd fyddai ceisio dadlau yr 'arferir yn aml ... [g]an awdwyr eraill' erbyn hyn! Tra'i fod yn odrwydd difyr i'w drafod, dyna yw'r cyfieithiad llythrennol o'r gwreiddiol wrth gwrs, a gwna cyfieithiadau Saesneg ddefnydd tebyg o'r ferf 'knew'.<sup>78</sup> Ei ystyr, ar y wedd fwyaf arwynebol beth bynnag, yw cael cyfathrach rywiol. Diddorol yw nodi cyfieithiad BNET hefyd, 'Cysgodd Adda gyda'i wraig Efa'. Mae'r ymadrodd 'cysgu gyda' yn un cyffredin iawn ar lafar i olygu cael cyfathrach, ond eto nid dyna'r ystyr llythrennol. Nid ymadrodd newydd yw hwn chwaith, fe'i defnyddiwyd yn y Gymraeg ers yr Oesoedd Canol, yn y Mabinogi er enghraifft gyda hanes y noson honno 'y kyscwys Matholwch gan Uranwen'.<sup>79</sup> Mae'n rhyfedd felly sut y ceir hen ymadrodd trosiadol yn y cyfieithiad hynaf ac yn y cyfieithiad mwyaf newydd, ond ymadrodd llythrennol yn yr un canol. Mae'n werth nodi wrth drafod y syniad hwn o 'gysgu gyda' y ceir

---

<sup>77</sup> James Hughes, *Genesis IV yn Yr Hen Destament gyda Chyfeiriadau Ysgrythyrol ac Esboniad – Cyflyfr 1* (Treffynnon, 1860), t. 25.

<sup>78</sup> Genesis 4:1, *King James Version, English Standard Version*.

<sup>79</sup> Ifor Williams (gol.), 'Branwen Uerch Lyr', *Pedeir Keinc y Mabinogi* (Caerdydd, 1930), t. 31.

ymadrodd tebyg yn BWM, ond i olygu rhywbeth cyfan gwbl wahanol. Daw'r ymadrodd o Lyfr Cyntaf y Brenhinoedd:<sup>80</sup>

BWM	BCND	BNET	KJV
Felly Dafydd a <u>hunodd gyda'i dadau</u> , ac a gladdwyd yn ninas Dafydd.	Bu <u>farw</u> Dafydd, a chladdwyd ef yn Ninas Dafydd.	Pan fuodd Dafydd <u>farw</u> cafodd ei gladdu yn Ninas Dafydd.	So David <u>slept with his fathers</u> , and was buried in the city of David.

Yn yr achos hwn, ystyr 'huno gyda'i dadau' yw ei fod wedi marw. Nid yr 'huno' sy'n golygu marw sylwer, ond yr ymadrodd cyfan. Dyma'r ymadrodd a geir yn y gwreiddiol ac felly cyfieithiad llythrennol sydd yn BWM, ac felly hefyd yng nghyfieithiad y Brenin Iago. Tra ydym yn gyfarwydd â dweud bod rhywun wedi huno i olygu eu bod wedi marw, mae'r syniad o 'huno gyda' yn rhywbeth dieithr. Mae'n ddigon gwahanol i 'cysgu gyda' fel na fyddai pobl yn camddeall yr adnod hon ac yn meddwl bod Dafydd wedi cael cyfathrach â'i dadau, er y gallasai 'David slept with his fathers' grychu ambell dalcen o bosibl. Y cwestiwn y mae'n rhaid ei ofyn gydag enghraifft fel hon yw pam glynu at y cyfieithiad llythrennol pan fyddai cyfieithu'r ystyr yn gwneud bywyd y darlennydd gymaint haws? Eglura'r Athro Wayne Grudem:

The dynamic equivalence translation [marw yn achos y Gymraeg] does not include the idea of sleeping as a rich metaphor for death, a metaphor in which there is a veiled hint of someday awakening from that sleep to a new life. The expression "slept with his fathers" also includes a faint hint of a corporate relationship with David's ancestors who had previously died, something that is also missing from the dynamic equivalence translation.<sup>81</sup>

<sup>80</sup> 1 Brenhinoedd 2:10.

<sup>81</sup> Wayne Grudem, 'Are only some words of Scripture breathed out by God?', *Translating Truth* (Wheaton, Illinois, 2005), t. 21.

Ei ddadl ef, felly, yw bod gwerth i'r cyfieithiadau llythrennol gan y gallent gynnig dyfnder pellach na'r ystyr arwynebol yn unig. Sylwer bod BNET yn newid y cymal yn gyfan gwbl i fod yn gymal adferf amser, ac felly cyflwynir y wybodaeth am farw Dafydd yn unig fel cefndir i'r claddu, tra bo'n cael ei gofnodi yn brif gymal yn y cyfieithiadau eraill.

Ceir ymdriniaeth debyg â'r ystyr lythrennol ym mhennod 16 wrth i Abram drafod morwyn Sara gyda hi.<sup>82</sup>

BWM	BCND	BNET
Wele dy forwyn yn dy law di	Edrych, y mae dy forwyn dan dy ofal	Gan mai dy forwyn di ydy hi

Yma, y 'llaw' unigol fel sydd yn BWM yw'r cyfieithiad llythrennol, er bod nifer o gyfieithiadau Saesneg yn defnyddio'r lluosog, 'hands'.<sup>83</sup> Diddorol yw bod y BCND wedi dewis trywydd gwahanol yma, 'dan dy ofal', o ystyried bod 'yn llaw' yn ymadrodd sydd wedi hen ennill ei blwyf yn y Gymraeg i olygu'n union ystyr y testun. Mae BNET eto yn defnyddio cymal adferfol, adferf rheswm y tro hwn, gyda'r patrwm hwn yn dechrau ymsefydlu.

Ceir sawl enghraifft arall o rannau'r corff yn cael eu defnyddio'n drosiadol. Daw'r enghraifft isod o bennod 20, a'r llygaid sydd dan sylw y tro hwn:<sup>84</sup>

---

<sup>82</sup> Genesis 16:6.

<sup>83</sup> Genesis 16:6, *New International Version*.

<sup>84</sup> Genesis 20:16.

BWM	BCND	BNET
Wele, rhoddais i'th frawd fil o ddarnau arian: wele ef yn <u>orchudd llygaid i ti</u> , i'r rhai oll sydd gyda thi, a chyda phawb eraill: fel hyn y ceryddwyd hi.	Dyma fi wedi rhoi i'th frawd fil o ddarnau arian; bydd hyn yn dy glirio ac yn dy gyfiawnhau'n llwyr yng ngŵydd pawb sydd gyda thi.	Dw i'n rhoi mil o ddarnau arian i dy 'frawd' di. Dw i'n ei roi yn iawndal am bopeth sydd wedi digwydd i ti. Bydd pawb yn gweld wedyn dy fod ti heb wneud dim byd o'i le.

Un o'r pethau mwyaf nodedig am yr adnod hon yw ei bod yn anodd gweld pa gymalau o fewn y frawddeg sy'n cyfateb â'i gilydd rhwng y cyfieithiadau. Yr ymadrodd a danlinellwyd a nodir fodd bynnag, gan mai dyma'r cyfieithiad llythrennol a defnyddia'r trosiad gwreiddiol yn llawn. Yr hyn sy'n ddiddorol ynghylch y cyfieithiadau eraill yw eu bod, er yn ceisio osgoi cyfieithu'r trosiad yn uniongyrchol gan nad yw'n un a arferir yn y Gymraeg, yn methu â'i osgoi mewn gwirionedd! Mae'r llygad yn bresennol yn y ddau gyfieithiad diweddaraf wrth i'r BCND ddisgrifio 'gŵydd' pawb a BNET ddisgrifio 'pawb yn gweld'. Y gwir amdani yw, er nad yw 'gorchudd llygad' yn drosiad cyffredin yn Gymraeg am gyfiawnhad, trafodir y cyfiawnhad hwn o safbwynt trydydd person, pawb. Ac wrth ddisgrifio safbwynt trydydd person tuag at rywun, a'r modd y meddylia amdano, defnyddir yn aml eiriau ac ymadroddion sy'n ymwneud â golwg: llygad, edrych, gweld ac enwi ond ychydig. Fodd bynnag, nid digon i'r darllenydd cyfoes yw'r iaith drosiadol wedi ei chyfieithu'n llythrennol, ac am hynny y defnyddia'r cyfieithiadau diweddarach gyfuniad o iaith drosiadol a llythrennol, gyda'r pwyslais ar gyfleu'r ystyr ar ei ffurf egluraf.

Ceir yr enghraifft olaf a berthyn i'r corff yn y bennod olaf:<sup>85</sup>

BWM	BCND	BNET
maethwyd hefyd blant Machir, fab Manasse, ar liniau Joseff	Ar liniau Joseff hefyd y maethwyd plant Machir fab Manasse.	Gwelodd blant Machir (mab Manasse) hefyd a'u derbyn nhw fel ei blant ei hun.

Y gliniau sydd dan sylw y tro hwn, a'r darlun a gyflëir yw bod y plant a dderbynnir ar liniau rhiant maeth megis plant iddo'i hun. Darlun tlws iawn yw hwn, gyda rhyw rym dirdynol yn y dweud; ond wedi dweud hynny, o ystyried y cynhwysir ef yn y ddau gyfieithiad blaenorol, synhwyrol yw bod BNET wedi ceisio cyfleu'r ystyr yn hytrach na'r trosiad.

Priodol yn y bennod hon hefyd fyddai trafod cenedl ambell enw ac ymdriniaeth y cyfieithiadau o genedl enwau cyffredin sy'n disgrifio pobl. Yn hanesyddol, defnyddir enwau a rhagenwau gwrywaidd gan amlaf i ddynodi person nad yw ei ryw yn hysbys. Defnyddir 'dyn' er enghraifft fel rhagenw i gyfleu'r natur ddynol yn gyffredinol, defnyddir brawd a brawdoliaeth i gyfleu pethau sy'n fwy na gwryw o'r un rhieni, a defnyddir cyndeidiau i ddynodi hynafiaid o'r ddau ryw. Y peth cyntaf i'w nodi am ymdriniaeth y Beibl (y Beibl ei hun, nid y cyfieithiadau) o genedl enwau a rhagenwau yw ei fod yn cydnabod y ffaith fod yna ddwy genedl. Nodwyd y dyfyniad hwn eisoes yn y bennod hon:

Gelwir hi yn wraig,

am mai o ŵr\* y cymerwyd hi.<sup>86</sup>

---

<sup>85</sup> Genesis 50:23.

<sup>86</sup>Genesis 2:23b, BCND.

Noder bod serennig yn yr adnod uchod o'r BCND i gyfeirio'r darlennydd at droednodyn a ddywed 'Hebraeg yn chwarae ar y geiriau 'issa (gwraig) ac 'is (gŵr).' Mae patrwm y geiriau Cymraeg yn debyg felly, gan fod 'dyn' a 'dynes' yn rhannu'r un bôn, ac felly hefyd 'ŵr' a 'gwraig'. Ond yn fuan iawn, yn y bumed adnod, gwelir dechrau ar yr amrywiadau o ran yr ymdriniaeth â'r cenedl enwau, fel y gwelir yn y tabl isod.<sup>87</sup>

BWM	BCND	BNET
Dyma lyfr cenedlaethau Adda: yn y dydd y creodd Duw ddyn, ar lun Duw y gwnaeth efe ef. Yn wryw ac yn fenyw y creodd efe hwynt: ac efe a'u bendithiodd hwynt, ac a alwodd eu henw hwynt Adda, ar y dydd y crewyd hwynt.	Dyma lyfr cenedlaethau Adda*. Pan greodd Duw bobl, gwnaeth hwy ar lun Duw. Fe'u creodd yn wryw ac yn fenyw, a bendithiodd hwy; ac ar ddydd eu creu fe'u galwodd yn ddyn.  *Neu, dyn.	Dyma hanes teulu Adda: Pan greodd Duw bobl, gwnaeth nhw i fod yn ddelw ohono'i hun. Creodd nhw yn wryw ac yn fenyw, bendithiodd nhw, a rhoi'r enw 'dynoliaeth' iddyn nhw.

Sylwer ar y diffyg cysondeb ymddangosiadol yn BWM, wrth iddo symud o'r unigol gwrywaidd i'r lluosog heb unrhyw rybudd nac esboniad. Daw'r dryswch hwn o'r ffaith y golyga 'Adda' a 'dyn' y ddynoliaeth gyfan.<sup>88</sup> Wrth gwrs, ni chrëwyd Adda'r unigolyn yn 'wryw ac yn fenyw', ac felly ein dealltwriaeth o 'Adda' fel enw priod ar unigolyn penodol yw tarddiad y broblem.

<sup>87</sup> Genesis 5:1-2.

<sup>88</sup> David Noel Freedman (gol.), *Eerdmans Dictionary of the Bible* (Caergrawnt, 2000), tt. 18-9.

Gydag esboniad i egluro'r cyfan, y mae'r adnod yn peri llai o drafferth. Mae'r BCND yn cydnabod y defnydd hwn o 'Adda' i olygu'r ddynoliaeth mewn troednodyn, ond mae'n ddiddorol ei fod yn neidio yn ôl ac ymlaen rhwng 'dyn' a 'pobl': y mae hyd yn oed yn cloi'r ail frawddeg gyda 'fe'u (yn cyfeirio at y lluosog, felly) galwodd yn ddyn'. Ac eithrio'r cymal cyntaf a gyfeiria at 'deulu Adda', mae BNET yn ymdrin â'r lluosog drwyddo draw. Canlyniad hyn yw bod y cyfan yn eglurach i ddarllenydd dibrofiad, o bosibl, ond mae hynny'n newid ystyr yr Adda a geir yn y cymal agoriadol. Wrth gyfeirio at 'deulu Adda' yn y cyd-destun hwn sy'n trafod y lluosog, mae'n amlwg mai Adda'r unigolyn yw Adda'r cyfieithiad hwn, gan newid fymryn ar ei ystyr. Byddai gwahanol garfannau o ddiwinyddion yn dadlau maint arwyddocâd y newid hwn, ond ni thrafodir hynny ymhellach yma. Parha'r patrwm cyffredinol hwn gydol y cyfieithiadau, sef bod BWM yn dilyn y ffurfiau gwreiddiol yn gymharol lythrennol, tra bo'r BCND a BNET yn gwyro tua'r iaith gynhwysol. Gwelir yn yr enghraifft gyntaf isod fod BWM yn defnyddio'r enwau gwrywaidd yn unig (ac eithrio pan gyfeiria'n benodol at ferched), a bod y BCND yn defnyddio enw di-ryw, 'pobl', yn yr achos cyntaf ac yna 'meibion Duw' yn yr ail pan gyfeiria at wrywod yn unig. Mae BNET ar y llaw arall yn defnyddio 'poblogaeth' ddi-ryw yn yr achos cyntaf, sy'n ddisgwyliedig, ond 'bodau nefol' fel cyfieithiad o 'feibion Duw'. Gofynnir felly, pwy yw'r 'meibion Duw' hyn? Gwna 'bodau nefol' iddynt swnio fel angylion neu geriwbiaid neu seraffiaid, ond onid bodau daearol a olygir? Esbonia Matthew Henry mai gwŷr duwiol oedd y rhain, 'professors of religion,<sup>89</sup> a dyna'r ergyd a ddylai pa bynnag enw a ddefnyddir i'w disgrifio ei chael.

---

<sup>89</sup> Leslie F. Church (gol.), *Matthew Henry's Commentary on the Whole Bible in One Volume* (Llundain, 1960), t. 16.



Adnod	BWM	BCND	BNET
6:1-2	Yna y bu, pan ddechreuodd <u>dynion</u> amlhau ar wyneb y ddaear, a geni merched iddynt, Weled o <u>feibion</u> <u>Duw</u> ferched dynion mai teg oeddynt hwy; a hwy a gymerasant iddynt wragedd o'r rhai oll a ddewisasant.	Dechreuodd y <u>bobl</u> amlhau ar wyneb y ddaear, a ganwyd merched iddynt; yna gwelodd <u>meibion</u> <u>Duw</u> fod y merched yn hardd, a chymerasant wragedd o'u plith yn ôl eu dewis.	Wrth i <u>boblogaeth</u> y byd dyfu ac i ferched gael eu geni, dyma'r <u>bodau nefol</u> yn gweld fod merched dynol yn hardd. A dyma nhw'n cymryd y rhai roedden nhw'n eu ffansio i fod yn wragedd iddyn nhw'u hunain.
13:8	... oherwydd <u>brodyr</u> ydym ni	... oherwydd <u>perthnasau</u> ydym	Dŷn ni'n <u>perthyn</u> i'r un teulu

Mae'r ail enghraifft yn symlach, gyda BWM yn unig yn defnyddio 'brodyr' tra bo'r cyfieithiadau eraill yn defnyddio 'perthyn/perthnasau'. Yr hyn sy'n ddiddorol i'w nodi am ddefnydd y Beibl o 'brawd' a 'brodyr' yw y defnyddir hwy'n aml i olygu rhywbeth ehangach na 'gwryw yn ei berthynas â phlentyn arall neu blant eraill yr un rhieni'.<sup>90</sup> Noda *Geiriadur Prifysgol Cymru* drachefn, 'Beibl. perthynas gwrywaidd, e.e. ewythr, nai'. Defnyddir y gair i

<sup>90</sup> 'Brawd', *Geiriadur Prifysgol Cymru* (Caerdydd, 1950–), t. 311.

ddisgrifio perthnasau'n ehangach felly, ac mae'n ddi-ddorol felly mai dyna'r trywydd a ddilyna'r cyfieithiadau diweddaraf.

Beth yw canlyniad yr amrywiadau o ran defnydd o'r iaith gynhwysol? Mae tuedd gyffredinol BWM o ddefnyddio enwau gwrywaidd yn adlewyrchu'r testun gwreiddiol, a hefyd hen arferion y Gymraeg, yn llafar ac yn ysgrifenedig. Mae'r BCND a BNET ar y llaw arall yn cyfleu'r wybodaeth mewn ffordd fwy naturiol i Gymry'r unfed ganrif ar hugain, ar y cyfan, ond dylai'r darlennydd profiadol ymdrechu hefyd i ddeall rhywfaint am y cefndir a'r geiriau a ddefnyddir yn y gwreiddiol, rhag iddo fetu ar ryw wedd o'r dweud nad yw'n amlwg yn y cyfieithiad mwy rhydd.

Gan symud at bennod 30, nodir ambell wahaniaeth arall rhwng y cyfieithiadau o ran eu defnydd o eiriau. Ond cyn trafod y dewis geiriau, nodir yr orgraff a ddefnyddir ar gyfer enwau, sef enwau Hebreig. Rachel yw'r enw mwyaf cyffredin ar gyfer y ferch a drafodir, ond mae BWM yn defnyddio Rahel.

Cyfeiriad	BWM	BCND	BNET
30:1	Rahel	Rachel	Rachel
6:10	Sem	Sem	Shem
12:15	Pharo	Pharo	Y Pharo
16:1	Agar	Hagar	Hagar
16:15	Ismael	Ismael	Ishmael
21:14	anialwch Beer-seba	anialwch Beerseba	anialwch Beersheba
24:25	Rebecca	Rebeca	Rebeca

Yr hyn sy'n ddiddorol ynglŷn ag orgraff llawer o'r enwau hyn yw bod BNET yn ymdrechu'n fwriadol i sillafu'r enwau mewn modd sy'n cynrychioli'r ffordd y cânt eu hynganu mewn Hebraeg. Er nad yw 'sh' megis yn 'Shem' ac 'Ishmael' a 'Beersheba' yn perthyn i orgraff arferol y Gymraeg, mae ei ddefnyddio yn rhoi gwybod i'r darllenydd sut i'w ynganu. Cryfder y Gymraeg yw bod ganddi amrediad ehangach o synau na rhai ieithoedd eraill fel y Saesneg: mae holl seiniau'r Saesneg yn perthyn i'r Gymraeg erbyn hyn (onid yw 'jiráf' wedi ennill ei blwyf?) ond mae seiniau ychwanegol a berthyn i'r Gymraeg, felly gallwn roi gwell cynnig ar ynganu ambell enw. Mae'n ddiddorol mewn enghraifft arall, megis Rebeca, y defnyddia BNET (a'r BCND) y sistem orgraff Gymraeg tra defnyddia BWM sistem Saesneg. Ni ddyblir 'c' wrth sillafu'n Gymraeg<sup>91</sup> ac felly mae'r sillafiad diweddarach yn perthyn yn agosach i safonau arferedig yr orgraff Gymraeg.

Ond geirfa'r bennod ac ambell ymadrodd sydd fwyaf nodedig, a thrafodir ambell beth yma.

Adnod	BWM	BCND	BNET
9	planta	geni plant	cael plant
1	na phlantasai	nad oedd hi yn geni plant	ei bod hi'n methu cael plant
13	Yr ydwyf yn ddedwydd;	Dedwydd wyf!	Dw i mor hapus!

Y mae'r ddwy enghraifft gyntaf uchod yn perthyn yn agos i'w gilydd, a nodir yr ail ddyfyniad yn flaenaf gan mai dyna'r ffurf gadarnhaol a bod y dyfyniad cynharach yn negydd ar y ffurf

---

<sup>91</sup> Fel y byddai trigolion Cricieth yn hoff iawn o'n hatgoffa!

hwnnw. Sylwer ar y modd y negyddir y cymal yn BNET, mae dull ac felly ystyr ei negyddu yn wahanol. Tra bo 'methu' cael plant yn sicr yn dod o dan ambarél ehangach 'na phlantasai', y mae'n fwy penodol o lawer. Dyna wirionedd y sefyllfa yn y cyd-destun, ac felly mae'r negyddu mwy creadigol hwn yn egluro'r sefyllfa honno yn well. Manteisir hefyd ar gryfder arddull lafar BNET yn yr enghraifft o adnod 13. Sych iawn yw dweud BWM, gyda defnydd (anarferol) o frawddeg normal yma, hynny yw, yw'r goddrych yn blaenu'r ferf am unwaith! Defnyddir y rhagenw dwbl 'ydwyf' gan dynnu rhywfaint yn fwy o sylw at y cymal, ond eto mae natur y cyfieithiad yn golygu nad yw dedwyddwch Lea yn cael ei gyfleu gan yr arddull. Mae'r ebychnod yn gymorth o ran hynny yn y cyfieithiadau eraill, ond mae nodweddion eraill sy'n cryfhau'r mynegiant. O ran y BCND, ceir brawddeg bwyslais y tro hwn, gyda'r traethiad ansoddeiriol yn blaenu'r ferf. Canlyniad y frawddeg ddeuair hon yw ei bod megis ebychiad, sy'n briodol iawn. Defnyddia BNET ymadrodd digon naturiol i siaradwyr Cymraeg cyfoes, 'Dw i mor hapus!' a bair i hapusrwydd neu ddedwyddwch Lea gael ei gyfleu mewn modd naturiol ac effeithiol.

Cyn cloi'r sylwadau ar y llyfr hwn, tynnir sylw at un gair a ddefnyddir yn BNET nas defnyddiwyd yn y cyfieithiadau blaenorol, a hynny wrth ddisgrifio côt enwog Joseff. 'Siaced fraith' yw'r cyfeiriad a geir yn BWM, tra ceir 'gwisg laes' yn y BCND. Adlewyrcha hyn yr ansicrwydd ynglŷn ag ystyr y gair yn y gwreiddiol – a ydyw'n disgrifio dilledyn amryliw ynteu un ac iddo lewys hir? Cyfieithiad BNET sy'n sefyll allan fodd bynnag, wrth iddo ddisgrifio'r gôt fel un 'sbesial'.<sup>92</sup> Ceir defnydd helaeth o'r gair hwn gydol y cyfieithiad, gan gynnwys yn yr hanes blaenorol a

---

<sup>92</sup> BNET, Genesis 37:3.

drafodwyd, ac ymddengys mewn 32 o adnodau i gyd. Yn ddiddorol, noda *Geiriadur Prifysgol Cymru* fod yr ansoddair hwn a fenthyciwyd o'r Saesneg yn arferedig ar lafar ers yr ugeinfed ganrif, ond noda hefyd ddwy ardal yn unig, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin. Tra'i bod yn bosibl bod trigolion yr ardaloedd hynny yn gwneud defnydd helaethach ohono na thrigolion ardaloedd eraill o Gymru, nid yw'n fenthyciad anghyfarwydd yn unman, mewn gwirionedd. Byddai rhai yn dadlau mai llygriad ydyw, gan fod 'arbennig' eisoes yn cyfleu ei ystyr yn llawn ac yn air digon cyfarwydd, ond nid oes modd dadlau nad yw'n cael ei arfer. Beth yw canlyniad y defnydd ohono wrth ddisgrifio côt Joseff felly? Mae'r gôt wrth gwrs yn symbol o'r ffafriaeth sydd gan Jacob tuag at Joseff dros ei feibion eraill, ac mae'r ansoddair felly yn briodol ar gyfer y dilledyn ond hefyd ar gyfer Joseff ei hun yng ngolwg ei dad. Fel y nodwyd eisoes, mae ansicrwydd p'un ai amryliw ynteu llaes ddylai'r ansoddair fod, a thra gellir bod yn dra sicr nad 'sbesial' yw ystyr lythrennol y gwreiddiol, y mae'n sicr yn wir ac y mae hefyd yn disgrifio amryw briodweddau posibl y gôt. Nid pawb fyddai'n ffafrio'r ychydig greadigrwydd hwn wrth lunio cyfieithiad, ond dyma enghraifft dda o fanteisio ar gryfder ymadrodd poblogaidd a chyfarwydd yn yr iaith darged gan amharu cyn lleied â phosibl ar y testun.

Ychydig sylwadau sydd ar y llyfr hwn yn y bennod hon mewn gwirionedd, gan ei fod yn llyfr hir a bod gormodedd i'w ddweud. Fodd bynnag, ceisiwyd nodi'r hynodion pennaf, yn ogystal â'r rhai sydd yn benodol berthnasol i'r llyfr hwn, a'r llyfr hwn yn unig. Trafodir geirfâu'r cyfieithiadau yn fanylach o lawer yng ngweddill y traethawd hwn, ond fe sylwir wrth fynd ymlaen fod llawer o batrymau ac egwyddorion a sylfaenwyd yn y llyfr cyntaf hwn yn cael eu defnyddio gydol y tri chyfieithiad.

### 3. *Salmau*

Un o lyfrau mwyaf adnabyddus y Beibl yw llyfr y Salmau. Dyma lyfr y darllenir ohono yn aml, boed o'r pulpud ar ddechrau oedfa, neu gan saint dirifedi cyn noswyllo. Yn ôl y llwyfan darllen ar-lein *Bible Gateway*, roedd chwe o'r deg adnod a ddarllenwyd amlaf yn 2020 yn dod o'r Salmau,<sup>93</sup> a phob un ohonynt o'r un Salm hefyd, sef Salm 23. Roedd 24 adnod ychwanegol o'r Salmau ymhlith y 100 adnod mwyaf poblogaidd, canran o 30% felly, a chan gofio mai un llyfr yn unig o 66 yn y Beibl Protestannaidd yw llyfr y Salmau, dengys hyn mor boblogaidd ydyw. Yr hyn sy'n drawiadol am ei boblogrwydd hefyd yw'r ffaith fod 27 llyfr y Testament Newydd yn llawer mwy poblogaidd na'r 38 a geir yn yr Hen Destament heb gyfri'r Salmau. O'r 70 adnod yn y 100 uchaf nad ydynt yn y Salmau, mae 53 ohonynt yn y Testament Newydd a 17 yn unig yn yr Hen Destament, felly mae'r Salmau yn eithriad amlwg i'r duedd o droi'n amlach at y Testament Newydd. Am y rheswm hwn y cyhoedda argraffwyr 'Destament Newydd a'r Salmau', megis sydd ar gael yn y Gymraeg.<sup>94</sup> Caiff y Salm enwog, Salm 23, sylw manwl yn y bennod sy'n dadansoddi canlyniadau'r holiadur, gan fod cyfres o gwestiynau amdani hi yn yr holiadur. Yng ngweddill y bennod hon, bwriedir rhoi sylw i ambell Salm yn benodol, rhai sy'n cynrychioli rhyw arddull neu grŵp o Salmau o bosibl, yn ogystal ag unrhyw ystyriaethau cyffredinol.

---

<sup>93</sup> <https://www.biblegateway.com/year-in-review/2020/> (Cyrchwyd 19/03/2021).

<sup>94</sup> *Y Testament Newydd a'r Salmau* (Swindon, 2009).

Agorir Llyfr y Salmau gyda'r frawddeg hon:

Gwyn ei fyd y sawl  
nad yw'n dilyn cyngor y drygionus  
nac yn ymdroi hyd ffordd pechaduriaid  
nac yn eistedd ar sedd gwatgarwyr,  
ond sy'n cael ei hyfrydwch yng nghyfraith yr ARGLWYDD  
ac yn myfyrio yn ei gyfraith ef ddydd a nos.<sup>95</sup>

I ddarllenwyd profiadol, mae tri gair cyntaf y cyfieithiad hwn (BCND) yn debygol o sefyll allan fel ymadrodd cyfarwydd; dyma ymadrodd tebyg i'r un y mae Iesu'n ei ddefnyddio dro ar ôl tro ar ddechrau'r Bregeth ar y Mynydd, y geiriau a elwir yn aml y 'Gwynfydau'.<sup>96</sup> Tra bo'r Gwynfydau yn trafod y lluosog, yr unigol sydd dan sylw'r Salmydd. Ceir trafodaeth fanylach ar yr ymadrodd hwn yn y bennod ar Mathew, gan mai dyna lle digwydd yr enghreifftiau amlwg o'r ymadrodd. Fodd bynnag, dylid nodi yma hefyd fod yr ymadrodd wedi cael ei gyfieithu i 'Gwyn ei fyd' yn BWM a'r BCND, ond yn wahanol iawn yn BNET. Cyfieithir adnodau cyntaf y Salmau fel a ganlyn yn BNET:

Mae'r un sy'n gwrthod gwranddo ar gyngor pobl ddrwg  
wedi'i fendithio'n fawr;  
yr un sydd ddim yn cadw cwmni pechaduriaid,  
nac yn eistedd gyda'r rhai  
sy'n gwneud dim byd ond dilorni pobl eraill;  
yr un sydd wrth ei fodd

---

<sup>95</sup> Salm 1:1-2, BCND.

<sup>96</sup> Mathew 5:3-12; Luc 6:20-23.

yn gwneud beth mae'r ARGLWYDD eisiau,

ac yn myfyrio ar y pethau mae'n eu dysgu ddydd a nos.<sup>97</sup>

Mae'n drawiadol, os nad yn annisgwyl, nad yw'r ymadrodd yn cael ei ddefnyddio, er bod hyn yn gyson â'r arddull gyffredinol o gyfieithu gydol y cyfieithiad. Yn hytrach y ffurf gwmpasog, 'Mae [y goddrych] wedi'i fendithio'n fawr', a geir, a dyma'r patrwm trwy'r cyfieithiad. Mewn gwirionedd, dyma'r cyfieithiad mwyaf llythrennol, fel yr esbonia Iwan Rhys Jones,

Yn yr Hen Destament, cyfieithu'r gair Hebraeg *ashere* a wna'r ymadrodd 'gwyn ei fyd'. Cytunir mai dynodi dedwyddwch neu hapusrwydd a wna *ashere* yn sylfaenol. Gwelwn felly nad trosiad llythrennol mo 'gwyn ei fyd', ond ymgais i gyfleu ystyr y gwreiddiol mewn ffurf idiomatig.<sup>98</sup>

Mae cyfieithiad BNET yn agosach at y gwreiddiol felly, ac yn agosach at gyfieithiadau mewn ieithoedd eraill yn gyffredinol megis y Saesneg, '*Blessed is...*'. Mae'r cyfieithiadau hyn yn y Gymraeg yn gwbl unigryw, felly, ac eglura Iwan Rhys Jones ymhellach,

Mewn gwirionedd, hen ymadrodd ydyw, ac fe'i ceir mewn llenyddiaeth Gymraeg sy'n hyn na'r Beibl Cymraeg cyntaf. Felly mae'n ymadrodd sydd wedi hen ennill ei blwyf yn ein hiaith.<sup>99</sup>

Enghraifft yw hyn o allu'r cyfieithwyr i fanteisio ar gryfder unigryw yr iaith darged er mwyn cyfleu'r ystyr mewn ffordd a fydd yn taro deuddeg i'r darllenydd. Nid oes ffordd naturiol o gyfieithu'r ystyr yn llythrennol i'r Gymraeg gan ddefnyddio ffurfiau cryno, dim ond gan ddefnyddio ffurf gwmpasog fel y gwnaethpwyd yn BNET. Fodd bynnag roedd gan y Gymraeg eisoes ymadrodd sy'n cyfleu'r ystyr yn gryno ac yn glir, ac a'i defnyddiwyd yn ysgrifenedig byth er y drydedd ganrif ar ddeg,<sup>100</sup> ac felly fe'i defnyddiwyd yn y cyfieithiadau blaenorol.<sup>101</sup>

---

<sup>97</sup> Salm 1:1-2, BNET.

<sup>98</sup> Iwan Rhys Jones, 'Gwyn ei fyd', *Geiriau Bywyd* (Bangor, 2017), t. 26.

<sup>99</sup> *Ibid.*

<sup>100</sup> 'Gwyn', *Geiriadur Prifysgol Cymru* (Caerdydd, 1950–), t. 1770.

<sup>101</sup> Y mae'n werth nodi fod y mwyafrif o gyfieithiadau Saesneg yn defnyddio'r un gair, 'Blessed', i gyfateb i ddau air gwahanol yn yr ieithoedd gwreiddiol, lle mae'r cyfieithiadau Cymraeg yn amlygu'r gwahaniaeth gyda



Mae'r ymadrodd yn un cryf ac mae ei leoliad ar ddechrau'r frawddeg yn denu sylw, ac wrth ddarllen yr adnodau rhoddir pwyslais naturiol ar y geiriau agoriadol. Cryfder hefyd yw fod y disgrifiad o gyflwr yr unigolyn yn gyfan ar ddechrau'r frawddeg, a bod yr holl ddisgrifiadau o'i weithredoedd yn dilyn mewn rhestr. Cyflwynir cyflwr yr unigolyn megis pennawd, gyda'r ymhelaethiad yn dilyn gan ddisgrifio ei weithredoedd. Mae hynny'n groes i'r hyn a geir yn BNET, lle mae'r disgrifiad o gyflwr yr unigolyn a'r disgrifiad o'i weithredoedd wedi eu cymysgu yn rhan gyntaf y frawddeg,

Mae'r un sy'n gwrthod gwrando ar gyngor pobl ddrwg

wedi'i fendithio'n fawr.<sup>102</sup>

Oherwydd y patrwm hwn, ni chaiff y rhestr o weithredoedd sy'n dilyn yr un effaith ag yn y cyfieithiadau hyn ac er mwyn cael yr ergyd, bron y mae angen ychwanegu 'mae yr un' ac 'wedi'i fendithio'n fawr' ar bobtu pob cymal. Nid yw'r patrwm hwn chwaith yn rhoi llwyfan i'r cyferbyniad amlwg sydd rhwng negyddiaeth gweithredoedd yr adnod gyntaf a gweithredoedd cadarnhaol yr ail adnod fel sydd yn y BCND:

nad yw'n dilyn... nac yn ymdroi... nac yn eistedd...

ond sy'n cael ei hyfrydwch... ac yn myfyrio...<sup>103</sup>

Yn BNET,

---

chyfieithiadau gwahanol. Ble mae'r testun yn trafod pobl, h.y. y rhai sydd dan fendith Duw, defnyddir 'Gwyn ei fyd' neu 'wedi ei fendithio' yn y Gymraeg a defnyddia'r Saesneg 'Blessed is'. Ble mae'r testun yn trafod Duw ei hun fel gwrthrych teilwng o'i fendigo (e.e. 1 Pedr 1:3), defnyddir 'Bendigedig fyddo' yn BWM a'r BCND, 'Clod i' yn BNET ond 'Blessed be' mewn cyfieithiadau Saesneg. Noda Iwan Rhys Jones fod '*ashere* yn rhyw fath o ddatganiad neu sylw brwdfrydig yn dynodi cyflwr dedwydd. Mae'n ddiddorol nodi nad yw'r ymadrodd byth yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio Duw. Fe'i defnyddir yn unig ar gyfer pobl, a hynny o bosibl er mwyn gwahodd eraill i ddyheu am yr un dedwyddwch.' Dylid cymeradwyo'r cyfieithwyr Cymraeg am lwyddo i efelychu'r ieithoedd gwreiddiol yn hynny o beth, yn wahanol i gyfieithwyr Saesneg.

<sup>102</sup> Salm 1:1, BNET.

<sup>103</sup> Rhannau o Salm 1:1-2, BCND.

Mae'r un sy'n gwrthod gwrando... wedi'i fendithio'n fawr;

yr un sydd ddim yn cadw cwmni... nac yn eistedd...

yr un sydd wrth ei fodd... ac yn myfyrio...<sup>104</sup>

Yn ogystal â'r ffaith fod negydd cwmpasog yn cael ei ddefnyddio yma ('un sydd ddim yn cadw cwmni'), mae diffyg defnydd o'r cysylltair 'ond' yn cael effaith fawr ac yn golygu bod angen darllen yr adnodau hyn fwy nag unwaith er mwyn deall yr hyn a geisir ei gyfleu ac er mwyn dirnad beth sy'n arwain at y 'bendithio'n fawr'. Wedi dweud hynny, tybiaf fod 'gwyn ei fyd' yn ymadrodd nad yw mor gyfarwydd y dyddiau hyn ag ydoedd o'r blaen. Mae'n ymadrodd sy'n fwy cyfarwydd i'r genhedlaeth hyn, o bosibl, ac nid dyma'r math o ymadrodd y caiff disgyblion ysgol eu hannog i'w ddefnyddio y dyddiau hyn chwaith. I ddysgwyr ail iaith, nid yw cyfieithu'r ymadrodd yn llythrennol i'r Saesneg yn mynd i fod yn fuddiol chwaith gan na all hynny roi eglurder, ac mae'n hollbwysig fod ystyr y geiriau hyn yn gwbl amlwg. Wedi'r cyfan, dyma eiriau cyntaf Llyfr y Salmau, wedi eu gosod yn y man cychwynnol hwnnw am reswm a dyma'r rhagymadrodd i weddill y llyfr. Ar sail hynny, mae BNET yn cyflawni ei nod wrth gyfieithu'r ymadrodd hwn fel ag y gwna, y nod o fod yn gyfieithiad gwahanol, hygyrch i gynulleidfaoedd newydd. Hawdd fyddai cadw'r ymadroddion sy'n 'hen ffefrynnau' ond nid oes pwynt cael nifer o gyfieithiadau sydd yr un fath â'i gilydd.

Yn olaf, wrth sylwi ar y ddwy adnod hyn, dylid nodi'r gwahaniaethau rhwng BWM a'r BCND yn ogystal. Canolbwyntiwyd eisoes ar y gwahaniaeth rhwng BNET a'r cyfieithiadau hyn, oherwydd bod y rhai hyn yn dilyn trefn a phatrwm tebyg, a chyferbyniol i BNET. Ond o ran yr eirfa, mae amrywiaethau yn y tri, yn arbennig yn y berfau a ddefnyddir yn yr adnod gyntaf.

---

<sup>104</sup> Rhannau o Salm 1:1-2, BNET.

Berfau Salm 1:1 (Gwyn ei fyd y sawl...)		
BWM	BCND	BNET
ni <u>rodia</u> yng nghyngor yr annuwolion	nad yw'n <u>dilyn</u> cyngor y drygionus	sy'n gwrthod <u>gwrando</u> ar gyngor pobl ddrwg
ni <u>saif</u> yn ffordd pechaduriaid	nac yn <u>ymdroi</u> hyd ffordd pechaduriaid	sydd ddim yn <u>cadw cwmni</u> pechaduriaid
nid <u>eistedd</u> yn eisteddfa gwatwarwyr	nac yn <u>eistedd</u> ar sedd gwatwarwyr	nac yn <u>eistedd</u> gyda'r rhai sy'n gwneud dim byd ond dilorni pobl eraill
Dynoda'r llwyd golau gyfieithiad llythrennol o'r ferf.		

Yn gyntaf, noder bod berf y drydedd weithred yn gyson, sef 'eistedd', yn gyfieithiad llythrennol o'r gwreiddiol. Mae union fanylion yr 'eistedd' yn amrywio ond ni chaiff hynny effaith sylweddol. Mae amrywiadau yn y ddwy ferf gyntaf, gyda BWM yn cyfieithu'n llythrennol a'r cyfieithiadau eraill yn ceisio egluro'r ystyr yn fwy. Yr hyn sy'n fwyaf trawiadol yw fod y berfau gwreiddiol, a berfau BWM, yn perthyn i'w gilydd wrth eu bod i gyd yn disgrifio ymarweddiad y corff. Mae 'rhodio', 'sefyll' ac 'eistedd' yn bethau y mae'r corff cyfan yn ei wneud, a chan gofio mai llyfr o farddoniaeth ydyw'r llyfr hwn, mae defnyddio disgwrs gyson yn cefnogi a chyfoethogi'r darlleniad. Nid disgwrs sy'n perthyn i'r adnod yma'n unig yw hon chwaith, defnyddir 'rhodio' trwy'r Beibl fel trosiad am fyw. Yn hwyrach ymlaen yn llyfr y Salmau, darllenir,

Gwyn eu byd y bobl a adwaenant yr hyfrydlais: yn llewyrch dy wyneb, O  
ARGLWYDD, y rhodiant hwy.<sup>105</sup>

Ac yn Llythyr Cyntaf Ioan,

Eithr os rhodiwn yn y goleuni, megis y mae efe yn y goleuni, y mae i ni  
gymdeithas â'n gilydd, a gwaed Iesu Grist ei Fab ef, sydd yn ein glanhau ni oddi  
wrth bob pechod.<sup>106</sup>

Dyma ddisgŵrs sy'n cyfoethogi'r profiad o ddarllen yr Ysgrythur gyfan, nad yw'n bodoli yn y  
BNCD nac yn BNET. Er hynny, nid yw ei golli yn newid yr ystyr yn ormodol ac mae'r  
cyfieithiadau hynny wedi blaenoriaethu eglurder yn y manau hyn.

Un ystyriaeth sy'n codi dro ar ôl tro wrth gyfieithu'r Salmu yw sut mae cyfieithu priod-  
ddulliau Hebraeg, ac mae'n ddiddorol fod nifer ohonynt yn perthyn i rannau o'r corff neu fyd  
iechyd. Un priod-ddull sy'n ymddangos dro ar ôl tro yw'r arenau, a cheir sawl cyfieithiad  
gwahanol o'r gair hwnnw, hyd yn oed o fewn yr un cyfieithiad mewn rhai achosion. Dylid nodi  
yn y man cyntaf fod BWM yn gwbl gyson; bob tro y mae 'arenau' yn y gwreiddiol, ceir  
'arenau' yn BWM.<sup>107</sup> Mae hynny'n gyson â'r cyfieithiad Saesneg amlwg o'r un cyfnod, y KJV  
lle defnyddir 'reins', gair Saesneg hynafol sy'n rhannu'r un tarddiad ag 'arenau' wrth gwrs, y  
gair Lladin *renes*. Perai hyn drafferth yn y Saesneg, gan fod 'reins' hefyd yn golygu llinyn ffrwyn  
i reoli anifeiliaid, er bod tarddiad y ddau air yn gwbl wahanol, ac mae hanesion am esbonwyr

---

<sup>105</sup> Salm 89:15, BWM.

<sup>106</sup> 1 Ioan 1:7, BWM.

<sup>107</sup> Salm 7:9, 16:7, 26:2, 73:21, 139:13, BWM.

Beiblaidd yn trafod y ‘reins’ anghywir.<sup>108</sup> Fodd bynnag, yn y Gymraeg, yr unig anhawster gyda’r cyfieithiad llythrennol hwn yw ei fod yn codi’r aeliau, oherwydd mae’r syniad fod gan yr arenau unrhyw bwrpasau pellach na’r rhai biolegeol yn un anghyfarwydd yn ein diwylliant ni. Pe bai rhywun yn dweud, ‘mae fy arenau yn dweud y bydd Cymru’n ennill y gêm rygbi, er bod disgwyl iddynt gollu,’ byddai pobl yn edrych yn syn arno. Mae gan y galon a’r meddwl, ar y llaw arall, bob math o ystyron y tu hwnt i’w pwrpasau biolegol, sef pwmpio gwaed yn achos y galon a rheoli’r system nerfol yn achos y meddwl. Clywir ymadroddion megis ‘mae’r galon yn dweud un peth, ond y meddwl yn dweud peth arall,’ ond wrth gwrs nid yw’r galon na’r meddwl yn *dweud* dim byd, yn llythrennol. Mae’r ddwy ran hyn o’r corff yn cael eu cysylltu â phob math o bethau, emosiynau, teimladau a chariad gyda’r galon efallai, a barn, doethineb a synnwyr cyffredin gyda’r meddwl, gydag ambell beth megis ewyllys yn cael ei gysylltu â’r ddwy. Defnyddir y ddwy organ hyn yn aml fel cyfieithiad o ‘arenau’ yn y cyfieithiadau modern felly, yn ogystal â rhai cyfieithiadau amgen, gyda rhyw elfen o ddehongli pa organ sydd fwyaf addas ar gyfer y cyd-destun ymhob sefyllfa.

Cyfieithiadau o ‘arenau’ yn Llyfr y Salmu			
Cyfeiriad	BWM (llythrennol)	BCND	BNET
7:9	canys y Duw cyfiawn a chwilia y calonnau a’r <u>arenau</u>	ti sy’n profi meddyliau a <u>chalonnau</u> , ti Dduw cyfiawn	O Dduw cyfiawn, yr un sy’n treiddio’r meddwl a’r <u>gydwybod</u>
16:7	Bendithiaf yr <u>ARGLWYDD</u> , yr hwn a’ m	Bendithiaf yr <u>ARGLWYDD</u> a roddodd gyngor i mi;	Bendithiaf yr <u>ARGLWYDD</u> am fy arwain i

<sup>108</sup> Ceir esboniad anffodus David B. Loughran a sylwadau arno yn Dave Brunn, *One Bible, Many Versions*, (Nottingham, 2013), t. 48.

	cynghorodd: fy <u>arennau</u> hefyd a'm dysgant yn y nos	yn y nos y mae fy <u>meddyliau</u> 'n fy hyfforddi	ac am siarad gyda mi yn y nos
26:2	chwilia fy <u>arennau</u> a'm calon	rho brawf ar fy <u>nghalon</u> a'm meddwl	Treiddia i'm <u>meddwl</u> a'm cydwybod
73:21	Fel hyn y gofiodd fy nghalon, ac y'm pigwyd yn fy <u>arennau</u>	Pan oedd fy nghalon yn chwerw a'm <u>coluddion</u> wedi eu trywanu	Dw i wedi bod yn chwerw fel finegr, a gadael i'r cwbl gorddi <u>tu mewn i mi</u>
139:13	canys ti a feddiennaist fy <u>arennau</u>	Ti a greodd fy <u>ymysgaroedd</u>	Ti greodd fy <u>meddwl</u> <u>a'm teimladau</u>
Dynoda'r llwyd golau gyfieithiad llythrennol.			

Fel y gwelir yn y tabl uchod, mae pob enghraifft yn seiliedig ar ddadansoddiad unigryw o'r ystyr yn y cyd-destun hwnnw, ac oherwydd anghyfarwydd-dra'r priod-ddull gwreiddiol, mae rhai o'r cyfieithiadau idiomatig yn fwy effeithiol, ac ambell un yn fwy effeithiol na'i gilydd. Ceir llawer o drafod ar 'gydwybod' y dyddiau hyn ac mae'n air effeithiol i ddisgrifio'r hyn y mae'r Salmydd yn ei drafod mewn sawl achos. Er mwyn cyflwyno cymaint o'r ystyr â phosibl, defnyddia BNET ddau beth yn Salm 139, y 'meddwl' a'r 'teimladau', ac mae hynny'n ffordd effeithiol o geisio cwmpasu'r cyfan y mae'r Salmydd yn ceisio ei ddweud. Efallai mai'r enghraifft fwyaf llwyddiannus yw Salm 73, lle dywed BNET fod y cwbl wedi 'corddi tu mewn i mi'. Dyma ymadrodd sydd yn haws uniaethu ag ef, o bosibl, gan ei fod yn cyfeirio mor syml at y tu mewn. Nid poen sy'n effeithio ar un ran fach o'r corff ydyw hwn, ond mae'n corddi'r tu mewn i'r corff cyfan, ac mae'n ddarlun grymus iawn. Dylid nodi un enghraifft o'r arennau y tu

allan i'r Salmau yn fan hyn hefyd, sef Galarnad 3:13. 'Arennau' a geir yn BWM eto, ond mae'r BCND a BNET yn defnyddio'r gair 'perfedd(ion)'. Yr adnod yn BNET yw,

Gollyngodd ei saethau

a'm trywanu yn fy mherfedd.<sup>109</sup>

Dyma'r un enghraifft lle mae'r cyfieithiad llythrennol, o bosibl, yn addas, gan ei bod yn bosibl mai cael ei drywanu yn ei arenau yn llythrennol a wnaeth yr awdur. Fodd bynnag, mae perfedd hefyd yn cyfleu yr un ardal o'r corff, ac er ei fod yn llai penodol, mae'n ddigon manwl, mwy na thebyg, at ddibenion y darllenydd. Gan ddychwelyd at y Salmau a'r tabl uchod, rhaid yw nodi bod BNET yn defnyddio'r ferf 'treiddio' mewn dwy enghraifft hefyd, lle mae'r cyfieithiadau hyn yn defnyddio 'chwilio' a 'phrofi'. Yr awgrym gyda 'treiddio' yw fod Duw yn dod i'r aren/calon/meddwl/cydwybod, ac yn preswyllo yno, ond heb fynd mor bell â'r cyfieithiadau eraill lle mae'n eglurach ei fod yn cyflawni tasg benodol yno.

Ceir enghreifftiau eraill o briod-ddulliau sy'n perthyn i'r byd Hebreig hefyd yn ogystal â'r arenau. Ceir ambell esiampl yn y tabl isod, ac ymhob un o'r esiamplau hyn ac eithrio un, sef 73:26, cyfieithiad llythrennol a geir yn BWM ac idiomatig yn y ddau arall. Yn yr eithriad, yn BNET y ceir y cyfieithiad llythrennol ('craig') lle mae cyfieithiad BWM yn idiomatig. Mae'n werth nodi hefyd 'gwaed gwirion' yn 94:21 BWM isod, a 'gwirion' yn golygu 'di-fai', ystyr ddieithr i ddarllenwyr ifanc o bosibl.<sup>110</sup> I'r darllenwyr hynny, cymylir y cyferbyniad rhwng diniweidrwydd y bobl a'r gosb annheilwng a roddir iddynt gan 'lywodraethwyr anghyfiawn' yn y cyfieithiad hwn.

---

<sup>109</sup> Galarnad 3:13, BNET.

<sup>110</sup> 'Gwirion', *Geiriadur Prifysgol Cymru*, tt. 1668-9.

Priod-ddulliau Hebreig yn y Salmu			
Cyfeiriad	BWM	BCND	BNET
30:9	Pa fudd sydd yn fy <u>ngwaed</u> , pan ddisgynnwyf i'r ffos?	Pa les a geir o'm <u>marw</u> os disgynnaf i'r pwll?	Beth ydy'r pwynt os gwna i <u>farw</u> , a disgyn i'r bedd?
44:14	yn <u>rhai</u> i ysgwyd <u>pen</u> <u>arnynt</u>	gwnaethost ni'n <u>ddihareb</u>	gwneud <u>hwyl</u> am ein <u>pennau</u> ni
73:26	<u>nerth</u> fy nghalon	<u>cryfder</u> i'm calon	<u>graig</u> ddiogel
78:42	ni chofiasant ei <u>law</u> ef	nid oeddent yn cofio ei <u>rym</u>	anghofio <u>beth wnaeth e</u> (... pan ollyngodd nhw'n rhydd o afael y gelyn)
94:21 (noder ei fod yn perthyn i 30:9)	a <u>gwaed</u> gwirion a farnant yn euog	a chondemnio'r dieuog i <u>farw</u>	ac yn condemnio pobl ddiniwed i <u>farwolaeth</u>
Dynoda'r llwyd golau gyfieithiad llythrennol.			

Mae'r egwyddorion hyn yn mynd y tu hwnt i gyfieithu priod-ddulliau Hebreig yn unig, ond gyda'r testun yn gyffredinol hefyd. Mae'r BCND a BNET yn tueddu i gyfieithu'n idiomatig, a BWM yn llythrennol, ond gwelir ymhlith yr enghreifftiau isod ambell eithriad, yng nghyfieithiad BNET o Salm 35:15 a 69:14. Yn yr achosion hynny, mae BNET hefyd yn cyfieithu'n llythrennol, a'r BCND yn unig yn idiomatig.



Cyfieithu yn y Salmu			
Cyfeiriad	BWM	BCND	BNET
35:15	<u>rhwygasant</u> fi	yn fy <u>enllibio</u>	roedden nhw'n <u>llarpio</u>
65:2	atat ti y daw <u>pob</u> <u>crawd</u>	<u>pob un</u> (ond yn adnod 3)	boed i <u>bob person</u> byw ddod atat ti
69:14	gwareder fi oddi wrth <u>fy nghaseion</u>	achuber fi o'r <u>mwd</u> *	Achub fi rhag y <u>bobl sy'n</u> <u>fy nghasáu</u> i
141:8	na ad fy <u>enaid yn</u> <u>ddiymgeledd</u>	paid â'm <u>gadael heb</u> <u>amddiffyn</u>	paid a'm <u>gadael mewn</u> <u>perygl</u>
Dynoda'r llwyd golau gyfieithiad llythrennol.			
* Ceir nodyn ar waelod y ddalen: Tebygol. Hebraeg, <i>fi rhag y rhai sy'n fy nghasáu</i> .			

Mae gan ddarllenwyr egwyddorion y maent yn eu hoffi. Y mae rhai yn hoffi cyfieithiad idiomatig, fel bod yr ystyr yn eglur ar y darlleniad cyntaf. Mae rhai yn llawer mwy parod i dderbyn cyfieithiadau idiomatig pan nad oes llawer o ôl dehongli gan y cyfieithydd, gan fod dehongli yn golygu y gall ystyr gael ei gyfyngu neu ei newid. Mae eraill sydd eisiau cyfieithiad cwbl lythrennol, ynghyd â geiriadur ac esboniad mawr trwchus. Ond dylid nodi nad oes yr un sy'n gwbl lythrennol ym mhob agwedd, nac ychwaith nad oes un sydd mor idiomatig fel nad oes modd ei adnabod fel Beibl. Hyd yn oed o'u gosod yn fras ar raddfa lythrennol–idiomatig, mae llawer o eithriadau i bob rheol, ac un o gryfderau'r sefyllfa bresennol o ran y Gymraeg yw fod sawl dewis ar gael.

Agwedd bwysig iawn ar lawer o Salmau yw eu harddull, a'r nodweddion hynny sy'n eu gwneud yn unigryw. Mewn barddoniaeth wrth gwrs, ceir nodweddion arddull unigryw a chynnil, rhai sy'n cuddio mewn un llinell yn unig. Ond ceir rhai eraill sy'n asgwrn cefn i'r darn cyfan, ac mae hynny'n sicr yn wir am rai o'r Salmau. Un o'r amlycaf o ran hyn o beth yw'r Salm hir, Salm 119. Salm sy'n dilyn patrwm acrostig yw hon, ceir 22 o benillion gydag 8 adnod ymhob pennill. Mae'r 22 pennill yn dilyn 22 llythyren yr wyddor Hebreig, ac felly mae pob adnod o fewn pennill yn dechrau â'r un llythyren. Nid oes unrhyw ymgais i efelychu'r drefn honno yn y cyfieithiadau Cymraeg gan y byddai hynny'n amhosibl, ond ceir mwy o ymdrech yn BWM a BNET i gydnabod y strwythur, gan eu bod yn nodi llythyren yr wyddor Hebreig ar ddechrau pob pennill. Ceir amrywiadau o ran y sillafu, megis yr ail lythyren, 'Beth' yn BWM a 'Bet' yn BNET. Golyga presenoldeb y llythrennau hyn fod bwlch amlwg ar y ddalen rhwng y penillion, ac mae hynny, mewn gwirionedd, yn fwy defnyddiol na chael gwybod beth yw'r llythyren, i'r mwyafrif o ddarllenwyr Cymraeg beth bynnag. Dyma lle mae gwendid yn y BCND; er bod bylchau ar y ddalen rhwng y penillion, maent yn eithriadol o fach, yn llai nag un llinell o ysgrifen, gan olygu nad yw strwythur y penillion yn eglur o gwbl. Yn gyffredinol, mae'r BCND yn eglurach<sup>111</sup> o ran penillion a pharagraffau na BWM, nad yw'n gadael unrhyw fylchau yng ngweddill y cyfieithiad. Fodd bynnag, yn yr achos hwn, mae'r 176 o adnodau yn llifo o un i'r llall gyda'r unig orffwys i'r llygad gyda thoriadau'r colofnau a'r tudalennau, sydd heb fod yn cyd-fynd â diwedd y penillion wrth gwrs.

---

<sup>111</sup> Mae'r paragraffu'n tueddu i fod yn gliriach yn y BCND a BNET nag yn BWM. Ceir penawdau uwch ben adrannau yn y cyfieithiadau modern hefyd, sy'n medru hwyluso gwaith y darllenydd. Rhaid cofio, fodd bynnag, mai gwaith dyn yw'r penawdau a'r paragraffu, yn wahanol i'r testun gwreiddiol a ysgrifennwyd dan ysbrydoliaeth ddwyfol.

Salm arall sy'n unigryw iawn o ran ei harddull yw Salm 136. Yn y Salm hon, mae 26 o adnodau ac ailadroddir yr un cymal yn ail hanner pob adnod. Galwad i addoli a geir ar ddechrau pob adnod, dilyniant o resymau pam y dylid addoli Duw gyda chytgan yn dilyn. Awgrymir y byddai Salm o'r fath wedi cael ei chyfansoddi er mwyn i'r offeiriad ei harwain gyda rhannau agoriadol pob adnod, gyda chôr neu gynulleidfa yn ymateb gyda'r gytgan.<sup>112</sup> Dengys y tabl isod y cyfieithiadau o'r gytgan yn BCND a BNET.

Cytgan Salm 136	
BCND	BNET
oherwydd mae ei gariad hyd byth	mae ei haelioni yn ddiwedd

Mae'r nodwedd a gaiff ei disgrifio sy'n perthyn i Dduw yn amrywio fymryn yn y ddau gyfieithiad hyn, ac mae hynny'n wir am lawer o gyfieithiadau eraill hefyd. 'Trugaredd' yw'r gair a ddefnyddir yn BWM (ceir sylw pellach am gytganau BWM isod), 'cariad' yn y BCND a 'haelioni' yn BNET. Mewn cyfieithiadau Saesneg ceir 'mercy' mewn rhai megis y KJV, 'steadfast love' mewn rhai megis yr ESV, a 'love' mewn eraill megis yr NIV a'r GNB. Mae'r amrywiaeth hwn yn naturiol, ac er bod mân wahaniaethau rhwng ystyron pob un, mae pob un o'r geiriau hyn, ar lefel elfennol beth bynnag, yn trafod rhyw syniad tebyg. Mewn gwirionedd, mae'n bosibl mai cyfuniad o'r geiriau hyn sy'n cyfleu'r ystyr cyflawn, ond bod pob cyfieithydd wedi gorfod dewis un gair i grynhoi'r cyfan. Noda'r *Life Application Study Bible* wrth drafod defnydd yr NIV o'r gair 'love', 'God's love includes aspects of love, kindness, mercy, and faithfulness.'<sup>113</sup> Dyma un o'r enghreifftiau hynny, felly lle gall darllen mwy nag un

<sup>112</sup> Nodyn ar Salm 136, *ESV Study Bible* (Wheaton, Illinois, 2008), t. 1112.

<sup>113</sup> Nodyn ar Salm 136:1, *Life Application Study Bible*, (Eastbourne, 1991), t. 1047.

cyfieithiad gyfoethogi'r profiad, wrth gael gwedd wahanol ar gariad Duw oherwydd yr eirfa sy'n amrywio. Wrth ddarllen sawl cyfieithiad, mae'n bosibl y ceir darlun llawnach o'r nodwedd y mae'r Salm ydd yn ei disgrifio. Dylid nodi bod geiriau'r gytgan hon yn cael eu cofnodi yn 1 Cronicl 16:34 hefyd, ac yn hollbwysig, mae cytundeb rhwng pob cyfieithiad ag ef ei hun. Er bod pob cyfieithiad yn wahanol, mae pob cyfieithiad wedi defnyddio'r un geiriau yn union yn Salm 136 ac yn 1 Cronicl 16:34. Dyma beth hynod o bwysig i'w nodi, gan fod cytundeb a chysondeb o fewn cyfieithiad yn hollbwysig i'r profiad o ddarllen y Beibl cyfan fel un Ysgrythur sy'n cyflawni un nod. Fodd bynnag, yr hyn sy'n sefyll allan yn fwy na dim wrth ddarllen y cyfieithiadau Cymraeg o'r gytgan hon yn Salm 136 yw fod amrywiadau yng nghytgan BWM, nid o ran ystyr na geirfa bynciol, ond o ran y cysylltair ar ddechrau'r cymal, fel y dengys y tabl isod:

Cytganau Salm 136 BWM	
Cytgan	Adnodau
oherwydd ei drugaredd sydd yn dragywydd	1, 3, 5, 10-24.
oblegid ei drugaredd sydd yn dragywydd	2, 6.
canys ei drugaredd sydd yn dragywydd	4, 7-9, 25-26.

Dyma anghysondeb rhyfedd ac unigryw i'r cyfieithiad hwn. Ymddengys ei fod yn cadw'n gyson rhwng 7 a 9 gan fod y tair adnod honno yn trafod maes penodol, 7 – goleuadau mawrion, 8 – yr haul, 9 – y lleud a'r sêr, gan ddefnyddio 'canys' fel y cysylltair ar gyfer pob un. Yn dilyn hynny, ceir adran hir lle mae'n defnyddio 'oherwydd' yn unig, o adnod 10 i 24. Eto, ymddengys ei fod yn gwneud hyn er mwyn clymu'r adnodau at ei gilydd, adnodau lle canmolir Duw am achub yr Iddewon o'r Aifft ac am roi iddynt dir. Yna mae'n dychwelyd at 'canys' ar gyfer 25 a

26, er bod adnod 25 yn perthyn yn agosach at 23 a 24 mewn gwirionedd. Ond gan ddychwelyd at ddechrau'r Salm, nid yw'n defnyddio'r un cysylltair ddwywaith yn olynol o gwbl yn chwe adnod gyntaf y Salm. Ar sail gweddill y Salm, hawdd fyddai brysio i gasglu fod William Morgan am i'r darllenwyr weld y chwe adnod gyntaf fel chwe unigol, heb fod mewn grŵp neu grwpiau gyda'i gilydd. Fodd bynnag, nid yw hynny chwaith yn gwneud synnwyr, gan fod adnodau 2 a 3 yn perthyn yn agos iawn 'Diolchwch i Dduw y duwiau' a 'Diolchwch i Arglwydd yr arglwyddi' ac mae adnodau 4-6 yn perthyn yn agos i'w gilydd, a hefyd yn perthyn i adnodau 7-9 gan eu bod i gyd yn canmol Duw'r Creawdwr. Nid yw'n glir, felly, pam fod yr amrywiadau hyn yn y gyntaf, ceir awgrym eu bod weithiau yn gyson o fewn 'paragraffau' ond dro arall nid yw hynny'n wir. Mae'n bosibl mai er mwyn hyrwyddo dysgu'r adnodau y lluniwyd y cyfieithiad fel hyn ond mae'r diffyg patrwm yn awgrymu nad dyna'r rheswm chwaith. Beth bynnag yw'r rheswm, golyga nad yw'r Salm yn cael ei darllen fel y bwriadwyd iddi gael ei darllen, gan fod y Salmydd yn ailadrodd yr union eiriau yn fwriadol, wrth gwrs. BWM, o edrych ar y Beibl cyfan, yw'r cyfieithiad sy'n cadw agosaf at nodweddion barddonol y gwreiddiol ar y cyfan, ond yn yr achos hwn, nid yw hynny'n wir.

Mae pethau eraill i'w nodi yn y Salm hon hefyd, gan ddechrau gyda'r adnod gyntaf.

Salm 136:1a		
BWM	BCND	BNET
Clodforwch yr ARGLWYDD; canys da yw:	Diolchwch i'r ARGLWYDD am mai da yw,	Diolchwch i'r ARGLWYDD! Mae e mor dda aton ni!

Mae BWM yn unigryw gan mai'r gorchymyn yw 'Clodforwch'<sup>114</sup> yn hytrach na 'Diolchwch' fel yn y ddau gyfieithiad diweddaraf ac yn wir, fel y mwyafrif o gyfieithiadau Saesneg poblogaidd.<sup>115</sup> Yna mae BNET yn unigryw am ei fod yn dweud, 'Mae e mor dda aton ni!'<sup>116</sup> Cyflwynna hyn ystyr newydd a gwahanol, nid datganiad am ddaioni cyffredinol Duw ydyw ond am ei ddaioni yn benodol mewn perthynas â'i bobl. Eto, mae hyn yn unigryw, nid yn unig ymhlith y cyfieithiadau Cymraeg eraill ond ymhlith y rhai Saesneg poblogaidd hefyd, ac mae'r cyfieithiad arbennig hwn yn adlewyrchiad o ddylanwad y Saesneg, 'good to us'. Mae'r geiriau hyn hefyd, yn ogystal â'r gytgan, yn adlais o Salmau eraill, megis Salm 100:5, 106:1 a 107:1. Eto, mae cytundeb a chysondeb bron ym mhob achos, gyda'r unig eithriad yn dod yn 100:5 lle nad yw BNET yn cynnwys yr ychwanegiad arferol, 'aton ni'.

Ceir amrywiadau yn adnodau 2 a 3 hefyd, gan gynnwys enghraifft ddiddorol o briflythyren. Mae BWM a'r BCND yn defnyddio 'Duw y duwiau' ac 'Arglwydd yr arglwyddi'.<sup>117</sup> Mae'r cyfieithiadau hyn hefyd yn adleisio Deuteronomium 10:17, a hynny yn fwriadol, wrth gwrs. Fodd bynnag, yn BNET, ceir 'y Duw sy'n uwch na'r duwiau i gyd' ac 'Arglwydd yr Arglwyddi'.<sup>118</sup> Nid yw'r cyfieithiad hwn yn adleisio Deuteronomium, sydd wedi ei gyfieithu fel hyn yn BNET, 'Mae'r ARGLWYDD eich Duw yn fwy pwerus na'r duwiau eraill i gyd, ac yn Feistr ar bob meistr arall.'<sup>119</sup> Ceisia'r cyfieithiad esbonio ychydig ar yr ystyron, ond gan wneud hynny'n wahanol mewn gwahanol rannau o'r Ysgrythur. Golyga hyn fod y cyfieithwyr hefyd wedi rhoi her enfawr iddynt eu hunain i gyfleu ymadroddion sydd mor fyr ond â chymaint o

---

<sup>114</sup> Salm 136:1, BWM.

<sup>115</sup> 'Give thanks' sydd yn y KJV, NIV, ESV a'r GNB.

<sup>116</sup> Salm 136:1, BNET.

<sup>117</sup> Salm 136:2-3, BCND. Yr un geiriau sydd yn BWM ond gyda 'Duw' ac 'ARGLWYDD' mewn llythrennau breision.

<sup>118</sup> Salm 136:2-3, BNET.

<sup>119</sup> Deuteronomium 10:17, BNET.

ystyr, mewn ffordd sydd yn dal yn fyr ac yn dal i gwmpasu'r holl ystyr. Fodd bynnag, dywed y testun fod Duw, nid yn unig yn uwch ac yn fwy pwerus na'r duwiau eraill i gyd, ond ei fod yn Dduw arnynt, ac ni chaiff hynny ei gyfleu yn eglur yn BNET. Ynglŷn ag 'Arglwydd yr Arglwyddi', yr un geiriau sydd yma â'r cyfieithiadau hŷn ond fod 'Arglwyddi', hynny yw, yr arglwyddi daearol, yn cael priflythyren, fel petai'n deitl swyddogol ar grŵp penodol o bobl (yn debyg i Arglwyddi Tŷ'r Arglwyddi yn y Deyrnas Unedig gyfoes). Nid oes gan yr Hebraeg system gyfatebol i system y Gymraeg o ran priflythrennu enwau pobl a lleoedd, dechrau brawddegau ac yn y blaen, felly mae cyfieithwyr yn tueddu i ddilyn arferion y naill a'r llall, gan ddilyn confensiynau'r iaith darged yn y pen draw.<sup>120</sup> Yn y fan hon fodd bynnag, mae BNET wedi mynd yn groes i arferion cyfieithwyr eraill, mor groes ac unigryw i'r graddau yr awgrymir mai camgymeriad golygyddol ydoedd.

Yr hyn a welwn nesaf yn y Salm hon yw fod amrywiadau pan ddaw hi i amserau'r berfau, gyda BNET eto yn eithriad mewn sawl man. Yn adnod 4, cyfieithiad y BCND yw,

Y mae'n gwneud rhyfeddodau mawrion ei hunan,

oherwydd mae ei gariad hyd byth.<sup>121</sup>

Cyfieithiad BNET yw,

Fe ydy'r unig un sydd wedi gwneud gwyrthiau rhyfeddol

"Mae ei haelioni yn ddi-ddiwedd."<sup>122</sup>

---

<sup>120</sup> Dyma bwnc diddorol sydd heb gael llawer o sylw gan ysgolheigion yng Nghymru na thu hwnt. Mae cyfieithwyr yn dilyn trefn yr iaith darged gyda phethau cyffredinol megis priflythrennu dechrau brawddegau, ond mae geiriau sy'n cyfeirio at Dduw, yn enwedig cyfeiriadau amwys neu gynnil, yn medru hollti barn. Ni all golygwyr llyfrau emynau, er enghraifft, gytuno a ddylid roi priflythyren yn 'ef/efe' wrth gyfeirio at Dduw. Dylid nodi nad yw hynny'n arfer mewn cyfieithiadau o'r Beibl, fodd bynnag, penderfyniad dyn yw hynny, nid penderfyniad a wnaethpwyd dan ddylanwad dwyfol fel yr Ysgrythur wreiddiol.

<sup>121</sup> Salm 136:4, BCND.

<sup>122</sup> Salm 136:4, BCND.

Yr amser Presennol sydd yn cael ei gyfleu yma yn y cyfieithiadau hŷn, sy'n golygu fod y rhyfeddodau mawrion yma'n parhau i gael eu cyflawni. Ar y llaw arall, Duw sydd 'wedi gwneud gwyrthiau rhyfeddol' a geir yn BNET, felly'r amser Perffaith a ddisgrifir. Yn yr amser hwn, dywedir bod y gwyrthiau rhyfeddol wedi digwydd rywbryd yn y gorffennol, ond nid ar unrhyw adeg benodol yn y gorffennol. Yna yn adnodau 5 i 7, lle mae'r cyfieithiadau hŷn yn defnyddio amser Gorffennol y ferf (gwnaeth y nefoedd... taenodd y ddaear... gwnaeth oleuadau...)<sup>123</sup> mae BNET yn parhau i ddefnyddio'r amser Perffaith.

Fe sydd wedi creu'r nefoedd drwy ei allu.

“Mae ei haelioni yn ddi-ddiwedd.”

Fe sydd wedi lledu'r ddaear dros y dyfroedd.

“Mae ei haelioni yn ddi-ddiwedd.”

Fe sydd wedi gwneud y goleuadau mawr –

“Mae ei haelioni yn ddi-ddiwedd.”<sup>124</sup>

Eto felly, digwyddodd y digwyddiadau hyn, yn ôl BNET, yn y gorffennol ond ni ddywedir pryd yn y gorffennol, dim ond ar amser amhenodol yn y gorffennol. Mae'r cyfieithiadau hŷn yn eglurach gan eu bod yn cyfleu eu bod wedi digwydd ar un amser penodol yn y gorffennol, sydd yn cyd-fynd â dysgeidiaeth y Beibl, wrth gwrs, mai 'yn y dechreuad y creodd Duw y nefoedd a'r ddaear'.<sup>125</sup> Yn yr adnodau sy'n dilyn, mae BNET yn troi at amser Gorffennol y ferf, gan gynnwys 'fe wnaeth' yn adnodau 10, 13, 15 ac 17. Rhaid cwestiynu felly pam na

---

<sup>123</sup> Salm 136:5-7, BCND.

<sup>124</sup> Salm 136:5-7, BNET.

<sup>125</sup> Genesis 1:1.



ddefnyddiwyd 'fe wnaeth' yn yr adnodau blaenorol, ac yn hytrach na dweud 'fe sydd wedi creu'r nefoedd...', ddweud yn syml iawn, 'fe wnaeth y nefoedd...'

Ceir enghraifft ddiddorol o wahanol egwyddorion yn cael eu mabwysiadu wrth geisio cyfieithu ymadroddion idiomatig Hebraeg yn y Salm hon hefyd. Yr adnod dan sylw yw adnod 15. Y geiriau yn y BCND yw, 'ond taflodd [Duw] Pharo a'i lu i'r Môr Coch',<sup>126</sup> ac yn BNET, 'Fe wnaeth daflu'r Pharo a'i fyddin i'r Môr Coch'.<sup>127</sup> Fodd bynnag, nid 'taflu' yw'r ferf yn BWM, ond yn hytrach, 'ysgytiodd' – 'ysgytiodd Pharo a'i lu yn y môr coch',<sup>128</sup> a'r rheswm am hynny yw mai dyna'r cyfieithiad llythrennol o'r Hebraeg. Penderfynwyd y byddai'n werth ceisio cyfieithu'r ymadrodd i'r Gymraeg yn hytrach na cheisio cyfleu ei ystyr, fel y gwnaethpwyd mewn cyfieithiadau diweddarach. Cyfeirio mae'r adnod hon at ddigwyddiad a gaiff ei gofnodi yn llyfr Exodus, a diddorol nodi y ceir berfau gwahanol yn y ddau fan sy'n disgrifio'r hanesyn ym mhob un o'r tri chyfieithiad. Yn BWM, 'dymchwelodd'<sup>129</sup> ydyw yn Exodus ac 'ysgytiodd'<sup>130</sup> yn y Salm; yn y BCND, 'bwriodd'<sup>131</sup> sydd yn Exodus a 'taflodd'<sup>132</sup> yn y Salm; ac yn BNET 'boddi'<sup>133</sup> sydd yn Exodus a 'taflu'<sup>134</sup> yn y Salm. Noda'r *ESV Study Bible*<sup>135</sup> mai 'shook off' yw'r cyfieithiad llythrennol o'r ddwy enghraifft, gan beri i rywun gwestiynu pam fod y cyfieithiadau Cymraeg wedi defnyddio geiriau gwahanol? Gall defnydd cyson o'r un geiriau gyfrannu'n fawr

---

<sup>126</sup> Salm 136:15, BCND.

<sup>127</sup> Salm 136:15, BNET.

<sup>128</sup> Salm 136:15, BWM.

<sup>129</sup> Exodus 14:27, BWM.

<sup>130</sup> Salm 136:15, BWM.

<sup>131</sup> Exodus 14:27, BCND.

<sup>132</sup> Salm 136:15, BCND.

<sup>133</sup> Exodus 14:27, BNET.

<sup>134</sup> Salm 136:15, BNET.

<sup>135</sup> *ESV Study Bible*, tt. 168, 1113.

at yr ymwybyddiaeth o gytundeb perffaith sydd rhwng yr Ysgrythur gyfan â hi ei hun a'i gwneuthuriad fel un darn o waith dan un dylanwad dwyfol.

Y sylw olaf ar y Salm hon yw ar adnod 22, lle disgrifir Israel, hynny yw pobl Dduw, fel 'gwas' Duw. Dyma ddarlun sy'n codi mewn sawl man yn yr Ysgrythur; yn ogystal â bod unigolion yn 'weision', mae'r bobl gyda'i gilydd yn 'was'. Yn Eseia 41:8, mae Duw yn cyfarch pobl Israel, hynny yw y genedl gyfan, gan ddweud, 'Ti, Israel, yw fy ngwas',<sup>136</sup> neu yn BNET, 'Ond Israel, ti ydy fy ngwas i'.<sup>137</sup> Gan ddychwelyd at Salm 136 felly, sut mae'r gwahanol gyfieithiadau yn trin y syniad hwn? Fel y byddai un yn dychmygu, mae'r ddau gyfieithiad hyn yn dilyn y gwreiddiol gan drafod 'ei was Israel'<sup>138</sup> a thrwy hyn, gyfrannu at y ddelwedd fod Israel fel pobl yn was i Dduw. Ar y llaw arall, yr hyn a geir yn BNET yw, 'pobl Israel, sy'n ei wasanaethu'.<sup>139</sup> Yn gyntaf, gellir dadlau nad yw gwasanaethu rhywun yn gyfystyr â bod yn was i rywun, ond yn ail ac yn fwy arwyddocaol, o bosibl, ni cheir y cyfeiriad hwnnw at Israel fel uned gyfan, unigol, yn yr un ffordd ag yn y cyfieithiadau hyn. Yr enw unigol, 'gwas', sy'n amlygu hynny yn y cyfieithiadau hyn, ond yr unig awgrym a geir o hynny yn BNET yw 'pobl Israel'. Mae 'pobl' yn medru bod yn enw benywaidd unigol am grŵp o bobl, megis cenedl, llwyth neu hil, ond mae hefyd yn enw lluosog, ac ar lafar caiff ei ddefnyddio'n amlach o lawer fel enw lluosog.<sup>140</sup> Y duedd, felly, yw darllen a deall pobl fel enw lluosog, ond hyd yn oed i'r rhai sydd yn ymwybodol o ddwy ystyr bosibl yr enw, nid yw'n eglur pa un a olygir yn yr adnod hon. Yn y Gymraeg, nid oes bannod amhenodol i ddiddymu amwysedd fel sydd yn yr iaith

---

<sup>136</sup> Eseia 41:8, BCND.

<sup>137</sup> Eseia 41:8, BNET.

<sup>138</sup> Salm 136:22, BWM a BCND.

<sup>139</sup> Salm 136:22, BNET.

<sup>140</sup> Peter Wynn Thomas, *Gramadeg y Gymraeg* (Caerdydd, 1996), tt. 153-4.

Saesneg, lle gellir gwahaniaethu'n haws o lawer rhwng *'people'* ac *'a people'*. Mae 'pobl' yn dod â'i heriau unigryw ei hun felly, ac am hynny mae'r cyfieithiadau hyn yn cyfleu'r ystyr yn gliriach. Er bod mannau eraill yn y Beibl yn disgrifio unigolion o fewn pobl Dduw fel gweision, y bobl yn gyfan a gaiff ei disgrifio yma, a hynny fel gwas Duw.

Math arall o Salm yn ôl ei harddull yw Salmau 'Molwch yr Arglwydd', fel y'i gelwir yn *Y Beibl Canllaw*<sup>141</sup> Salmau yw'r rhain sydd yn agor gyda'r gorchymyn hwnnw, ac yn aml sydd yn ailadrodd yr ymadrodd dro ar ôl tro. Ceir llawer o'r rhain tua diwedd y casgliad cyfan, ac mae'r llyfr yn cloi gyda phump o'r Salmau hyn. Dyma'r Salm olaf (150) yn ôl y BCND:

Molwch yr ARGLWYDD.

Molwch Dduw yn ei gysegr,

molwch ef yn ei ffurfafen gadarn.

Molwch ef am ei weithredoedd nerthol,

molwch ef am ei holl fawredd.

Molwch ef â sain utgorn,

molwch ef â nabl a thelyn.

Molwch ef â thympan a dawns,

molwch ef â llinynnau a phibau.

Molwch ef â sŵn symbalau,

molwch ef â symbalau uchel.

Bydded i bopeth byw foliannu'r ARGLWYDD.

---

<sup>141</sup> 'Llyfr y Salmau', *Y Beibl Canllaw* (Bangor, 2015), t. 568.

## Molwch yr ARGLWYDD.<sup>142</sup>

Ceir cyfieithiad tebyg yn BWM, gyda'r gwahaniaeth cywair arferol yn ogystal â mân wahaniaethau yn adnod 2 lle ceir, 'Molwch ef am ei gadernid',<sup>143</sup> yn hytrach na 'molwch ef am ei weithredoedd nerthol'; ac adnod 6 lle ceir yr ymadrodd a fabwysiadwyd gan emynwyr,<sup>144</sup> 'pob perchen anadl'.<sup>145</sup> Fodd bynnag, fel y Salmau eraill sy'n perthyn i'r un casgliad, agorir y Salm hon gyda'r datganiad cyffredinol, 'Molwch yr ARGLWYDD', a dilynir hynny gan res o gwpledi lle'r ailadroddir y gorchymyn gyda rheswm neu gyfarwyddyd pellach bob tro. Mae'r cwpledi i'w gweld yn glir yn y tri chyfieithiad gyda rhifau'r adnodau yn dynodi'r cwpledi, ac mae'r BCND a BNET yn rhoi llinell newydd i bob llinell hefyd. Yn wahanol i hynny, llinell i bob adnod sydd yn BWM ac felly defnyddir colonau i rannu'r cwpledi'n ddwy ran. Ceir dwy linell i bob adnod yn y cyfieithiadau modern, felly, ond tair yn yr adnod gyntaf oherwydd y datganiad agoriadol, ac mae hyn yn batrwm cyson yn Salmau 'Molwch yr Arglwydd'. Fodd bynnag, y gwahaniaeth amlycaf a phwysicaf rhwng y cyfieithiadau yn eu hymdriniaeth â'r Salmau hyn yw sut y cyfieithir y frawddeg gyntaf, y datganiad agoriadol hwnnw, 'Molwch yr ARGLWYDD'. Dyna'r geiriau a geir yn y BCND ac yn BWM hefyd, ond ceir cyfieithiad gwahanol yn BNET, neu yn hytrach, ni cheir cyfieithiad o gwbl! 'Haleliwia!' <sup>146</sup> a geir yn BNET, sef Cymreigeiddiad o'r Hebraeg, 'hallelu-yah'.<sup>147</sup> Ystyr y ferf 'hallel' yw 'moli', a dynoda 'yah' enw personol Duw, YHWH, a ynganir 'Yahweh' neu 'Jehofa' ac a gyfieithir 'ARGLWYDD'. Ystyr 'Haleliwia' felly yw 'Molwch yr Arglwydd'. Yn wahanol i'r mwyafrif o achosion, ni chynigia

---

<sup>142</sup> Salm 150, BCND.

<sup>143</sup> Salm 150:2, BWM.

<sup>144</sup> Er enghraifft, 'Dyrchafer enw Iesu cu' gan Ieuan Glan Geirionydd, 235 yn *Caneuon Ffydd* (2004).

<sup>145</sup> Salm 150:6, BWM.

<sup>146</sup> Salm 150:1, BNET.

<sup>147</sup> Nodyn ar Salm 146, *ESV Study Bible*, t. 1124.

BNET gyfieithiad syml mewn Cymraeg cyffredin ar lafar, gan ddefnyddio'r hyn y gellir ei ddisgrifio fel 'jargon' Cristnogol. Heb esboniad, y mae'n anodd deall beth yw ystyr y gair, ac mae hynny'n mynd yn groes i'r egwyddorion a fabwysiadwyd yn gyffredinol wrth lunio BNET. Nid yw 'Haleliwia' yn air anghyfarwydd o gwbl, ond yr hyn sy'n anghyfarwydd yw ei wir ystyr. Defnyddir y gair yn aml i olygu rhywbeth tebyg i 'diolch byth', mewn sefyllfaoedd lle byddai llawer o Gymry'r gorffennol wedi dweud 'Haleliwia' i olygu ei wir ystyr. Fodd bynnag, wrth i Gymru ddod yn fwyfwy seciwlar, mae'r gair wedi goroesi, ond nid gorchymyn i foli'r Arglwydd a geir mewn gwirionedd yn y mwyafrif o achosion. Pam felly y bu i BNET ddefnyddio'r gair hwn? Un esboniad yw am fod llawer o ganeuon mawl modern yn defnyddio'r gair yn rheolaidd, yn fwy rheolaidd o lawer nag emynau traddodiadol. Lle mae emynau traddodiadol yn tueddu i fod yn rhes o benillion ar un mesur, mae caneuon mawl cyfoes yn tueddu i fod yn gasgliad o benillion a chytganau, a defnyddir 'Haleliwia' yn rheolaidd yn y cytganau hynny. Mewn ymgais i atgoffa addolwyr mai gair o'r Ysgrythur ydyw'r gair hwn sy'n cael ei ganu'n gynyddol aml, mae'n bosibl fod cyfieithwyr BNET wedi penderfynu ei gynnwys yn y cyfieithiad. Rheswm arall, o bosibl, yw er mwyn sicrhau cysondeb trwy'r Ysgrythur. Nid yw'r weithred o foli'r Arglwydd yn perthyn i oes arbennig, nac i adran arbennig yn y Beibl. Wrth gwrs, mae natur y Salmau yn golygu bod caniadau fel hyn yn digwydd yn rheolaidd yma, ond ceir datganiadau o'r fath mewn rhannau eraill o'r Ysgrythur hefyd. Un rhan bwysig o ran hyn yw llyfr y Datguddiad, llyfr olaf y Beibl. Wrth gofnodi gweledigaeth a gafodd o'r nefoedd, dywed Ioan, yn ôl BNET,

Wedyn clywais rywbeth oedd yn swnio'n debyg i dyrfa enfawr o bobl yn y nefoedd yn gweiddi:

"Haleliwia!

Duw sy'n achub;

a fe biau'r anrhydedd a'r nerth!<sup>148</sup>

Clywir yr un floedd yn y nefoedd ar ddiwedd y Beibl ag a glywir yn llyfr y Salmu, ac mae'n hynod o addas a phriodol fod yr un gair yn union yn cael ei ddefnyddio yn y ddau fan. Yr hyn sy'n nodedig yw mai BNET yw'r unig un sy'n cynnig cysondeb yn yr achos hwn. 'Molwch yr Arglwydd' a ddefnyddir yn y Salmu gan y ddau gyfieithiad arall, ond y maent hwythau hefyd yn defnyddio amrywiad ar 'Haleliwia' yn y Datguddiad. 'Aleliwia'<sup>149</sup> a geir yn BWM a 'Halelwia'<sup>150</sup> yn y BCND. Mae'r amrywiadau'n ddiddorol hefyd, yn enwedig amrywiad y BCND. Yr hyn sy'n unigryw am amrywiad y BCND yw fod yr 'i' gyntaf wedi ei gollwng, 'Halelwia' yn hytrach na 'Haleliwia'. Gan gofio bod BWM yn cynnwys yr 'i', bod y llyfrau emynau yn cynnwys yr 'i',<sup>151</sup> a bod dweud yr 'i' yn arferedig ar lafar, anodd yw dyfalu pam fod y BCND wedi ei hepgor. Y sefyllfa amlycaf lle na chynhwysir yr 'i' yw dan arweiniad arweinyddion cerddorol, mewn côr neu gymanfa, pan fônt hwy yn aml yn awyddus i'r cantorion ynganu 'Halelwia'. Oni bai am hynny, ac er mwyn bod yn debycach i'r Saesneg, ni welaf unrhyw reswm teilwng arall dros hepgor yr 'i'. Fodd bynnag am hynny, mae'r modd y mae'r gwahanol gyfieithiadau yn ymdrin â'r gair hwn yn ddiddorol, ac er bod BNET yn tueddu i gynnwys llai o jargon, dewisa fod yr unig un i gynnwys 'Haleliwia' yn y Salmu. Amlyga hyn y berthynas gydag addolwyr ymhob oes ac wrth gwrs, nid oes pwrpas cael tri chyfieithiad sydd yn union yr un fath. Gan fod y cyfieithiadau blaenorol wedi eu cyfieithu i'r Gymraeg, pam lai cynnwys y term 'Haleliwia'

---

<sup>148</sup> Datguddiad 19:1, BNET.

<sup>149</sup> Datguddiad 19:1, BWM.

<sup>150</sup> Datguddiad 19:1, BCND.

<sup>151</sup> Gan gynnwys *Llyfr Emynu y Methodistiaid Calfinaidd a Wesleidd* (1929) a *Llawlyfr Moliant Newydd y Bedyddwyr* (Abertawe, 1956).

yn y cyfieithiad diweddaraf. Mae'n werth nodi hefyd fod gweddill y salmau hyn yn llawn o'r ferf 'molwch' ac felly hyd yn oed pan fo'r datganiad agoriadol yn ddieithr, o bosibl, mae gweddill y Salm mewn iaith fwy cyfarwydd ac mae'n cyfiawnhau ac yn ymhelaethu ar y datganiad agoriadol.

Cyn cloi'r bennod hon, dylid nodi ambell beth ynglŷn â'r teitlau a roddir i'r Salmau yn y gwahanol gyfieithiadau. Yn gyffredinol, nid yw'r penawdau a welir mewn argraffiadau diweddar o'r Beibl yn rhai sy'n perthyn i'r testun gwreiddiol ac nid ystyrir hwy felly yn waith ysbrydoliaeth ddwyfol. Cyfieithwyr a golygyddion sydd wedi ychwanegu penawdau a chrynodebau mewn cyfieithiadau modern megis y BCND a BNET er mwyn hwyluso profiad y darlennydd. Canlyniad hyn yw y gall penawdau amrywio'n eang o gyfieithiad i gyfieithiad, a gwelir yn aml ddehongliad y cyfieithwyr. Gall lleoliadau'r penawdau amrywio hefyd. Gall un cyfieithydd rannu darn o testun yn ddau a gosod pennawd yn y canol, lle bo cyfieithydd arall yn cadw at un paragraff hir dan un pennawd. Mae manteision ac anfanteision i hyn; gall hwyluso'r gwaith o ddod o hyd i ddarn arbennig o destun, ond gall hefyd darfu ar y darlleniad naturiol o'r testun. Y perygl mwyaf o ychwanegu penawdau dynol yw y gallant roi camargraff o gynnwys neu ystyr y testun sy'n dilyn. Fodd bynnag, yn llyfr y Salmau, ceir penawdau i rai Salmau sy'n perthyn i'r testun gwreiddiol, Hebraeg, ac sydd wedi cael eu cyfieithu gan ddilyn yr un egwyddorion, mae'n debyg, â gweddill y testun. Dyma gymhariaeth o'r modd y defnyddia'r cyfieithiadau y penawdau ysbrydoledig hyn yn y Salmau, o gymharu â gweddill y cyfieithiadau.

	Testunau gwreiddiol	BWM	BCND	BNET
Y Salmau	Penawdau ysbrydoledig	Penawdau ysbrydoledig	Penawdau ysbrydoledig	Penawdau ysbrydoledig a phenawdau dynol
Y 65 llyfr arall (yn gyffredinol)	Dim penawdau	Dim penawdau	Penawdau dynol	Penawdau dynol

Mae BWM yn gyson yma â'i dueddiadau cyffredinol, sef efelychu'r testun gwreiddiol gystal â phosibl. Yr hyn sy'n ddiddorol am y BCND yw ei fod yn defnyddio penawdau wedi eu hychwanegu ar gyfer 65 llyfr arall y Beibl, ond yn defnyddio'r penawdau ysbrydoledig yn unig ar gyfer y Salmau; tra bo BNET yn defnyddio'r penawdau ysbrydoledig yn ogystal â phenawdau dynol ar gyfer y Salmau.<sup>152</sup> Yn y tabl isod, gwelir ambell enghraifft o lyfr y Salmau.

Salm	BWM	BCND	BNET
4	I'r Pencerdd ar Neginoth, Salm Dafydd	I'r Cyfarwyddwr: ag offerynnau llinynnol. Salm. I Ddafydd.	I'r arweinydd cerdd: Salm i gyfeiliant offerynnau llinynnol. Salm Dafydd.

<sup>152</sup> Cymharer hyn â'r *Good News Bible*, sydd ar y cyfan yn dilyn patrymau tebyg iawn i BNET. Fodd bynnag, yn llyfr y Salmau yn y cyfieithiad hwnnw, ceir penawdau dynol ar frig pob Salm, gyda chyfieithiadau o'r penawdau ysbrydoledig mewn troednodiadau. Ni ddilynodd unrhyw gyfieithiad Cymraeg y patrwm rhyfedd hwn, sy'n iselhau testun o ysbrydolrwydd ddwyfol i droednodiadau.



5	I'r Pencerdd ar Nehiloth, Salm Dafydd	I'r Cyfarwyddwr: ar ffliwtiau. Salm. I Ddafydd.	I'r arweinydd cerdd: Salm i gyfeiliant ffliwt. Salm Dafydd.
6	I'r Pencerdd ar Neginoth ar y Seminith, Salm Dafydd	I'r Cyfarwyddwr: ag offerynnau llinynnol, ar Seminith. Salm. I Ddafydd.	I'r arweinydd cerdd: Salm i gyfeiliant offerynnau llinynnol. Ar yr wythfed. Salm Dafydd.
7	Sigaion Dafydd, yr hwn a ganodd efe i'r ARGLWYDD oblegid geiriau Cws mab Jemini.	Siggaion. I Ddafydd, a ganodd i'r ARGLWYDD ynglŷn â Cus o Benjamin.	Salm alar gan Dafydd. Canodd hi i'r Arglwydd am Cwsh, un o lwyth Benjamin.
8	I'r Pencerdd ar Gittith, Salm Dafydd.	I'r Cyfarwyddwr: ar y Gittith. Salm. I Ddafydd.	I'r arweinydd cerdd: Salm ar yr alaw "Y Gwinwryf". Salm Dafydd.
16	Michtam Dafydd.	Michtam. I Ddafydd.	Wedi'i chofnodi gan Dafydd.
18	I'r Pencerdd, Salm Dafydd, gwas yr ARGLWYDD, yr hwn a	I'r Cyfarwyddwr: I Ddafydd, gwas yr ARGLWYDD, a	I'r arweinydd cerdd: Salm gan Dafydd, gwas yr Arglwydd.

	lefarodd wrth yr	lefarodd eiriau'r	Canodd eiriau'r gân
	ARGLWYDD eiriau y	gerdd hon wrth yr	hon ar ôl i'r
	gân hon, yn y dydd y	ARGLWYDD y diwrnod	Arglwydd ei achub o
	gwaredodd yr	y gwaredodd yr	ddwylo ei holl
	ARGLWYDD ef o law ei	ARGLWYDD ef o law ei	elynion, ac o afael
	holl elynion, ac o	elynion ac o law	Saul. Dyma
	law Saul: ac efe a	Saul. A dywedodd:	ddwedodd e:
	ddywedodd,		

Gwelir nad yw BWM yn cyfieithu termau technegol o gwbl, ac eithrio 'Pencerdd'. Dewis diddorol yw 'pencerdd' o ystyried y gall gyfeirio at fardd yn ogystal â cherddor; a chan nad oes yr un term arall wedi'i gyfieithu, nid yw'n gwbl amlwg mai cyfarwyddiadau cerddorol yw'r rhain o gwbl. Mae'r BCND yn cyfieithu rhai termau, ond nid popeth. Gwelir yn Salmu 4-6 y modd yr ysgrifennir offerynnau llinynnol a fflwiwtiau, yn hytrach na'r geiriau Hebraeg, ond eto bod un term Hebraeg yn Salm 6, ac eto yn Salm 7, 8 ac 16. Yna os yw BWM ar un pen o'r sbectrwm a'r BCND rywle yn y canol, mae BNET yn glynu at ben arall y sbectrwm ac yn mentro cyfieithu popeth, gan gynnwys yr holl dermau technegol. Gellir tybio bod peth dehongli yma, os nad dyfalu, gan y ceir cytundeb ymysg llawer na ellir bod yn gwbl sicr beth yw ystyron ambell air. Ar gyfer 'Seminith',<sup>153</sup> 'Siggaion',<sup>154</sup> a 'Gittith',<sup>155</sup> noda'r ESV, 'Probably a musical or liturgical term',<sup>156</sup> er ei fod yntau yn cyfieithu fflwiwtiau ac offerynnau llinynnol yn debyg i'r

<sup>153</sup> Salm 6.

<sup>154</sup> Salm 7.

<sup>155</sup> Salm 8.

<sup>156</sup> Ar dri achlysur, *ESV Study Bible*, tt. 946-8.

BCND a BNET. Cryfder y dull hwn yw ei fod yn cyfieithu lle bo modd bod yn gymharol hyderus o'i ystyr, a bod y rhai llai eglur eu hystyr yn cael eu nodi fel awgrymiadau yn y troednodiadau.

Un nodwedd unigryw yn y penawdau hyn yn y BCND yw 'Salm. I Ddafydd'. Gall yr arddodiad 'i' roi camargraff o awduraeth a phwrpas y Salm, gan y defnyddir yr arddodiad fel arfer yng nghyd-destun ysgrifennu i olygu rhywbeth tebyg i 'ar gyfer'. Ped ysgrifennid cyfrol goffa neu gerdd fawl 'i William Salesbury', disgwyliid mai'r testun neu'r gwrthrych fyddai Salesbury, ac nad ef a'i hysgrifennodd. Ond yng nghyd-destun y Salmau, golyga 'Salm. I Ddafydd' mai ef yw eu hawdur a bod geiriau o'r fath felly, i Ddafydd, yn Salm, sef cân o fawl, i Dduw. Tra bo'r darlennydd yn dod i arfer â'r dull hwn yn go gyflym, mae'n chwithig, os nad yn gamarweiniol, y tro cyntaf, ac mae 'Salm Dafydd' BWM a BNET yn eglurach o lawer.

Penderfynwyd cynnwys pennawd Salm 18 yn y tabl uchod hefyd, yn unig er mwyn dangos y gall ystyron amrywio rywfaint rhwng cyfieithiadau. Y weithred o lefaru neu ganu sydd dan sylw, a'r modd y mae BWM a'r BCND yn nodi bod hyn yn digwydd yn benodol 'wrth yr ARGLWYDD', hynny yw bod y Salmydd yn cyfarch Duw ei hun. Mae BNET yn dal i gyfeirio at 'yr Arglwydd', ac mae'r pennawd yn dal i fod yn amlwg mai ymateb i weithredoedd yr Arglwydd a wna'r Salmydd, ond nid yw'n benodol mai canu i'r Arglwydd y mae, hynny yw gall fod yn canu i ddefaid. Mae BWM a'r BCND yn glir fod Dafydd yn canu *i'r Arglwydd am yr Arglwydd*, tra mai *am yr Arglwydd* yn unig sy'n glir yn BNET. Ni thybir bod unrhyw fwriadau gan y cyfieithydd yn hyn o beth, ond dengys fod y math o amrywiaethau sy'n bodoli'n aml rhwng y cyfieithiadau hefyd i'w gweld yn y penawdau ysbrydoledig hyn. Mae'r Salm hon hefyd yn amlygu'r gwahaniaeth rhwng y penawdau ysbrydoledig a'r rhai a ychwanegwyd yn BNET. Y pennawd wedi ei ychwanegu yw 'Dathlu gofal Duw', sy'n benodol ynglŷn â'r cynnwys yn hytrach na'r cyd-destun neu'r cyfarwyddiadau cerddorol.

Yr hyn sy'n nodedig am y tri chyfieithiad hyn o'r Salmau yw fod gan bob un ei gryfderau, fel nad oes dim un ohonynt yn addas i rai pobl yn unig ac un arall yn addas i bobl eraill. Hyd yn oed i rywun sydd wedi darllen Salmau William Morgan ers pedwar ugain mlynedd neu fwy, mae gan BNET rywbeth i'w gynnig, ac mae cael dau ddarlleniad (neu ragor) o adnodau neu adrannau yn medru cyfoethogi'r profiad o'u darllen. Yn gyffredinol, gellir dweud fod BWM yn dynwared nodweddion llenyddol y Salmau gwreiddiol yn well na'r chyfieithiadau diweddarach, ond er hynny mae sawl esiampl lle mae'r BCND neu BNET yn medru rhagori o ran hynny. I ryw raddau, gellir dadlau bod pwysau ar gyfieithwyr BNET i sicrhau ei fod yn wahanol i'r rhai blaenorol, nid aralleiriad ydyw ac nid oes pwrpas cael tri chyfieithiad sy'n cynnwys llawer o'r un geiriau ac ymadroddion. Rhydd hynny ryddid i'r cyfieithwyr gyfieithu pethau mewn ffordd wahanol felly, ac mae'r enghreifftiau hynny, megis 'Haleliwia' yn hytrach na 'Molwch yr Arglwydd', yn golygu bod y tri chyfieithiad yn fuddiol i'r darllenydd law yn llaw.

## 4. Eseia

Un o themâu mawr yr Hen Destament yw'r proffwydoliaethau. Cyfeiria Thomas Charles at ddyfyniad gan y diwinydd o Iseldirwr, Herman Witsius, 'Proffwydoliaeth yw gwybodaeth a datguddiad o ddirgeledigaethau, na wybu dyn trwy ein synwroldeb ei hun, na thrwy adroddiad arall, ond trwy ddatguddiad dwyfol a goruwch-naturiol yn unig.'<sup>157</sup> Tybir yn aml mai rhagfynegi'r hyn sydd i ddod yw swm a sylwedd y weithred o broffwydo, a thra bo hynny'n rhan o'r weithred, mae hi'n ehangach mewn gwirionedd. Gwaith y proffwyd, felly, yw rhannu neges sydd gan Dduw i ddynion, a'r mwyaf nodedig o broffwydi'r Hen Destament, o bosibl, yw Eseia. Yn wir, gwelir y geiriau isod ym mroliant un esboniad dylanwadol ar y llyfr,

The book of Isaiah is perhaps the most compelling of all Old Testament prophecy. No other prophet rivals Isaiah's brilliance of style, powerful imagery and clear vision of the messianic hope.<sup>158</sup>

Dyma her unigryw i'r cyfieithwyr felly, gyda'r darluniau penodol a'r arddull gyfoethog yn ychwanegu at her sydd eisoes yn un sylweddol. Dyma'r cyntaf o'r proffwydoliaethau yn nhrefn draddodiadol yr Hen Destament (nid yn gronolegol)<sup>159</sup> yn ogystal â'r hwyaf. Mae'r llyfr hwn ymhlith llyfrau'r Hen Destament y dyfynnir ohonynt amlaf yn y Testament Newydd hefyd, gyda'r Salmau ac Eseia yn cael eu dyfynnu'n llawer amlach nag unrhyw lyfrau eraill,<sup>160</sup> ac Eseia yn cael ei ddyfynnu'n amlach na'r holl broffwydi eraill gyda'i gilydd.<sup>161</sup> Priodol, felly, yw rhoi'r

---

<sup>157</sup> Thomas Charles, 'Proffwydoliaeth' yn *Geiriadur Ysgrythurol* (Wrecsam, 1885), t. 747.

<sup>158</sup> Broliant i J. Alec Motyer, *Tyndale Old Testament Commentaries Volume 20 – Isaiah* (Nottingham, 2009).

<sup>159</sup> Gweler llinell amser yn *ESV Study Bible* (Wheaton, Illinois, 2008), t. 1232.

<sup>160</sup> Gweler tabl o'r holl gyfeiriadau at yr Hen Destament yn y Testament Newydd yn *Ibid.*, tt. 2608-11.

<sup>161</sup> 'Llyfr Eseia' yn *Y Beibl Canllaw* (Bangor, 2015), t. 765.

llyfr arbennig hwn o dan y chwyddwydr yn y bennod hon ac ystyried ambell nodwedd ar amryw o gyfieithiadau.

O ran arddull, ar ffurf barddoniaeth yr ysgrifennwyd y rhan fwyaf o'r llyfr hwn, ac mae'n ddiddorol nodi bod y BCND a BNET yn ei osod ar ffurf barddoniaeth. Dilyn ei drefn arferol o ddechrau pob adnod ar linell newydd a wna BWM, sy'n golygu na chyflëir y ffurf yn y cyfieithiad, o ran y diwyg beth bynnag, ac ni wahaniaethir rhwng gwahanol ffurfiau llenyddol yn niwyg y cyfieithiad cyfan. Ond tra bo'r BCND a BNET yn edrych yn debycach i farddoniaeth, mae'n wir am y llyfr hwn, fel llyfr y Salmau, fod BWM yn swnio yn debycach i farddoniaeth.

Ar ddechrau'r llyfr, ceir brawddeg o gyflwyniad cyn dod at y farddoniaeth:<sup>162</sup>

BWM	BCND	BNET
Gweledigaeth Eseia mab Amos, yr hon a welodd efe am Jwda a Jerwsalem, yn nyddiau Usseia, Jotham, Ahas, a Heseceia, brenhinoedd Jwda.	Dyma'r weledigaeth a ddaeth i Eseia fab Amos am Jwda a Jerwsalem yn ystod teyrnasiad Usseia, Jotham, Ahas a Heseceia, brenhinoedd Jwda.	<b><i>Gweledigaeth Eseia fab Amos.</i></b> (Dyma welodd e am Jwda a Jerwsalem yn ystod y blynyddoedd pan oedd Wseia, Jotham, Ahas, a Heseceia yn frenhinoedd Jwda.)

---

<sup>162</sup> Eseia 1:1.

Ceir yn BNET yn y fan hon enghraifft brin iawn o'r defnydd o benawdau. Gellir rhannu'r penawdau sydd mewn argraffiadau o'r Beibl yn ddau brif fath, rhai sy'n perthyn i'r testun gwreiddiol, ysgrythurol, a rhai sy'n ychwanegiadau diweddarach gan gyfieithwyr a golygyddion. Prin iawn yw'r math cyntaf. Ceir y rhan fwyaf ohonynt yn llyfr y Salmau, er enghraifft '*Salm. I Ddafydd*',<sup>163</sup> a'r math hwn o bennawd yn unig a geir yn BWM. Yn y cyfieithiadau diweddarach, ychwanegir penawdau rhwng paragraffau ac adrannau o destun er mwyn cyfleu yn fras eu cynnwys. Yn Eseia 1, er enghraifft, ceir y penawdau ychwanegiadol canlynol:

Adnodau	BCND	BNET <sup>164</sup>
2-20	Pobl Wrthryfelgar	Gwlad euog
21-31	Y Ddinas Bechadurus	Y ddinas ddrwg

Ceir cyfeiriad at y math hwn o benawdau yn y bennod ar y Salmau, ond dylid nodi yn achos adnod gyntaf Eseia fod BNET yn trin darn o destun fel pennawd, tra bo'r cyfieithiadau eraill yn ei drin fel rhan o gorff y testun. Yn y llawysgrifau, ni cheir penawdau yn yr ystyr eu bod yn edrych yn wahanol i weddill y testun, boed wedi eu tanlinellu neu eu hysgrifennu mewn sgrïpt trwm. Ond nid yw hynny'n golygu nad oes penawdau yn y Beibl, wrth gwrs, ac mae'r holl gyfieithiadau yn gywir iawn yn gosod llinellau megis '*Salm. I Ddafydd*' ar wahân i'r farddoniaeth sy'n dilyn. Ac yn yr enghraifft o Eseia 1:1, gosodir y pennawd, '***Gweledigaeth Eseia fab Amos***' yn wahanol i'r penawdau ychwanegiadol sydd yn y tabl uchod er mwyn cyfleu

<sup>163</sup> Salmau 15:1, BCND.

<sup>164</sup> Gosodir y penawdau ychwanegiadol fel yn y tabl, mewn blychau llwydion. Mae hyn mewn cyferbyniad â'r pennawd a geir yn Eseia 1:1 lle nad yw'r pennawd mewn blwch llwyd, er mwyn dangos mai rhan o'r testun gwreiddiol ydyw.

ei fod yn rhan o'r testun gwreiddiol. Prin iawn yw enghraifft o'r fath, ond mae'n effeithiol iawn o ran cyfleu pwrpas a natur y frawddeg agoriadol, hynny yw mae'n debyg mai fel pennawd y'i bwriadwyd. Addas fyddai trin yr adnod gyntaf yn yr holl gyfieithiadau fel pennawd, nid yn unig i'r bennod ond i'r llyfr cyfan, ac mae BNET yn cyfleu pwrpas y frawddeg yn effeithiol. Yn wir, dywed yr *ESV Study Bible* am yr adnod hon mai hi yw, 'The superscription for the entire book.'<sup>165</sup> Sylwer ar absenoldeb berf ym mhrif gymal BWM, 'Gweledigaeth Eseia fab Amos', ac yn y prif gyfieithiadau Saesneg; mae hynny'n gyson â phatrwm pennawd cyfoes ac felly yn cryfhau'r ddadl mai pennawd yn wir ydyw'r geiriau hyn. Ceir y ferf 'dyma' yn y BCND<sup>166</sup> er mwyn bodloni gofyn arferol brawddeg normal Gymraeg, a lleihau'r teimlad o bennawd i'r frawddeg.

Canlyniad y pennawd yn BNET yw bod gweddill y frawddeg mewn cromfachau oddi tano ac mae hynny yn lleihau rhywfaint ar y gwerth a roddir i gynnwys y cromfachau. Nid yw'r cromfachau yn angenrheidiol mewn gwirionedd, am y byddai'r geiriau hyn yn ddigon addas hebddynt megis is-bennawd. Ond canlyniad arall y pennawd a'r is-bennawd mewn cromfachau yw bod ymgais fwriadol i osgoi enwi Eseia ddwywaith. Y dull mwyaf arferol o wneud hyn wrth gwrs yw drwy ddefnyddio rhagenwau, a defnyddio rhagenw a wna BNET yma, 'Dyma welodd e...'. Gwelir bod rhagenw a gyfeiria at Eseia yn BWM hefyd, wrth iddo gyfeirio'n ôl ato mewn cymal perthynol, 'yr hon a welodd efe'. Ceir defnydd amrywiol o ragenwau rhwng y cyfieithiadau felly, a phriodol felly fyddai trafod rhywfaint ar hyn.

---

<sup>165</sup> *ESV Study Bible*, t. 1240.

<sup>166</sup> Diffinia *Geiriadur Prifysgol Cymru* (Caerdydd, 1950–), t. 1138 'dyma' fel adferf, ond yn Peter Wynn Thomas, *Gramadeg y Gymraeg* (Caerdydd, 1996), t. 68 nodir 'dyma' fel berf (ddiffygiol).



Dywed Peter Wynn Thomas fod pum carfan o ragenwau personol: syml, dwbl, cysylltiol, blaen rhydd, a blaen clwm. Yr amrywiad a welir amlycaf rhwng y cyfieithiadau, fel yn yr enghraifft uchod, yw rhwng y syml a'r dwbl. Bron nad yw BWM yn enwog am ei ddefnydd o ragenwau dwbl, gyda 'myfi' ac 'efe' yn ymddangos yn y cyfieithiad hwnnw mor aml. Yr hyn sy'n nodedig am y rhagenw yn adnod gyntaf y llyfr yn BNET yw mai amrywiad anffurfiol ar y rhagenw syml a geir yno, 'e'. Tra bo'r arddull anffurfiol yn cyd-fynd ag arddull gyffredinol y cyfieithiad, mae'r rhagenw hwn yn rhoi elfen o dafodiaith i'r cyfieithiad. Dywed Peter Wynn Thomas, 'Mewn arddulliau anffurfiol tueddir i gysylltu *e, fe* â thafodieithoedd deheuol, ac *o, fo* â rhai gogleddol.'<sup>167</sup> Mae perygl wrth ddefnyddio unrhyw dafodiaith o ddieithrio'r testun i gynulleidfaoedd penodol, tra bo ffurfiau ffurfiol, megis 'ef', yn rhai cyffredinol ar gyfer pob ardal. Ymetyb BNET i'r perygl hwn trwy nodi yn ei Ragair:

Anogir pobl i'w ddarllen gan ynganu'r ffurfiau llafar yn y ffordd fwyaf naturiol iddyn nhw yn eu hardal... gellir cyfnewid mae e am mae o, nawr am rwan, i fyny am lan ayyb. Tra'n cydnabod bod hynny'n haws i'w wneud wrth lawrlwytho pennod o'r We a'i golygu rywfaint, bydden ni am annog y darllenwr i feithrin yr arferiad o addasu'r iaith i'r hyn sydd fwyaf naturiol iddo fe neu hi.<sup>168</sup>

Dyma syniad gwreiddiol ac unigryw, wedi'r cyfan mae 'iaith lafar' pawb yn wahanol i'w gilydd ac felly sut fyddai modd llunio cyfieithiad mewn Cymraeg llafar *i bawb*? Yr awgrym yn y fan hon mewn gwirionedd yw bod pawb yn dod yn olygydd ar y testun drosto'i hun, ac mae'n bwysig nodi mai golygu'n unig y cyfeirir ato. Mae'r broses o lunio cyfieithiad yn gofyn am nifer o arbenigeddau, a dylid nodi mai gwahoddiad i olygu sydd yma, nid gwahoddiad i gyfieithu. Mentrir dweud y byddai gwahodd darllenwyr cyffredin y Beibl i lunio eu cyfieithiadau eu hunain yn beth peryglus dros ben, ond ceir gwahoddiad i olygu rhywfaint ar BNET. Mae'r

---

<sup>167</sup> Peter Wynn Thomas, Troednodyn [ch] yn *Gramadeg y Gymraeg*, t. 243.

<sup>168</sup> Rhagair, BNET.

sylwadau a geir yn y Rhagair yn ddi-ddorol gan eu bod yn annog ‘meithrin’ set arbennig o sgiliau, sef gweld rhai geiriau ar y ddalen ond ynganu geiriau eraill. Derbynnir felly y byddai rhai ffurfiau tafodieithol yn annaturiol i rai pobl ar yr olwg gyntaf, ond gydag arfer y byddent yn dod yn rhwyddach.

Sylwer bod darn o’r dyfyniad uchod o Ragair BNET wedi cael ei hepgor ble mae elipsis.

Fel hyn y’i ceir yn y Rhagair:

Anogir pobl i’w ddarllen gan ynganu’r ffurfiau llafar yn y ffordd fwyaf naturiol iddyn nhw yn eu hardal – e.e. dŷn ni fel dan ni neu den ni neu yn ni; dych chi fel dach chi neu dech chi neu ych chi.<sup>169</sup>

Dyma enghreifftiau diddorol eraill, ac mae’n werth eu trafod yma gan fod y syniad eisoes dan sylw. Ffurfiâu Presennol y ferf ‘bod’ ydynt, wrth gwrs, a gwelir ambell enghraifft yn y tabl isod. Gan y negyddir ar gyfer y person cyntaf a’r ail berson ar lafar (ac felly yn BNET) gan ychwanegu ‘dim’, er enghraifft ‘dw i ddim’, ‘dŷn ni ddim’, mae ystyried y ffurfiau cadarnhaol yn ddigon. Ond nid oes modd gwneud hynny â’r trydydd person (hynod chwithig yw ‘maen nhw ddim’), felly cynhwysir y ffurf negyddol yn y tabl hefyd:

Adnod	Person	Signwm	Ffurfiol	BNET
16:6	1af lluosog	Cadarnhaol / Negyddol	Rydym ni	Dŷn ni
1:12	2il lluosog	Cadarnhaol / Negyddol	Rydych chi	Dych chi
1:23	3ydd lluosog	Cadarnhaol	Maent hwy	Maen nhw
9:13	3ydd lluosog	Negyddol	Nid ydynt	Dŷn nhw ddim

Mae ‘maen nhw’ wedi hen ennill ei blwyf ar lafar ledled y wlad ac felly mae’r defnydd ohono yn naturiol iawn. Mae ‘dŷn ni’ a ‘dych chi’ yn ffurfiau y ceir amrywiadau go agos arnynt ledled

---

<sup>169</sup> Ibid.

y wlad hefyd, a chyfeiria'r Rhagair at nifer o'r rheini, 'dan ni', 'den ni', 'yn ni'. Gellir dadlau bod 'dŷn ni' ag acen grom yn ymddangos yn annaturiol ar bapur, yn enwedig i rai sy'n ynganu 'dan ni' neu 'den ni' gan nad yw'r llafariaid yn rhai hir. Wedi dweud hynny, mae'r acen grom yn gwahaniaethu rhwng 'rydym' ac 'nid ydynt', a 'dyn', hynny yw gwryw'r bod dynol. Mwy priodol fyth fyddai rhoi acen grom ar 'ŷn ni' yn y Rhagair, gan mai felly yr yngenir y gair gan ddeheuwr. Yr un amrywiad llafar nad yw'n debyg o gwbl i'r hyn sydd yn y cyfieithiad yw ffurfiau negyddol llawer yn y De, 'smo fi/ti/fe/ddi/ni/chi/nhw'. Tra'i bod hi'n gymharol hawdd i frodor o Lŷn yngan 'dŷn ni ddim' fel 'dan ni ddim', tybed a ddaw rhai deheuwr ydag amser i ynganu ffurf megis 'dŷn nhw ddim' fel 'smo nhw'? Wedi'r cyfan, dyna'r ynganiad naturiol i lawer, ond nad yw'r testun yn eu cyfeirio i'r cyfeiriad hwnnw gymaint ag y gwna i gyfeiriadau eraill.

Mae'r egwyddorion hyn a ddefnyddiwyd wrth lunio BNET yn debygol o fod at ddant rhai, ond nid pawb, fel y cydnebydd y Rhagair ei hun. Diddorol ydag amser fydd sylwi ar ynganiadau llafar gwahanol bobl o'r cyfieithiad, a gweld a fydd y cyfieithiad yn dod yn fwy poblogaidd mewn rhai ardaloedd na'i gilydd. Gellir clywed gwahanol ynganiadau ar ap *YouVersion* a gwefan *my.bible.com*. Mae clipiau sain o rai penodau o'r cyfieithiad ar gael a chlywir darllenwyr gwahanol lyfrau yn ei ynganu'n wahanol. Cymharer darllenydd Rhufeiniaid, sydd bron yn neidio dros y gair, â darllenydd Colosiaid, sy'n ei ynganu â sain hir fel y mae'r acen grom yn ei awgrymu. Yr hyn sy'n drawiadol am yr ail ddarllenydd yw bod y pwyslais braidd yn annaturiol, yn enwedig mewn enghraifft fel Colosiaid 1:3-4 lle ceir y ferf dair gwaith yn fuan iawn ar ôl ei gilydd. Tybed er mwyn rhoi cliw i'r darllenydd ar sut i'w ynganu y byddai acen ddisgynedig yn fwy buddiol? Ped ailysgrifennid y geiriadur o'r newydd heddiw, mae'n debyg y byddai'r term am wryw dynol yn derbyn acen grom, 'dŷn', a'r cwtogiad

o 'rydym' a 'nid ydynt' heb unrhyw acen, 'dyn'; yn dilyn cynsail 'hyn' a 'hÿn', 'glyn' a 'glÿn', a 'chyn' a 'chÿn'. Ond gan fod 'dyn' eisoes wedi ennill ei blwyf fel enw unigol a 'dynn' yn cael ei ddefnyddio fel ffurf dreigledig yr ansoddair 'tyn',<sup>170</sup> mae BNET yn gywir iawn wedi chwilio am ffordd arall i'w sillafu, sydd o bosibl yn gamarweiniol. Dylid nodi mai 'ÿm' yw'r ffurf gyntaf a nodir yn *Y Llyfr Berfau*<sup>171</sup> ac felly gyda'r fannod wedi ei chywasgu o'i blaen, 'rÿm' fyddai'r ffurf ac mae'r ffurf hon yn fwy cyffredin o lawer,<sup>172</sup> ond ei fod yn llai llafar na'r ffurfiau a ddewiswyd, o bosibl. Noda Dafydd Glyn Jones drachefn y byddai <'dyn> yn sillafiad priodol, gan gyfeirio at ddwy egwyddor werthfawr, sef i wneud defnydd call o'r collnod, ac i gadw terfyniad y ferf er mwyn cadarnhau'r person.<sup>173</sup> Gan ddilyn ei batrwm efo felly, ceir <'dyn>, <'dych> ac yn y blaen.

Gan symud at brif gorff y llyfr a'r adroddiad o'r weledigaeth y sonia'r adnod gyntaf amdani, gwelir amrywiadau o bob math rhwng y cyfieithiadau. Un nodwedd a naid allan o BNET ar gyfer y llyfr yw ei ddefnydd o eiriau ac ymadroddion sy'n gyffredin ar lafar. Ond cyn dod at enghreifftiau sy'n neidio allan am eu bod yn ddieithr i ddarlennwyr profiadol y cyfieithiadau hÿn, nodir un enghraifft sy'n neidio allan am fod yn annisgwyl o gyfarwydd.

Yn y bennod ddilynol ar y gyntaf o'r efengylau, yr un a briodolir i Mathew, ceir trafodaeth ar y gwynfydau. Pe dewisid llyfr Luc yn hytrach na Mathew yn sampl o'r efengylau, byddai trafodaeth arall yn dilyn yn syth ar y drafodaeth ar y gwynfydau, trafodaeth ar gyfres

---

<sup>170</sup> Peter Wynn Thomas, *Gramadeg y Gymraeg*, t. 712.

<sup>171</sup> D. Geraint Lewis, *Y Llyfr Berfau* (Llandysul, 2015), t. 45.

<sup>172</sup> Gweler emyn William Williams, 'Mae'r Brenin yn y blaen, / 'rÿm ninnau oll yn hy,' 80 yn *Caneuon Ffydd* (2001).

<sup>173</sup> Dafydd Glyn Jones, *Iawn Bob Tro* (Bangor, 2016) tt. 84-5.

o frawddegau gan Iesu sy'n dechrau â 'Gwae chi'.<sup>174</sup> Yn y fan honno, mae cyferbyniad rhwng y 'gwynfydau' a'r 'gwaeau', ond nid yw Mathew yn cofnodi'r gwaeau. Ceir yr ymadrodd, fodd bynnag, yn y llyfr dan sylw yn y fan hon, Eiseia, ac mae'n werth ei nodi.

Adnod	BWM	BCND	BNET
3:9	Dull eu hwyneb hwynt a dystiolaeth yn eu herbyn; a'u pechod fel Sodom a fynegant, ac ni chelant: <u>gwae</u> eu henaid, canys talasant ddrwg iddynt eu hunain.	Y mae'r olwg ar eu hwyneb yn tystio yn eu herbyn, ac y maent yn cyhoeddi eu pechodau fel Sodom. <u>Gwae</u> hwy! Y maent yn dwyn drwg arnynt eu hunain.	Mae eu ffafriaeth wrth farnu yn tystio yn eu herbyn; maen nhw'n arddangos eu pechod fel Sodom, heb geisio cuddio dim! <u>Gwae</u> nhw! Maen nhw wedi dod â dinistr arnyn nhw eu hunain.
3:11	<u>Gwae</u> yr anwir, drwg fydd iddo: canys gwobr ei ddwylo ei hun a fydd iddo.	<u>Gwae</u> 'r anwir! Bydd yn ddrwg arno, canys fe gaiff yr hyn a haedda.	Ond <u>gwae</u> y rhai sy'n gwneud drwg, bydd pethau'n ddrwg arnyn nhw;

---

<sup>174</sup> Luc 6:24-6.

			byddan nhw'n cael blas o'r hyn wnaethon nhw i bobl eraill.
--	--	--	---

Yr hyn sy'n drawiadol yma yw mai'r un gair a ddefnyddir yn y tri chyfieithiad, 'gwae'. Mae'n wir fod amrywiadau eraill, yn enwedig nifer y sawl sydd dan wae yn yr ail enghraifft, ond llawer mwy diddorol yn yr achos hwn yw'r hyn sy'n gyffredin. Tra bo 'gwae' yn gyson â ieithwedd gyffredinol BWM a'r BCND, mae'n dod fel rhywfaint o syndod i ddarllenydd BNET ac felly mae'n rhaid gofyn, pam ei gynnwys? Y rheswm amlycaf, fwy na thebyg, os nad yr unig reswm posibl yw am nad oes ffordd arall o'i gyfleu sy'n cyfleu *digon* o'i ystyr. Ceir sylwadau gydol y traethawd hwn ar eirfa bwnc, yn arbennig felly yn y bennod ar y Rhufeiniaid, a chrynodeb syml iawn o egwyddorion BNET wrth gyfieithu geirfa bwnc yw bod cyfleu ystyr gyffredinol neu fwyaf sylfaenol rhyw air yn eglur yn bwysicach na chyfleu'r ystyr yn llawn ond mewn iaith fwy dieithr. Darlun a ddefnyddiwyd cyn hyn yw bod BWM a'r BCND yn defnyddio gair technegol megis 'cappuccino' tra bo BNET yn bodloni ar 'goffi'. Mae'r gair technegol yn fwy penodol ac yn rhoi dyfnder pellach i ystyr y gair, ond mae'r gair cyffredinol yn cyfleu'r syniad bras yn eglurach, yn enwedig i gynulleidfa oedd newydd. Ond yn yr achos hwn, barnwyd nad oedd gair arall a gyfleai ddigon o ystyr 'gwae' ac mai gwell fyddai cadw'r ymadrodd sydd eisoes mewn print. Cynigia *Geiriadur Prifysgol Cymru* opsiynau amgen i'r gair fel berfenw, ansoddair ac ebychiad, a chan mai gweithredu fel ebychiad a wna yma, mae'r 'Och! a'r 'aha!'<sup>175</sup> a gynigir yn gwbl anaddas. Yn absenoldeb unrhyw air neu ymadrodd sy'n cyfleu'r

---

<sup>175</sup> *Geiriadur Prifysgol Cymru*, t. 1544.

ystyr, hyd yn oed yn rhannol, rhaid oedd bodloni ar ‘gwae’ er y mentrir dyfalu y byddai cyfieithwyr BNET wedi ceisio eu gorau glas i’w osgoi.

Fel y nodwyd eisoes, un nodwedd drawiadol yn BNET yw ei ddefnydd o eiriau ac ymadroddion sy’n gyffredin ar lafar, a hefyd bod y rheini’n aml, ond nid bob tro, yn fenthyciadau newydd o’r Saesneg. Gwelir isod ambell enghraifft, gyda’r gyntaf ohonynt yn ymadrodd Cymraeg cymharol hen ffasiwn.

Daw’r enghraifft honno yn y bennod gyntaf:<sup>176</sup>

BWM	BCND	BNET
O genhedlaeth bechadurus, pobl lwythog o anwiredd, had y rhai drygionus, meibion yn <u>llygru</u> :	O genhedlaeth bechadurus, pobl dan faich o ddrygioni, epil drwgweithredwyr, plant <u>anrheithwyr</u> !	O! druan ohonot ti’r wlad sy’n pechu! Pobl sy’n llawn drygioni! Nythaid o rai sy’n gwneud drwg! Plant <u>pwdr</u> !

Yn yr achos hwn, mae’n ddi-ddorol fod pob un o’r cyfieithiadau rywfaint yn wahanol, nid yn unig o ran geirfa, ond o ran y frawddeg yn ehangach. Sylwer ar y cymal cyntaf ac ar y ffaith mai BNET sydd rywfaint yn wahanol yn trafod y ‘wlad’ yn hytrach na ‘chenhedlaeth’. Nid dyma’r tro cyntaf yn y traethawd hwn i BNET gael sylw am ddilyn trywydd unigryw, ond yn yr achos hwn, BNET sydd debycaf i’r prif gyfieithiadau Saesneg, gan y ceir cytundeb rhwng yr holl brif gyfieithiadau Saesneg mai ‘nation’ yw ystyr y gair. Mae’n wir y gall ‘cenedlaeth’

---

<sup>176</sup> Eseia 1:4b.

olygu hynny, ond ‘cenedl / cenedloedd’ yw’r enw a ddefnyddir gan amlaf yn y Gymraeg gan fod ‘cenedlaeth / cenedlaethau’ hefyd yn cyfleu ‘generation’. O ran y geiriau sydd wedi eu tanlinellu hefyd, mae’r amrywiaeth yn yr enghraifft hon yn gymharol ddiddorol, gan fod nifer o gyfieithiadau Saesneg o wahanol gyfnodau ac arddulliau yn defnyddio ffurfiau ar yr un gair, ‘corrupt’. Mae’n drawiadol mai’r BCND sy’n sefyll allan yn yr achos hwn: mae llygredigaeth (BWM) a phwdr (BNET) yn cyfleu yr un math o beth, er y gall ‘pwdwr’ olygu ‘diog’ mewn rhai o dafodieithoedd y de.<sup>177</sup> Mae’n wir fod BWM yn disgrifio gweithred y plant, tra bo BNET yn disgrifio cyflwr y plant, ond at ei gilydd mae’r ystyr yn debyg. Mae ansoddair BNET yn debygol o daro deuddeg i rai darllenwyr mewn ffordd go unigryw, oherwydd cryfder yr ymadrodd yn Gymraeg. Wedi dweud hynny, tra’i fod yn ymadrodd a ddefnyddir mewn rhai cylchoedd, mae’n debygol o fod yn ddieithr mewn cylchoedd eraill, o bosibl. Gall fod ‘llygredig’ yn ansoddair mwy cyffredin, ond bod ‘pwdr’ yn cyfleu’r arddull lafar. Ond o ddychwelyd at y BCND, mae’r ystyr yn wahanol, mewn dwy ffordd. Yn gyntaf, mae ystyr y term ‘anrheithwyr’ fymryn yn wahanol; mae’n debyg, ond nid yw’n cyfateb yn union i’r geiriau cyffredin eraill, llygredig, pwdr a *corrupt*. Ond yn fwy arwyddocaol o bosibl, mae’r weithred o anrheithio neu lygru yn perthyn i genhedlaeth wahanol, ac mae hyn yn codi cwestiwn am ystyr y ddau gymal olaf yn y dyfyniadau uchod. Sylwer bod trydydd cymal BWM a’r BCND yn disgrifio’r *rhieni* neu’r hynafiaid fel y rhai sy’n gwneud drwg, a thrydydd cymal BNET yn disgrifio’r *plant* fel y rhai sy’n gwneud drwg. Ond yn y pedwerydd cymal, mae BNET yn gyson â BWM wrth iddynt ddisgrifio’r *plant* fel y rhai llygredig tra bo’r BCND yn dal i ddisgrifio’r *rhieni* fel y rhai llygredig. Yn BWM felly, pwysleisir bod y ddwy genhedlaeth yn ‘genhedlaeth (neu

---

<sup>177</sup> ‘Pwdr<sup>2</sup>’, *Geiriadur Prifysgol Cymru*, t. 2937.



genedl) bechadurus',<sup>178</sup> yn y BCND y genhedlaeth hŷn yn unig a bortrëir fel un bechadurus ac yn BNET y genhedlaeth ieuengaf yw'r un bechadurus. Mae'r anghysondeb o ran y cenedlaethau yn bresennol mewn cyfieithiadau Saesneg hefyd, ac o gymryd yr adnod yn unigol o'i chyd-destun, mae i hynny oblygiadau diwinyddol mawr. Wedi dweud hynny, yng nghyd-destun y Beibl cyfan, dylai unrhyw fân anghysondebau o'r fath fod wedi pylu.

Yn nes ymlaen yn yr un bennod, dychwelir at y syniad o lygredigaeth ac felly mae'n werth amlygu'r enghraifft honno hefyd.<sup>179</sup>

BWM	BCND	BNET
Dy dywysogion sydd gyndyn, ac yn gyfranogion â lladron; pob un yn caru <u>rhoddion</u> , ac yn dilyn gwobrau:	Y mae dy arweinwyr yn wrthryfelwyr ac yn bartneriaid lladron; y maent i gyd yn caru <u>cildwrn</u> ac yn chwilio am wobrau;	Mae dy arweinwyr wedi gwrthryfela, ac yn ffrindiau i ladron; maen nhw i gyd yn hoffi <u>breib</u> , ac yn chwilio am wobr.

Nid yw 'rhoddion' ynddo'i hun yn cyfleu drygioni'r weithred, gan nad yw derbyn rhodd yn beth drwg. Mae'r cyd-destun yn BWM yn rhoi rhywfaint o gliw, ond nid yw'r cysyniad yn eglur iawn. Mae'n ddiddorol mai 'gifts' a ddefnyddia'r KJV hefyd.<sup>180</sup> Defnyddir 'bribe' mewn sawl cyfieithiad Saesneg, gan gynnwys y NIV a'r ESV, a'r cyfieithiad mwyaf safonol o'r gair hwnnw yw 'llwgrwobrwy'. Defnyddia'r BCND ymadrodd sy'n ddigon cyffredin a chyfarwydd ar lafar, er y byddai ei sillafu â chysylltnod yn amlygu'r ynganiad llafar yn well, o bosibl. Mae'r syniad

<sup>178</sup> Eseia 1:4a, BWM.

<sup>179</sup> Eseia 1:23.

<sup>180</sup> Eseia 1:23, *King James Version*.

o dderbyn cil-dwrn yn cyfleu'r elfen lwgr honno na chyflea 'rhoddion' BWM mohoni. Ond benthyciad o'r Saesneg, 'breib', a geir yn BNET sy'n debygol o hollti barn. Mae'n debyg y byddai rhai yn siomedig am na ddefnyddiwyd ymadrodd fel cil-dwrn sy'n ymadrodd mor unigryw i'r Gymraeg ac sy'n cyfleu union ysbryd dyhead yr arweinwyr dan sylw. Ond mae'n rhaid cydnabod bod benthyciadau fel hyn yn eithriadol o gyffredin ac yn dod yn fwyfwy arferedig trwy'r amser. Nid benthyciad diweddar ydyw chwaith, gan i William Salesbury o bawb nodi 'bribio' yn gyfieithiad i 'brybe' yn ei eiriadur.<sup>181</sup> Dyma ffordd y mwyafrif o bobl o siarad, ac adlewyrchiad o'r iaith lafar yw iaith darged BNET ac felly mae'n llwyddo yn hynny o beth.

Daw'r benthyciadau nodedig nesaf ym mhennod 3 a cheir tri ohonynt yn go agos at ei gilydd.<sup>182</sup>

BWM	BCND	BNET
A'r ARGLWYDD a ddywedodd, Oherwydd balchio o ferched Seion, a rhodio â gwddf estynedig, ac â llygaid gwamal, gan rodio a rhygyngu wrth gerdded, a thrustio â'u traed: Am hynny y clafra yr ARGLWYDD gorunau merched	Dywedodd yr ARGLWYDD, "Oherwydd i ferched Seion dorsythu, a cherdded o amgylch â'u gyddfau'n ymestyn allan, a'u llygaid yn cilwenu, a'u camau'n fursennaidd, a rhodio â fferledau am eu traed,	Yna dwedodd yr ARGLWYDD: "Mae merched Seion mor falch, yn dal eu pennau i fyny, yn <u>fflyrtian</u> â'u llygaid ac yn cerdded gyda chamau bach awgrymog,

<sup>181</sup> Gw. 'breibiaf', *Geiriadur Prifysgol Cymru*, t. 315.

<sup>182</sup> Eseaia 3:16-7.

<p>Seion; a’r ARGLWYDD a ddinoetha eu gwarthle hwynt.</p>	<p>bydd yr ARGLWYDD yn rhoi clafwr ar gorun merched Seion, bydd yr ARGLWYDD yn dinoethi eu gwarthle hwy.”</p>	<p>a’u tlysau ar eu traed yn tincian wrth iddyn nhw fynd.” Felly bydd y Meistr yn gwneud i <u>rash</u> ddod ar bennau merched Seion. Bydd yr ARGLWYDD yn <u>siafio</u>’u talcennau nhw.</p>
---	---	---

Yn dilyn y drafodaeth a geir ar hyn yn y bennod ar lyfr Genesis, gwelir uchod enghraifft o gyfieithwyr gwahanol yn dehongli hyd a lled araith uniongyrchol yn wahanol. Gan nad yw BWM (fel yr Hebraeg gwreiddiol) yn defnyddio dyfynodau, gadewir y darllenydd i benderfynu drosto’i hun pryd y daw dyfyniad i ben. Mae’r BCND a BNET, fodd bynnag, yn defnyddio dyfynodau ac felly wrth lunio’r cyfieithiadau hynny, bu’n rhaid i’r golygyddion benderfynu pa eiriau sy’n rhan o’r araith uniongyrchol, a pha eiriau sy’n ailddechrau’r naratif. Yn yr achos hwn, mae BNET yn gosod y ddwy frawddeg olaf y tu allan i’r dyfyniad, tra bo’r BCND yn cynnwys y cymalau cyfatebol o fewn y dyfyniad. Y gwir amdani yw nad oes sicrwydd pa un sy’n gywir, a dyna un o’r rhesymau pam nad oes yr un cyfieithiad yn berffaith; felly dehongli sydd yn rhaid i’r cyfieithydd, yn ogystal â chyfeirio at gyfieithiadau blaenorol, o bosibl, mewn gwahanol ieithoedd. Fodd bynnag, y benthyciadau sydd dan sylw yma a cheir tri amlwg yn BNET, ac maent wedi eu tanlinellu. ‘Fflyrtian’ yw’r cyntaf, sy’n disgrifio defnydd y merched o’u llygaid. Y gwir amdani yw bod y berfenw hwn yn cyfleu’n effeithiol iawn y math o ymddygiad y mae’r testun yn ceisio ei ddisgrifio a byddai unrhyw air arall yn ymddangos fel

ymgais fwriadol i osgoi ei ddefnyddio. Tra bo'r cyfieithiadau eraill yn cynnig disgrifiadau digon cywir, ni chânt yr un effaith ag y caiff iaith blaen BNET. Yr ail fenthyciad yw 'rash', lle defnyddir 'clafr' yn y cyfieithiadau hŷn. Dyma air arall sy'n hynod o gyffredin ar lafar, yn llawer mwy na 'chlafr', ond sydd â'i ystyr fymryn yn wahanol. Mae'n syndod y defnyddiwyd 'clafr' yn y BCND gan ei fod yn gymharol ddieithr, a bod 'crach', 'crachen' a 'brech' yn eiriau mor gyffredin. Byddai rhyw ffurf ar 'grach' wedi medru cael ei ddefnyddio yn BNET hefyd, ond dewiswyd 'rash' er mwyn cyfleu ei faint a'r modd y mae'n gwasgaru, o bosibl. Tra bo'r sillafiad yn edrych yn ddieithr mewn testun Cymraeg, derbynnir ei fod yn ddigon cywir ar sail benthyciadau diweddar eraill megis mwstásh<sup>183</sup> a sblash,<sup>184</sup> ond diddorol nodi y bu i 'flash' ddod yn 'fflach'. Y trydydd benthyciad yw 'siafio', a dyma'r mwyaf trawiadol, o bosibl. Dyma fenthyciad arall sydd wedi hen ennill ei blwyf mewn Cymraeg llafar, ac felly ni ellir dweud bod unrhyw lygru yn digwydd gan fod y benthyciadau eisoes wedi eu gwneud. Ond yr hyn sy'n gwneud yr enghraifft hon fymryn yn wahanol yw bod y berfenw a ddefnyddiwyd yn BNET yn cyfleu gweithred wahanol, sef y weithred fecanyddol o gwael gwared â gwallt y pen. Mae cyfieithiadau Saesneg tebyg yn fwy amwys o ran sut mae'r gwallt yn cael ei golli, er enghraifft, 'make their scalps bald',<sup>185</sup> a chyflea hyn rywsut fod dulliau Duw y tu hwnt i ddirnadaeth dyn. Gweithred wahanol a geir yn y cyfieithiadau hŷn, sef 'dinoethi', ac ardal wahanol o'r corff a gaiff ei ddinoethi hefyd sef eu gwarthleoedd yn hytrach na'u talcennau. Nid yw'r gwahaniaeth hwn ond adlewyrchiad o amwysedd y testun gwreiddiol, a gall olygu'r naill beth neu'r llall.<sup>186</sup>

---

<sup>183</sup> *Geiriadur Prifysgol Cymru*, t. 2514.

<sup>184</sup> *Ibid.* t. 3192.

<sup>185</sup> Ezeia 3:17, *New International Version*.

<sup>186</sup> J. Alec Motyer, *Tyndale Old Testament Commentaries – Isaiah* (Nottingham, 1999), t. 66.

Ceir enghraifft arall rai penodau yn ddiweddarach, lle defnyddir benthyciad o'r Saesneg er mwyn cyfleu rhyw elfen o realiti neu berthnasedd. Daw'r enghraifft hon o Eseaia 7:4:

BWM	BCND	BNET
A dywed wrtho, [1] Ymgadw, [2] a bydd lonydd; [3] nac ofna, ac na feddalhaed dy galon, rhag dwy gloren y pentewynion myglyd hyn, rhag angerdd llid Resin, a Syria, a mab Remaleia:	a dywed wrtho, [1] 'Bydd ofalus, [2] cadw'n dawl a [3] phaid ag ofni; paid â digalonni o achos y ddau stwmp hyn o bentewynion myglyd, am fod Resin a'r Syriaid a mab Remaleia yn llosgi gan lid.	Dwed wrtho: [1 a 2] 'Paid panicio. [3] Paid bod ag ofn. Does dim rhaid torri dy galon am fod Resin a'r Syriaid a mab Remaleia wedi gwylltio – dau stwmp ydyn nhw; dim mwy na ffaglau myglyd!

Y benthyciad, wrth gwrs, yw 'panicio' ac mae'n derm cyffredin dros ben. Tybir, heb wybod yn sicr, fod y gorchymynion yn cyfateb fel y'u rhifir yn y blychau petryal, gan fod tri gorchymyn cyntaf BWM a BCND yn dod yn ddau orchymyn yn BNET. Nid yw'n eglur pam y penderfynwyd cywasgu'r gorchymynion yn BNET, ac mae 'panicio' yn bendant yn cyfleu rhyw ran o'r mynegiant yn effeithiol, ond eto ni ellir dweud yn union pa ran o'r mynegiant mae'n ei chyfleu. Tra nad oes arwyddocâd diwinyddol i hyn, mae absenoldeb yr arddodiad 'â' yn dilyn 'paid' yn ddiddorol o safbwynt ieithyddol; mae'n anghywir yn ramadegol ond o bosibl yn adlewyrchiad o dueddiadau llafar cyfoes wrth i berthynas berfau ac arddodiaid Saesneg â'i gilydd gropian i mewn i'r iaith Gymraeg.

Yr hyn sy'n ddiddorol am y benthyciadau hyn o'r Saesneg yw bod yr ystyriaethau sydd ynglŷn â nhw yr un fath â'r ystyriaethau sydd ar gyfer geirfa gyffredinol y cyfieithiad. Nid

sylwadau ar dderbynioldeb y geiriau fel benthyciadau ydyw'r rhai uchod, ond sylwadau ar dderbynioldeb y geiriau i gyfleu'r ystyr yn eglur ac yn llawn. Mae'r benthyciadau hyn yn rhan o'r iaith lafar gyfoes, does dim dwywaith amdani, ond yr ystyriaeth bwysicaf yw addasrwydd y geiriau i gyfleu'r ystyr yn hytrach na'u tarddiad.

Fel yr amlyga'r dyfyniad o froliant esboniad Tyndale ar y llyfr ar frig y bennod hon,<sup>187</sup> un o nodweddion hynod y llyfr yw'r cyfeiriadau meseianaidd sydd ynddo. Un adnod a glywir yn aml mewn pulpudau ym mis Rhagfyr yw'n frawddeg ganlynol yn Eseia 9:6:

BWM	BCND	BNET
Canys bachgen a aned i ni, mab a roddwyd i ni, a bydd y llywodraeth ar ei ysgwydd ef: a gelwir ei enw ef, Rhyfeddol, Cynghorwr, y Duw cadarn, Tad tragwyddoldeb, Tywysog tangnefedd.	Canys bachgen a aned i ni, mab a roed i ni, a bydd yr awdurdod ar ei ysgwydd. Fe'i gelwir, "Cynghorwr rhyfeddol, Duw cadarn, Tad bythol, Tywysog heddychlon".	Achos mae plentyn wedi cael ei eni i ni, mab wedi cael ei roi i ni. Bydd e'n cael y cyfrifoldeb o lywodraethu. A bydd yn cael ei alw yn Strategydd rhyfeddol, y Duw arwrol, Tad yr oesoedd, Tywysog heddwch.

Mae'r trydydd cymal yn yr enghraifft uchod yn go nodweddiadol o'r cyfieithiadau, wrth i'r rhai hyn gyfieithu'n fwy llythrennol a nodi bod y llywodraeth neu'r awdurdod ar ei ysgwydd,

---

<sup>187</sup> Gweler troednodyn 158 a'r dyfyniad perthnasol.

tra bo BNET yn cyfieithu'r ystyr gan nodi y 'bydd e'n cael y cyfrifoldeb o lywodraethu.' Mwy diddorol fodd bynnag yw ail hanner yr adnod a'r enwau priod a roddir i Iesu yn y geiriau hyn. Yn gyntaf, dylid nodi bod pum enw yn cael ei roi gan BWM a phedwar gan y ddau arall. Mae dehongliad BWM o'r testun yn adlewyrchu dehongliad y cyfnod ohono, gyda'r KJV yntau yn nodi 'Rhyfeddol' a 'Chynghorwr' fel dau enw ar wahân. Fodd bynnag, yn y cyfieithiadau diweddaraf, cyfunir y rhain gan ddefnyddio'r 'rhyfeddol' fel ansoddair i ddisgrifio'r 'Cynghorwr', ac mae hyn yn debyg i dueddiadau cyfieithwyr Saesneg yr oes bresennol. Mae 'Strategydd' BNET yn unigryw fodd bynnag, felly hefyd 'arwrol' fel ansoddair i ddisgrifio Duw, 'cadarn' a ddefnyddir fel arall, a 'mighty' yn Saesneg. I lawer, cyflea 'arwrol' rywbeth yn perthyn i fyd ffilmiau a chomics, i ffantasi hyd yn oed, ac mae perygl felly na fyddai'r cyfieithiad hwn at ddant pawb. Mae'n ddiddorol cymharu dau enw olaf BWM a'r BCND hefyd, gan mai fformiwla BWM yw defnyddio dau enw i greu enw mwy penodol, a fformiwla'r BCND yw defnyddio enw ac ansoddair.

BWM		BCND	
Enw	+ Enw	Enw	+ Ansoddair
Tad	tragwyddoldeb	Tad	bythol
Tywysog	tangnefedd	Tywysog	heddychlon

Un o hynodion yr adnod hon yn Saesneg yw mor debyg yw hi mewn cynifer o gyfieithiadau gwahanol; a fformiwla'r cyfieithiadau Saesneg poblogaidd yw'r hyn sydd wedi'i liwio'n ysgafn mewn llwyd uchod, sef enw ac ansoddair ar gyfer y cyntaf, a dau enw ar gyfer yr ail ('Everlasting/Eternal God, Prince of Peace'). Golyga hyn fod dehongliad BWM o'r cyntaf fymryn yn wahanol i'r gweddill, hynny yw bod Iesu yn dad *ar* dragwyddoldeb, yn hytrach nag yn dad *hyd* dragwyddoldeb. Mae dehongliad y BCND o'r ail rywfaint yn wahanol hefyd, sef

bod Iesu yn dywysog â natur heddychlon, lle mae'r dehongliad arall yn disgrifio Iesu yn dywysog ar dangnefedd, ac felly yn teyrnasu ar dangnefedd. Ystyriaeth arall i'r darlennydd cyffredin yw'r modd y gall yr emynau y mae'n arfer eu canu adlewyrchu elfennau o ryw gyfieithiad. Mae hyn yn arbennig o wir am garolau<sup>188</sup> a cheir cyfeiriadaeth gref iawn yn aml ynddynt at ddarluniau neu adnodau penodol o'r Ysgrythur. Un o'r carolau mwyaf poblogaidd ymhlith cynulleidfaoedd Cymraeg yw'r cyfieithiad o garol Charles Wesley, 'Clywch lu'r nef'.<sup>189</sup> Yn y tabl isod, gwelir ambell gyfeiriad o'r garol a'r ymadroddion cyfatebol yn y cyfieithiadau o'r Beibl:

Llinell o'r garol	BWM	BCND	BNET	Cyfeiriad ysgrythurol
Ceidwad dyn	Ceidwad	Gwardwr	Achubwr	Luc 2:11 <sup>190</sup>
Tad tragwyddoldeb	Tad tragwyddoldeb	Tad bythol	Tad yr oesoedd	Eseia 9:6
cadarn lôr	Duw cadarn	Duw cadarn	y Duw arwrol	Eseia 9:6
gwnaeth ei babell gyda dyn	A'r Gair a wnaethpwyd yn gnawd, ac a	A daeth y Gair yn gnawd a <u>phreswyllo yn ein plith</u>	Daeth y Gair yn berson o gig a gwaed;	Ioan 1:14 (yn adlais o Exodus 25:8)

<sup>188</sup> Dywedir hyn gan fod perthynas yn aml iawn rhwng y cyfieithiad o'r Beibl a ddefnyddir gan eglwys a'r emynau a genir ganddi. Mae eglwys a wna ddefnydd helaeth o BWM yn bur debygol o fod yn defnyddio emynau Pantycelyn, Ann Griffiths, David Charles a'u cyfoeswyr yn bennaf; ac eglwysi sy'n defnyddio BNET yn bennaf yn debygol o ganu llawer o gytganau modern, a'r mwyafrif ohonynt yn gyfieithiadau. Prin iawn yw'r carolau ymysg y cytganau modern, tra bo digonedd o garolau traddodiadol i'w cael.

<sup>189</sup> 452 yn *Caneuon Ffydd* (2001).

<sup>190</sup> Mae'r union eiriau 'Ceidwad dyn' i'w cael yn BWM, Job 7:20, ond mae'n annhebygol mai cyfeiriad at hynny a geir yn y garol; mae'r cyfeiriad hwn yn fwy tebygol o lawer.



	<u>drigodd yn ein plith ni</u>		daeth i fyw* yn ein plith ni  *fyw: Groeg, <u>“codi pabell”</u> neu <u>“wersylla”</u>	
Emanwêl	Immanuel	Immanuel	Emaniwel	Eseia 7:4
T’wysog heddwch	Tywysog tangnefedd	Tywysog heddychlon	Tywysog heddwch	Eseia 9:6
Haul Cyfiawnder	Haul cyfiawnder	haul cyfiawnder	haul cyfiawnder	Malachi 4:2

Mae'r cyfeiriadau tebycaf wedi eu lliwio mewn llwyd, ac nid yw'n syndod bod mwy o golofn BWM wedi ei liwio na'r un cyfieithiad arall: wedi'r cyfan, nid oedd y BCND na BNET ar gael pan oedd Pedr Fardd, Elis Wyn o Wyrfai a'r trydydd cyfieithydd anadnabyddus wrthi yn cyfieithu'r garol. Mae'n amlwg na fu'r garol yn ddylanwad ar gyfieithwyr y BCND ond tybed a gymerwyd ymadrodd megis 'T'wysog heddwch' i ystyriaeth wrth lunio cyfieithiad BNET? Mae hynny'n annhebygol; ond y peth mwyaf trawiadol heb os yw'r cyfeiriad at Ioan 1:14. Dyna adnod gyfarwydd dros ben, ac nid yw'r un o'r cyfieithiadau yn ei chyfieithu'n llythrennol, ac ni thueddir i wneud yn y Saesneg chwaith. Fodd bynnag, cyfeiria BNET mewn troednodyn at yr ystyr llythrennol ac mae hyn yn effeithiol iawn; yn gyntaf gan ei fod yn amlygu'r cysylltiad â'r garol, ond yn ail ac yn bwysicach, mae'n dangos y tebygrwydd rhwng Duw yn trigo ymysg dynion yn Exodus 25:8, a Iesu yn trigo ymysg dynion yn oes y Testament Newydd. Sylwer hefyd ar y modd y defnyddir yr un geiriau ar gyfer yr enghraifft olaf ond y ceir priflythren yn

BWM i wneud yr ‘Haul’ yn enw priod, yn debycach felly i’r garol. Carol boblogaidd arall a chyfoethog ei chyfeiriadaeth yw carol Eos lâl, ‘Ar gyfer heddiw’r bore’.<sup>191</sup> Mae ynddi nifer o gyfeiriadau at ddigwyddiadau a pharagraffau hirach o destun, ond ceir ambell gyfeiriad at ychydig eiriau yn unig:

Llinell o’r garol	BWM	BCND	BNET	Cyfeiriad ysgrythurol
gwreiddyn Jesse	gwreiddyn Jesse	gwreiddyn Jesse	boncyff Jesse	Eseia 11:10
y <u>Cadarn</u> ddaeth o Bosra	Duw cadarn	Duw cadarn	y Duw arwrol	Eseia 9:6
bachgen doeth Eseia	bachgen a aned i ni ... Cynghorwr	bachgen a aned i ni ... Cynghorwr rhyfeddol	plentyn wedi cael ei eni i ni ... Strategydd rhyfeddol	Eseia 9:6
yr Alfa a’r Omega	yr Alfa a’r Omega	Alffa ac Omega	yr Alfa a’r Omega	Datguddiad 1:8

Mae’n werth nodi’r olaf, gan fod ‘y cyntaf a’r olaf’ yn ymddangos yn llyfr Eseia hefyd, yn 44:6. Ond yn y Datguddiad, y BCND yw’r unig un i beidio â defnyddio’r fannod o flaen ‘Alffa’ ac ‘Omega’, a rhydd hynny deimlad fymryn yn llai penodol iddynt. Wedi dweud hynny, gellir dadlau mai eu cyflwyno megis enwau personol a wna’r BCND, ac mae’n ddiddorol nodi bod

---

<sup>191</sup> 464 yn *Caneuon Ffydd* (2001).

*Geiriadur Prifysgol Cymru* yn nodi *alfa* ‘fel enw ar Dduw’.<sup>192</sup> Nid yw ystyriaethau o’r fath yn unigryw i garolau a llyfr Eseia chwaith; mae’n wir am yr Ysgrythur gyfan a nifer fawr o emynau. Cymerer ‘Rhosyn Saron’, delwedd a ddefnyddir gan Williams Pantycelyn ac Ann Griffiths;<sup>193</sup> ceir yr union ymadrodd yn BWM a’r BCND<sup>194</sup> ond ‘blodyn saffrwn ar wastatir Seion’ yn BNET. Nid prif bwrpas yr un cyfieithiad o’r Beibl yw bod yn gymar i’r llyfr emynau, ond gall fod yn wir fod y cyfieithiadau hŷn, BWM yn arbennig, yn agor y drws i lawn werthfawrogi cyfoeth y traddodiad emynyddol Cymraeg.

Canlyniad arall y ffaith y ceir llawer o gyfeiriadau meseianaidd yn y llyfr hwn yw’r ffaith iddo gael ei ddyfynnu mor aml yn y Testament Newydd. Dyfynnu o’r *Septuagint* a wna awduron y Testament Newydd, sef cyfieithiad Groeg o’r Hen Destament a luniwyd o fewn yr ychydig ganrifoedd olaf cyn yr ymgnawdoliad. Canlyniad hynny, felly, yw bod dyfyniadau o’r Hen Destament yn y Newydd wedi eu cyfieithu ddwywaith erbyn llunio’r cyfieithiad Cymraeg, yn gyntaf o’r Hebraeg i’r Roeg, ac yna o’r Roeg i’r Gymraeg, ac felly nid yw dau ddyfyniad sy’n tarddu o’r un man yn cydymffurfio’n union â’i gilydd. Isod ceir ambell enghraifft adnabyddus:

Cyfeiriad	BWM	BCND	BNET
Eseia 40:3	Llef un yn llefain yn yr anialwch, Paratowch ffordd yr ARGLWYDD, unionwch	Llais un yn galw, “Paratowch yn yr anialwch ffordd yr ARGLWYDD,	Mae llais yn gweiddi’n uchel: “Cliriwch y ffordd i’r ARGLWYDD

<sup>192</sup> ‘Alffa’, *Geiriadur Prifysgol Cymru*, t. 75.

<sup>193</sup> Emynau 319 a 320 yn *Caneuon Ffydd* (2001).

<sup>194</sup> Caniad Solomon 2:1 (er mai cymhariaeth yw hi yn y BCND a throsiad yn BWM).

	lwybr i'n Duw ni yn y diffeithwch.	unionwch yn y diffeithwch briffordd i'n Duw ni.	yn yr anialwch; gwnewch briffordd syth i Dduw drwy'r diffeithwch!
Mathew 3:3	Llef un yn llefain yn y diffeithwch, Paratowch ffordd yr Arglwydd; gwnewch yn union ei llwybrau ef.	“Llais un yn galw yn yr anialwch, ‘Paratowch ffordd yr Arglwydd, unionwch y llwybrau iddo.’ ”	“Llais yn gweiddi'n uchel yn yr anialwch, ‘Paratowch y ffordd i'r Arglwydd ddod! Gwnewch y llwybrau'n syth iddo!’”
Eseia 53:4	Diau efe a gymerth ein gwendid ni, ac a ddug ein doluriau:	Eto, ein dolur ni a gymerodd, a'n gwaeledd ni a ddygodd—	Ac eto, cymerodd ein salwch ni arno'i hun, a diodde ein poenau ni yn ein lle.
Mathew 8:17	Efe a gymerodd ein gwendid ni, ac a ddug ein clefydau.	“Ef a gymerodd ein gwendidau	“Cymerodd ein gwendidau arno'i hun,

		ac a ddug ymaith ein clefydau.”	a chario ein hafiechydon i ffwrdd.”
--	--	---------------------------------	-------------------------------------

Mae'n ddiddorol yn yr ail enghraifft fod rhywfaint mwy o bwyslais ar iacháu rhyw fath o glefyd yn hytrach na'r 'gwaeledd' a'r 'poenau' mwy cyffredinol y cyfeirir atynt yn Eseia. Dyfynna Mathew y geiriau hyn wrth adrodd hanes Iesu yn iacháu mam yng nghyfraith Seimon Pedr ac felly fe geir y pwyslais mewn ffordd fymryn yn wahanol. Mae'n nodedig hefyd fod ffurf berf BWM yn newid rhwng Eseia 53:4 a Mathew 8:17 hefyd, er mai'r un ferf ydy hi. Defnyddir y ffurf hynafol, 'cymerth', yn Eseia, a'r ffurf fwy cyffredin, 'cymerodd', yn Mathew. Nid yw hwn yn ddim mwy nag odrwydd unigryw arall i'r cyfieithiad, ond sydd, o bosib, yn awgrymu bod angen golygiad newydd ohono eto.

Dyma lyfr sy'n cynrychioli *genre* unigryw o fewn y Beibl felly, ac mae'r pontio rhwng yr Hen Destament a'r Newydd yn amlwg ac yn golygu y ceir dyfynnu helaeth ohono. Wrth glywed cyfeiriadau at rannau o'r proffwydoliaethau mewn mannau eraill, boed yn y Testament Newydd neu yn y llyfr emynau, mae'n bosibl fod y cyfeiriadau hynny yn haws i'w hadnabod i ddarllenwyr sy'n fwy cyfarwydd â'r cyfieithiadau hyn. Mae hynny hefyd yn wir am ddyfyniadau llafar o'r testunau, boed mewn gweddi neu bregeth: mae arddull ffurfiol y cyfieithiadau hyn yn amlygu'r dyfyniadau yn aml iawn. Wedi dweud hynny, dychwelir at y prif bwynt eto, mai pwrpas y testunau hyn yw cyflwyno Gair Duw yn eglur ac yn ddealladwy i Gymry Cymraeg, ac mae'r tri chyfieithiad yn angenrheidiol at y perwyl hwnnw.

## 5. Mathew

Y llyfr cyntaf yn y Testament Newydd yn ei drefn draddodiadol yw'r efengyl yn ôl Mathew. Mae'r llyfr hwn yn un o bedair efengyl sydd yn y Testament Newydd, ac yn un o dair efengyl a elwir yn efengylau cyfolwg<sup>195</sup> ynghyd â Marc a Luc. Mae'r efengylau hyn yn debyg o ran eu cynnwys, tra bo'r bedwaredd efengyl, yr efengyl yn ôl Ioan, yn dra gwahanol. Yn ôl traddodiad, Mathew yw'r awdur ac roedd Mathew yn un o 12 disgybl Iesu. Cyfeiria Mathew ato'i hun yn ei adroddiad yn y trydydd person gan ddefnyddio'r enw Mathew, ond cyfeiria awduron yr efengylau eraill ato gan ddefnyddio ei enw Hebraeg, Lefi. Dengys yr enw 'Lefi' ei gysylltiad Iddewig, tra bo Thomas Charles o'r farn ei fod yn defnyddio 'Mathew' amdano'i hun gan mai dyna 'ei enw, hwyrach, fel publican, neu dreth-gasglydd'.<sup>196</sup> Mae arwyddocâd i'r ddwy wedd hon o'i hunaniaeth: roedd ei dröedigaeth yn drawiadol o ystyried ei alwedigaeth bechadurus flaenorol, a gorchymyn syml Iesu, 'Canlyn fi,'<sup>197</sup> yn profi'n effeithiol. Mae ei gefndir Iddewig hefyd yn arwyddocaol oherwydd ceir awgrym o ddarllen ei adroddiad fod ei gyd-Iddewon ganddo mewn cof wrth ei ysgrifennu, a cheisia brofi nad crefydd newydd yw Cristnogaeth yr Apostolion ond mai person Iesu yw cyflawniad yr Hen Destament yr oedd yr Iddewon eisoes yn ei gyfrif yn Ysgrythur. Dywed Thomas Charles,

Y mae cyfeiriadau amlach ynddo at ysgrythurau yr Hen Destament, nag yn yr efengylwyr eraill... Gan ei fod yn ysgrifennu i'r Iddewon Cristionogaidd, yn bennaf, yr oedd yn addas iddo brofi fod ach Crist o had Dafydd ac Abraham; yr hyn a wnaeth yn nechrau yr efengyl, wrth roddi llinach Joseff, tad cyfrifedig Crist.<sup>198</sup>

---

<sup>195</sup> Neu *synoptig*.

<sup>196</sup> Thomas Charles, 'Matthew' yn *Geiriadur Ysgrythurol* (Wrecsam, 1885) t. 629.

<sup>197</sup> Mathew 9:9.

<sup>198</sup> Charles, 'Matthew' yn *Geiriadur Ysgrythurol*, t. 629.

Fel y noda Charles, egyr Mathew ei adroddiad gydag achres Iesu Grist a cheir sawl ystyriaeth ddiddorol o ran cyfieithu'r fath restr.

Gan mai dyma lyfr cyntaf y Testament Newydd, a'r llyfr cyntaf sy'n gofnod uniongyrchol o fywyd Iesu,<sup>199</sup> byddai'n werth trafod yr enwau ac ambell deitl a roddir iddo cyn dod at y rhestr. Sylwer fod amrywiadau i'w cael cyn gynted â'r adnod gyntaf. 'Iesu Grist'<sup>200</sup> yw'r enw a'r teitl a roddir iddo yn BWM a'r BCND, tra defnyddia BNET 'Iesu y Meseia'.<sup>201</sup> Mae 'Iesu Grist' yn enw cyfarwydd iawn, wrth gwrs, a dyna un o'r rhesymau, o bosibl, pam y mae cyfieithwyr BNET wedi dewis 'Iesu y Meseia' yn yr achos hwn. Mae 'Crist' ac 'y Meseia' yn gyfystyr â'i gilydd, ond mai'r arfer yw defnyddio 'Iesu Grist' fel pe bai yn enw llawn arno. Ond nid cyfenw, fel petai, yw 'Crist' i Iesu, ond teitl, ac mae BNET am sefydlu hynny'n glir o'r dechrau. Defnyddir 'Iesu Grist' droeon yn y cyfieithiad, ond nid yn y bennod hon, ac mae'n werth nodi na ddefnyddir Crist heb Iesu yn ei ragflaenu ond unwaith yn y cyfieithiad cyfan, lle mae'n arfer gyffredin yn y cyfieithiadau blaenorol.<sup>202</sup> Gwelir tueddiadau cyffredinol o ran teitlau Iesu yn y tabl isod, ac mae'r BCND yn tueddu i ddilyn patrwm y gwreiddiol.

BWM	BCND	BNET	Enghraifft
Crist	Crist	y Meseia	Rhufeiniaid 5:8
Iesu Grist / Crist Iesu	Crist Iesu	y Meseia Iesu	Rhufeiniaid 1:1
Iesu Grist	Iesu Grist	Iesu Grist / Iesu y Meseia (tueddir i	Colosiaid 1:3

<sup>199</sup> Ceir proffwydo am Iesu mor fuan â thrydedd bennod Genesis, ond nid oes cofnod o'i fodolaeth ar y ddaear cyn y Testament Newydd.

<sup>200</sup> Mathew 1:1, BWM, BCND.

<sup>201</sup> Mathew 1:1, BNET.

<sup>202</sup> Mathew 11:2 yw'r unig enghraifft o 'Crist' heb 'Iesu' yn ei ragflaenu yn BNET yn gyfan.

		ddefnyddio'r cyntaf pan y'i rhagflaenir gan 'yr Arglwydd' / 'ein Harglwydd' yn unig)	
--	--	---	--

Yn y bennod gyntaf ym Mathew, ceir hanes y geni yn ogystal â'r rhestr achau, ac felly ceir hanes y gorchymyn a roddwyd i Mair i roi 'Iesu' yn enw priod iddo. Defnyddia BWM bedair priflythyren maint llawn<sup>203</sup> yn yr enw ar ddau achlysur yn y bennod, yn adnodau 21 a 25, felly 'IESU' a ymddengys ar y ddalen. Ni cheir hyn yn y cyfieithiadau eraill (er y ceir ef hefyd yn y cyfieithiad Saesneg o'r un cyfnod, y KJV), ond cyfeirir ato bron fel dyfyniad yn y ddau achos. Er nad yw'r cyfieithiadau diweddaraf yn gwneud hyn, yr arfer heddiw fyddai naill ai rhoi dyfynodau o amgylch yr enw, neu ei argraffu mewn print italig, felly mae'n ddealladwy na fodlonwyd arno yn edrych fel petai'n rhan o'r naratif.

Ceir achresi di-rif yn y Beibl, gan fod llinach a pharhad teulu ac enw yn themâu pwysig ynddo. Un o'r achresi mwyaf arwyddocaol, os nad y fwyaf ohonynt i gyd, yw'r ach ar ddechrau'r efengyl yn ôl Mathew, lle ceir y rhestr gyfan o Abraham hyd Iesu. Brawddeg agoriadol y llyfr yn y BCND yw: 'Dyma restr achau Iesu Grist, Mab Dafydd, mab Abraham.'<sup>204</sup> Sylwer ar y priflythrennu a ymddengys yn anghyson, fod 'Mab' y tro cyntaf yn cael priflythyren ond nid yr ail dro. Y rheswm mwyaf tebygol pam y rhoddwyd priflythyren iddo yn 'Mab Dafydd' yw am ei fod yn deitl a roddir i Iesu ac a roddwyd i'r Meseia ganrifoedd cyn ei ddyfodiad. Mae

---

<sup>203</sup> Dywedir hyn gan y defnyddia BWM gyfuniad o briflythrennau o feintiau llawn a llai ar gyfer enw personol Duw yn yr Hen Destament, a gyfieithir, 'ARGLWYDD'.

<sup>204</sup> Mathew 1:1, BCND.



lesu, fel y profa’r rhestr achau hon, yn ddisgynnydd llythrennol i Ddafydd ac i Abraham, ond mae’r etifeddiaeth yn fwy na gwaed yn unig. Cyfeiria’r teitl ‘Mab Dafydd’ yn arbennig at addewid Duw y byddai disgynnydd i Ddafydd yn llywodraethu hyd byth, fel a nodir yn 2 Samuel 7:12-16. Er i Ddafydd ddod yn dad biolegol i Solomon ymhlith eraill, cyfeiria ‘Mab Dafydd’ yn benodol at un person, sef y Meseia. Cyfeiria ‘mab Abraham’ at addewid arall gan Dduw y byddai Abraham yn dod yn dad i genedl gyfan, cenedl Israel, pobl Dduw, ac y byddai holl bobl ffydd, fel y dywedir yn y llythyr at y Galatiaid, yn blant i Abraham: ‘Gwyddoch, gan hynny, am bobl ffydd, mai hwy yw plant Abraham.’<sup>205</sup> Fel yr awgryma’r adnod honno, nid lesu yw unig ‘fab Abraham’; dywedir am Sacheus, er enghraifft, wedi ei dröedigaeth, ‘mab i Abraham yw’r gŵr hwn yntau’.<sup>206</sup> Dylid nodi hefyd nad yw’r arfer hon o rod-di priflythyren yn y naill ond nid yn y llall yn arfer gyffredin. Ni cheir priflythyren yn y naill na’r llall yn y cyfieithiadau Cymraeg eraill, nac yn y rhai mwyaf poblogaidd yn y Saesneg. Y BCND yw’r unig gyfieithiad Cymraeg sy’n rhoddi berf<sup>207</sup> ym mhrif gymal y frawddeg agoriadol honno hefyd, sef ‘dyma’. Defnyddia BWM a BNET y frawddeg gyntaf fel pennawd, felly ni cheir berf nac adferf yn y prif gymal, fel yn y gwreiddiol.

BWM	BCND	BNET
Llyfr cenhedliad Iesu Grist, fab Dafydd, fab Abraham.	<u>Dyma</u> restr achau Iesu Grist, Mab Dafydd, mab Abraham.	Rhestr achau Iesu y Meseia, oedd yn un o ddisgynyddion y Brenin Dafydd, ac Abraham hefyd.

<sup>205</sup> Galatiaid 3:7.

<sup>206</sup> Luc 19:9.

<sup>207</sup> Peter Wynn Thomas, *Gramadeg y Gymraeg* (Caerdydd, 1996) t. 68. Berf ddiffygiol yw hon gan nad oes iddi rediad llawn. Nodir yn *Gramadeg y Gymraeg* mai ‘ffurf Bresennol gyffredinol’ ydyw.

Yr hyn sydd hefyd yn nodedig wrth gymharu'r tri ochr yn ochr yw'r cymal perthynol yn BNET, ac yn gyntaf, ei ddefnydd o ferf yr amser Gorffennol, 'oedd'. Dyma'r unig gyfieithiad lle ceir cymal perthynol o'r fath, a thrwy hyn rhydd y cyfieithydd ei hun mewn sefyllfa lle mae'n rhaid dewis amser i'r ferf. Gallasai fod wedi dewis 'sydd' gan fod Cristnogion yn credu fod Iesu yn fyw yn dragwyddol a bod yr etifeddiaeth honno gan Ddafydd ac Abraham yn parhau ynddo hyd dragwyddoldeb. Fodd bynnag, wrth ddefnyddio'r amser Gorffennol, 'oedd', mae'n cyfyngu ei ystyr i ddyddiau ei gnawd yn unig, ac yn awgrymu mai perthynas trwy waed yn unig oedd rhyngddynt ac, ymhellach, fod Iesu wedi peidio â bod mwyach. Mae'r cyfieithiadau hyn wedi osgoi troedio'r tir hwn gan gyfieithu yn llythrennol o'r gwreiddiol, ond maent hwythau yn dilyn trywydd gwahanol i'w gilydd o ran amser y ferf yn nes ymlaen yn y paragraff, yn adnod 16. Cyfeiria'r BCND at 'Iesu, a elwid y Meseia,'<sup>208</sup> a BWM at 'Iesu, yr hwn a elwir Crist.'<sup>209</sup> Mae 'Meseia' a 'Christ' yn gyfystyr â'i gilydd, y gwahaniaeth rhwng y ddwy adnod yw amser y ferf, mae'r BCND yn defnyddio'r amser Amherffaith a BWM yr amser Presennol. Y Presennol sy'n tueddu i gael ei ddefnyddio gan gyfieithwyr Saesneg, neu'r *Present Participle* a bod yn fanwl gywir, 'being called', yn gyfieithiad llythrennol o'r gwreiddiol. Ymddengys mai BWM sydd yn gywir a bod BCND yn anghywir yn yr achos hwn felly, ond o ran yr adnod gyntaf, rhaid cwestiynu a ellir cyfiawnhau'r cyfieithiad rhydd o ystyried yr ystyriaethau a gyfyd ohono. Yr ail beth sy'n nodedig am gymal perthynol BNET yn yr adnod gyntaf yw absenoldeb y gair, 'mab', a'r defnydd yn hytrach o'r term 'disgynnydd'. Mae'n ddealladwy y gall 'mab' fod yn ddryslyd i rai sy'n anghyfarwydd â'r cyd-destun gan nad oedd Iesu yn fab llythrennol, uniongyrchol i Ddafydd nac i Abraham, ond bod cenedlaethau lawer yn eu gwahanu. Fodd

---

<sup>208</sup> Mathew 1:16, BCND.

<sup>209</sup> Mathew 1:16, BWM.

bynag mewn mannau eraill yn y cyfieithiad, defnyddir y termau ‘Mab Dafydd’<sup>210</sup> (gyda’r briflythyren) i ddisgrifio Iesu a ‘mab i Abraham’<sup>211</sup> wrth ddisgrifio Saceus. Nid yw’r defnydd hwn o’r term ‘disgynnydd’ yn gyson felly, ac mae’n bosibl y byddai sicrhau cysondeb y naill ffordd neu’r llall wedi bod yn well.

Ceir gwahaniaethau yn y rhestr ei hun hefyd, yn bennaf o ran patrwm a fformat y rhestr, yn debyg i’r hyn a geir yn Genesis.

Mathew 1:7-8		
BWM	BCND	BNET
A Solomon a genhedlodd	Yr oedd Solomon yn dad i	Solomon oedd tad
Roboam; a Roboam a genhedlodd Abeia; ac Abeia a genhedlodd Asa;	Rehoboam, Rehoboam yn dad i Abeia, ac Abeia’n dad i Asa. Yr oedd Asa’n dad i	Rehoboam, Rehoboam oedd tad Abeia, Abeia oedd tad Asa,
Ac Asa a genhedlodd Josaffat; a Josaffat a genhedlodd Joram; a Joram a genhedlodd Oseias	Jehosoffat, Jehosoffat i Joram, Joram i Usseia,	Asa oedd tad Jehosoffat, Jehosoffat oedd tad Jehoram, Jehoram oedd tad Wseia,

Sylwer yn y rhestrau uchod fod patrwm cyson yn BWM ac yn BNET, ailadrodd yr un cymal a wneir dro ar ôl tro. Yr ymadrodd a geir yn BWM yw’r cyfieithiad llythrennol, sef y ferf ‘a genhedlodd’ ond ei fod yn llond ceg yn y Gymraeg, yn enwedig pan ailadroddir ef 39 o weithiau. Un frawddeg ydyw hi hefyd, gyda’r cysylltair ‘a/ac’ yn cael ei ddefnyddio cyn pob

<sup>210</sup> Mathew 21:9, BNET.

<sup>211</sup> Luc 19:9, BNET.

un o'r cymalau hyn ac eithrio'r cyntaf, a hanner colon i ddynodi eu diwedd. Mae'r defnydd o'r cysylltair yn gyson â'r gwreiddiol, ond rhaid nodi nad dyma'r arfer yn y Gymraeg, yn sicr nid mewn Cymraeg cyfoes, a bod cael brawddeg â chynifer o gymalau yn beth tra anarferol. Defnyddia'r frawddeg annormal hefyd, fel sydd yn arferol yn y cyfieithiad, a ymddengys fel brawddeg bwyslais i lygaid Cymry'r unfed ganrif ar hugain gyda'r pwyslais ar y goddrych, '*Abraham* a genhedlodd Isaac'.<sup>212</sup> Yn y BCND, ni cheir y ferf 'cenedlodd' ond yn hytrach yr ymadrodd 'yn dad i' rhwng yr enwau ar ddechrau pob brawddeg, nes hepgor y dibeniad i'r goddrych, 'yn dad', erbyn y diwedd a chynnwys yr arddodiad 'i' a'r enw yn unig. Mae'r ystyr fymryn yn wahanol, wrth gwrs, gan mai brawddegau dibeniadol a geir yma yn hytrach na brawddegau normal yn seiliedig ar ferf. Ond mae rhywbeth yn eithaf naturiol ynglŷn â hyn yn y Gymraeg, ac yn arbennig yn y modd y mae'n gollwng y dibeniad wrth fynd trwy'r rhestr gan fod y patrwm eisoes wedi ei osod. Bodlona'r BCND ofynion cyfoes rhestru mewn paragraff, ond dilyna BNET drywydd rywfaint yn wahanol eto, gan gyfleu'r rhestr yn llythrennol fel rhestr, gan roi llinell newydd i bob eitem ynddi. Nid yw'n darllen ar lafar mor naturiol ag yw'r BCND, ond mae'n llawer haws ei ddilyn ar y ddalen a chaiff yr wybodaeth ei chyflwyno'n llawer eglurach. Mae'r dull hwn o gyflwyno yn gweddu i natur yr wybodaeth yn dda. Caiff dameg ei chyflwyno'n effeithiol mewn paragraff ac ni fyddai'n addas ceisio ei chyflwyno mewn pwyntiau bwled. Ond yn yr achos hwn, mae'r rhestr yn gweithio'n effeithiol.

Ystyriaeth arall ym mhennod gyntaf y efengyl yn ôl Mathew yw'r eirfa a ddefnyddir wrth drafod natur perthynas Mair â Joseff. Gwelir yr enghreifftiau yn y tabl isod.

---

<sup>212</sup> Mathew 1:2, BWM.

Adnod	BWM	BCND	BNET
18	Wedi dyweddïo Mair ei fam ef â Joseff, cyn eu dyfod hwy ynghyd	Pan oedd Mair ei fam wedi dyweddïo i Joseff, cyn iddynt ddod at ei gilydd	Roedd ei fam, Mair, wedi cael ei haddo i fod yn wraig i Joseff. Ond cyn iddyn nhw briodi a chael rhyw
25	Ac nid adnabu efe hi hyd onid esgorodd hi ar ei mab cyntaf-anedig	Ond ni chafodd [Joseff] gyfathrach â hi hyd nes iddi esgor ar fab	Ond chafodd e ddim rhyw hefo hi nes i'w mab gael ei eni

Y peth nodedig cyntaf am adnod 18 yw absenoldeb y term 'dyweddïo' yng nghyfieithiad BNET a'r defnydd, yn hytrach, o'r ymadrodd 'cael ei haddo i fod yn wraig'. Y mae rheswm da am hyn, fel yr esbonia yr *ESV Study Bible*,

The custom of betrothal [yr hyn a ddisgrifir yn adnod 18] was different from "engagement" in modern society. Customarily the parents of a young man chose a young woman to be engaged to their son. A second stage of betrothal involved official arrangements and a prenuptial agreement before witnesses, which was a legally binding contract and could be broken only by a formal process of divorce.<sup>213</sup>

Gall y gair 'dyweddïo', felly, fod yn gamarweiniol gan fod cymdeithas fodern yn cysylltu'r gair yn syth â'r drefn gyfoes. Cyflëir y gwahaniaeth hwn rywfaint yn gliriach yn BNET, er bod angen esboniad pellach i gael y darlun llawn. Yna yn ail ran yr adnod honno, mae BWM a BCND eto yn dewis llwybrau tebyg, gan aros yn debyg i'r gwreiddiol a mynegi, os rywfaint yn gynnil, cyn iddynt ddod 'at ei gilydd' neu 'ynghyd'. Llai cynnil o lawer yw BNET, gan ddisgrifio'r amser 'cyn iddyn nhw briodi a chael rhyw'. Tebyg yw'r arddull uniongyrchol yn adnod 25 hefyd, tra bo

---

<sup>213</sup> *ESV Study Bible* (Wheaton, Illinois, 2008), t. 1821.

BCND hefyd yn fwy uniongyrchol y tro hwn, ond gan ddefnyddio geirfa fwy traddodiadol. Mae BWM, eto, yn cyfieithu'n llythrennol gan gyflwyno cymal a ymddengys, i lygaid ifainc a dieithr, fel petai yn trafod mater gwahanol iawn. 'Nid adnabu efe hi' yw'r cymal, ac mae ei ystyr yn y cyd-destun hwn yn union yr un fath â'r ystyr a geir yn y cyfieithiadau eraill. Fodd bynnag, nid yw'r ystyr hon i'r ymadrodd hwn yn un gyffredin iawn, ac ychydig iawn a fyddai'n deall, erbyn hyn, ei ystyr heb dderbyn esboniad. Gwelir sôn am yr hyn a feichiogodd Mair yn adnod 20 hefyd. Dywed angel wrth Joseff fod 'yr hyn a genhedlwyd ynddi' yn dod o'r Ysbryd Glân,<sup>214</sup> a'r ferf honno, 'cenedlu' sydd yn y ddau gyfieithiad hynaf. Eto, dilyna BNET drywydd gwahanol, gan ddweud 'mai'r Ysbryd Glân sydd wedi gwneud iddi feichiogi'.<sup>215</sup> Yr un gair a ymddengys yma yn y gwreiddiol ag yn y rhestr achau ar ddechrau'r bennod, felly 'cenedlu' yw'r cyfieithiad llythrennol, ond mae beichiogi yn cyfleu'r un peth mewn iaith fwy dealladwy. Fodd bynnag, mae ffurf gwmpasog, ddryslud y ferf yn codi gwestiynau, yn arbennig wrth fod y ferf gynorthwyol 'gwneud' yn cael ei chynnwys. Gan fod goddrych gwirioneddol y 'beichiogi', sef yr Ysbryd Glân, yn oddrych 'gwneud', daw Mair yn oddrych 'beichiogi', a rhydd y ferf gynorthwyol 'gwneud' deimlad berf anghyflawn i'r 'beichiogi', ac mae trefn y frawddeg hon wedi ei drysu gan beri i'r gramadegydd traddodiadol ofyn 'pwy' wnaeth Mair ei feichiogi. Yn draddodiadol, gyda berf anghyflawn, dylid nodi mai Mair yw gwrthrych berf o'r fath ac mai'r Ysbryd Glân yw'r goddrych. Nid yw 'beichiogi' o reidrwydd yn ferf anghyflawn, gellir ei defnyddio heb wrthrych ac felly nid yw'r frawddeg hon o reidrwydd yn ramadegol anghywir, ond mae'r ferf gynorthwyol o'i blaen yn medru drysu, gan amlygu un o wendidau'r ffurf gwmpasog. Fodd bynnag, adlewyrcha'r cyfieithiad hwn duedd cyffredinol erbyn hyn i symud

---

<sup>214</sup> Mathew 1:20, BWM, BCND.

<sup>215</sup> Mathew 1:20, BNET.

oddi wrth ddefnydd traddodiadol o ferfau cynorthwyol a berfau anghyflawn, a berfau cryno yn gyfan gwbl, hyd yn oed.

Ymhellach ar y dyweddïad, ceir rhywfaint o ymateb personol Joseff yn y naratif i feichiogrwydd Mair. Ewyllysio 'ei rhoi hi ymaith yn ddirgel'<sup>216</sup> a wna Joseff yn ôl BWM, a phenderfynu 'ei gollwng ymaith yn ddirgel'<sup>217</sup> a wna yn ôl y BCND. Mae'r BWM yn gyson â'r cyfieithiad Saesneg poblogaidd o'r un cyfnod, y KJV, tra bo'r BCND yn unigryw ar gyfer ei gyfnod. Defnyddir y term 'ysgaru' gan gyfieithwyr Saesneg diweddarach yn hytrach nag 'ei rhoi/gollwng ymaith', a dyna'r ystyr mewn gwirionedd. Ar yr olwg gyntaf, mae'r ystyr yn gliriach yn BNET, lle dywed ei fod 'yn ystyried yn dawel bach i ganslo'r briodas.'<sup>218</sup> Fodd bynnag, nid dyma wirionedd y sefyllfa, gan fod y math hwn o ddyweddïad yn y cyfnod hwn, fel yr esbonnir gan y dyfyniad uchod o'r *ESV Study Bible*, yn berthynas wedi ei chadarnhau yn gyfreithiol, ac mai ysgariad yn unig oedd yr hyn a fedrai ei dorri. Mae'r ymadrodd, 'canslo'r briodas' yn rhoi syniad bras iawn i ni o deimladau Joseff, ond ni rydd i ni ddarlun gwirioneddol o'r sefyllfa gan debygu dyweddïad Mair a Joseff i ddyweddïad yn yr ystyr gyfoes. Cyfeiria'r cyfieithiadau hyn ato fel 'gŵr' iddi hefyd, gan gydnabod y math o ddyweddïad sydd dan sylw, yn hytrach na defnyddio'r cymal perthynol a geir yn BNET, 'oedd yn mynd i'w phriodi'.<sup>219</sup> Ceir adferf ym mhob un o'r cyfieithiadau hefyd, 'yn ddirgel' neu 'yn dawel bach', a chyfeirio'n ôl a wna hyn at hanner cyntaf yr adnod lle dywedir, yn ôl y BCND, fod Joseff 'heb ddymuno ei

---

<sup>216</sup> Mathew 1:19, BWM.

<sup>217</sup> Mathew 1:19, BCND.

<sup>218</sup> Mathew 1:19, BNET. Dylid nodi dylanwad y Saesneg ar y cyfieithiad hwn a'i ddefnydd anghywir o'r arddodiad 'i' cyn y berfenw, 'canslo'. Tra bo'r cyfieithiad yn ei gyfanrwydd heb fod mewn Cymraeg llenyddol ac nis beirniadir am hynny, dyma enghraifft o ddiffyg cywirdeb. Er mwyn osgoi ffurfioldeb ond cadw at gywirdeb iaith, byddai, 'ystyried, yn dawel bach, canslo'r briodas', wedi bod yn ymadrodd derbyniol.

<sup>219</sup> Ibid.

chywilyddio'n gyhoeddus.<sup>220</sup> Cyfleir yr ystyr yn glir iawn gan yr ymadrodd hwn, ond defnyddia BWM gyfieithiad llythrennol, 'heb chwennyh ei gwneuthur hi yn siampl'.<sup>221</sup> Ceir cyfieithiad difyr yn BNET, gan ei fod yn dyblu'r cyfieithiad ac yn cynnig y llythrennol yn ogystal ag aralleiriad: 'Doedd e ddim eisiau gwneud esiampl ohoni a'i chyhuddo hi'n gyhoeddus'.<sup>222</sup> Mae'r cefndir i'r meddyliau hyn o eiddo Joseff yn cael ei gyflwyno mewn gwahanol ffyrdd hefyd, gyda BWM a'r BCND yn ei ddisgrifio fel dyn 'cyfiawn'. Y rheswm pam y defnyddir y term cyfreithiol hwn oedd am y byddai gan Joseff hawl, yn unol â'r gyfraith, i ysgaru pe bai Mair wedi cael ei beichiogi gan ddyn arall. Mewn geiriau eraill, roedd ei fwriadau yn gywir yn ôl y gyfraith; ni welir bai ynddo am fwriadu'r fath bethau. Fodd bynnag, y cefndir yn BNET yw, 'Roedd Joseff ... yn ddyn da a charedig.'<sup>223</sup> Dyma enghraifft, o bosibl, o orsymleiddio'r testun, gan fod y 'cyfiawn' yn cyfeirio at gywirdeb cyfreithiol ei fwriadau yn hytrach, neu yn ogystal â'i natur fel person. Rhyfedd yw hyn gan fod y cyfieithiad yn defnyddio'r term droeon mewn mannau eraill ac felly mae'n rhan o eirfa'r cyfieithiad; byddai wedi bod yn werth ei ddefnyddio yn yr achos hwn.

Mae'n adnabyddus iawn pa ymwelwyr a dderbyniodd Iesu yn faban, er eu bod yn derbyn nifer fawr o enwau. Cyfieithodd John Davies (Isfryn) linell gyntaf y garol enwog, 'Tri ym ni o'r dwyrain draw.' Nid yw'r ffigur, o reidrwydd, yn gywir wrth gwrs, ond llwyddodd i hepgor un manylyn braidd yn ddryslyd o'i gyfieithiad, gan fod y garol yn wreiddiol gan John H. Hopkins yn nodi, 'We three kings of orient are'. Nid brenhinoedd oeddent, ac er nad ymddengys yr enw hwnnw arnynt yn y cyfieithiadau Cymraeg, ni cheir cytundeb perffaith

---

<sup>220</sup> Mathew 1:19, BCND.

<sup>221</sup> Mathew 1:19, BWM.

<sup>222</sup> Mathew 1:19, BNET.

<sup>223</sup> Ibid.



chwaith. Y tro hwn, BWM a BNET sy'n debyg, gyda 'doethion'<sup>224</sup> yn enw arnynt yn BWM a 'gwŷr doeth'<sup>225</sup> yn BNET. Y BCND a ddefnyddia enw gwahanol, 'seryddion',<sup>226</sup> a defnyddir 'magi' gan ambell gyfieithiad Saesneg a 'some men who studied the stars' yn y GNB. 'Magi' yw'r mwyaf llythrennol ohonynt i gyd, a dweud y gwir; nid cyfieithiad ydyw o gwbl ond y gair a ymddengys yn y gwreiddiol. Y mae 'seryddion' ymhlith ystyron 'magi', ond nid yw chwaith o reidrwydd yn golygu hynny. O ystyried y cyd-destun a'u bod wedi teithio o'r dwyrain wedi iddynt weld seren arbennig, gellir tybio mai dyna oeddent, ond tybio yn unig y gellir ei wneud.

Un enghraifft lle ceir amrywiaeth o ran y cyfieithu yn Saesneg yw ym Mathew 4:7 lle caiff Iesu ei demtio gan y diafol. Wrth ymateb i'r temtiad cyntaf, dywed Iesu, 'y mae'n ysgrifenedig'<sup>227</sup> cyn dyfynnu darn o'r Ysgrythur. Fodd bynnag, yr ail dro i'r diafol geisio ei demtio, dywed Iesu, yn ôl y BCND, 'Y mae'n ysgrifenedig *drachefn*'<sup>228</sup> cyn dyfynnu eto. 'Drachefn' a ddefnyddir yn BWM hefyd, 'Ysgrifennwyd drachefn'.<sup>229</sup> Ceir rhyw synnwyr o bwyslais ar yr adferf hwn, yn arbennig felly yn y BCND gan fod geiriau megis 'eto' a 'hefyd' yn llawer mwy cyffredin a 'thrachefn' yn cael ei gadw at achosion arbennig. Gan gofio mai dyma'r ail dro i Iesu gyfeirio at yr Ysgrythur wrth ateb y diafol, byddai'n naturiol i'r pwyslais fod ar yr adferf. Nid yw'r un pwyslais i'w gael yn BNET, 'Mae'r ysgrifau sanctaidd yn dweud hefyd...'.<sup>230</sup> Ôl-ystyriaeth yw'r adferf yn yr enghraifft hon, lle'i pwysleisir yn y cyfieithiadau eraill, nid o reidrwydd oherwydd y dewis o air, ond oherwydd ei leoliad. Ni fyddai 'drachefn' yn briodol mewn cyfieithiad o'r

---

<sup>224</sup> Mathew 2:1, BWM.

<sup>225</sup> Mathew 2:1, BNET.

<sup>226</sup> Mathew 2:1, BCND.

<sup>227</sup> Mathew 4:4.

<sup>228</sup> Mathew 4:7, BCND (ychwanegwyd y print italig).

<sup>229</sup> Mathew 4:7, BWM.

<sup>230</sup> Mathew 4:7, BNET.

fath, ond gan symud yr adferf 'hefyd' i ragflaenu 'yn dweud', byddai'r pwyslais yn cael ei gyfleu yn gliriach: 'Mae'r ysgrifau sanctaidd hefyd yn dweud.' Mae'n ddiddorol nodi, fodd bynnag, fod Dave Brunn yn nodi mai gwir ystyr yr adferf, er bod y tri chyfieithiad Cymraeg yn rhai llythrennol, yw 'ar y llaw arall'. Ychydig iawn o gyfieithiadau a gyflea hyn: un ohonynt yw'r *New American Standard Bible* a ddywed 'On the other hand, it is written: ...'.<sup>231</sup> Y rheswm am hyn yw fod y diafol yn ceisio defnyddio'r Ysgrythur i demtio Iesu, gan gymryd rhannau ohoni o'u cyd-destun. Y mae fel petai'n cydnabod ei fod yn dyfynnu Gair Duw, ond yn ei gywiro gan nodi rhyw ran o'r ddysgeidiaeth y mae'r temtiwr wedi ei gadael allan. Y naill law yw hanner y gwirionedd a gymerwyd allan o'i gyd-destun gan y temtiwr, a'r llaw arall yw gweddill y gwirionedd a'r cyd-destun gan roi dwy law, darlun cyfan o'r hyn sy'n gymeradwy ac yn gywir gan Dduw.

Un o adrannau mwyaf adnabyddus y llyfr yw'r cofnod o'r bregeth o eiddo Iesu a elwir yn gyffredin y bregeth ar y mynydd. Rhan agoriadol y bregeth yw'r rhestr o ddatganiadau a elwir y Gwynfydau a cheir detholiad ohonynt yn y tabl isod.

Mathew 5			
Adnod	BWM	BCND	BNET
3	Gwyn eu byd y tlodion yn yr ysbryd: canys eiddynt hwy yw teyrnas nefoedd.	Gwyn eu byd y rhai sy'n dlodion yn yr ysbryd, oherwydd eiddynt hwy yw teyrnas nefoedd.	Mae'r rhai sy'n teimlo'n dlawd ac annigonol wedi'u bendithio'n fawr,

<sup>231</sup> Mathew 4:7, New American Standard Bible (2020).

			oherwydd mae'r Un nefol yn teyrnasu yn eu bywydau.
5	Gwyn eu byd y rhai addfwyn: canys hwy a etifeddant y ddaear.	Gwyn eu byd y rhai addfwyn, oherwydd cânt hwy etifeddu'r ddaear.	Mae'r rhai addfwyn sy'n cael eu gorthrymu wedi'u bendithio'n fawr, oherwydd byddan nhw'n etifeddu'r ddaear.
9	Gwyn eu byd y tangnefeddwyr: canys hwy a elwir yn blant i Dduw.	Gwyn eu byd y tangnefeddwyr, oherwydd cânt hwy eu galw'n blant i Dduw.	Mae'r rhai sy'n hyrwyddo heddwch wedi'u bendithio'n fawr, oherwydd byddan nhw'n cael eu galw'n blant Duw.

Y peth cyntaf y dylid ei nodi yw'r ymadrodd hwnnw a gaiff ei ailadrodd. 'Gwyn eu byd' a ddefnyddir yn BWM a'r BCND, ac maent yn unigryw iawn yn hyn o beth ymysg cyfieithiadau pob iaith. 'Wedi ei fendithio' fyddai'r cyfieithiad llythrennol, fel a geir yn BNET, ond mai un gair yw'r gwreiddiol, ac un gair yw'r un Saesneg, 'blessed' sef y *past participle*. Nid yw'r amser hwn yn bodoli fel ffurf gryno yn y Gymraeg, ond y ffurf agosaf fyddai 'bendigedig yw...' ond mae gan 'bendigedig', yn enwedig erbyn hyn, ystyr wahanol, sef 'teilwng o fawl' neu 'hyfryd' hyd yn oed. Dyna'r rheswm pam y defnyddir yr ymadrodd herciog hwnnw yn BNET, dyna'r ystyr. Ond 'gwyn eu byd' a geir yn y ddau gyfieithiad arall, gan fanteisio, yn wir, ar gryfder mynegiant yr iaith darged. Ymadrodd unigryw i'r Gymraeg yw hwn, ac mae'n cyfleu'r ystyr yn effeithiol yn yr iaith darged. Nid yw'n gyfieithiad llythrennol, ond mae'n gofiadwy, ac yn un or

rhesymau mae'n siŵr pam y mae'r Gwynfydau wedi dod mor boblogaidd yng Nghymru, ac yn un o'r rhesymau pam y cynigiasant eu hunain mor naturiol fel cyfeiriad i Waldo Williams yn ei gerdd, 'Y Tangnefeddwyr'. Sylwer hefyd yn yr enghreifftiau uchod fod BNET yn llai cryno wrth ddisgrifio natur y gwynfydedig. Yn adnod 3, gadewir 'yn yr ysbryd' allan ond ychwanegir y ferf 'teimlo' ac yn fwyaf annisgwyl, yr ansoddair 'annigonol'. Dyma'r ystyr, i raddau, ond nid yw mor eglur mai cyfeiriad at dlodi ysbrydol a geir. Yn adnod 5, ychwanegir y cymal 'sy'n cael eu gorthrymu', ond ni allaf weld sut y mae hynny'n angenrheidiol gan nad yw yn y gwreiddiol, ac nad yw chwaith yn hwyluso'r gwaith o ddeall yr ystyr. Cwestiynaf a yw gorthrwm yn derm cyfarwydd i gynulleidfa darged y cyfieithiad, ond croesawaf y ffaith y cedwir 'addfwyn' yn y rhan gyntaf. Yna yn adnod 9, defnyddir 'y rhai sy'n hyrwyddo heddwch' yn hytrach na'r 'tangnefeddwyr'. Ni ddefnyddir 'tangnefedd' yn BNET gan ddefnyddio rhyw ffurf ar 'heddwch' yn ei le. Mae'r ferf ar ddechrau'r cymal perthynol yn un ddiddorol, 'hyrwyddo', gan nad yw'n cyfleu'n bendant yr hyn a wneir. Yr awgrym gyda 'thangnefeddwyr' yw eu bod yn achosi heddwch, felly mae gweithred a chanlyniad. Ond gyda 'hyrwyddo', ymgais yn unig ydyw, ceir gweithred ond nid y canlyniad.

Ar y cyfan, mae cymal olaf pob un o'r Gwynfydau yn eithaf tebyg yn y tri chyfieithiad. Gwelir yn yr enghreifftiau uchod fod y cysyniad o 'etifeddu'r ddaear' yn glir yn y tri yn adnod 5 a'r enw 'plant i Dduw' yn adnod 9. Yn adnod 3 y ceir yr amrywiaeth amlycaf, a hynny yn BNET wrth i'r cyfieithiad hwnnw nodi fod 'yr Un nefol yn teyrnasu yn eu bywydau', yn wahanol i'r cyfieithiadau eraill lle mai 'eiddynt hwy yw teyrnas nefoedd'. Ar un ystyr, mae cyfieithiad BNET yn ddigon cywir, mae'n wir fod yr 'Un nefol' yn teyrnasu ym mywyd y Cristion. Yr elfen nad yw'n cael ei chyfleu gan yr ymadrodd hwn yw'r hyn y mae'r Cristion yn ei dderbyn. Yn y cyfieithiadau eraill, ceir cyferbyniad clir rhwng y ffaith fod y gwynfydedig yn 'dlawd' yn yr

ysbryd, ond eto fod teyrnas gyfan, teyrnas nefol yn eiddo iddo. Y mae'n glir fod y Cristion ar ei ennill yn y cyfieithiadau hynny, ei fod yn derbyn ac yn elwa, ond nid felly yn BNET.

Ceir amrywiadau diddorol yn y Gwynfydau felly, gyda BWM a'r BCND yn tueddu i fod yn debyg iawn, a BNET yn cynnig opsiwn gwahanol. Tybed a ddewisodd cyfieithwyr y BCND gadw'r ymadroddion fel y maent yn BWM gan eu bod mor gyfarwydd? Ceir awgrym o hynny ar adegau yn y cyfieithiad yn gyffredinol, ac y mae'n ddigon posibl fod hynny wedi digwydd yn y fan hon.

Fel y gwelwyd gydag ymdriniaeth y cyfieithiadau o ddyweddiad Mair a Joseff, yn arbennig y modd y mae BNET yn ei drafod fel petai'n gyfystyr â dyweddiad cyfoes, ceir, ar adegau, gyfeiriadau at dermau diweddar ar hen sefydliadau. Un o'r hen sefydliadau hynny a gaiff enw cyfoes ar adegau yw'r Sanhedrin. Nid ymddengys yr enw yn BWM o gwbl, ond fe'i defnyddir yn y cyfieithiadau diweddaraf. Y tro cyntaf y ceir sôn amdano yn y Beibl yw ym Mathew 5:22, ond yn BNET yn unig y ceir yr enw. 'Llys uchaf cyfiawnder a phrif gyngor eglwysig a gweinyddol yr Iddewon yng Nghaersalem gynt'<sup>232</sup> yw diffiniad *Geiriadur Prifysgol Cymru* ohono, ond 'cyngor'<sup>233</sup> a geir yn BWM a 'llys'<sup>234</sup> yn y BCND. Erbyn pennod 26 efengyl Mathew, defnyddia'r BCND yr enw 'Sanhedrin' hefyd.<sup>235</sup> Y mae'n beth go anghyffredin fod BWM yn defnyddio termau cyfoes, cyfarwydd, a'r ddau arall yn defnyddio termau dieithr a chyfyng eu hystyr. Roedd William Morgan wrth lunio'i gyfieithiad yn bathu llawer o eiriau, wrth gwrs, ac y mae'n ddealladwy ei fod wedi penderfynu peidio â bathu neu Gymreigio, o leiaf, yr enw Groeg

---

<sup>232</sup> 'Sanhedrin', *Geiriadur Prifysgol Cymru* (Caerdydd, 1950–), t. 3177.

<sup>233</sup> Mathew 5:22, BWM.

<sup>234</sup> Mathew 5:22, BCND.

<sup>235</sup> Mathew 26:59, BCND.

gwreiddiol gan fod y syniad o gyngor ac o lys eisoes yn gyfarwydd – ‘council’<sup>236</sup> a geir yn y KJV hefyd. Yr hyn sy’n ddiddorol yw bod yr enw Groeg wedi gweithio ei ffordd i’r cyfieithiadau (Cymraeg a Saesneg!) yn ddiweddarach. Dengys hyn y modd hefyd y mae cyfieithwyr, wrth fynd ati i lunio cyfieithiad o’r newydd, yn dechrau gyda llechen hollol lân. Nid diweddarau cyfieithiadau blaenorol a wnânt, ar y cyfan, ond ceisio edrych ar y gwreiddiol o’r newydd a llunio cyfieithiad cwbl annibynnol.

Un arall o’r ymadroddion hynny nad yw’n cyfieithu’n llythrennol yn arbennig o dda i’r Gymraeg yw’r un a geir ym Mathew 11:10. Dyfyniad a geir yn y fan hon o broffwydoliaeth Malachi (3:1). ‘Wyneb’ yw’r gair dan sylw, a’i ddefnydd trosiadol i olygu ‘o flaen’ rhywun. Yn yr achos hwn, fel y dengys y tabl isod, BWM yw’r unig sy’n cadw’r cyfieithiad llythrennol gyda’r ddau arall yn cyfieithu’r ystyr.

Adnod	BWM	BCND	BNET
Mathew 11:10	Wele, yr ydwyf fi yn anfon fy nghennad o flaen dy wyneb	Wele fi’n anfon fy nghennad o’th flaen	Edrych! – dw i’n anfon fy negesydd o dy flaen di
Jeremeia 42:15	Os chwi gan osod a osodwch eich wynebau i fyned i’r Aifft, ac a ewch i ymdeithio yno	Os mynnwch droi eich wyneb tua’r Aifft, a mynd yno i drigo	Os ydych chi mor benderfynol o fynd i’r Aifft a setlo yno

---

<sup>236</sup> Mathew 5:22, *King James Version*.

Sylwer ar yr enghraifft arall o'r un gair a ddaw o broffwydoliaeth Jeremeia, lle mae'r BCND y tro hwnnw yn cyfieithu'n llythrennol, yn adlewyrchiad o'r ffaith fod 'troi wyneb' at rywbeth yn ymadrodd trosiadol mwy cyfarwydd nag yw 'anfon/rhoi rhywbeth/rhywun' o flaen wyneb rhywun.

Ym mhennod 12, wedi i Iesu iacháu llawer o bobl, rhybuddia ei ddisgyblion i beidio â dweud wrth bobl amdano. Eto, defnyddia BWM a'r BCND ddull llythrennol o gyfieithu, tra bo BNET yn ffafrio cyfieithu'r ystyr.

Mathew 12:16		
BWM	BCND	BNET
Ac a orchmynnodd iddynt, na wnaent ef yn gyhoedd	a rhybuddiodd hwy i beidio â'i wneud yn hysbys	ond roedd yn eu rhybuddio i beidio dweud pwy oedd e

Gwelir eto yn nghyfieithiad BNET duedd i beidio â dilyn rheolau gramadegol traddodiadol berfau arbennig, y ferf arddodiadol 'dweud' yn yr achos hwn. Ni cheir arddodiad yn dilyn y ferf, ac ni cheir felly ddibeniad chwaith. Gadewir y darllynydd heb wybodaeth ynghylch pwy yw gwrthrych traws y ferf, hynny yw wrth bwy na ddylid dweud pwy oedd Iesu. Er na fyddai hyn yn gorffwys yn naturiol i'r purydd gramadegol, mae'n deg dweud y defnyddir y ferf 'dweud' heb yr arddodiad a'r dibeniad yn rheolaidd erbyn hyn, ar lafar, ac felly mae'r cyfieithiad yn adlewyrchu iaith lafar yr oes ac yn bodloni ei feini prawf ei hun, sef mynegi gair Duw mewn iaith lafar sy'n ddealladwy ac yn arferedig i bob math o siaradwyr.

Rhan bwysig arall o gorff y llyfr ydyw'r gyfres o ddamhegion a adroddir gan Iesu tua'r canol. Damhegion a adroddwyd ar lafar ydoedd y rhain wrth gwrs, felly mae arddull gyffredinol BNET

yn debygol o fod yn fwy cywir ac addas ei naws ar gyfer rhannau o’r fath. Yn gyntaf oll, dylid nodi nad ymddengys y gair ‘dameg’ un waith yn BNET, ond yn hytrach, ‘stori’. Dyma enghraifft arall o air sydd ag ystyr ddyfnach iddo, mewn gwirionedd, ond mai term mwy cyffredinol a geir yn BNET. Y mae’n ddigon posibl fod pob dameg yn stori, ond yn sicr nid yw pob stori yn ddameg. ‘Stori gyfaddas i ddysgu gwers foesol neu ysbrydol’<sup>237</sup> yw diffiniad *Geiriadur Prifysgol Cymru* o ddameg, felly rhan o’r ystyr yn unig a geir yn BNET.

Un o’r damhegion mwyaf adnabyddus yw dameg yr heuwr. Mae’r ddameg hon wedi ei gwreiddio ym myd amaethyddiaeth, wrth gwrs, fel llawer ohonynt o ystyried cymdeithas y cyfnod. Dyma ddetholiad o rai adnodau ohoni.

Mathew 13			
Adnod	BWM	BCND	BNET
3-4	Wele, yr heuwr a aeth allan i hau.  Ac fel yr oedd efe yn hau, peth a syrthiodd ar fin y ffordd; a’r adar a ddaethant, ac a’i difasant.	Aeth heuwr allan i hau. Ac wrth iddo hau, syrthiodd peth had ar hyd y llwybr, a daeth yr adar a’i fwyta.	Aeth ffermwr allan i hau had. Wrth iddo wasgaru’r had, dyma beth ohono yn syrthio ar y llwybr, a dyma’r adar yn dod a’i fwyta.
6	Ac wedi codi yr haul, y poethasant; ac am nad oedd ganddynt	Ond wedi i’r haul godi fe’i llogwyd, ac am nad oedd iddo wreiddyn fe wywodd.	ond yn yr haul poeth dyma’r tyfiant yn gwywo.

<sup>237</sup> ‘Dameg’, *Geiriadur Prifysgol Cymru*, t. 884.



	wreiddyn, hwy a wywasant.		Doedd ganddynt ddim gwreiddiau.
--	------------------------------	--	------------------------------------

Yn adnodau 3-4, yr hyn sy'n drawiadol am gyfieithiad BWM yw nad yw'n swnio fel stori. Mae'r brawddegau annormal yn rhoi naws gwbl wahanol iddo, lle mae'r BCND yn llwyddo i gyfleu naratif yn fwy effeithiol gan eto ddefnyddio iaith ffurfiol. Mae BNET ar y llaw arall, yn llwyddo i gyfleu naws storiol gan ddefnyddio arddull lafar, a chryfheir hynny gan y defnydd o 'dyma' ar ddechrau'r cymalau, fel yr arferir ar lafar. Mae'r eirfa hefyd, 'ffermwr', 'gwasgaru', 'bwyta' yn adlewyrchiad o'r math o iaith a ddefnyddir wrth adrodd stori, a chryfder y cyfieithiad ydyw hynny. Yn yr ail enghraifft, gwelwn rywbeth tebyg. Y tro hwn, nid yw BNET yn cynnwys rhan o'r frawddeg, sef bod y cnwd yn llosgi yn yr haul poeth. Mae'r 'haul poeth' yn adlewyrchiad da o'r iaith lafar, ond y mae perygl wrth gyfieithu yn y dull hwn o adael manylion allan, a dyna a ddigwydd i'r llosgi yn yr achos hwn. Eto, nid yw ieithwedd BWM yn addas ar gyfer y ddameg, gyda geiriau megis 'poethasant', fel 'difasant' yn yr enghraifft flaenorol, allan o'u lle mewn cymdeithas gyfoes. Cyflëir naws y damhegion yn effeithiol felly gan BNET, yn ddigon cywir yn y BCND, ond heb fod cystal yn BWM.

Ym mhennod 16, ceir hanes adnabyddus sgwrs rhwng Iesu a'i ddisgyblion pan ddywed Iesu y byddai'n rhaid iddo ddiodef yn enbyd, cyn cael ei ladd ac yna ei gyfodi ar y trydydd dydd. Wedi i Pedr ei geryddu a dweud 'ni chaiff hyn ddigwydd i ti,'<sup>238</sup> ceir cofnod o ymateb Iesu.

---

<sup>238</sup> Mathew 16:22.

Mathew 16:23		
BWM	BCND	BNET
Dos yn fy ôl i, Satan: <u>rhwystr</u> ydwyt i mi	Dos ymaith o'm golwg, Satan; <u>maen tramgwydd</u> ydwyt imi	Dos o'm golwg i Satan! Rwyd ti'n <u>rhwystr</u> i mi

Yn ddiddorol yn yr achos hwn, defnyddia'r BCND gyfieithiad llythrennol, gyda chyfeiriad at wrthrych diriaethol, maen tramgwydd, 'stumbling block' yn Saesneg. Cyfieithu'r ystyr a wneir yn y ddau gyfieithiad arall, gyda'r un cyfieithiad yn union ynddynt, ac mae'n drawiadol fod y cyfieithiad diweddaraf a'r hynaf yn defnyddio'r un gair. Trawiadol hefyd yw mai'r un ferf a'r un ffurf ar y ferf a geir yn y tri chyfieithiad, 'dos', gan mai anaml iawn y gwelir hynny.

Ymddengys rhwystr eto ddwy bennod yn ddiweddarach, fel berf y tro hwn, yn hytrach nag enw, yn BWM yn unig.

Mathew 18:6		
BWM	BCND	BNET
A phwy bynnag a <u>rwystro</u> un o'r rhai bychain hyn a gredant ynof fi	Ond pwy bynnag sy'n <u>achosi</u> <u>cwymp</u> i un o'r rhai bychain hyn sy'n credu ynof fi	Ond pwy bynnag sy'n <u>gwneud</u> i un o'r rhai bach yma sy'n credu ynof fi i <u>bechu</u>

Eto, yn yr achos hwn, y BCND sy'n cynnig y cyfieithiad llythrennol ond BNET sy'n taro'r hoelen ar ei phen o ran yr ystyr. Ailadroddir yr ymadroddion gydol y paragraff sy'n dilyn, wrth i Iesu yn ei anerchiad gyfeirio'n ôl dro ar ôl tro at y sawl sy'n achosi'r cwmp. Y peth pwysicaf, o bosibl felly, yw bod y cyfieithwyr yn gyson â hwy eu hunain, hynny yw os dewisant ddefnyddio

‘gwneud ... i bechu’ yn adnod 6 fel y gwna BNET uchod, dylent hefyd gyfieithu adnod 7, ‘Gwae’r sawl sy’n achosi i bobl eraill bechu!’<sup>239</sup> Dyna a lwydda’r tri chyfieithiad i’w wneud, ond tybed a yw BWM trwy ddefnyddio ymadrodd nad yw’n llythrennol nac ychwaith yn cyfleu’r ystyr yn berffaith yn ceisio cyfeirio’n gynnil yn ôl at y sgwrs honno ychydig ynghynt rhwng Iesu a Phedr? Yr un gair a ddefnyddir yn y ddau achos yn y gwreiddiol, a amlygir yn yr elfen gyffredin o faglu a geir yng nghyfieithiadau’r BCND (maen tramgwydd a chwypmo), felly mae’n bosibl mai ceisio sicrhau’r un cysondeb a wna BWM. Y mae rhwystr yn effeithiol yn yr achos cyntaf, ond nid yn gymaint yn yr ail, felly gallasai’r cyfieithiad llythrennol fod wedi bod yn fwy effeithiol. Un wedd ychwanegol i ‘chwyp’ yn y BCND yw’r cysylltiad â chwyp cyffredinol dynoliaeth, fel a adroddir yn Genesis 3. Fodd bynnag, nid o Genesis 3 y daw’r enw priod, ‘Y Chwyp’, ond traddodiad a’i rhydd iddo, ac felly nid yw hwn yn gyfeiriad uniongyrchol bwriadol gan yr awdur yn yr iaith wreiddiol. O ddewis ‘chwyp’ yn hytrach na ‘bagl’, ymddengys fod cyfieithwyr y BCND am gynnwys yr awgrym hwn, er nad oes yr un o’r prif gyfieithiadau Saesneg yn defnyddio ‘fall’, gyda rhai yn defnyddio ‘cause to stumble’ ac eraill ‘cause to sin’. Eto, cryfder BNET yw ei fod yn mynegi yn glir ac yn syml yr ystyr ar ei fwyaf sylfaenol mewn iaith ddealladwy i drwch cymdeithas, sef ‘gwneud i [rywun] bechu.’

Yn nes ymlaen ym mhennod 18, ceir priod-ddull Groeg sydd eto yn rhoddi penderfyniad golygyddol gerbron y cyfieithwyr. Yr ymadrodd cyffredin am drosglwyddo troseddwr i ddwylo ceidwad carchar oedd ei rodidi ‘i’r arteithwyr’.<sup>240</sup> Dilyn y trywydd llythrennol a wna BWM, ‘ac a’i rhoddodd ef i’r poenwyr’,<sup>241</sup> a’r BCND, ‘traddododd ei feistr ef

---

<sup>239</sup> Mathew 18:7, BNET.

<sup>240</sup> *The Greek-English Interlinear ESV New Testament* (Wheaton, Illinois, 2018), t. 84.

<sup>241</sup> Mathew 18:34, BWM.

i'r poenydwyr.<sup>242</sup> Dilyn trywydd fymryn yn wahanol a wna BNET, 'Gorchmynnodd daflu'r swyddog i'r carchar i gael ei arteithio'.<sup>243</sup> Dyma'r unig enghraifft lle ceir cyfeiriad at y carchar, ond dyma'r unig un hefyd lle ceir cyfeiriad at y weithred o arteithio. Er mai arteithwyr yw'r enw a roddir arnynt, ni cheir cyfeiriad uniongyrchol at y weithred o arteithio yn y cyfieithiadau eraill. Ceir, mewn rhai cyfieithiadau Saesneg, gyfeiriad at y carchar ond nid at yr arteithio nac ychwaith yr arteithwyr, yr enw 'jailers' a roddir arnynt yn y cyfieithiadau hynny. Tybed a fyddai 'rheolwr' y carchar wedi bod yn ddisgrifiad derbyniol ohonynt, gyda chyfeiriad at yr ystyr llythrennol, sef mai arteithwyr oeddent, mewn troednodyn? Dyna un dechneg y gall cyfieithwyr ei defnyddio lle mae mymryn o werth nodi'r cyfieithiad llythrennol, ond bod cyfieithiad mwy deinamig yn fuddiol hefyd. Derbynnir nad yw cael troednodiadau fel pupur dros y cyfieithiad i gyd yn hwyluso profiad y darllenydd, ond mae sylw achlysurol ar waelod neu ymyl y ddalen yn werth ei gynnwys.

Ceir priod-ddull Groeg arall ym mhennod 22, y tro hwn wrth i'r Phariseaid gyfarch Iesu a chydabod un neu ddau o wirioneddau amdano. Ceir yr olaf o'r gwirioneddau yn y tabl isod.

Mathew 22:16		
BWM	BCND	BNET
ac nad oes arnat ofal rhag neb: oblegid <u>nid wyt ti yn</u> <u>edrych ar wyneb dynion</u>	ni waeth gennynt am neb, ac <u>yr wyt yn ddi-dderbyn-</u> <u>wyneb</u>	Ti ddim yn un i gael dy ddylanwadu gan bobl eraill, <u>dim ots pwy ydyn nhw</u>

<sup>242</sup> Mathew 18:34, BCND.

<sup>243</sup> Mathew 18:34, BNET.

Y mae'n drawiadol fod dau o'r cyfieithiadau Cymraeg wedi cyfieithu'r ymadrodd hwn yn llythrennol, gan gyfeirio at y weithred o edrych ar wyneb, lle na wneir hynny mewn cyfieithiadau Saesneg, yn gyffredinol. Mae'n ymadrodd dieithr iawn, ac y mae cyfieithiad BNET yn llawer eglurach. Nid yw'r frawddeg honno yn un dderbyniol gan y purydd gramadegol chwaith, o ystyried y diffyg berf yn y prif gymal, yn ogystal ag absenoldeb yr arddodiad 'ar' a dibeniad yn dilyn y ferf arddodiadol, 'dylanwadu'. Fodd bynnag, hon yw'r frawddeg a gyflea ystyr y gwreiddiol yn fwyaf effeithiol yn y Gymraeg, ac am hynny, dylid ei chanmol.

Berf afreolaidd yw 'gwybod' yn y Gymraeg ac un o'r ychydig rai sydd â ffurfiau gwahanol ar gyfer amser y Presennol a'r Dyfodol. Gan gofio bod y rhediadau Gorchmynnol ar gyfer y person cyntaf lluosog a'r ail berson lluosog yr un fath â'r rhai Presennol a Dyfodol hefyd, gall hyn beri dryswch ar adegau. Gall 'cerddwch', er enghraifft, gyfeirio at y presennol, y dyfodol neu fod yn orchymyn. Mae 'gwybod' yn eithriad, ac mae hynny'n hwyluso bywyd y cyfieithwyr gan y defnyddir y ffurf orchmynnol ar y ferf o bryd i'w gilydd yn y Beibl. Un o'r adegau hynny yw ym Mathew 24:43. 'Gwybyddwch hyn'<sup>244</sup> yw'r gorchymyn a roddir yn BWM a'r BCND, lle mae cyfieithwyr llythrennol Saesneg wedi bodloni ar ymadrodd gwannach, 'Know this'. Eto, cyfieitha'r *New American Standard Bible* yr ymadrodd yn ôl yr ystyr sy'n fwy pendant, rywsut, 'Be sure of this'. Yn yr achos hwn, oherwydd ffurf afreolaidd y ferf yn y Gymraeg, cryfheir yr ymadrodd gan gyfleu'r gwir ystyr mewn cyfieithiad llythrennol, lle nad yw'r cyfieithwyr Saesneg yn medru llwyddo yn yr un ffordd. Pe baem yn defnyddio ffurf 'reolaidd' y ferf 'Gwyddwch' ac yn ei gydnabod yn fynegiant cywir, ni fyddai'r un grym ac awdurdod yn

---

<sup>244</sup> Mathew 24:43, BWM, BCND.

perthyn iddo. ‘Meddyliwch!’ yw cyfieithiad BNET, sydd yn gwbl wahanol, ond mae’n rhaid cydnabod bod yr elfen orchmynnol yn eglur.

Ceir ‘Gwybyddwch’ mewn manau eraill o’r Ysgrythur hefyd; ceir y ferf 28 o weithiau yn BWM a 5 gwaith yn y BCND. Mae dau reswm am y gwahaniaeth mewn nifer:

1. Defnyddir ‘gwybyddwch’ fel berf yn yr amser Dyfodol yn BWM, ond defnyddia’r BCND ‘byddwch yn gwybod’ yn yr achosion hyn, megis mewn adnod flaenorol yn y bennod hon: ‘Felly chwithau, pan welwch yr holl bethau hyn, byddwch yn gwybod ei fod yn agos, wrth y drws.’<sup>245</sup>
2. Defnyddia’r BCND ferfau gorchmynnol eraill i olygu rhywbeth tebyg ar adegau, er enghraifft, ‘ystyriwch’,<sup>246</sup> ‘deallwch’<sup>247</sup> a ‘bydded hysbys i chi’<sup>248</sup> (mae cyfieithiad BWM ar gyfer yr olaf braidd yn annaturiol gan ei fod yn dweud ‘gwybyddwch yn hysbys’<sup>249</sup>)
3. Yn Galatiaid 3:7, defnyddir amser Presennol y ferf, ‘gwyddoch’ yn y BCND a’r gorchmynnol ‘gwybyddwch’ yn BWM. Berfau gorchmynnol a geir mewn cyfieithiadau Saesneg, ac ni cheir y ferf o gwbl yn BNET.

Yr adnod fawr tua diwedd y llyfr yw’r un olaf ond un a elwir yn aml ‘y Comisiwn Mawr’. Fel hyn yr ymddengys yr adnod:

---

<sup>245</sup> Mathew 24:33, BCND.

<sup>246</sup> Job 19:6, BCND.

<sup>247</sup> Y Salmu 4:3, BCND.

<sup>248</sup> Jeremeia 42:19, BCND.

<sup>249</sup> Jeremeia 42:19, BWM.

Mathew 28:19		
BWM	BCND	BNET
Ewch gan hynny a dysgwch yr holl genhedloedd, gan eu bedyddio hwy yn enw'r Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân	Ewch, gan hynny, a gwnewch ddisgyblion o'r holl genhedloedd, gan eu bedyddio hwy yn enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân	Felly ewch i wneud pobl o bob gwlad yn ddisgyblion i mi, a'u bedyddio nhw fel arwydd eu bod nhw wedi dod i berthynas â'r Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân

Ceir yr amrywiad cyntaf yn y cymal cyntaf. Y mae'r tri yn defnyddio'r ferf orchmynnol, 'ewch' ac mae BWM a'r BCND yn defnyddio berf orchmynnol arall fwy neu lai yn syth, 'dysgwch' a 'gwnewch'. Golyga hyn fod y 'mynd' yn weithred ynddi ei hun, hynny yw, rhaid mynd, a rhaid dysgu neu wneud disgyblion. Yn BNET ar y llaw arall, 'ewch' yw'r unig ferf orchmynnol a berfenw a geir ar gyfer y 'gwneud'. Rhangymeriad ydyw'r mynd yn yr achos hwn felly, rhan o'r weithred ehangach, nid dwy weithred ar wahân ydynt ond un. Ceir llawer o drafod ar hyn gan gyfieithwyr Saesneg, a dynodir y gwahaniaeth fel arfer gan bresenoldeb neu yn wir, absenoldeb coma. Yr ail beth yw'r 'gwneud disgyblion', a'r tro hwn mae'r BCND a BNET yn debyg ond BWM yn wahanol. 'Dysgu' a geir yn y cyfieithiad hwnnw, fel a geir yn y KJV o'r un cyfnod yn Saesneg, a dysgu'r hyn sy'n wir ac yn gywir yn yr Ysgrythur a olygir gan hynny, wrth gwrs, gan mai felly y 'gwneir disgyblion', ond nid yw hynny'n cael ei nodi yn y cyfieithiad. Y cymal olaf yw'r gorchymyn a geir i'w bedyddio. Tebyg yw BWM a'r BCND y tro hwn, gyda BNET rywfaint yn wahanol wrth ei fod yn rhoddi esboniad byr iawn ar beth ydyw bedydd, 'arwydd'. Diddorol hefyd yw bod y cyfieithiadau hyn yn gorchymyn bedyddio *yn enw'r*

Drindod, tra bo BNET yn gorchymyn bedyddio i ddangos *perthynas efo'r* Drindod. Gellir cyfieithu yn Saesneg i 'baptizing *in* the name of...' neu 'baptizing *into* the name of...'.<sup>250</sup> Caiff y newid bychan hwn effaith sylweddol ar yr ystyr, a dewisa BWM a'r BCND ddefnyddio'r ffordd gyntaf o'i gyfieithu, a BNET yr ail.

Er bod tueddiadau gan gyfieithwyr penodol i ffafrio rhyw ddull a chyfres o egwyddorion wrth fynd ati i lunio cyfieithiad, gwelir hefyd nad ydynt o reidrwydd yn glynu atynt gant y cant. Nid gwendid ydyw hynny, ond parodrwydd i dderbyn y dylid ffafrio dulliau eraill ar adegau a bod hynny'n cryfhau'r cyfieithiad yn y pen draw. BWM sy'n tueddu i gyfieithu'n fwyaf llythrennol i'r Gymraeg, ond gwelir sawl enghraifft yn y bennod hon o gyfieithiadau amgen yn y cyfieithiad hwnnw, a gwelir sawl enghraifft o BNET hefyd, a duedda i fod yn llai llythrennol, yn cyfieithu'n llythrennol iawn. Y gwir amdani yw fod ystyriaethau golygyddol o'r fath yn cael sylw sylweddol iawn gan gyfieithwyr, ac nid yw'r un penderfyniad yn cael ei wneud yn ddiogel nac yn ddifeddwl. Ar adegau, gwelir enghreifftiau o gyfieithiadau a gyfyd gwestiwn neu ddau, a daeth hynny'n fwy i'r amlwg yn y bennod hon. Fodd bynnag, gyda chymaint o'r bennod yn eiriau a adroddwyd ar lafar, ac a gofiwyd ac a basiwyd o berson i berson hyd at y cofnodydd, sef Mathew, gwedda arddull lafar BNET y llyfr hwn yn dda, a cheir argraff naturiol o'r damhegion, yn arbennig, yn cael eu hadrodd ar lafar.

---

<sup>250</sup> *The Greek-English Interlinear ESV New Testament*, t. 142.



## 6. Rhufeiniaid

Y cyntaf, a'r hwyaf o lythyrau'r Testament Newydd yw'r llythyr at y Rhufeiniaid. Mae'n llythyr ac iddo sylwedd diwinyddol ac athrawiaethol; yn wir, treuliodd y Cymro yn Llundain, Dr Martyn Lloyd-Jones, ddeuddeng mlynedd a hanner yn pregethu drwy'r llythyr hwn bob wythnos, adnod wrth adnod.<sup>251</sup> O blith llythyrau'r Testament Newydd, Paul yw awdur y rhan helaethaf ohonynt, gydag 13 allan o 21 yn cael eu priodoli iddo. Priodol felly yw craffu ar un o lythyrau'r awdur hwn, a'r amlycaf ymhlith y rheini o bosibl. Fel 'magnum opus Paul'<sup>252</sup> y disgrifir y llythyr yn y *Beibl Canllaw*, a nodir hyn amdano ynddo, 'Go brin i unrhyw ran arall o'r Beibl gael cymaint o ddylanwad ar hanes y ffydd Gristnogol.'<sup>253</sup> I gynrychioli'r adran bwysig hon o'r Ysgrythur felly, a'r casgliad campus o lythyrau sydd yn rhoi trwch i'r Testament Newydd, ceir yn y bennod hon ddadansoddiad o'r cyfieithiadau o'r llythyr mawr hwn.

Yr enw llawn a rydd BWM ar y llyfr hwn yw 'EPISTOL PAUL YR APOSTOL AT Y RHUFEINIAID'. 'LLYTHYR PAUL AT Y RHUFEINIAID' a geir yn y BCND, a 'Rhufeiniaid' yn syml yn BNET. Ceir pedair elfen o bwys yn nheitl BWM felly, tair yn y BCND ac un yn unig yn BNET. Gweler y sylwadau isod ar y pedair elfen, ac mae'r patrwm ar gyfer y llythyr hwn yn gynrychioladol o'r llythyrau yn gyffredinol (lle mae eu hawduron a'u cynulleidfaoedd yn hysbys).

---

<sup>251</sup> D. Martyn Lloyd-Jones, 'Preface' yn *Romans: An Exposition of Chapter 3.20-4.25* (Caeredin, 1970), t. xi.

<sup>252</sup> 'Llythyr Paul at y Rhufeiniaid', *Y Beibl Canllaw* (Bangor, 2015), t. 1345.

<sup>253</sup> *Ibid.*

BWM	BCND	BNET
Epistol	Llythyr	/
<p>Yr enw mwyaf cyffredin ar ‘ddogfen ysgrifenedig neu brintiedig sy’n cynnwys neges, gwybodaeth, cyfarchiad, &amp;c., ac a anfonir gan y sawl a’i lluniodd at rywun arall neu rywrai eraill’<sup>254</sup> yw ‘llythyr’. Y BCND sy’n esbonio natur y llyfr orau i’r darllenydd dibrofiad felly, er y byddai’r darllenydd profiadol yn debyg o wybod mai gair arall am lythyr yw ‘epistol’. Mae ‘epistol’ yn air a berthyn yn benodol i’r Ysgrythur; er y ceir cyfeiriadau yn y Geiriadur at Goronwy Owen a Morrisiaid Môn yn defnyddio’r gair i olygu llythyr o fath arall,<sup>255</sup> nid yw hynny’n arfer gyffredin o gwbl mwyach. Nid yw BNET yn cyfeirio yn y <i>teitl</i> at natur y llyfr, ond gweler trafodaeth yn nes ymlaen ar yr adnod gyntaf.</p>		
Paul	Paul	/
<p>Cynhwysa’r ddau gyfieithiad hŷn enw’r awdur yn y teitl, tra nad yw BNET yn gwneud hyn. Eto, gweler y drafodaeth yn nes ymlaen ar yr adnod gyntaf.</p>		
apostol	/	/
<p>BWM yw’r unig un i gyfeirio at statws Paul fel apostol yn nheitl y llyfr. Coda’r gair hwn yn yr adnod gyntaf hefyd, er nad yw’r union air yn ymddangos yn BNET.</p>		
Rhufeiniaid	Rhufeiniaid	Rhufeiniaid
<p>Ymddengys mai dyma’r elfen â’r lleiaf i’w ddweud amdani, gan mai dyma’r unig elfen sy’n bresennol yn y tri chyfieithiad. Fodd bynnag, mae’n bosibl mai dyma’r elfen sy’n peri’r dryswch mwyaf. Y ffurf luosog ar yr enw ‘Rhufeiniad’ ydyw wrth gwrs, sy’n enw ar ddinesydd Rhufeinig. Gyda’r fannod yn ei ragflaenu, teg fyddai brysio i’r casgliad felly mai</p>		

<sup>254</sup> ‘llythyr’, *Geiriadur Prifysgol Cymru* (Caerdydd, 1950–), t. 2284.

<sup>255</sup> ‘epistol’, *ibid.*, t. 1227.

llythyr at holl ddinasyddion Rhufain ydyw. Fodd bynnag, dywed Paul yn adnod 7, ‘Yr wyf yn cyfarch pawb yn Rhufain sydd yn annwyl gan Dduw, a thrwy ei alwad ef yn saint.’<sup>256</sup> Nid llythyr at y Rhufeiniaid yn gyffredinol yw hwn felly, ond llythyr at y *saint* yn Rhufain, a chlywir pobl yn disgrifio’r llythyr ar lafar fel ‘llythyr Paul at y *saint/Cristnogion* yn Rhufain’. Diddorol felly na ddilynodd yr un o’r cyfieithwyr Cymraeg y patrwm hwnnw ond na ddilynodd yr un o’r prif gyfieithiadau Saesneg ef chwaith.<sup>257</sup>

Fel y nodwyd eisoes, dylid hefyd drafod yr adnod gyntaf, gan fod cysylltiad rhwng rhai o’r elfennau a ddefnyddir yn y teitlau a’r adnod honno. Fel hyn y’i ceir yn y tri chyfieithiad, yr adnod gyfan yn gyntaf, ac yna fesul rhan:<sup>258</sup>

BWM	BCND	BNET
Paul, gwasanaethwr Iesu Grist, wedi ei alw i fod yn apostol, ac wedi ei neilltuo i efengyl Duw	Paul, gwas Crist Iesu, sy'n ysgrifennu, apostol trwy alwad Duw, ac wedi ei neilltuo i wasanaeth Efengyl Duw.	Llythyr gan Paul – gwas y Meseia Iesu. Dw i wedi cael fy newis gan Dduw i fod yn gynrychiolydd personol iddo, ac wedi cael fy anfon

<sup>256</sup> Rhufeiniaid 1:7, BCND.

<sup>257</sup> Mae enwau’r llythyrau yn faes diddorol, gan na chyfrifir hwynt yn enwau ysbrydoledig fel y testun ei hun. Un ystyriaeth ynghylch y llythyrau hynny y cafwyd nifer lluosog ohonynt gan yr un bobl yw’r modd y cânt eu rhifo. Ceir ‘Llythyr Cyntaf Paul at y Corinthiaid’ ac ‘Ail Lythyr Paul at y Corinthiaid’ yn y BCND (BWM yn debyg) gan awgrymu mai dyma’r ddau lythyr cyntaf a ysgrifennodd atynt. Fodd bynnag, y mae ysgolheigion yn tybio ei fod wedi ysgrifennu o leiaf un cyn ‘y llythyr cyntaf’ ar sail cyfeiriad yn 1 Cor. 5:9, ac o bosibl un arall rhwng ‘y llythyr cyntaf’ a’r ‘ail lythyr’. Mae’r llythyrau hynny a elwir gennym ni’n ‘llythyr cyntaf’ ac ‘ail lythyr’ yn debygol, felly, o fod yn ‘ail lythyr’ a ‘thrydydd llythyr’, os nad yn ‘ail lythyr’ a ‘phedwerydd llythyr’! Er nad yw’r llythyrau eraill gennym, ac nad ydynt yn rhan o’r Canon, a yw’n gamarweiniol galw’r rhai sydd yn y Canon yn gyntaf ac yn ail?

<sup>258</sup> Rhufeiniaid 1:1.

		allan i rannu newyddion da Duw.
gwasanaethwr Iesu Grist	gwas Crist Iesu	gwas y Meseia Iesu
<p>Tebyg yw elfen gyntaf y rhan hon yn y tri chyfieithiad, gyda phob un ohonynt yn cyfleu'r elfen o wasanaeth a hefyd o ymostyngiad i'r awdurdod, sef Crist Iesu. Sylwer bod y BCND a BNET yn nodi ei deitl cyn ei enw personol tra bo BWM yn mynd am y drefn groes. Yn y gwreiddiol, y teitl a ddaw gyntaf, ond nid yw hynny wastad yn wir, mae'n amrywio o achos i achos ac o awdur i awdur. (Mae Paul yn fwy tueddol o ddilyn y drefn honno, hynny yw, 'Crist Iesu', tra bo Ioan yn defnyddio 'Iesu Grist' yn unig). Beth yw canlyniad hyn? Bychan yw'r gwahaniaeth, ond mae'r drefn hon yn rhoi mymryn mwy o bwyslais ar ei deitl, lle byddai'r ffordd groes yn gyfeiriad mymryn yn fwy personol. Ceir trafodaeth ar y defnydd o'r 'Meseia' yn y bennod ar Mathew.</p>		
wedi ei alw	trwy alwad Duw	Dw i wedi cael fy newis gan Dduw
<p>Yr alwad sydd dan sylw yma, er mai 'dewis' yw'r berfenw yn BNET. Mae 'galwad' yn haniaeth a berthyn i grefydd yn arbennig, gyda'r cysyniad yn cael ei drafod yn gyson iawn yn y Beibl. I'r rhai y mae'r diwylliant Cristnogol yn ddieithr iddynt, gall y syniad o 'alwad' fod yn rhywbeth cyfriniol a rhyfedd, ac mae'n bosibl mai dyna'r rheswm pam nad yw BNET yn ei ddefnyddio. Sylwer hefyd ar wrthrych y ferf, mae'n y trydydd person gan BWM a'r BCND a'r person cyntaf gan BNET. Cymharol anarferol bellach yw clywed am rywun yn cyfeirio ato ei hun yn y trydydd person, ond am fod Paul eisoes wedi ei ddisgrifio ei hunan fel 'gwasanaethwr', hynny yw, trydydd person, mae'n gwneud synnwyr iddo ddefnyddio'r</p>		

rhagenw trydydd person yn hwyrach ymlaen. Ceir ymgais fwriadol yn y BCND i osgoi'r arfer hen ffasiwn honno wrth iddo drafod gweithred Duw yn ei alw, yn hytrach na chyflwr Paul o fod yn un sydd wedi ei alw. Mae BNET, fel BWM, yn disgrifio cyflwr Paul (rywfaint yn wahanol, fel y nodwyd eisoes) ond gan ddefnyddio'r person cyntaf, ond sylwer bod yn rhaid iddo ddechrau brawddeg newydd er mwyn gwneud hynny.

apostol	apostol	cynrychiolydd personol iddo (Duw)
---------	---------	--------------------------------------

Dyma air sy'n ffitio'n go gadarn yn y categori 'geirfa bwnc' gan nad yw'n cael ei ddefnyddio mewn meysydd eraill. Ceir dau air i'w gynrychioli yng nghrynodeb agoriadol Thomas Charles o'i erthygl, sef 'cen[n]ad, anfonedig'.<sup>259</sup> Mae'n air sy'n disgrifio dau beth, yn gyntaf un o ddeuddeg apostol Crist (nid yw Paul ymhlith y rheini), ac yn ail y Cristnogion yn fwy cyffredinol a gafodd eu hanfon (mae Paul<sup>260</sup> a Barnabas<sup>261</sup> ymhlith y rheini) i wneud gwaith Duw. Tra bo 'cynrychiolydd personol' yn cyfleu'r ystyr yn ei gyflawnrwydd, dylid nodi bod pob apostol yn gynrychiolydd personol ond nad yw pob cynrychiolydd personol yn apostol. A yw hynny'n bwysig? Sylwer na roddir priflythyren iddo yn yr un o'r cyfieithiadau sy'n awgrymu mai enw cyffredin ydyw, nid enw priod na theitl. Gan nad yw 'apostol' yn 'enw cyffredin' cyffredin felly, synhwyrol efallai o ystyried pwrpas BNET yw mynd am y term amgen. Wedi'r cyfan, beth fyddai pwynt cael tri chyfieithiad gwahanol i gyd yn defnyddio'r un eirfa bwnc? Dyma enghraifft ardderchog o werth cael dau gyfieithiad ochr yn ochr, neu o leiaf o gyfeirio'n gyson at fwy nag un cyfieithiad.

<sup>259</sup> Thomas Charles, 'Apostol', *Geiriadur Ysgrythurol* (Wrecsam, 1885), t. 70.

<sup>260</sup> Rhufeiniaid 1:1.

<sup>261</sup> Actau 14:4.

wedi ei neilltuo i efengyl Duw	wedi ei neilltuo i wasanaeth Efengyl Duw	wedi cael fy anfon allan i rannu newyddion da Duw
<p>Yn rhan olaf yr adnod, rhydd cyfieithiad BNET i'r darllynydd gadarnhad o ystyr y term a drafodwyd yn flaenorol wrth iddo ddefnyddio'r berfenw 'anfon'. Nid yw fodd bynnag yn cyfleu cyflwr Paul fel un sydd ar wahân i'r gweddill yn yr un modd â'r cyfieithiadau eraill. Defnyddir 'neilltuo' yn y cyfieithiadau hŷn a 'separated' yn y KJV a 'set apart' yn yr NIV a'r ESV. Ceir pwyslais mawr yn y cyfieithiadau hyn i gyd felly ar neilltuaeth Paul oddi wrth ryw beth arall ac ar gyfer y gwaith. O ran beth yn union yw'r gwaith, 'neilltuo i efengyl Duw' a geir yn BWM a 'neilltuo i wasanaeth Efengyl Duw' yn y BCND. Y fersiwn heb 'gwasanaeth' yw'r un llythrennol, er nad yw ei gynnwys yn newid rhyw lawer ar yr ystyr. Sylwer hefyd ar y briflythyren a geir yn y BCND yn 'Efengyl' gan ei wneud yn enw priod. Mae'r cyfieithiad hwn yn gymharol unigryw yn hyn o beth ymhlith cyfieithiadau Cymraeg a Saesneg, gyda'r GNB yr unig un arall ymhlith y prif rai eraill yn priflythrennu.<sup>262</sup> Gwnaed hyn yn y BCN (1988) a diddorol nodi felly yr adlewyrchir yr arfer newydd honno yn y llyfr emynau cydenwadol a gyhoeddwyd yn 2001, <i>Caneuon Ffydd</i>. Ceir yn y gyfrol honno, felly, yn wahanol i'w rhagflaenyddion, briflythyren yn y gair mewn llinellau megis:</p> <p style="text-align: center;">Eheda, Efengyl, dros ŵyneb y ddaear a'r moroedd i gyd . . .<sup>263</sup></p>		

<sup>262</sup> 'Good News' a geir yn y cyfieithiad hwnnw, a hynny gyda phriflythrennau. Sylwer mor debyg yw'r cyfieithiad i BNET o ran y geiriau eu hunain, ond nad yw BNET yn defnyddio priflythrennau. Y 'Good News' hwn sy'n rhoi'r enw ar y cyfieithiad hwn hefyd wrth gwrs, *The Good News Bible*.

<sup>263</sup> Ceir y llinellau hyn o eiddo Morgan Rhys gyda'r briflythyren yn 264, *Caneuon Ffydd* (2001) ond nid yn 427, *Llyfr Emynau a Thonau y Methodistiaid Calfaidd a Wesleidd* (1929). Ar y cyfan, mae'r hen lyfrau emynau yn fwy tueddol i briflythrennu geiriau megis rhagenwau a gyfeiriant at Dduw yng nghanol brawddegau (er nad yw'r cyfieithiadau Cymraeg o'r Beibl yn gwneud hyn), a phriflythrennir ar ddechrau pob llinell hefyd. Ceir llawer llai o briflythrennau yn *Caneuon Ffydd*, ond eithriad yw 'Efengyl' felly gan y dilynwyd esiampl y *Beibl Cymraeg Newydd* (1988) gyda'r enw hwn.

‘Rhannu newyddion da Duw’ yw’r gwaith yn BNET ond mae’n werth nodi nad yw hynny o reidrwydd yn cyfleu llawn ystyr y cymal. Ystyr ‘efengyl’ yw ‘newyddion da’, ac er ei fod yn fath arbennig o newyddion da, bodlonwn ar y defnydd o’r gair yn yr un modd ag y bodlonwn ar ‘gynrychiolydd personol’ uchod. Ond ai ‘rhannu’ y newyddion da hwn yw swm a sylwedd ‘neilltuo i efengyl Duw’? Awgrymir bod mwy i’r gwaith na hynny’n unig gan fod Paul yn gwneud cymaint yn fwy na ‘rhannu’ y newyddion da yn unig.

Gwelir felly, oddi wrth yr ychydig gymalau yn yr adnod gyntaf yn unig, fod egwyddorion cyfieithu BNET yn arbennig yn sefyll allan, a’r egwyddor fawr yw bod cyfleu’r ystyr ar ei wedd symlaf yn glir yn bwysicach na cheisio efelychu’r mynegiant o holl ystyron posibl y gwreiddiol, yr ystyron amlwg a’r rhai mwy cynnil. Canlyniad hynny yw bod y neges i’r darllenydd dibrofiad yn eglurach, ond nad yw’n cyfleu holl gyfoeth y gwreiddiol. Mae BNET yn cyflawni ei bwrpas felly, gan mai’r rheswm dros lunio’r cyfieithiad oedd er mwyn gwneud hynny yn union. Os yw darllenydd eisiau cynrychiolaeth gymharol o’r gwreiddiol, yna mae BWM ar gael, a’r BCND i raddau. Pair hyn fod y Cymro mewn sefyllfa freintiedig iawn, gall ddarllen nifer o gyfieithiadau ochr yn ochr gyda phob un yn cyfleu rhyw agwedd wahanol ar y gwreiddiol (un yn fwy na’r lleill weithiau o bosibl, ac yn sicr un yn fwy eglur na’r lleill weithiau)<sup>264</sup> gan ganiatáu i’r Cymro dderbyn darlun go gyflawn yn y pen draw.

Yn ail adnod y bennod gyntaf, gwelir un o nodweddion unigryw BWM, sef y defnydd rheolaidd o ddangosolion fel rhagenwau. Wrth gyfeirio’n ôl at ‘efengyl Duw’ yn yr adnod gyntaf, noda

---

<sup>264</sup> Atgyfnerthir hyn gan theori Brunn, sef bod yn rhaid dehongli o bryd i’w gilydd. Wrth y ceir gwahanol gyfieithwyr felly, ceir gwahanol ddehongliadau. Gw. y drafodaeth ar tt. 14-5 yn y traethawd hwn.

BWM, gyda'r cromfachau '(Yr hon a ragaddawsai efe trwy ei broffwydi yn yr ysgrythurau sanctaidd).<sup>265</sup> Defnyddir 'hon' gan amlaf fel ansoddair, ond wrth roi'r fannod cyn ansoddair, daw'r ansoddair hwnnw yn enw, neu'n rhagenw yn yr achos hwn, ac mae i hyn gryfderau a gwendidau. Y cryfder pennaf yw ei gynildeb, yn BWM, ceir dau ragenw nodedig yn y cymal 'yr hon a ragaddawsai efe', sef 'hon' ac 'efe'.<sup>266</sup> Canlyniad y ffaith fod dau ragenw yma yw nad oes yr un enw yma; mae'r enwau eisoes wedi cael eu nodi yn yr adnod gyntaf a defnyddia'r cyfieithiad hwn ddau ragenw er mwyn osgoi ailadrodd yr enwau hynny. Nid yw'r un cynildeb yn perthyn i'r cyfieithiadau eraill; mae'r BCND yn gorfod aildefnyddio'r enwau 'Efengyl' a 'Dduw' er mwyn cyfleu'r un wybodaeth. Ei wendid ar y llaw arall yw dieithrwch ymadrodd o'r fath i lawer o ddarllenwyr cyfoes. Dylid nodi y defnyddir y dangosolion fel rhagenwau ar gyfer pob math o bethau, enwau haniaethol fel yn yr achos hwn, ac enwau diriaethol. Ond efallai mai'r defnydd mwyaf annaturiol i ddarllenwyr cyfoes yw'r defnydd ohonynt ar gyfer cymeriadau'r Beibl, yn bobl ac yn Dduw ei hun. Sylwer ar Rufeiniaid 5:1-2,

Am hynny, gan ein bod wedi ein cyfiawnhau trwy ffydd, y mae gennym heddwch tuag at Dduw, trwy ein Harglwydd Iesu Grist:

Trwy yr hwn hefyd y cawsom ddyfodfa trwy ffydd i'r gras hwn, yn yr hwn yr ydym yn sefyll...<sup>267</sup>

---

<sup>265</sup> Rhufeiniaid 1:2, BWM.

<sup>266</sup> Mae'r 'a' hefyd yn rhagenw, sef rhagenw perthynol ôl-gyfeiriol, ond fel yr awgryma ei enw, cyfeiria'r rhagenw hwnnw'n ôl at yr un goddrych â 'hon'.

<sup>267</sup> Rhufeiniaid 5:1-2, BWM.



Cyfeirio'n ôl at 'ein Harglwydd Iesu Grist' a wna 'yr hwn' cyntaf yma, tra bo'r ail yn cyfeirio'n ôl at y 'gras'. Ar ben y ddau ragenw dangosol 'hwn', ceir hefyd yr ansoddair dangosol 'hwn' yn eu canol. Ond sylwer ar yr ail adnod yn y BCND,

Trwyddo ef, yn wir, cawsom ffordd, trwy ffydd, i ddod i'r gras hwn yr ydym yn sefyll ynddo.<sup>268</sup>

Defnyddia'r cyfieithiad hwn ragenw llawer mwy cyffredin i gyfeirio at y trydydd person gwrywaidd, 'ef', a chanlyniad hynny yw bod y frawddeg yn darllen yn llawer mwy naturiol. Cyfranna'r rhagenwau dangosol hyn yn bendant at gywair tra ffurfiol BWM, a thra bo hynny'n siŵr o apelio at rai darllenwyr, y gwirionedd yw ei fod yn chwithig i lawer o ddarllenwyr cyfoes. Hyd yn oed y rhai sydd yn gyfarwydd â darllen Cymraeg llenyddol diweddar, mae'r arfer hwn yn ddieithr ac yn hynafol, ac nid yw ond yn naturiol i'r rhai sydd wedi hen arfer darllen hen weithiau Cymraeg.

Sylwer na chyfosodwyd BNET â'r cyfieithiadau eraill wrth drafod ail adnod y bennod gyntaf uchod, a hynny am ei fod yn dilyn patrwm rywfaint yn wahanol. Tra bo gan BWM ddau ragenw a'r BCND ddau enw, dim ond enw i'r gwrthrych a geir yn BNET ac nid oes unrhyw gyfeiriad at y goddrych,

Dyma'r newyddion da gafodd ei addo ymlaen llaw drwy beth ddwedodd y proffwydi yn yr ysgrifau sanctaidd...<sup>269</sup>

Y goddrych yn y cyfieithiadau eraill oedd Duw, a fynegwyd gan 'efe' yn un cyfieithiad a 'Duw' yn y llall. Y mae'n wir y caiff ei enwi ar ddiwedd adnod gyntaf BNET, 'newyddion da Duw', ond

---

<sup>268</sup> Rhufeiniaid 5:2, BCND.

<sup>269</sup> Rhufeiniaid 1:2, BNET.

mae'n absennol o'r ail adnod. Tra nad ydyw'n peri gormod o drafferthion fel adnod ar ei phen ei hun fel y gwelir uchod, sylwer ar y parhad yn y frawddeg nesaf,

... Ie, y newyddion da am ei Fab, Iesu y Meseia, ein Harglwydd ni.<sup>270</sup>

Ceir yn y frawddeg nesaf y rhagenw dibynnol blaen, 'ei', a gyfeiria at Dduw wrth gwrs. Ond oherwydd absenoldeb unrhyw gyfeiriad at Dduw yn y frawddeg flaenorol, mae'n rhaid neidio'n ôl dros frawddeg gyfan er mwyn cwblhau'r cyfeiriad, sydd rywfaint yn anarferol.

Yn y tair adnod gyntaf yn y llythyr hwn felly, ceir yr enw 'Dduw' unwaith yn BWM, deirgwaith yn y BCND a dwywaith yn BNET. Ceir 'efengyl' neu 'newyddion da' unwaith yn BWM, deirgwaith yn y BCND a theirgwaith hefyd yn BNET. Gyda chynildeb barddonol, bron, BWM y daw hefyd ddiffyg naturioldeb cynyddol gyda'r cenedlaethau, wrth i genedlaethau ymbellhau'n fwyfwy oddi wrth naws dra ffurfiol BWM ac wrth iddynt hefyd arfer lai a llai â darllen a chlywed y cyfieithiad unigryw hwnnw. Y BCND sydd egluraf, o bosibl, gan adlewyrchu gwerth a chryfder iaith safonol, gyfoes, ond bod y nifer geiriau yn fwy.

Un o hynodion y llythyr hwn yw ei fod yn trafod rhai cysyniadau diwinyddol mewn manylder mawr; treulia Paul yr 11 pennod gyntaf yn egluro'r iachawdwriaeth cyn troi ar 'am hynny' go drawiadol tua chanlyniadau ymarferol yr iachawdwriaeth. Wrth drafod y cysyniadau diwinyddol hyn felly, mae'n anorfod y ceir defnydd o eirfa arbennig, termau a fathwyd yn benodol i drafod rhai o'r cysyniadau hyn ac mae hynny'n ymofyn trafodaeth ar y cyfieithiadau. Yr hyn sy'n ddiddorol yw'r graddau y mae'r eirfa benodol wedi goroesi'r cenedlaethau, a chyda hynny felly, y cyfieithiadau. Y cyntaf o'r cysyniadau hyn a drafodir yma yw yr 'iawn'.

---

<sup>270</sup> Rhufeiniad 1:2-3, BNET.

Y pwyslais o 1:18–3:20 yw euogrydd pob dyn gerbron Duw<sup>271</sup> cyn troi o 3:21 ymlaen at gyfiawnhad trwy ffydd yng Nghrist. Fel hyn y ceir agoriad yr adran honno yn BWM:

Ac yr awr hon yr eglurwyd cyfiawnder Duw heb y ddeddf, wrth gael tystiolaeth gan y ddeddf a'r proffwydi;

Sef cyfiawnder Duw, yr hwn sydd trwy ffydd Iesu Grist, i bawb ac ar bawb a gredant: canys nid oes gwahaniaeth:

Oblegid pawb a bechasant, ac ydynt yn ôl am ogoniant Duw;

A hwy wedi eu cyfiawnhau yn rhad trwy ei ras ef, trwy'r prynedigaeth sydd yng Nghrist Iesu:

Yr hwn a osododd Duw yn iawn, trwy ffydd yn ei waed ef, i ddangos ei gyfiawnder ef, trwy faddeuant y pechodau a wnaethid o'r blaen, trwy ddioddefgarwch Duw;

I ddangos ei gyfiawnder ef y pryd hwn; fel y byddai efe yn gyfiawn, ac yn cyfiawnhau y neb sydd o ffydd Iesu.<sup>272</sup>

Dyma un frawddeg<sup>273</sup> y ceir 85 o dudalennau amdani yn esboniad Dr Martyn Lloyd-Jones ar y llythyr, sy'n adrodd cyfrolau am natur gynhwysfawr yr adnodau hyn.<sup>274</sup> Ceir adran sylweddol ar un adnod, un gair hyd yn oed, a'r gair hwnnw a gyfieithir 'iawn' yn adnod 25. 'Propitiation' yw'r gair hwnnw yn Saesneg, a'r gwir yw bod hwn yn air dadleuol ymhlith diwinyddion mewn perthynas â chyfieithu'r Ysgrythur, yn arbennig felly wrth ystyried a yw holl ystyr y gair yn angenrheidiol mewn cyfieithiad. Cyfeiria Lloyd-Jones at bedair elfen hanfodol mewn unrhyw iawn yn ôl y Piwritan, John Owen:

---

<sup>271</sup> Cyflwyniad i Rhufeiniaid, *Y Beibl Canllaw*, t. 1345.

<sup>272</sup> Rhufeiniaid 3:21-26, BWM.

<sup>273</sup> Mae'r frawddeg hon yn BWM yn cyfateb i 5 brawddeg yn y BCND a 12 yn BNET.

<sup>274</sup> Lloyd-Jones, *Romans: An Exposition of Chapter 3.20-4.25*, tt.. 23-108.

1. An offence to be taken away,
2. A person offended who needs to be pacified,
3. An offending person; a person guilty of the offence,
4. A sacrifice or some other means of making atonement for the offence.<sup>275</sup>

Bodlonir bod 'iawn' yn air sy'n cyfleu llawn ystyr y gair gwreiddiol yn y Gymraeg, fel y'i defnyddiwyd yn BWM. Fodd bynnag, dyma air a ddaeth yn fwy o destun trafod gydag ymddangosiad y *Beibl Cymraeg Newydd* (1988). Er nad yw'r argraffiad cyntaf o'r cyfieithiad hwn yn destun y drafodaeth yn y traethawd hwn, ni ellir osgoi cyfeirio at gefndir y cyfieithiad a'r argraffiad diwygiedig a gafwyd iddo yn 2004. Penderfynwyd ar gyfer cyfieithiad 1988 ddefnyddio 'moddion puredigaeth',<sup>276</sup> ac yn ôl Iwan Rhys Jones, penderfyniad diwinyddol oedd hwn, nid penderfyniad yn perthyn i'r iaith Gymraeg. Dywed, gan ddyfynnu'n helaeth o ragair *Testament Newydd* 1975 (a ddefnyddiwyd yn y cyfieithiad llawn yn 1988),

Yn y rhagair i Destament Newydd y BCN tynnwyd sylw yn benodol at Rhuf 3:25 fel enghraifft o adnod lle y byddai 'cyfieithiad llythrennol a thraddodiadol yn gamarweiniol'. Dadleuwyd bod y gair 'iawn' a ddefnyddiwyd gan William Morgan yn Rhuf 3:25 yn adlewyrchu ei ddiwinyddiaeth Galfinaidd, a oedd, yn hyn o beth, yn mynd yn ôl at Anselm, gyda'r cysyniad o satisfacto. Yn hytrach, dylid deall y gair Groeg gwreiddiol yn nhermau moddion i ddileu euogrwydd. O ganlyniad 'mentrwyd ar gyfieithiad newydd' gan gyfiawnhau dewis gair newydd ar sail y ffaith bod 'cytundeb cyffredinol ymhlith esbonwyr cyfoes ynglŷn ag ystyr y term gwreiddiol.' Y term newydd a ddefnyddiwyd oedd 'moddion puredigaeth'.<sup>277</sup>

Dywed fod y penderfyniad hwn 'wedi peri anfodlonrwydd i ddarllenwyr ceidwadol' ac y gellir olrhain y newid ystyr gyda'r gair newydd i waith C. H. Dodd. Dadleua fodd bynnag fod gwaith Leon Morris a David Hill yn gwrthbrofi casgliadau Dodd ar ystyr y gair Groeg gwreiddiol a bod 'moddion puredigaeth' o'r herwydd yn gyfieithiad gwan wrth ei fod yn hepgor yr elfen o ddyhuddiant. Aiff yn ei flaen i nodi'r term a ddefnyddiwyd yn y BCND sef 'aberth cymod', a

---

<sup>275</sup> Lloyd-Jones, 'Propitiation' yn *Romans: An Exposition of Chapter 3.20-4.25*, t. 70.

<sup>276</sup> Rhufeiniaid 3:25, BCN.

<sup>277</sup> Iwan Rhys Jones, 'Y Beibl Cymraeg Newydd' yn Iwan Rhys Jones a Julie Rhys Jones (gol.), *Diwinydda Ddoe a Heddiw* (Pen-y-bont ar Ogwr, 2012) tt. 18-9.

chyfeiria at sylw a wnaed gan Gwilym H. Jones mai ‘cyfaddawd’ oedd hwn. Dywed fodd bynnag,

Ni ellir gwadu bod y geiriad ‘aberth cymod’ yn dangos newid cysyniadol yn y ddealltwriaeth o’r gair Groeg. Felly, yn hytrach na phuredigaeth, cymod yw’r cysyniad. Yn ogystal, mae’r cymod yn cael ei osod yn benodol yng nghyd-destun aberth.

...

Wrth fabwysiadu’r newid hwn yn nhestun y BCND gwelir dylanwad dehongliad diwinyddol Dodd yn gwanhau.<sup>278</sup>

Daw i’r casgliad felly fod ‘aberth cymod’ yn fwy cynrychioladol o wir ystyr y gair Groeg a bod dylanwad yr unigolyn penodol hwnnw wedi lleihau. Sylwer bod Dr Martyn Lloyd-Jones yn cyfeirio at drafodaeth debyg yn y Saesneg,<sup>279</sup> felly nid mater yn ymwneud â’r iaith Gymraeg yw hwn ond mater yn ymwneud â’r Roeg. Gyda hynny o gefndir, dylid ychwanegu BNET at y drafodaeth a sylwer ar y geiriau a geir yn y tri chyfieithiad dan sylw yn y traethawd hwn:<sup>280</sup>

BWM	BCND	BNET
Yr hwn a osododd Duw yn <u>iawn</u> , trwy ffydd yn ei waed ef, i ddangos ei gyfiawnder ef, trwy faddeuant y pechodau a wnaethid o’r blaen, trwy ddioddefgarwch Duw	yr hwn a osododd Duw gerbron y byd, yn ei waed, yn <u>aberth cymod</u> * trwy ffydd. Gwnaeth Duw hyn i ddangos ei gyfiawnder yn ddiymwad, yn wyneb yr anwybyddu a fu ar bechodau'r gorffennol yn amser ymatal Duw;	Drwy ei ffyddlondeb yn tywallt ei waed, rhoddodd Duw e’n <u>aberth i gymryd y gosb am ein pechod ni.</u> <u>Cafodd ei gosbi yn ein lle ni!</u> Roedd yn dangos fod Duw yn berffaith deg, er bod pechodau pobl yn y gorffennol heb eu cosbi cyn

<sup>278</sup> Ibid.

<sup>279</sup> Lloyd-Jones, ‘Propitiation’, *Romans: An Exposition of Chapter 3.20-4.25*, tt. 70-1.

<sup>280</sup> Rhufeiniaid 3:25.

	<p><i>*Neu, yn foddion</i></p> <p><i>puredigaeth. Neu, yn iawn.</i></p>	<p>hyn. Bod yn amyneddgar</p> <p>oedd e.</p>
--	---	--

Mae'r elfen yna o 'aberth' yn amlwg yn y tri chyfieithiad, ac efallai y byddai'n werth nodi ei fod yn fwy amlwg yn y cyfieithiadau diweddar gan eu bod yn defnyddio'r gair 'aberth' sy'n rhan o eirfa bob dydd, wedi ei gyplysu â geiriau eraill. Ceir y gair 'cymod' yn y BCND fel y nodwyd eisoes, ond sylwer ar y disgrifiad o'r aberth yn BNET, 'aberth i gymryd y gosb am ein pechod ni. Cafodd ei gosbi yn ein lle ni!' Diddorol yw bod BNET yn cynnig rhyw esboniad ar y gair,<sup>281</sup> gyda phwyslais amlwg ar y gosb a roddwyd ar Grist 'yn ein lle ni'. Ceir awgrym o ymdrech fwriadol i osgoi gorbwysleisio'r elfen a bwysleisiwyd yng nghyfieithiad gwreiddiol y BCN, gyda 'moddion puredigaeth', ac mae'n werth nodi bod Arfon Jones (prif gyfieithydd BNET) ynglŷn â gwaith y 'Gweithgor Efengylaidd' a awgrymodd y diwygiadau hyn i'r BCN.<sup>282</sup> Sylwer y ceir troednodyn yn y BCND fodd bynnag, gyda dau ddarlleniad amgen yn cael eu cynnig, sef y ddau a ddefnyddiwyd yn BWM ac yn y BCN. Golyga hynny mai gwaith y darllenydd yw penderfynu pa un yw'r darlleniad cywir; gall yr awgrym hwn i gadw meddwl agored fod yn fantais ac yn anfantais i wahanol ddarllenwyr, ond gwelir ymgais i blesio amrediad eang o safbwyntiau.

Gair arall a gyfrifir ymysg geirfa bwnc diwinyddiaeth ac a ymddangosodd mewn cyfeiriad yn flaenorol y bennod hon yw 'gras'. Ceir yr enw hwn 23 o weithiau yng nghyfieithiad

---

<sup>281</sup> Gan fanteisio ar drydydd pwynt bwled Brunn yn *One Bible, Many Versions*, o bosibl. Gw. t. 14 yn y traethawd hwn.

<sup>282</sup> Gweler troednodiadau 10 ac 11 yn Iwan Rhys Jones, 'Y Beibl Cymraeg Newydd' yn Iwan Rhys Jones a Julie Rhys Jones (gol.), *Diwinydda Ddoe a Heddiw*, t. 15.

y BCND o'r llythyr hwn<sup>283</sup> yn ogystal â'r ansoddair 'graslon' ddwywaith.<sup>284</sup> Ceir yr enw saith gwaith a'r ansoddair unwaith ym mhennod 5 yn unig, ac mae'n deg dweud mai dyma un o themâu mawr y llythyr cyfan a'r bennod honno yn arbennig. Ceir trafodaeth ar y gair arbennig hwn yn y bennod sy'n trafod yr holiadur, a cheir yno ddadansoddiad o ddealltwriaeth y gynulleidfa gyfoes o'r gair. Fodd bynnag, rhaid yw ei drafod yma gan mor amlwg ydyw'r thema hon, ac mor nodedig yw'r ymdriniaeth o'r gair yn un o'r cyfieithiadau. Egyr Thomas Charles ei ddiffiniad ohono gan nodi:

Daioni, cariad, caredigrwydd, cymwynasgarwch Duw tuag at ddynion, neu ddynion tuag at ei gilydd – a hynny yn hollol rad, wirfoddol ac anhaeddiannol yn y gwrthdrys o'r daioni hwnnw.<sup>285</sup>

Y mae i'r cysyniad hwn felly ddwy elfen, y ffafr a grisielir gan hanner cyntaf y frawddeg uchod, a'r elfen radlon ac anhaeddiannol a grisielir gan yr ail hanner. Aiff yn ei flaen a dweud, 'trwy drawsenswad, arwydda [gras] unrhyw fendith, anrheg neu rodd, yn amlygu caredigrwydd, ac yn deillio o ewyllys da'.<sup>286</sup> Fel y gwelir mewn trafodaeth flaenorol yn y bennod hon, ceir y gair ar ddechrau pennod 5, ac efallai mai dyma un o'r enghreifftiau mwyaf adnabyddus o'r defnydd ohono. Mae'r gair yn arwyddocaol o ran y drafodaeth ar gyfieithu oherwydd ei absenoldeb o un cyfieithiad yn arbennig, sef BNET. Gwelir yr adnod honno fel y mae yn y tri chyfieithiad isod:<sup>287</sup>

BWM	BCND	BNET
Trwy yr hwn hefyd y cawsom ddyfodfa trwy	Trwyddo ef, yn wir, cawsom ffordd, trwy ffydd, i ddod i'r	Wrth gredu dŷn ni eisoes wedi dod i brofi <u>haelioni</u>

<sup>283</sup> Owen E. Evans a David Robinson (gol.), 'Gras', *Mynegair i'r Beibl Cymraeg Newydd* (Caerdydd, 1998), t. 586.

<sup>284</sup> 'Graslon', *Ibid.*, t. 586.

<sup>285</sup> Charles, 'Gras', *Geiriadur Ysgrythurool*, t. 440.

<sup>286</sup> *Ibid.*

<sup>287</sup> Rhufeiniaid 5:2.

ffydd i'r <u>gras</u> hwn, yn yr hwn yr ydym yn sefyll ac yn gorfoleddu dan obaith gogoniant Duw.	<u>gras</u> hwn yr ydym yn sefyll ynddo. Yr ydym hefyd yn gorfoleddu yn y gobaith y cawn gyfranogi yng ngogoniant Duw.	Duw, a gallwn edrych ymlaen yn llawen i gael rhannu yn ei ysblander.
--	--	--

Yn gyntaf, ystyrier ambell beth arall ynglŷn â'r adnod hon:

1. Sylwer ar y cymal agoriadol; mae'r ddau gyfieithiad hŷn yn pwysleisio mai trwy Iesu Grist y ceir dyfodfa/ffordd, a hefyd trwy ffydd. Ceir pwyslais tebyg yn y prif gyfieithiadau Saesneg, y KJV, NIV, ESV a'r GNB hyd yn oed. Yr awgrym gyda'r pwyslais hwn yw mai Iesu Grist sy'n bennaf gyfrifol am y weithred, nid y person cyntaf lluosog sef Cristnogion Rhufain a Phaul ei hun gyda hwy. Hepgorir yr elfen honno o BNET gyda'r pwyslais ar weithred y Cristnogion eu hunain, 'Wrth gredu dŷn ni eisoes wedi dod i brofi...', heb gyfeiriad at unrhyw weithred gan Grist.
2. Sylwer ar y cymal olaf. Ceir 'ysblander' yn hytrach na 'gogoniant' yn un peth, a gwerth nodi mai un o ddisgrifiadau *Geiriadur Prifysgol Cymru* o 'gogoniant' yw:

llewyrch nefol neu arallfydol, sef arwydd gweledig o bresenoldeb Duw, amlygiad o berffeithrwydd neu ragoriaeth y cymeriad dwyfol.<sup>288</sup>

Mwy cyffredinol yw ysblander, heb fod yn air sy'n perthyn mor benodol i faes diwinyddiaeth, ond mae'n cyfleu ei ystyr beth bynnag. Ond y peth mwyaf nodedig am y cymal olaf hwn, o bosibl, yw ymateb y Cristnogion, a'r modd y mae'n amrywio rhwng y tri chyfieithiad. Mae'r 'gorfoleddu' yn y cyfieithiadau hŷn yn cyfleu rhywbeth

---

<sup>288</sup> 'Gogoniant', *Geiriadur Prifysgol Cymru*, t. 1438.



arbennig iawn, ac anodd yw cyfleu'r fath beth yn llawn ag unrhyw eiriau eraill mewn gwirionedd. Ond eto, dylid gofyn beth fyddai pwrpas y cyfieithiad newydd pe bai'n defnyddio'r un ymadroddion a'r un eirfa? Holl bwrpas ei fodolaeth yw cynnig yr un neges sylfaenol mewn dull rhwyddach i gynulleidfa newydd, ac mae 'edrych ymlaen yn llawen', er yn ychwanegu rhyw elfen o ddyheu am i dreigladd amser frysio, yn cyfleu yn fras eu profiad.

Ond yn ganolbwynt i'r adnod hon ceir y gair mawr dan sylw, 'gras'. 'Haelioni' yw'r enw arno yn BNET, a thra bo elfen o haelioni yn perthyn i 'gras' yn ddiameduaeth, nid yw'n cyfleu holl ystyr y gair. Nodwyd eisoes fod dwy elfen i ras, y ffafr (a gyflëir yn ddigonol gan haelioni) a'r anhaeddianoldeb. Yr ail elfen yw'r un nas cynhwysir yn nherm BNET, ac felly i'r rhai sy'n astudio'r Beibl yn fanwl ac yn dwysfyfrio ar adnodau fel hon, mae elfen o'r ystyr yn guddiedig. Wedi dweud hynny, ac fel yr amlygir yn y bennod yn trin a thrafod yr holiadur, amrywiol yw'r ddealltwriaeth o 'gras', yn enwedig ymhlith cynulleidfaeodd dieithr, ac felly er mwyn cyfleu'r syniad elfennol ar ei gliriaf, mae'n bosibl fod 'haelioni' yn fwy effeithiol. Un camsyniad cyffredin, o bosibl, yw y dylai pob unigolyn, teulu ac eglwys benderfynu pa gyfieithiad i'w ddefnyddio ac i ddefnyddio hwnnw yn unig. Dyma enghraifft dda o pan all un cyfieithiad roi'r ystyr yn fwyaf elfennol yn gyntaf, cyn y medrir troi at gyfieithiad arall i ychwanegu at y ddealltwriaeth neu at y myfyrdod.

Nid yn unig y cysyniad ei hun sy'n amrywio ond mae perthynas y Cristion â'r cysyniad dan sylw fymryn yn wahanol yn y cyfieithiad hwn hefyd, gyda'r cyfieithiadau hŷn yn cyfeirio at 'sefyll' yn y gras. Cyflea'r berfenw hwn gyflwr parhaol holl fodolaeth y Cristion mewn ffordd brydferth iawn, yn ogystal â rhyw elfennau o gadernid, croeso a diogelwch. Tra bo 'dod i brofi haelioni Duw' hefyd yn ymadrodd digon cynnes, nid yw'n cyfleu holl fodolaeth a chyflwr y

Cristion yn yr un ffordd. Wedi dweud hynny, gall y syniad o 'sefyll' yn y gras neu'r haelioni hwn ymddangos yn rhyfedd i rai pobl ac ar sail hynny, doeth oedd ceisio dilyn trywydd gwahanol wrth ei gyfieithu ac mae'r cyfieithiad a ddewiswyd yn cyfleu haenau mwyaf elfennol yr ystyr yn glir.

Diddorol yw cymharu'r ymdriniaeth â'r ddau gysyniad a drafodir uchod gan fod y term cyntaf, 'iawn', i'w gael yn BWM yn unig, gyda'r newid yn dod yn yr ugeinfed ganrif. Ond mae 'gras' yn goroesi'r ugeinfed ganrif, a dim ond yn y cyfieithiad diweddaraf y mae'n diflannu. Yr hyn sy'n ddiddorol yw bod ystyron yn cael eu cyffredinoli mewn gwahanol gyfnodau:

1. Mae'n bosibl, felly, fod rhai geiriau sydd wedi eu cyffredinoli cyn ac yn BWM, hynny yw, na fathwyd term ar gyfer eu hystyr lawn erioed yn y Gymraeg. Trafoda Iwan Rhys Jones 'chesed' yn ei gyfrol o fyfyrddodau, *Geiriau Bywyd*, gair Hebraeg '[nad] oes un gair sy'n gwneud y tro ym mhob man er mwyn mynegi ystyr y gair'.<sup>289</sup> Cynigia sawl gair megis 'teyrngarwch, ffyddlondeb, cariad, trugaredd, caredigrwydd' sydd i gyd yn addas mewn gwahanol gyd-destunau, ond nid oes cyfieithiad uniongyrchol wedi bod yn y Gymraeg erioed.
2. Mae'n ffaith fod rhai wedi cael eu cyffredinoli rhwng BWM a'r BCND, ac yna rhwng y BCND a BNET, ceir enghreifftiau gydol y traethawd hwn.
3. Mae'n bosibl y bydd rhai geiriau yn cael eu cyffredinoli eto, hynny yw, geiriau sydd wedi goroesi i BNET ond na fyddant mewn rhyw gyfieithiad sydd eto i ddod. Ystyrier gair fel 'Meseia', er enghraifft.

---

<sup>289</sup> Iwan Rhys Jones, 'Chesed' yn *Geiriau Bywyd* (Bangor, 2017), t. 58.


Y gwir amdani yw bod yn rhaid tynnu llinell yn rhywle o ran pa eiriau technegol sy'n briodol i'w cynnwys. Petai pob gair mewn cyfieithiad yn union gyfystyr â'r gwreiddiol, nid cyfieithiad Cymraeg fyddai mewn gwirionedd ond Beibl Hebraeg a Groeg gydag orgraff Gymraeg, ac ni fyddai neb yn ei ddeall heb addysg ddiwinyddol i lefel uchel. Esbonia Dave Brunn ei bod yn amhosibl mynegi ystyron llawn geiriau rhwng unrhyw ddwy iaith, a dywed, 'Meaning should be viewed as an area, rather than a precise point.'<sup>290</sup> At hyn, defnyddia ddwy enghraifft:

For example, the Greek word *agapē* is most often translated "love" in English ['cariad' yn Gymraeg]. But there is not precise, word-for-word correspondance, because the area of meaning of *agapē* is not identical to the area of meaning of the English word *love*.

...

Another example is the Greek word *charis*, which is translated "grace" nearly 130 times in the KJV ['gras' yn BWM a'r BCND]. Does faithfulness in translation require translators to do a word-for-word translation of the word *charis*, translating it "grace" every instance? No. I do not know of any Bible version that has done that.<sup>291</sup>

Defnyddia ddiagramau hefyd i gyfleu hyn, ar ffurf debyg i'r canlynol:<sup>292</sup>



Nid mater deuaidd yw cyfieithu'n llythrennol ai peidio felly, mae'n raddfa, a dewisa'r cyfieithwyr ble i anelu ar y raddfa honno. Mae 'charis' a 'gras' yn cyfateb i raddau helaeth, ond nid yn llwyr, tra bo 'charis' a 'haelioni' yn cyfateb i raddau rywfaint yn llai. Ond pwysleisir pwysigrwydd cyfieithu fel bod y mynegiant yn glir ac yn ddealladwy yn yr iaith darged, neu ni

---

<sup>290</sup> Dave Brunn, *One Bible, Many Versions* (Nottingham, 2013), t. 72.

<sup>291</sup> Ibid., tt. 72-3.

<sup>292</sup> Addasiad o ffigurau 4.2 a 4.3 yn Ibid., t. 73.

fyddai pwrpas i unrhyw gyfieithiad fodoli. Ceir cydsyniad cyffredinol ei bod yn dderbyniol defnyddio geiriau cyffredin y Gymraeg mewn cyfieithiad o'r Beibl yn ogystal â thermau pwnc, ond mae amrywiaeth barn ynglŷn â lle y dylid gosod y llinell.

Gan symud oddi wrth yr eirfa dechnegol a geir yn y cyfieithiadau at ymadroddion mwy cyffredinol, gwelir bod egwyddorion cyfieithu ar y cyfan yn parhau i gael eu cadw'n gyson gan y tri chyfieithiad. Dilynnir y patrymau cyffredinol a ddefnyddir gydol y cyfieithiadau wrth gwrs, ond mae ambell enghraifft ddiddorol yn y llythyr hwn. Ceir un ymadrodd anodd i'w gyfieithu yn gyntaf yn y drydedd bennod a cheir yr un ymadrodd ddeg o weithiau yn y llythyr, ac mewn pum achos arall yn y Testament Newydd. Ceir ambell enghraifft isod, a chan mai ymatebiad i gwestiwn yw'r ymadrodd, gofynnir pob cwestiwn unwaith yn unig yn y tabl a hynny o'r BCND, gyda'r atebion o'r tri chyfieithiad gwahanol:

Adnod	BWM	BCND	BNET
3:4	A all eu hanffyddlondeb hwy ddileu ffyddlondeb Duw? (BCND)		
	<u>Na ato Duw:</u> eithr bydded Duw yn eirwir, a phob dyn yn gelwyddog	<u>Ddim ar unrhyw gyfrif!</u> Rhaid bod Duw yn eirwir, er i bawb arall fod yn gelwyddog.	<u>Wrth gwrs ddim!</u> Mae Duw bob amser yn dweud y gwir er bod "y ddynoliaeth yn gelwyddog".
	A ydym, ynteu, yn dileu'r Gyfraith trwy'r ffydd hon? (BCND)		

3:31	<u>Na ato Duw:</u> eithr yr ydym yn cadarnhau'r ddeddf.	<u>Nac ydym, ddim o gwbl!</u> Cadarnhau'r Gyfraith yr ydym.	<u>Wrth gwrs ddim!</u> Dŷn ni'n dangos beth ydy gwir ystyr y Gyfraith.
6:15	A ydym i ymroi i bechu, am nad ydym dan deyrnasiad cyfraith, ond dan deyrnasiad gras?		
	<u>Na ato Duw.</u>	<u>Ddim ar unrhyw gyfrif!</u>	<u>Na! Wrth gwrs ddim!</u>
7:13	Os felly, a drodd y peth da hwn yn farwolaeth i mi? (BCND) <sup>293</sup>		
	<u>Na ato Duw.</u>	<u>Naddo, ddim o gwbl!</u>	<u>Nage, wrth gwrs ddim!</u>
11:1	Yr wyf yn gofyn, felly, a yw'n bosibl fod Duw wedi gwrthod ei bobl ei hun? (BCND)		
	<u>Na ato Duw.</u>	<u>Nac ydyw, ddim o gwbl!</u>	<u>Nac ydy, wrth gwrs ddim!</u>

Ymhob un o'r pum enghraifft uchod, cyfieithiad o'r un geiriau yn union ydynt. Sylwer felly ar gysondeb BWM, gydag ymdrech fwriadol, mae'n ymddangos, i efelychu cysondeb y gwreiddiol. Mae elfen o gysondeb yn perthyn i BNET hefyd, gan fod 'wrth gwrs ddim' yn rhan o'r ateb bob tro, ond bod ychwanegiad o'i flaen mewn rhai enghreifftiau yn dibynnu ar eiriad y cwestiwn. Ceir dau ymadrodd gwahanol yn y BCND, 'ddim ar unrhyw gyfrif' a 'ddim o gwbl',

---

<sup>293</sup> Sylwer nad yw ateb BNET yn cyd-fynd â'r cwestiwn, a hynny am fod geiriad y cwestiwn fymryn yn wahanol yn BNET: 'Felly ai y peth da yma wnaeth fy lladd i?'

eto yn dibynnu ar eiriad y cwestiwn. Y cyfieithiad llythrennol o'r Roeg, 'mē genoito', fyddai, 'bydded i hynny beidio â bod', ymadrodd sydd â dau wendid, ei fod yn glogyrnaidd, ac nad yw'n cyfleu cadernid neu sicrwydd yr ymadrodd gwreiddiol. Mae pob un o'r cyfieithwyr wedi cyfieithu'r ystyr yn yr achos hwn felly, yn hytrach na chyfieithu'n llythrennol. Sylwer ar y tebygrwydd rhwng BWM a'r KJV, sy'n defnyddio 'God forbid'. Dywed Dave Brunn am y cyfieithiad hwnnw,

I believe it is all about the dynamics of the meaning. I am convinced that the King James translators were familiar enough with Greek to know that a literal translation of *mē genoito* could potentially be weak and deficient. It could lose some of that punch that the original author intended, sounding something like this: "What shall we say then? Shall we continue in sin, that grace may abound? Nah, let's not do that, okay?"<sup>294</sup>

Ei ddadl yw fod deinamig yr ymadrodd yn bwysicach na'r union eiriau, ac felly mae'n rhaid pwysu ar gryfderau'r iaith darged yn hytrach nag ar gryfder yr iaith wreiddiol mewn achos o'r fath. Yr hyn sy'n ddiddorol am y cyfieithiadau hynny yw eu bod yn ychwanegu person at y ferf, Duw fel trydydd person, tra bo'r testun Groeg gwreiddiol yn amhersonol. Mae'n wir fod y cyfieithiadau diweddar yn gwneud hyn o bryd i'w gilydd hefyd, weithiau'n ateb yn y trydydd person a dro arall yn amhersonol, gan ddibynnu ar y cwestiwn. Ond tra bo 'na ato Duw' yn ymadrodd digon cadarn yn ei oes, mae'r cyfieithwyr diweddar wedi dewis ymadroddion mwy cyfoes, ac yn gwneud defnydd effeithiol hefyd o'r ebychnod. Mae'n debyg y byddai'r ddau gyfieithiad diweddaraf felly yn taro deuddeg efo trwch y boblogaeth Gymraeg ond tybir y byddai rhai na fyddent yn hoff o'r defnydd o 'dim'. Y ffordd safonol o negyddu'n Gymraeg yw gan ddefnyddio'r negyddion, 'ni' a 'na' o flaen y ferf, ac felly mae ymadroddion y BCND a BNET yn debygol o daro ambell glust yn chwithig. Nid dyma'r bobl sy'n gynulleidfa darged i BNET,

---

<sup>294</sup> Brunn, *One Bible, Many Versions*, t. 50.

ac felly mae cyfieithiad BNET yn berffaith briodol, ond mae'n anarferol cael ymadrodd ansafonol yn y BCND, lle gellir bod wedi cynnwys 'nid ar unrhyw gyfrif'. Cyfeirir at yr idiom, 'ar unrhyw gyfrif',<sup>295</sup> yn ail gasgliad R. E. Jones o idiomau, ond mae'n werth nodi y ceir berf negyddol yn y cymal o'i blaen yn y ddwy enghraifft, gan awgrymu mai ategu cymal arall a wnaiff yn arferol, nid sefyll ar ei phen ei hun.

Ceir eto yn y llythyr hwn ymadroddion a phriod-ddulliau sy'n perthyn i'r Roeg, a diddorol yw cymharu'r ymdriniaeth ohonynt yn y cyfieithiadau. Un o'r achosion hynny yw Rhufeiniaid 6:21-22:

BWM	BCND	BNET
Pa <u>ffrwyth</u> gan hynny oedd i chwi y pryd hwnnw o'r pethau y mae arnoch yr awr hon gywilydd o'u plegid? canys diwedd y pethau hynny yw marwolaeth. Ac yr awr hon, wedi eich rhyddhau oddi wrth bechod, a'ch gwneuthur yn weision i Dduw, y mae i chwi eich <u>ffrwyth</u> yn sancteiddrwydd,	Ond beth oedd <u>ffrwyth</u> y cyfnod hwnnw? Onid pethau sy'n codi cywilydd arnoch yn awr? Oherwydd diwedd y pethau hyn yw marwolaeth. Ond yn awr yr ydych wedi eich rhyddhau oddi wrth bechod, a'ch gwneud yn gaethion i Dduw, ac y mae <u>ffrwyth</u> hyn yn eich meddiant, sef bywyd	Ond beth oedd <u>canlyniad</u> hynny yn y pen draw? Marwolaeth! Dyna oedd canlyniad y pethau mae gynnoch chi gymaint o gywilydd ohonyn nhw bellach. Ond nawr dych chi'n rhydd o afael pechod ac wedi dechrau gwasanaethu Duw. <u>Canlyniad</u> hynny ydy'r

<sup>295</sup> R. E. Jones, *Idiomau Cymraeg – yr Ail Lyfr* (Abertawe, 1987), t. 84.

a'r diwedd yn fywyd tragwyddol.	sanctaid, a'r diwedd fydd bywyd tragwyddol.	bywyd glân sy'n arwain yn y pen draw i fywyd tragwyddol.
------------------------------------	--	--

Ymddengys y gair 'ffrwyth' ddwywaith yn y ddau gyfieithiad hŷn ac yn wir, dyna yw'r cyfieithiad llythrennol o'r Roeg, 'karpòn'. Wrth edrych ar y cwestiwn a'r ateb ar ddechrau'r enghraifft uchod o BNET, mae'n hawdd gweld sut y byddai defnyddio 'ffrwyth' yn hytrach na 'chanlyniad' yn peri dryswch, hynny yw, sut y gall marwolaeth fod yn ffrwyth unrhyw beth? Ond sylwer bod ateb BNET yn wahanol i'r cyfieithiadau eraill (a'r rhai Saesneg); a dweud y gwir, ni cheir ateb i'r cwestiwn yn y cyfieithiadau eraill mewn gwirionedd, dim ond cwestiwn arall yn y BCND. Mae 'marwolaeth' yn ateb anuniongyrchol i'r cwestiwn yn y cyfieithiadau hŷn ac yn y gwreiddiol, hynny yw, yn ganlyniad i'r canlyniad. Ond yn BNET, mae 'marwolaeth' yn ateb uniongyrchol i'r cwestiwn, ac felly ni fyddai 'ffrwyth' wedi gwneud synnwyr yn yr un ffordd yng ngeiriad y cwestiwn. Dychmygir y byddai BNET wedi defnyddio 'canlyniad' hyd yn oed pe bai gweddill y cwestiwn a'r ateb wedi dilyn yr un drefn â'r cyfieithiadau eraill, gan mai ei duedd cyffredinol yw cyfieithu'r ystyr yn fwy na chyfieithu'n llythrennol; ond ni fyddai'r cyfieithiad llythrennol wedi bod yn bosibl yma oherwydd y newid yn yr ateb i'r cwestiwn. Gan droi at y cyfieithiadau hŷn felly, noder yn gyntaf fod rhywfaint o densiwn yn rhan gyntaf yr enghreifftiau, oherwydd bod y drafodaeth yn cyrraedd marwolaeth yn y pen draw. Mae ffrwyth, fel arfer, yn dynodi tyfiant neu rywbeth iach, ond nid trafod pethau iach a wneir yma. Ond mae'r defnydd o'r gair yn fwriadol, oherwydd y cyferbyniad rhwng y defnydd ohono y tro cyntaf a'r ail dro. Sylwer yr ail dro fod y 'ffrwyth' yn cyfeirio at rywbeth iach, sancteiddrwydd, dyna'r math o beth y byddid yn disgwyl iddo gael ei ddisgrifio fel 'ffrwyth'. Mae chwithdod y defnydd o 'ffrwyth' yn yr hanner cyntaf yn cyfleu anesmwythyd y bywyd a



ddisgrifir gan y brawddegau hynny, tra bo'r modd y mae'r ail ddefnydd o 'ffrwyth' yn taro deuddeg mor rhwydd yn cyfleu godidogrwydd y bywyd a ddisgrifir yno. Y gwir amdani yw bod 'ffrwyth' yn cael ei ddefnyddio'n gyffredinol i olygu canlyniad rhywbeth, yn arbennig felly mewn modd cadarnhaol, yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac mae hynny'n arwyddocaol o ran ystyried dealltwriaeth bosibl dysgwyr a siaradwyr ieuengach ohono. Ond wedi dweud hynny, mae'n bosibl fod yr ystyr honno hefyd yn dod yn fwyfwy dieithr gyda phob cenhedlaeth.

Yn ddiddorol, nid dyma'r unig ddefnydd o 'ffrwyth' yn y llythyr hwn, fe'i gwelir ddwywaith eto tua diwedd y llythyr i olygu dwy ystyr gwbl wahanol eto.

Adnod	BWM	BCND	BNET
15:28	Oherwydd y mae Macedonia ac Achaia wedi gweld yn dda gyfrannu i gronfa ar ran y tlodion ymhlith y saint yn Jerwsalem. (adnod 26 o'r BCND fel cyd-destun)		
	Wedi i mi gan hynny orffen hyn, a selio iddynt y <u>ffrwyth</u> hwn, mi a ddeuaf heboch i'r Hispaen.	Felly, pan fyddaf wedi cyflawni'r gorchwyl hwn, a gosod y <u>casgliad</u> yn ddiogel yn eu dwylo, caf gychwyn ar y daith i Sbaen a galw heibio i chwi.	Pan fydda i wedi gorffen hyn, a gwneud yn siŵr eu bod wedi derbyn yr <u>arian</u> , dw i'n mynd i alw heibio i'ch gweld chi ar fy ffordd i Sbaen.
16:5	Anerchwch fy annwyl Epenetus, yr	Cyflwynwch fy nghyfarchion i'm	Cofiwch fi at fy ffrind annwyl

	hwn yw <u>blaenffrwyth</u> Achaia <u>yng Nghrist</u> .	cyfaill annwyl, Epainetus, <u>y cyntaf</u> yn Asia i <u>ddod at</u> <u>Grist</u> .	Epainetws – <u>y</u> <u>person cyntaf</u> yn Asia i <u>ddod yn</u> <u>Gristion</u> .
--	--	---	---

Yn yr enghraifft gyntaf uchod, mae 'selio ffrwyth' yn briod-ddull Groeg, ond nid yw'n briod-ddull Cymraeg, ond o gyfosod cyfieithiad llythrennol BWM gyda chyfieithiad mwy dynamig, daw ei ystyr yn gliriach ac yn llawnach. Mae'r ail enghraifft ychydig yn fwy cymhleth, gan fod y syniad o 'flaenffrwyth' yn gyson gydol y Beibl. Noder y defnyddir y gair droeon yn y BCND, ond defnyddiwyd 'y cyntaf i ddod at Grist' yma. Un o gryfderau'r term yw ei fod yn pwysleisio'r cysgod o'r Cyfamod Newydd sydd yn yr Hen Gyfamod, hynny yw, cyfeirir at Grist ei hun yn 'flaenffrwyth' yn un o lythyrau eraill Paul. Roedd blaenffrwyth y cynhaeaf yn arwydd o safon a natur gweddill y cnwd, a disgrifir Crist yn 1 Corinthiaid yn 'flaenffrwyth y rhai sydd wedi huno.'<sup>296</sup> Tra nad yw cyfieithiad BNET yn bwriadu cynnal y mathau hyn o gyfeiriadaeth gyson gydol yr Ysgrythur fel y gwreiddiol gan flaenoriaethu yn hytrach gyfleu ystyron pob enghraifft yn unigol, byddid disgwyl, o bosibl, i'r BCND gynnwys y cyfeiriad yma. Wedi'r cyfan, ymddengys y term droeon gydol y cyfieithiad, gan gynnwys yn y cyfeiriad uchod o 1 Corinthiaid. Mae'r 'person cyntaf i ddod at Grist' neu 'yn Gristion' yn cyfleu'r ystyr ar ei haen fwyaf sylfaenol yma, a rhaid cydnabod mai dyna gryfder BNET, ond mae'r enghraifft hon eto yn dangos gwerth cyfosod y tri chyfieithiad, gan fod gair BWM yn cynnig profiad cyfoethog i'w ddarllenwyr profiadol.

---

<sup>296</sup> 1 Corinthiaid 15:20, BCND.

Hynodrwydd y llythyr hwn yw'r cysyniadau diwinyddol a gyflwynir ynddo, ac adlewyrchir hynny yn y drafodaeth a geir ar iaith y cyfieithiadau. Mae rhai o eiriau technegol maes diwinyddiaeth wedi bod yn destun trafod ymhlith ysgolheigion a Christnogion cyffredin ers degawdau, canrifoedd hyd yn oed, ac mae rhai o'r penderfyniadau a wneir wrth gyfieithu yn ymwneud mwy â dod i ddealltwriaeth o'r gwreiddiol nag y maent â mynegi'r ddealltwriaeth honno yn yr iaith darged. Nid traethawd ar ddiwinyddiaeth nag ar y Roeg yw'r traethawd hwn, ac nid diwinydd mo'r awdur. Fodd bynnag, nid diwinyddion yw mwyafrif darllenwyr y Beibl chwaith, ac felly mae'n faes sy'n cyrraedd ac yn cael effaith fawr ar Gristnogion llawr gwlad, fel petai. Ceisiwyd yn y bennod hon ymdrin yn fras ag ambell un o'r geiriau hynny a chynnig ffordd ymlaen i'r Cymro wrth ddarllen y Beibl, a manteisio ar gryfderau unigryw pob un o'r tri chyfieithiad gan roi'r cyfle iddo ddod i ddealltwriaeth mor gyflawn â phosibl drosto'i hun yn y pen draw.

## *7. Holiadur*

Gan mai diben yr ymchwil hwn yw ystyried addasrwydd y cyfieithiadau o'r Beibl ar gyfer y Gymru gyfoes, y mae'n rhaid ystyried y gynulleidfa sydd iddynt yn y Gymru hon. Fel y trafodir mewn man arall yn y traethawd hwn, y mae llu o ffactorau sy'n gallu effeithio ar addasrwydd testun ysgrifenedig ar gyfer rhyw gynulleidfa benodol. Gwych fyddai medru cefnogi dadleuon o blaid neu yn erbyn bodolaeth y dewis o bob gair ac ymadrodd a geir yn y Beibl gydag ystadegau, ond nid yw hynny'n bosibl. Fodd bynnag, y mae'n bosibl casglu ystadegau ar ddetholiad o eiriau ac ymadroddion, rhai pwysig neu amlwg, a rhai y gellir eu defnyddio i gynrychioli casgliad ehangach o eiriau neu ymadroddion, neu yn wir, gyfieithiad cyfan o'r Beibl. Y mae rhai geiriau sy'n nodweddu rhyw gyfieithiad neu'i gilydd, ac os yw un gair sy'n nodweddiadol o BNET yn plesio rhywun y mae'n debygol fod geiriau eraill sy'n nodweddiadol o BNET yn eu plesio hefyd. At ddiben casglu'r ystadegau hyn y penderfynwyd llunio holiadur i'w rannu â'r cyhoedd.

### *Methodoleg a Rhesymeg*

Cynulleidfa darged yr holiadur hwn oedd pob math o bobl sydd ag unrhyw allu darllen Cymraeg. Y mae'r Beibl yn dysgu mai Duw yw'r unig wir Dduw<sup>297</sup> a'r unig ffordd i unrhyw un

---

<sup>297</sup> 1 Timotheus 2:5.

ddod i berthynas â Duw yw trwy Iesu Grist.<sup>298</sup> Er mwyn i rywun gredu a rhoi ei ffydd yn Iesu Grist, y mae'n rhaid clywed amdano a dysgu amdano, a'r Beibl yw'r ffordd y mae Duw yn rhannu gwybodaeth â phobl, y wybodaeth sy'n angenrheidiol i gredu yn Iesu Grist.<sup>299</sup> O ystyried safbwynt y Cristion felly mai un gwir Dduw sydd, ac mai'r unig ffordd i glywed amdano yw trwy gyfrwng y Beibl, gellir sefydlu ei fod, yng ngolwg y Cristion, mor berthnasol i bawb â'i gilydd. Nid ar gyfer pobl o grŵp cymdeithasol arbennig, pobl o ryw hil arbennig, na phobl sydd wedi derbyn rhyw addysg benodol y mae'r Beibl. Y mae ei neges o'r un pwys i bawb ac felly wrth ystyried addasrwydd y cyfieithiadau at wahanol gynulleidfaedd, y mae angen ystyried pob cynulleidfa. Gan hynny, cynulleidfa darged yr holiadur hwn oedd pob cynulleidfa, pawb sy'n defnyddio rhywfaint ar y Gymraeg. Y mae'r gynulleidfa eang hon yn cynnwys pobl o bob oed, o bob dosbarth cymdeithasol, dysgwyr, siaradwyr iaith gyntaf, pobl sydd â dealltwriaeth dda o ddiwinyddiaeth a'i themau a phobl heb unrhyw syniad am ddiwinyddiaeth a'i themau. Y nod felly gyda'r gynulleidfa oedd cael sampl a gynrychiolai'r boblogaeth sy'n medru'r Gymraeg.

Yr her fawr gyda chyrraedd cynulleidfa darged yr holiadur oedd sicrhau bod yr holiadur yn cyrraedd carfanau o'r gymdeithas lle nad oedd gennyf gysylltiadau personol â nhw. Y mae cysylltiadau personol yn fuddiol iawn wrth geisio dosbarthu neu rannu unrhyw adnodd, ac mae hynny yn cynnwys holiaduron agored. Rhagfynegais y byddai'n hawdd dosbarthu'r holiadur gyda rhai mathau o bobl ond yn anoddach gydag eraill. Er mwyn cyrraedd y gynulleidfa ehangaf bosibl, bwriadwyd dosbarthu holiaduron ar-lein yn ogystal ag ar bapur. Y mae holiaduron papur yn ffordd dda o gyrraedd pobl sy'n agos at y sawl sy'n cynnal yr

---

<sup>298</sup> Ioan 14:6.

<sup>299</sup> Ioan 5:39.

holiadur, boed yn ddaearyddol neu mewn ffordd arall. Yn achos yr holiadur hwn, ystyriwyd dosbarthu copïau papur mewn eglwysi, gweithfeydd a chymdeithasau lleol. Ystyriwyd ei ddsbarthu mewn cynadleddau ieithyddol a Christnogol dros Gymru gyfan hefyd, er mwyn sicrhau nifer fawr o atebion yn gymharol hawdd, gan bobl y byddai ganddynt, o bosibl, ddiddordeb yn yr ymchwil. Y mae holiaduron papur yn hollbwysig hefyd ar gyfer aelodau hynaf y gymdeithas, neu unrhyw aelodau eraill o'r gymdeithas nad ydynt yn defnyddio'r We. Anfanteision holiaduron papur yw nad oes modd cyrraedd cynulleidfa mor eang ag sydd â holiaduron ar-lein, a bod rhaid treulio mwy o amser yn prosesu'r holiaduron wedi iddynt gael eu casglu, hynny yw bwydo'r wybodaeth ar daenlenni lle mae holiaduron ar-lein yn gallu gwneud hynny ar eu pennau eu hunain. Hefyd, y mae'n rhaid bod mewn rhyw fan daearyddol gyda'r sawl sy'n llenwi'r holiadur er mwyn ei rannu ac er mwyn ei dderbyn yn ôl wedi ei lenwi. Fodd bynnag, er gwaethaf yr anfanteision, gan mor bwysig yw cael ymatebion pobl o bob oed, gan gynnwys pobl hŷn, credwn yn gryf ei bod hi'n bwysig fod copïau papur yn cael eu dosbarthu. Fodd bynnag, yn sgil y pandemig byd-eang o ganlyniad i Covid-19, ni fu modd dosbarthu copïau papur yn y manau a restrir uchod gan nad oedd cyfarfodydd cymdeithasol o unrhyw fath yn digwydd am fisoedd maith. Rhyddhawyd yr holiadur ar-lein ar y 10fed o Fehefin, 2020, a chasglwyd ymatebion hyd y 5ed o Orffennaf, 2020. Ceir copi o'r holiadur yn Atodiad A.

Gwyddwn y byddai dosbarthu holiadur dros y We yn ffordd hawdd o gyrraedd cynulleidfa fawr oherwydd poblogrwydd y We a'r gwefannau cymdeithasol y dyddiau hyn.<sup>300</sup>

---

<sup>300</sup> Roedd 92% o oedolion y Deyrnas Unedig yn ddefnyddwyr cyfredol o'r We yn 2020, ond 54% yn unig o'r boblogaeth dros 75 oed:  
<https://www.ons.gov.uk/businessindustryandtrade/itandinternetindustry/bulletins/internetusers/2020>  
(Cyrchwyd 14/06/2021).

Gwyddwn y byddai'n ddull da i gyrraedd pobl ifanc a chanol oed yn enwedig, gan dybio na fyddai cymaint o'r genhedlaeth hŷn yn medru cyfranogi dros y cyfrwng hwn. Fodd bynnag, fel yr eglurir yn nes ymlaen, llwyddodd yr holiadur i gyrraedd llawer mwy o bobl hŷn nag yr oeddwn wedi ei ddychmygu. O ran dull dosbarthu dros y We, yr oedd sawl ffordd y gallwn fod wedi gweithredu er mwyn manteisio ar gryfder y We. O rannu'r holiadur ar dudalen bersonol rhywun ar *Facebook* neu *Twitter*, y mae ei gyfeillion a'i gydnabod ei hun yn debygol o'i weld, felly byddai hynny yn gyrru'r holiadur tuag at lawer o'm cyfoedion, a llawer o bobl 'debyg' i mi. Ond mae llawer o grwpiau neu gymdeithasau ar y We lle mae modd rhannu gyda phobl â'r un diddordebau. Y mae'n hawdd felly rannu'r holiadur ar-lein gyda llawer o bobl sydd â diddordeb yn yr iaith Gymraeg,<sup>301</sup> er enghraifft, neu mewn diwinyddiaeth neu Gristnogaeth. Barnwyd bod cyrraedd y gynulleidfa honno â'r holiadur yn hollbwysig, gan y byddai ganddi, o bosibl, ddiddordeb yn yr ymchwil ac y gallent gynnig sylwadau tra defnyddiol a buddiol. Anos oedd cyrraedd y gynulleidfa o bobl nad oes ganddynt diddordeb yn y Gymraeg fel pwnc academiaidd, neu'r gynulleidfa nad oes ganddi diddordeb mewn Cristnogaeth.

Derbyniais wahoddiad i ysgrifennu ysgrif yng nghylchgrawn *Y Stamp*<sup>302</sup> gan gynnwys dolen yr holiadur ar ei gwaelod, gan gyrraedd cynulleidfa ifanc â diddordeb mewn llenyddiaeth. Y gobaith oedd y byddai'r holl bobl y gallwn eu cyrraedd, rhyngddynt, yn rhoi amrediad eang o oedrannau, o wahanol brofiad o addysg yn y Gymraeg, o ddefnydd a dealltwriaeth o'r Beibl a phob math o nodweddion eraill, er mwyn bod yn sampl cynrychioladol, da a dibynadwy. Derbyniwyd cyfanswm o 429 o ymatebion, gan amrywiaeth

---

<sup>301</sup> Y mae grwpiau ar *Facebook* o'r enw 'Iaith' a 'Gramadeg y Gymraeg', lle mae pobl yn trafod pynciau ieithyddol.

<sup>302</sup> <https://www.ystamp.cymru/archif-gwefan/y-beiblau-cymraeg> (Cyrchwyd 16/08/2022).

eang o bobl, fel yr ymhelaethir arno yng ngweddill y bennod hon. Fodd bynnag, derbyniwyd un ymateb na theimlwn y medrwn ei gynnwys yng nghanlyniadau'r holiadur. Er i'r cyfranogwr penodol hwn lenwi'r ffurflen yn ei chyfanrwydd, gwnaeth y sylw isod mewn blwch lle'r oedd cyfle i ysgrifennu sylwadau agored:

Oes, peidiwch a gwastraffu amser yn darllen rhain, darllenwch ac astudiwch rhywbeth fwy gwerthfawr. Nid ydwyf wedi trafferthu darllen y tri uchod fell nid yw'r atebion yn gywir. Tydi'r beibl ddim ond stori ffug o'r dechrau i'r diwedd. [sic]

Gan iddo gydnabod iddo beidio â rhoi unrhyw ystyriaeth i'w ymatebion, cymeraf mai ar hap yr atebodd y cwestiynau ac felly nid yw ei atebion o unrhyw werth; yn wir mae'n frych ar sampl da, oni bai am hynny. Penderfynwyd mai teg fyddai dileu ei holl atebion, fel bod y nifer sydd yn y sampl ar gyfer pob cwestiwn yn 428.<sup>303</sup>


### *Adran Fywgraffiadol*

Cwestiynau bywgraffiadol oedd rhai cyntaf yr holiadur, er mwyn gweld sut y mae gwahanol nodweddion bywgraffiadol yn effeithio ar ddefnydd neu ddealltwriaeth neu werthfawrogiad rhywun o'r cyfieithiadau Cymraeg o'r Beibl. Nodwyd yn glir ar yr holiadur mai un dienw ydoedd, er diogelu data a phreifatrwydd, felly y nod oedd casglu gwybodaeth gyffredinol iawn ynglŷn â'r cyfranwyr. Y cwestiwn cyntaf felly oedd 'Beth yw eich oedran?'

---

<sup>303</sup> O ystyried y bu i'r holiadur gael ei rannu mor eang ac y derbyniwyd ymatebion yn ddiennw, nid yw un ymateb croes yn annisgwyl; yn hytrach croesewir y ffaith mai un ymateb o'r fath yn unig a gafwyd, a bod pob un o'r 428 arall yn ymatebion ystyrion a gwerthfawr.





Gan mai'r nod, mewn gwirionedd, oedd gweld i ba genhedlaeth yr oeddent yn perthyn, ac nid dod i wybod eu hunion oedran, ticio blychau yr oedd yn rhaid iddynt ei wneud ac roedd blychau gwahanol i wahanol amrediadau o oedrannau. Fel y gwelir yn y tabl uchod, roedd y dosbarthiadau fel a ganlyn: 18-25, 26-40, 41-60, 61+. Dewiswyd y dosbarthiadau hyn gan fy mod yn credu y byddent yn cynrychioli rhyw genedlaethau â chysylltiadau arbennig â rhai o'r cyfieithiadau. Tybiais y byddai'r dosbarthiad 61+ yn gynrychiolaeth o'r genhedlaeth a fagwyd ar BWM yn unig gan y byddai'r ieuengaf ohonynt eisoes yn eu harddegau hwyr erbyn cyhoeddi Testament Newydd y BCN ac yng nghanol eu hugeuniau erbyn cyhoeddi'r BCN cyfan. Byddai rhywun 80 oed, er enghraifft, yn tynnu at eu hanner cant erbyn 1988, felly byddai BWM wedi bod yn unig ddewis iddynt am y rhan fwyaf o'u bywyd. Tybiais y byddai'r genhedlaeth nesaf, y dosbarthiad oedran 41-60, hefyd wedi cael dylanwad BWM yn drwm arnynt, ond y byddent hefyd wedi hen arfer, bellach, â'r BCN(D). Byddai'r rhai yn y grŵp hwn a ddysgodd adnodau ar eu cof fel plant wedi dysgu adnodau o BWM, ond tybiwn nad ydynt mor ffyddlon i'r cyfieithiad hwnnw â'r genhedlaeth hŷn, o bosibl. Y dosbarthiad nesaf yw

oedran 26-40. Ni fyddai'r hynaf o'r dosbarthiad hwn ond wyth mlwydd oed pan gyhoeddwyd y BCN, ac er na symudodd pob eglwys yn syth i ddefnyddio'r cyfieithiad newydd yn 1988, mae'n bur debygol ei fod wedi bod yn amlycach ym mywydau'r bobl hyn na BWM. Yna'r dosbarthiad ieuengaf yw'r dosbarthiad 18-25, er mwyn gweld barn y genhedlaeth ddiweddaraf o oedolion ifanc sydd o bosibl wedi defnyddio BNET yn helaethach, er cael eu magu ar y BCN a'r BCND, a bod BWM yn gymharol ddieithr iddynt. Fel y gwelir isod, cafwyd cynrychiolaeth gref o bob categori oedran gyda 42 yn y grŵp 18-25, 62 yn y grŵp 26-40, 155 yn y grŵp 41-60, 167 yn y grŵp 61+ a dau ychwanegol yn dewis peidio â datgelu eu hoedran. Y mae'n gwneud synnwyr fod y ddau grŵp ieuengaf yn cael eu cynrychioli gan nifer lai o bobl, oherwydd fod yr ystod o oedrannau a gwmpesir gan y dosbarthiadau hynny yn llai. Ar y cyfan, credaf fod y sampl hwn yn un defnyddiol dros ben ac nid oes yr un grŵp oedran heb gynrychiolaeth deg.

Y ddau gwestiwn nesaf yn yr holiadur oedd dau gwestiwn ar berthynas y sawl a oedd yn ymateb ag ardal ddaearyddol. Mae daearyddiaeth yr iaith Gymraeg yn amrywio'n fawr; y mae ardaloedd yng Nghymru lle mae'r Gymraeg yn arferedig ar lafar gan y mwyafrif o'r boblogaeth ac mae ardaloedd eraill lle mai prin yw'r Gymraeg a glywir.<sup>304</sup> Yn ogystal â'r ffaith fod niferoedd neu ganrannau'r siaradwyr yn amrywio o ardal i ardal, mae natur y Gymraeg a siaradir yn amrywio o ardal i ardal wrth gwrs, a'r term a ddefnyddir ar gyfer Cymraeg rhyw ardal benodol yw tafodiaith. Gellir dosbarthu tafodieithoedd yn fras iawn, megis gwahanu gogledd a de, neu gellir dosbarthu yn fanwl iawn, gan nodi'r gwahaniaethau rhwng

---

<sup>304</sup> Yn ôl canlyniadau Cyfrifiad 2011, mae hyd at 85.6% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg mewn rhai cymunedau yng Nghymru, a chyn lleied â 4% mewn cymunedau eraill, [https://stataiath.com/cymraeg/cyfrifiad2011/KS208/Cymru\\_Cymunedau\\_2001\\_a\\_2011.html](https://stataiath.com/cymraeg/cyfrifiad2011/KS208/Cymru_Cymunedau_2001_a_2011.html) (cyrchwyd 18/12/2020).

tafodieithoedd Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro, er enghraifft.<sup>305</sup> Penderfynwyd nad oedd gwahaniaethu rhwng y Gogledd a'r De yn ddigonol, ond nad oedd angen mynd i wahaniaethu rhwng pob sir neu dafodiaith leol yn unigol; felly'r dewisiadau oedd y Gogledd-orllewin, y Gogledd-ddwyrain, y Canolbarth, y De-orllewin, y De-ddwyrain, a'r tu allan i Gymru, yn ogystal â chynnig opsiwn i beidio ag ateb. Yr ystyriaeth arall oedd sut i eirio'r cwestiwn, oherwydd byddai'r geiriad yn effeithio ar sut fyddai pobl yn ateb ac ar ddefnyddioldeb y data a gesglid. Y cwestiwn cyffredin i ddieithriaid yn Gymraeg yw "o ble'r ydych yn dod?" Fodd bynnag, gellir mynd ati i ateb y cwestiwn hwn mewn ffyrdd gwahanol: gall un gogleddwr a symudodd i Gaerdydd i fynd i'r brifysgol ac aros yno wedyn ddweud ei fod yn dod o Gaerdydd, gan ei fod wedi ymgartrefu yno yn llwyr bellach, er ei fod yn siarad fel gogleddwr. Ar y llaw arall, gall rhywun a gafodd ei eni yng Ngheredigion ond a symudodd i Loegr yn dair oed ddweud eu bod yn dod o Geredigion, ac yn wir, dyna'r math o Gymraeg y mae'n ei adnabod. Ni ellir gwybod, felly, o weld ateb rhywun a ydyw'n cyfeirio at fan ei eni, at fan ei fagwraeth ynteu at ei drigfan bresennol. Gellid bod wedi gofyn cwestiwn ynglŷn â pha dafodiaith y teimlant y perthynant iddi, ond ni fyddai'r ateb i hynny o reidrwydd yn cyfateb i ardal ddaearyddol eu magwraeth, er enghraifft yn achos y brodor uchod o Geredigion sy'n byw yn Lloegr ers pan oedd yn dair oed. Felly nid oedd y geiriad hwnnw yn caniatáu inni wybod a gafodd y person dan sylw ei fagu mewn bro Gymraeg, neu a yw'n debygol iddo gael addysg Gymraeg neu iddo gael ei fagu mewn capel Cymraeg. Nid oedd y geiriad hwn chwaith yn rhoi'r cyfle iddynt ddweud ble maent yn byw erbyn hyn, ac mae hynny o ddiddordeb inni, oherwydd yn hwyrach ymlaen yn


---

<sup>305</sup> Cyfeiria Beth Thomas a Peter Wynn Thomas at yr eirfa 'nodweddiadol ddeheuol' a geir mewn recordiad o lais brodor o Ben-caer, Penfro, yn ogystal â'r eirfa 'mwy lleol': Beth Thomas a Peter Wynn Thomas, *Cymraeg, Cymrâg, Cymrêg... Cyflwyno'r Tafodieithoedd* (Caerdydd, 1989), t. 130.

yr holiadur mae cwestiynau am yr eglwys y perthynant iddi a defnydd yr eglwys o'r cyfieithiadau. Diddorol fydd nodi a fydd gwahaniaeth mewn defnydd o'r cyfieithiadau nid yn unig rhwng unigolion o wahanol ardaloedd, ond hefyd rhwng eglwysi o wahanol ardaloedd. Er mwyn cael darlun mor gyflawn ag y bo modd, penderfynwyd felly gael dau gwestiwn, sef:


1. Ym mha ran o Gymru y'ch magwyd?
2. Ble'r ydych yn byw yn awr?

Dyma ddau gwestiwn syml y byddai pobl yn medru eu hateb heb orfod meddwl yn ormodol, gobeithio, am eu hunion dafodiaith, ond a fyddai eto yn rhoi digon o wybodaeth i ddeall y cysylltiad rhwng gwahanol dafodieithoedd a'r amryw gyfieithiadau. Byddai hefyd yn caniatáu i mi weld eglwysi pa ardaloedd sy'n defnyddio pa gyfieithiadau.




Roedd yr ymatebion i'r cwestiynau hyn yn dderbyniol dros ben, gydag amrywiaeth gweddol dda mewn ymatebion. Yn ddisgwyliedig, oherwydd fy nghysylltiadau personol, mae nifer fawr o'r Gogledd-orllewin wedi ymateb ond nid yw hynny'n beth gwael o gwbl. Er nad yw'r sampl yn gynrychiolaeth gyfartal o'r boblogaeth, mae'n adlewyrchu tueddiadau yn y boblogaeth

sy'n gwirio dilysrwydd y sampl. Er enghraifft, fel sy'n wir am y boblogaeth Gymraeg ei hiaith yn gyffredinol, mae'r nifer a fagwyd yn y Gogledd-orllewin, y Gogledd-ddwyrain, a'r De-orllewin yn fwy na'r nifer sy'n byw yno bellach, gyda'r niferoedd yn y De-orllewin a'r Canolbarth yn cynyddu<sup>306</sup> yn ogystal â'r nifer y tu allan i Gymru wrth i bobl fudo i chwilio am waith.



Yn ogystal, mae tueddiadau cyffredinol y boblogaeth i'w weld ym mherthynas yr ardaloedd daearyddol ag atebion y cwestiwn nesaf hefyd, sef "a ydych yn ystyried eich hunan yn siaradwr Cymraeg iaith gyntaf?" 41 o bobl a atebodd "nac ydw" ac fel mae'r siart pei isod yn ei ddangos, pobl yw'r rhain yn wreiddiol o ardaloedd lle nad yw'r Gymraeg mor amlwg, megis y De-ddwyrain a thu allan i Gymru.

<sup>306</sup> Mae'n bosibl fod y nifer yn y Canolbarth yn cael ei chwyddo gan fy nghyd-fyfyrwyr, neu gyn-gyd-fyfyrwyr sydd wedi dewis aros yn y dref ar ôl graddio. Ond mae hynny'n adlewyrchu tuedd wrth gwrs, tuedd sydd i'w gweld amlycaf yn y De-ddwyrain oherwydd fod cymaint yn mudo o'r gorllewin i Gaerdydd.




Er nad yw'r math hwn o wybodaeth yn arbennig o bwysig ar gyfer diben yr ymchwil hwn, mae'n sicr yn dangos fod y sampl a gymerodd ran yn yr holiadur yn un cynrychioladol o'r boblogaeth a bod tueddiadau cyffredinol y boblogaeth yn cael ei adlewyrchu ganddo. Fodd bynnag, nid dyna brif bwrpas gofyn ai Cymraeg yw eu hiaith gyntaf, ond yn hytrach ystyried y berthynas arbennig, o bosibl, rhwng dysgwyr Cymraeg a BNET. Mae BNET yn ei werthu ei hun fel cyfieithiad addas i ddysgwyr, wrth gwrs, felly trwy ofyn a yw'r cyfranogwyr yn eu hystyried eu hunain yn siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf, mae'n rhoi'r cyfle iddynt fynegi safbwyntiau sy'n unigryw iddynt hwy, o bosibl, ac i roi llais i'r garfan bwysig hon o bobl nad ydynt yn siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf – hynny yw yn ddysgwyr.

Yn dilyn y cwestiwn hwnnw yr oedd cwestiwn am lefel yr addysg a dderbyniodd y cyfranogwyr. Beirniadaeth gyffredin o BWM yw nad yw'n ddigon ddealladwy 'i'r werin'<sup>307</sup>, a'r gwir amdani yw nad yw'r mwyafrif o'r cyhoedd yn darllen Cymraeg tebyg iddo yn unman arall.

---

<sup>307</sup> 'Rhagarweiniad Cyffredinol', Y Beibl Cymraeg Newydd (1988), t. xv.

Gellir mynd gam ymhellach a dweud nad yw'r mwyafrif o'r cyhoedd yn darllen braidd dim yn y Gymraeg o gwbl, ond gall gwybod am lefel yr addysg a dderbyniwyd gan y sawl sy'n ateb yn y Gymraeg gynnig dirnadaeth werthfawr. Os oes gan rywun radd yn y Gymraeg, neu lefel A, mae'n debyg fodd ganddynt ddealltwriaeth weddol dda o Gymraeg ffurfiol, ysgrifenedig, a'u bod yn darllen rhywfaint o Gymraeg yn gyffredinol. Fodd bynnag, os mai'r cymhwyster uchaf sydd gan rhywun yn y Gymraeg yw TGAU, mae'n bosibl nad ydynt mor gyfarwydd â darllen Cymraeg ffurfiol a hynafol BWM, ac o bosibl heb ddarllen fawr o Gymraeg ers gadael yr ysgol. Ni fwriadwyd i'r cwestiwn hwn fod yn un pwysig ofnadwy yn nghyd-destun yr holiadur cyfan; fodd bynnag tybiwyd y byddai'n bosibl gweld rhyw dueddiadau yn nealltwriaeth a hoffter pobl o'r cyfieithiadau yn ôl eu hatebion i'r cwestiwn hwn ac felly y byddai'n werth ei gynnwys.




O ran yr ymatebion, dyma un o'r cwestiynau a ysgogodd yr atebion lleiaf amrywiol. Mae cynrychiolaeth gref o'r rhai a chanddynt radd yn y Gymraeg, a hefyd felly Lefel A a TGAU iaith

gyntaf. Siomedig, fodd bynnag, oedd derbyn cyn lleied o ymatebion gan bobl heb gymhwyster iaith gyntaf ond nid yw hyn yn ddiwedd y byd.


### *Capel ac Eglwys*

Yr is-adran nesaf yn yr holiadur oedd cyfres o gwestiynau ar berthynas y cyfranogwyr â chapel neu eglwys. Gan mai llyfr sanctaidd yr eglwys Gristnogol yw'r Beibl, byddai deall rhywfaint am berthynas y sampl â'r eglwys yn hollbwysig. Gellid gofyn cwestiynau megis "A yw Cristnogion yn ffafrio un cyfieithiad dros y llall?" Y bwriad gyda'r adran hon oedd ateb cwestiynau o'r fath a dod i ddeall y berthynas rhwng y cyfieithiadau a'r bobl sy'n perthyn i/sy'n aelodau mewn eglwysi. Yn yr adran i'r rhai a ddywedodd eu bod yn mynychu eglwys yn rheolaidd, gofynnwyd ers faint y maent yn mynychu (llai na blwyddyn, 1-5 mlynedd, 5-15 mlynedd, 15 mlynedd +), a gofyn a oedd ganddynt swyddi yn yr eglwys (er enghraifft, gweinidog, henuriad, diacon, athro ysgol Sul), a gofyn i ba draddodiad eglwysig y maent yn perthyn. Gall yr holl ffeithiau bywgraffiadol hyn fod yn dylanwadu ar eu defnydd o'r cyfieithiadau a dyna pam y penderfynwyd eu gofyn. Gallai'r rhai sy'n gymharol newydd i'r eglwys fod yn llai cyfarwydd â geirfa Feiblaidd draddodiadol, er enghraifft, felly mae'n bosibl y byddent yn ffafrio BNET. Gallai gweinidogion, ar y llaw arall, gynnig sylwadau gwerthfawr gan eu bod wedi derbyn hyfforddiant diwinyddol, fwy na thebyg, cyn mynd i'r weinidogaeth. Ni chawsai'r rhai nad ydynt yn mynychu capel neu eglwys gyfle i ateb y cwestiynau hyn, wrth reswm. Cafwyd amrywiaeth o ran y ddau beth, y nifer o flynyddoedd y maent wedi bod yn perthyn i eglwys a'r swyddi a ddaliwyd ganddynt. O'r 428 o ymatebion, dywedodd 249 eu bod yn mynychu capel neu eglwys, ac fel y gwelir yn y graff isod, mae canran helaeth (oddeutu 90%) o'r rhai sy'n mynychu eglwys yn gwneud hynny ers dros pymtheng mlynedd.






Noder nad oes neb yn y sampl a fu'n mynychu eglwys ers llai na blwyddyn. Mae'n debyg mai ychydig o bobl sy'n dechrau mynychu eglwysi o'r newydd y dyddiau hyn, ac felly gellir dweud fod y sampl yn un sy'n cynrychioli'r duedd. Fodd bynnag, mae'n siomedig na ellid gweld safbwyntiau'r rhai sydd yn hollol newydd i'r eglwys, gan y byddai ganddynt ddealltwriaeth ddiddorol o rannau o'r Beibl, mae'n siŵr. Er mai 15+ oedd y dosbarthiad ar gyfer yr amser hwyaf, y mae'n sicr fod rhai o'r cyfranogwyr yn mynychu capel neu eglwys ers hanner canrif, a mwy. Fodd bynnag, y bwriad oedd ceisio gweld a ydynt yn gyfarwydd â bod mewn eglwys a chlywed termau pynciol yr eglwys, felly roedd 15 mlynedd yn ddigon ar gyfer cynnwys pawb yn y categori hwnnw. Cafwyd llawer o ymatebion gan bobl â gwahanol swyddi yn yr eglwys hefyd, gyda llawer iawn o flaenoriaid a diaconiaid, athrawon ysgol Sul, ysgrifenyddion a thrysoryddion, organyddion a rhai gweinidogion yn eu plith hefyd. O ran y traddodiad eglwysig, eto cafwyd rhywfaint o amrywiaeth, fel y gwelir yn y siart bar isod:




Cafwyd llawer mwy o ymatebion gan bobl yn y traddodiadau efengylaidd ac enwadol anghyffurfiol na'r gweddill, a siomedig oedd derbyn cyn lleied o ymatebion gan rai sy'n perthyn i'r traddodiadau carismataidd (1.6%) a Chatholig Rhufeinig (1.6%). Rhaid nodi gyda'r cwestiwn hwn i ambell beth gael ei newid yn ystod cyfnod ymateb yr holiadur. Yn wreiddiol, dim ond un blwch y medrid ei dicio, ond derbyniwyd sawl neges gan bobl yn dweud eu bod yn dymuno ticio mwy nag un blwch, am eu bod yn eglwys enwadol sydd hefyd yn efengylaidd, er enghraifft. Felly newidiwyd hynny hanner ffordd drwy'r cyfnod ac felly cafodd rhai o'r cyfranogwyr gyfle i dicio mwy nag un blwch. Yn ail, newidiwyd yr enw ar y traddodiad Catholig Rhufeinig, gan i mi ddefnyddio term a oedd yn dramgwyddus ganddynt yn y lle cyntaf, sef 'Pabyddol'. Derbyniais negeseuon i'm cywiro, ac ymddiheurais gan nodi na wyddwn fod y term a ddefnyddiais yn wreiddiol yn peri gofid iddynt ac mai'r term gwreiddiol yw'r un a geir yng ngeiriaduron Prifysgol Cymru a'r Academi.

Roedd cwestiwn hefyd ar ddefnydd yr eglwysi a gynrychiolir o'r cyfieithiadau o'r Beibl, wedi ei eirio fel a ganlyn: 'Pa gyfieithiad o'r Beibl a ddefnyddir yn bennaf o'r pulpod yn eich eglwys?' Dyma'r canlyniadau mewn siart bar:




Syndod ydoedd i mi weld fod cynifer yn defnyddio'r *Beibl Cymraeg Newydd* (1988), a'i fod bron mor boblogaidd â'r argraffiad diwygiedig (2004). Mae'n bosibl fod sawl rheswm dros y nifer uchel hon: yn gyntaf, fod y BCND yn aml yn cael ei alw ar lafar yn 'y Beibl Cymraeg Newydd', ac felly bod ambell un wedi ticio'r blwch cyntaf heb sylwi ar y gwahaniaeth rhwng y ddau. Tybiaf fod ychydig o enghreifftiau o hyn o ystyried fod 6 sy'n cynrychioli eglwysi 'efengylaidd' wedi dweud mai'r BCN (1988) a ddefnyddir yn eu heglwys, fel y gwelir yn y siart isod:



Mae'r term 'efengylaidd' yn un eang wrth gwrs, a gall gynnwys amrediad o bobl, ond y mae'n rhaid cofio mai'r 'Gweithgor Efengylaidd' a wthiodd yr ymgyrch i gael argraffiad diwygiedig, gan eu bod yn anfodlon gyda'r cyfieithiad blaenorol, felly ni ddisgwylir i eglwysi efengylaidd ddefnyddio cyfieithiad 1988. Yr ail reswm posibl dros fod nifer y BCN (1988) yn uwch na'r disgwyl dros bob traddodiad yw am fod llawer o eglwysi wedi prynu nifer fawr o gopïau ohono i roi dan y seddi yn eu hadeilad ar gyfer ei ddefnyddio mewn gwasanaethau. Roedd cynnwrf mawr gyda chyhoeddi'r cyfieithiad cyntaf ers pedair canrif, wrth gwrs, ac roedd y ffaith fod copïau clawr meddal ar gael yn golygu eu bod yn rhad i'w prynu, ac yn ddigon rhad i eglwysi brynu degau ohonynt. Tybed, felly, a oes eglwysi lle defnyddir rhyw glytwaith o'r BCN a'r BCND? O'm profiad personol i, gwelais hyn yn digwydd mewn un eglwys y bûm yn ei mynychu am gyfnod; byddai'r gweinidog yn darllen o'r BCND a byddai'r sawl a fynychai'r dosbarth beiblaidd yn darllen y *pew Bibles*, sef y BCN. Y mae'n rhaid cydnabod llwyddiant BNET yn cyrraedd pulpudau hefyd, gyda 37 eisoes yn dweud mai'r cyfieithiad hwnnw a ddefnyddir o'r pulpud yn eu heglwysi. Pe bai mwy o ymatebion gan fynychwyr eglwysi carismataidd wedi dod i law, diddorol fyddai gweld a fyddai nifer BNET wedi cynyddu ymhellach. Fodd bynnag, gyda rhai yn beirniadu BNET am fod yn un lletchwith i'w ddarllen, braidd yn glogyrnaidd ac anaddas i'w ddarllen o'r pulpud, ni ddisgwyliais weld y nifer mor fawr. Cafwyd cwestiwn yn dilyn hyn am unrhyw gyfieithiadau eraill a ddefnyddir mewn eglwysi, gyda blwch agored i bobl deipio ynddo, a chafwyd sawl cyfeiriad at rai o'r Beiblau Saesneg mwyaf poblogaidd, megis *The New International Version*, *The English Standard Version*, *The King James Version* a *The New Living Translation*.

### *Darllen yn bersonol*

Yr is-adran nesaf oedd cyfres o gwestiynau ar arferion darllen personol y cyfranogwyr. Fel gyda'r is-adran flaenorol, dim ond y rhai a atebai 'ydw' i'r cwestiwn cyntaf yn yr is-adran a fyddai'n mynd ymlaen i ateb y gweddill, a'r cwestiwn cyntaf yn yr achos hwn yn syml iawn oedd, 'A ydych yn darllen y Beibl yn bersonol?'. Y gobaith felly oedd gweld defnydd pobl o'r Beibl y tu allan i'r eglwys, yn eu bywydau eu hunain. O'r 428 o gyfranogwyr, dywedodd 241 ohonynt eu bod yn darllen y Beibl yn bersonol. Y cwestiwn nesaf oedd, 'Pa gyfieithiad(au) ydych chi'n tueddu i'w defnyddio wrth ddarllen yn bersonol?'.



Cynigwyd detholiad o gyfieithiadau Cymraeg yn ogystal â rhai Saesneg, ac yn y siart bar hwn, gwelir y ganran a ddewisodd pob un o'r rhai Cymraeg. Gallent ddewis mwy nag un, dyna pam fod cyfanswm y canrannau ymhell dros 100%, ond yr hyn sy'n drawiadol yw mor gyfartal ydyw pob un o'r pedwar cyfieithiad Cymraeg. Mae llai na 10% o wahaniaeth rhwng yr un â'r poblogrwydd mwyaf (39.4%) a'r lleiaf (29.5%). Y mae'n ddiddorol hefyd fod BWM a BNET mor agos at y ddau gyfieithiad arall o ystyried fod y BCN a'r BCND yn arwain y blaen mor glir yn yr is-adran flaenorol, pan ystyriwyd y defnydd ohonynt mewn eglwysi. Cafwyd sawl sylw yn

cefnogi hyn yn adran olaf yr holiadur, gyda sawl un yn mynegi eu bod yn defnyddio cyfieithiadau law yn llaw â'i gilydd. Ymddengys mai'r BCN(D) yw'r mwyaf poblogaidd yn gyffredinol, ond y mae llawer yn defnyddio BWM a BNET ochr yn ochr â'r rheiny hefyd. Rhoddwyd cyfle yn y cwestiwn nesaf i'r cyfranogwyr deipio enwau unrhyw gyfieithiadau eraill y maent yn eu darllen. Ni chafwyd llawer, dim ond ambell un yn cyfeirio at Destament Newydd Salesbury (1567) er mawr syndod, rhai yn cyfeirio at yr ieithoedd gwreiddiol a rhai yn cyfeirio at ieithoedd modern y maent yn rhugl ynddynt.

Nesaf, ceisiwyd dod i ddeall rhagor am arferion darllen y cyfranogwr gan ofyn beth yw eu harferion darllen a gofyn pa ddeunyddiau ychwanegol i'r Beibl y maent yn eu darllen. Yn gyntaf, cafwyd nifer fawr o bobl a ddywedodd eu bod yn darllen pennod y dydd ynghyd â chyfnod o weddi yn aml, a nifer yn gwneud nodiadau hefyd. Dywedodd sawl un eu bod yn dilyn cynlluniau darllen, sy'n boblogaidd iawn, a dywedodd nifer eu bod yn darllen esboniad wrth fynd. Caed amrywiaeth eang mewn cysondeb darllen, gyda rhai yn nodi eu bod yn gwneud yn ddyddiol ac eraill yn dweud mai achlysurol a wnânt. Dywedodd canran uchel (81.3%) eu bod yn darllen deunyddiau ychwanegol a chafwyd pob math o bethau yn ateb i'w cwestiwn hwnnw. Y pethau a oedd fwyaf poblogaidd oedd y papurau enwadol a'r llyfr emynau, gyda sawl un yn cyfeirio at y gyfrol fawr, *Caneuon Ffydd*. Ychydig yn llai yw'r ganran o bobl sy'n darllen esboniadau neu lyfrau diwinyddol (llai na 40%);<sup>308</sup> rhaid cydnabod bod nifer yn gwneud, ond nid yw darllen gweithiau o'r fath yn arfer mor gyffredin mwyach ag y bu

---

<sup>308</sup> Mae'n anodd nodi ffigur pendant gan nad cwestiwn lle roedd pobl yn ticio blychau oedd hwn, ond yn hytrach yn teipio eu hatebion, ac yn gwneud hynny yn aml yn go amwys. Cyfeiriodd llai na 40% o'r rhai sy'n darllen deunydd ychwanegol at esboniadau neu lyfrau diwinyddol.

yng Nghymru yn y gorffennol.<sup>309</sup> Mae nifer o bobl sy'n darllen esboniadau a llyfrau diwinyddol yn cyfeirio hefyd at y ffaith eu bod yn troi at lyfrau Saesneg, yn wahanol i'r rhai oedd yn darllen y papurau enwadol a'r emynau (y mwyafrif yn Gymraeg yn unig). Y mae hanes yr eglwys yn parhau i fod yn bwnc y mae pobl yn mwynhau darllen amdano hefyd. Diddorol fod emynau mor boblogaidd ac esboniadau fymryn yn llai poblogaidd: tybed a yw hyn yn adlewyrchu pwyslais y dyddiau hyn ar brofiad y Cristion, yn hytrach nag ar athrawiaeth? Mae emynau yn benillion hardd, sy'n crynhoi teimladau'r Cristion ac yn aml yn disgrifio athrawiaeth gyffredinol; ac maent yn gymorth i lawer ddod i ddeall neges yr efengyl Gristnogol. Ond nid ydynt, ac ni ddylent fod yn rhestr o ddysgeidiaethau athrawiaethol, a bychan oedd y nifer a gyfeiriodd at gatecismau a gweithiau megis *Yr Hyfforddwr* gan Thomas Charles – ymddengys nad yw darllen gweithiau o'r fath yn boblogaidd mwyach.

Yn gyffredinol, felly, gwneir defnydd amrywiol ac eang o'r gwahanol gyfieithiadau Cymraeg, yn ogystal â'r Saesneg, wrth i bobl ddarllen y Beibl yn bersonol. Defnyddiant lawer o wahanol fathau o lenyddiaeth ychwanegol i'w helpu i ddarllen y Beibl, gyda'r llyfr emynau yn ffefryn clar.

---

<sup>309</sup> Er dangos poblogrwydd darllen llyfrau diwinyddol yn y gorffennol, cafwyd 80 argraffiad o'r *Hyfforddwr i'r Grefydd Gristnogol* gan Thomas Charles rhwng ei gyhoeddi yn 1807 a diwedd y ganrif honno: Eryn White, 'Gyrfa Thomas Charles yn ei chyd-destun hanesyddol' yn D. Densil Morgan (gol.), *Thomas Charles o'r Bala* (Caerdydd, 2014), t. 11.

## *Adran Geiriau Pynciol*

Yn yr adran hon o'r holiadur, cyflwynwyd dau ymadrodd pwysig, heb fod yn anghyfarwydd, gan ofyn am esboniad neu ddiffiniad ohonynt. Nid hawdd oedd dewis dau ymadrodd, gan fod cymaint o bethau y byddai'n werth casglu data amdanynt. Fodd bynnag, er mwyn cadw'r holiadur rhag bod yn rhy hir, dewiswyd un gair unigol ac un cymal byr iawn sydd yn amrywio o un cyfieithiad i'r llall ac sy'n medru bod yn drafferthus, hynny yw bod gallu pobl i'w deall yn amrywiol. Y cyntaf ohonynt oedd 'gras', a'r ail oedd 'deled dy deyrnas'. Yn yr adran hon, astudir ymatebion y cyfranogwyr, gan geisio deall pa gyfieithiadau sy'n addas ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd yng Nghymru heddiw. Ar gyfer yr adran hon, bydd gwybod cefndir eglwysig y cyfranogwyr yn ddefnyddiol, a gwybod am eu harferion darllen, a gellir gweld, o bosibl, ryw batrymau'n datblygu. Gan nad oes modd diffinio ateb cywir ac anghywir, nid yw'n bosibl creu graffiau megis "nifer yr eglwyswyr sydd yn deall / nad ydynt yn deall", ond yn hytrach ceisir tynnu sylw at y tueddiadau.

### *Gras*

Thema hollbwysig yn y Beibl yw gras. Ni ellir deall dim ar yr efengyl Gristnogol heb ddeall rhywbeth am ras. Un o adnodau mawr y Testament Newydd yw, 'Trwy ras yr ydych wedi eich achub, trwy ffydd. Nid eich gwaith chwi yw hyn; rhodd Duw ydyw.'<sup>310</sup> Beth yw gras, felly? Diffiniad cyntaf Thomas Charles ohono yw:

---

<sup>310</sup> Effesiaid 2:8.



Daioni, cariad, caredigrwydd, cymwynasgarwch Duw tuag at ddynion, neu ddynion tuag at ei gilydd – a hynny yn hollol rad, wirfoddol ac anhaeddiannol yn y gwrthddrych o'r daioni hwnnw.<sup>311</sup>

Dywed hefyd, 'trwy drawsennwad, arwydda unrhyw fendith, anrheg neu rodd, yn amlygu caredigrwydd, ac yn deillio o ewyllys da.'<sup>312</sup> Ond y dyfyniad cyntaf sy'n diffinio gras wrth gwrs, ac mae'n ddiffiniad gwych. Eto, gellir dadlau nad yw'n cwmpasu holl ystyr 'gras' o bell ffordd, ac yn wir, na all unrhyw gyfuniad o eiriau wneud y fath beth. Fodd bynnag, 'gras' yw'r gair sydd gennym yn y Gymraeg a daw'r drafodaeth ar 'ras' o'r ffaith nad yw'r gair yn cael ei gynnwys yn BNET. 'Haelioni' yw'r hyn a ddefnyddir ynddo ar y cyfan i olygu gras, neu 'haelioni rhyfeddol'.<sup>313</sup> Ceir trafodaeth fanylach ar hyn mewn man arall yn y traethawd hwn, fodd bynnag, dyma gyfle yn yr adran hon i ystyried dealltwriaeth cyfranogwyr yr holiadur o'r gair allweddol hwn. Ystyrir y gair fesul grŵp oedran, gan mai haws fydd dadansoddi nifer fechan o ymatebion ar y tro yn hytrach na thros 400 mewn un tro.

Y grŵp ieuengaf yw'r grŵp 18-25 oed a medrir rhannu'r grŵp yn ddau yn rhwydd iawn. At ddiben yr adran fer hon ar y grŵp oedran hwn, galwn un garfan yn Garfan A a'r llall yn Garfan B, ac isod ceir disgrifiad ohonynt a'u hymatebion i'r cwestiwn.

Carfan A: Yn yr hyn a elwir Carfan A, ceir pobl ifanc nad ydynt yn mynychu capel nac eglwys yn rheolaidd, ac nad ydynt chwaith yn darllen y Beibl yn rheolaidd. Ni ellir gwybod a oeddent gynt yn mynychu ysgol Sul, ond tybir bod ambell un wedi a llawer heb, gan mai dyna sy'n tueddu i fod yn wir am bobl yn y grŵp oedran hwn. Roedd ymatebion y grŵp hwn i'r gair 'gras' yn ddiddorol, a dilynwyd dau drywydd yn gyffredinol. Y trywydd cyntaf, a mwyaf disgwylidig,

---

<sup>311</sup> Thomas Charles, 'Gras', *Geiriadur Ysgrythurol* (Wrecsam, 1885), t. 440.

<sup>312</sup> Ibid.

<sup>313</sup> 1 Corinthiaid 16:23, Effesiaid 2:8, Titus 2:11.

o bosibl, oedd mai enw ar weddi ydyw. Un diffiniad oedd, 'Gair arall am addoli, diolch neu gyfarch,' ac un arall oedd 'gair mwy traddodiadol am weddi'. Nid yw hyn yn syndod, wedi'r cyfan, oherwydd arferedig yw dweud 'gras bwyd', sef gweddi o ddiolch am fwyd. Mae'n bosibl hefyd eu bod yn gyfarwydd â llefaru'r Fendith Apostolaidd, fel sy'n arfer gyffredin ar ddiwedd y dydd mewn ysgolion. Yn wir, 'gras' yw'r enw ar y weddi hon gan lawer o ysgolion, a'r arfer yw fod yr athro yn dweud 'gras' fel rhyw ragarweiniad, cyn i'r disgyblion wedyn ddechrau cydadrodd. Hawdd gweld sut y daethpwyd i'r casgliad mai gweddi yw gras. Fodd bynnag, nid dyna ystyr y gair yn y cyd-destun Beiblaidd (er na ellir dadlau ei fod, bellach, yn ystyr i'r gair yn y Gymraeg oherwydd y defnydd cyson ohono i olygu hynny). Yr ail drywydd iddynt ei ddilyn oedd rhyw amrywiad neu ddatblygiad o 'mae eisiau gras'. Dyma ymadrodd a ddefnyddir yn aml i gyfleu rhywbeth tebyg i 'mae angen llawer o amynedd i ddelio â'r sefyllfa hon'. Diffiniad un a ddilynodd y trywydd hwn oedd 'cyflwr o amynedd, maddeuant a bodlonrwydd'. Un sylw diddorol a gwahanol oedd, 'Pan yn blentyn roeddwn yn meddwl ei fod yn cyfateb i Annwyl'. Ni chafwyd esboniad o ddealltwriaeth y cyfranogwr hwn fel oedolyn, ond rhaid canmol y cyfranogwr am feddwl, fel plentyn, tybed beth yw ystyr y geiriau hyn yr wyf yn eu hadrodd bob dydd. Synhwyrol, o feddwl ein bod yn dechrau'r weddi gyda 'Gras ein Harglwydd Iesu Grist', yw dod i'r casgliad fod hynny'n cyfateb i 'Annwyl Arglwydd Iesu Grist'. Er bod y frawddeg olaf honno hefyd yn un gywir a theg, nid dyna yw ystyr gras wrth gwrs.

Carfan B: Yr ail garfan yw yw'r bobl sydd yn mynd i eglwys yn rheolaidd ac yn darllen y Beibl yn bersonol hefyd. Yr hyn sy'n drawiadol am ymateb y garfan hon yw fod bron pob un ohonynt yn cyfeirio at rodd *anhaeddiannol*. Y mae sawl un yn cyfeirio yn benodol at iachawdwriaeth neu achubiaeth neu faddeuant trwy ras, ac ambell un yn cyfeirio hefyd at natur y gras, er enghraifft, 'Given from God, something that we don't deserve but we receive it in abundance'.

Dyma enghraifft sy'n cyfleu llawer o agweddau gwahanol a bwysleisir gan wahanol unigolion i gyd mewn un sylw:

Rhodd yr ydym, fel Cristnogion, wedi'i dderbyn yn anheilwng gan Dduw; yn ganlyniad i'w gymeriad trugarog a chariadus wedi marwolaeth a chroeshoeliad yr Arglwydd Iesu ar Galfaria fryn, ei atgyfodiad o'r meirw, a'i esgyniad i'r entrychion nefol. Mae cymaint mwy y gallwn ei ddweud amdano, ond wnaif i ddim yn unol â gofynion y cwestiwn – 'cryno'.

Tybed sut medrir rhannu'r grŵp oedran hwn mor hawdd yn ddwy garfan felly? Credaf ei fod yn adlewyrchu'n glir y gwahaniaeth rhwng rhywun sydd wedi arfer darllen y Beibl a'i glywed yn cael ei esbonio, a rhywun sydd heb arfer gwneud hynny. Ni roddwyd cyd-destun yn y cwestiwn, dim ond gofyn am ddiffiniad o'r gair a thybir felly i feddyliau Carfan A fynd yn syth at yr ymadroddion cyfarwydd. Ar y llaw arall, brysiodd meddyliau Carfan B at ras fel y mae'n cael ei ddisgrifio yn y Beibl ac yn benodol yn Effesiaid 2. Efallai, petai'r adnod 'trwy ras yr ydych wedi eich achub, trwy ffydd' wedi ei chynnwys y byddai grŵp 1 wedi ceisio diffinio'r gair yn wahanol.

Yr ail grŵp oedran yw'r grŵp 26-40, y gellir eto ei rannu yn ddwy garfan. Un peth y dylid nodi am Garfan B yn yr achos hwn yw fod nifer o'r rhai sy'n mynychu capel neu eglwys erbyn dod i'r grŵp hwn yn dal swyddi yn yr eglwys, boed yn swydd weinyddol neu'n swydd arweiniol, ysbrydol. Ceir sawl gweinidog a chynorthwydd gweinidogaethol ac athrawon ysgol Sul yn rhan o'r sampl hwn.

Carfan A: Ar y cyfan mae'r garfan hon yn debyg iawn i'r grŵp cyfatebol ieuengach, er bod ambell ynddi un sy'n fwy cyfarwydd ac felly yn gallu trafod yr elfennau anhaeddiannol na lwyddodd y rhai ieuengaf i'w wneud. Mae sawl un hefyd yn cyfeirio at faddeuant, sydd yn agosach o lawer at ras na rhai o'r ymatebion eraill. Fodd bynnag, yn y grŵp hwn hefyd mae

llawer yn dal i sôn am amynedd ac am weddïau byrion, a cheir un yn sôn ei fod yn fynegiad tebyg i 'iechyd da' megis mewn tŷ tafarn, ac mai dyna pam y'i dywedir cyn pryd bwyd.

Carfan B: Nid oes llawer i'w ddweud am y garfan hon gan mai tebyg yw eu hymatebion i rai'r garfan gyfatebol yn y grŵp oedran ieuengach. Nid yw pob un yn diffinio 'gras' yn ôl y diffiniad Beiblaidd, gydag ambell un yn trafod amynedd a gweddi, ond ar y cyfan mae'r geiriau 'rhodd' neu 'ffafr' ac 'anhaeddiannol' yn cael eu defnyddio'n aml. Mentraf ddweud, yn seiliedig ar ddealltwriaeth y sampl o'r grwpiau oedran ieuengaf (18-40) o'r term, mae gan bobl yr eglwys a phobl y tu allan i'r eglwys ystyron gwahanol i'r gair. Yn yr eglwys, mae'n air a glywir yn wythnosol (mae nifer o bregethwyr yn ei esbonio neu'n ei ddiffinio bob wythnos) ond nid yw'n rhan o'n geirfa bob dydd, yn enwedig gyda'r ystyr Feiblaidd, gan mai gair arbenigol, pynciol ydyw wrth gwrs.

Gyda'r grŵp oedran nesaf (41-60), nid oes modd rhannu'n grwpiau mor glir am ddau reswm: mae dealltwriaeth Carfan A (y rhai nad ydynt yn mynychu capel neu eglwys) yn well, a dealltwriaeth Carfan B (y rhai sydd yn mynychu capel neu eglwys) heb fod cystal. Yn wir, mae llawer o'r capelwyr neu'r eglwyswyr yn y grŵp oedran hwn yn llawer mwy amwys gyda'u diffiniadau, sy'n ddi-ddorol iawn. 'Bendith' neu 'gariad' yn aml yw'r diffiniad yn ei gyflawnder, ac mae llawer o'r grŵp hwn hefyd yn sôn am amynedd ac am weddi, ac un am y pader (sy'n rhyfedd oherwydd gweddi wahanol yw'r pader fel arfer – *pater noster* sef 'ein Tad'). Yn y grŵp oedran hwn, dechreuir gweld fod gwahaniaeth rhwng ymatebion rhai mewn gwahanol draddodiadau eglwysig hefyd. Y traddodiad sy'n sefyll allan fel yr un sy'n gytûn ar ei ddiffiniad yw'r un efengylaidd, ac mae eu pwyslais ar yr elfennau 'rhodd' ac 'anhaeddiannol' yn adlewyrchu eu hymlyniad wrth ffydd y Tadau anghydfurfiol. Yn y cyfamser, dim ond tua hanner yr anghydfurfwyr enwadol cyfoes sy'n dilyn y trywydd hwnnw gyda'u hymatebion.

Cafwyd un ymateb cwbl wahanol a diddorol, gan gyfeirio at steil a ddefnyddir gan ddugiaid a dugesau nad ydynt yn frenhinol, 'His Grace'. Ni ddisgwyliwyd darllen ymateb o'r fath, ond mae'n rhaid mai ei ganlyniad oedd mai ystyr y gair yw rhyw fath o barch aruchel.

Ymhlith y grŵp hynaf, 61+, cafwyd llawer o sôn am faddeuant, diolch, cariad, parch, ond yr amlycaf eto oedd bendith, a hynny heb fod yn benodol iawn ar y cyfan. Roedd rhai eto yn pwysleisio mai rhodd anhaeddiannol ydyw gras, a bod gras yn cael ei ymgorffori yn Iesu Grist. Mewn sawl grŵp oedran, gwelwyd cyfeiriadau at hyn, ond yn y grŵp hwn yr oedd ar ei amlycaf, sef dyfynnu'r acronym Saesneg: 'God's riches at Christ's expense'. Dyma elfen arall o ras, sef ei fod, wrth gwrs, yn gostus i'r sawl sy'n darparu'r gras, ond yn rhad i'r sawl sy'n ei dderbyn. Roedd llawer llai yn sôn am ras fel gweddi ymhlith yr oedrannau hyn, ond cafwyd ond un sylw diddorol gan gyn-gapelwr o'i ieuencid: 'Ystyr annelwig yng ngeirfa Capel ond amynedd yng ngeirfa pob dydd.' Mae'n air y mae llawer iawn o Gymry heb arfer ei glywed a'i ddefnyddio, a hynny ers degawdau yn achos llawer ohonynt, ac eto heb ddeall ei wir ystyr. Ond fel y dywed y cyfranogwr hwn, daeth gras i gael ystyr newydd erbyn hyn.

Amrywiol yw'r ddealltwriaeth o'r gair 'gras', felly, gyda rhai patrymau i'w gweld. Ymhlith y cenedlaethau ieuengaf, roedd gwahaniaeth amlwg rhwng dealltwriaeth y rhai sydd yn mynychu capel neu eglwys a'r rhai nad ydynt, ond ymhlith y cenedlaethau hŷn nid oedd y gwahaniaeth mor eglur. Cafwyd sawl diffiniad bendigedig a hardd, ond cafwyd hefyd lawer o'r hyn yr oeddidi wedi ei ddisgwyl, sef y cyfeiriadau at weddiâu a hefyd at ras fel amynedd. Rhaid nodi, serch hynny, er bod 'gras' yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd yn y cyd-destun hwnnw, hynny yw fel 'amynedd', wrth wneud hynny rydym yn cyfyngu ar botensial y gair. Pan ddywedwn, 'mae eisiau gras', yn aml am resymau bychain neu ddibwys iawn, darlunnir gras

fel rhywbeth llawer llai nag ydyw mewn gwirionedd. Y mae'n rhaid cofio, wrth ddarllen 'gras' yn y Beibl, mai gras Feiblaidd sydd yno, y math o ras y cana Williams Pantycelyn amdano:

lesu, nid oes terfyn arnat,  
mae cyflawnder maith dy ras  
yn fwy helaeth, yn fwy dwfwn  
ganwaith nag yw 'mhechod cas:  
fyth yn annwyl  
meibion dynion mwy a'th gân.<sup>314</sup>

Ond dyna pam y mae'n rhaid trafod y gair hwn wrth gwrs, ac ystyried ei addasrwydd yn y cyfieithiadau. Y mae'n eglur mai ychydig iawn o'r rheiny y tu allan i'r eglwys sy'n deall 'gras', yn enwedig ymhlith y genhedlaeth ieuengaf. Yr ystyriaeth sy'n dilyn wedyn, wrth gwrs, yw i ba raddau y dylai'r cyfieithiad gael ei addasu fel ei fod yn ddealladwy ond eto yn parhau i fod yn gywir ac yn ffyddlon i'r gwreiddiol.

#### *Deled dy deyrnas*

Cymal yw 'deled dy deyrnas' o Weddi'r Arglwydd a geir ym Mathew 6. Fel 'gras', defnyddir yr ymadrodd hwn yn BWM ac yn y BCND ond nid yn BNET. Ceir esboniad da ar y cymal yn yr *ESV*

#### *Study Bible:*

Christians are called to pray and work for the continual advance of God's kingdom on earth. The presence of God's kingdom in this age refers to the reign of Christ in the hearts and lives of believers, and to the reigning presence of Christ in his body, the church – so that they increasingly reflect his love, obey his laws, honour him, do good for all people, and proclaim the good news of the kingdom.<sup>315</sup>

Y mae'n ymwneud, felly, yn bennaf â phresenoldeb Duw yng nghalonau credinwyr ac yn yr eglwys, a gellir dweud pan fo rhywun yn grediniwr, yn wir mae Duw yn teyrnasu. Wrth weddio

---

<sup>314</sup> William Williams, 321 yn *Caneuon Ffydd* (2001).

<sup>315</sup> Nodyn ar Matthew 6:10 yn *ESV Study Bible* (Wheaton, Illinois, 2008), tt. 1831-2.

felly am ddyfodiad y deyrnas, mae'n ddeisyfiad am deyrnasiad Duw yng nghalonau Cristnogion a hefyd yng nghalonau anghredinwyr, ac y byddant felly yn dod yn gredinwyr. Eto, fel y gwnaethpwyd gyda 'gras', trafodir yr ymatebion i'r ymadrodd hwn yn ôl y grwpiau oedran.

Gyda'r grŵp oedran 18-25, gellir defnyddio'r un rhaniad ag a wnaethpwyd yn flaenorol gan ddisgrifio Carfan A ar y naill law, a Charfan B ar y llall.

Carfan A: Carfan A oedd y bobl ifanc hynny nad ydynt yn mynychu capel nac eglwys, ac nad ydynt chwaith yn darllen y Beibl yn rheolaidd. Yn eu hymatebion i'r cwestiwn hwn, gwelir pob math o syniadau, a llawer ohonynt heb fod yn gwneud llawer o synnwyr. Roedd y rhai â gradd yn y Gymraeg, hyd yn oed, wedi cael trafferth ei aralleirio a rhwystr i nifer ohonynt oedd na ddeallent mai 'dod' yw'r ferf sy'n cael ei defnyddio. Dim ond oddeutu eu hanner a wnaeth y cysylltiad. Gwnaeth un a chanddo Lefel A yn y Gymraeg gysylltiad rhwng 'deled' a'r ansoddair 'del' gan nodi mai 'pert yw dy deyrnas' yw'r ystyr. Disgrifiodd un arall, eto a chanddo Lefel A yn y Gymraeg, yr ymadrodd gan feddwl am 'deled' fel rhyw ffurf ar 'ddyledus'. Cafodd eraill lwyddiant yn deall bôn y ferf ond ni lwyddasant i ddeall yr amser, gyda nifer yn meddwl mai'r ffurf ar gyfer y Dyfodol sydd yma, nid y Gorchmynnol. Eu dealltwriaeth nhw felly yw fod y deyrnas yn mynd i ddod (sy'n gyson â diwinyddiaeth rhannau eraill o'r Beibl, ond nid dyna'r ystyr yn y fan hon). Felly nid cais sydd yma, ond ffaith neu ddatganiad o'r hyn sy'n sicr yn wir. Fodd bynnag, dim ond hanner y broblem oedd adnabod y ferf gan fod 'y deyrnas' hefyd yn peri trafferthion. Bu i lawer o bobl a geisiodd aralleirio gadw'r 'deyrnas', felly mae'n anodd dadansoddi eu dealltwriaeth, ond mae ambell un yn sôn am ardaloedd daearyddol, am y greadigaeth gyfan, y byd, rhyw le i ni fyw, a rhai yn sôn am deuluoedd. Fodd bynnag, disgwylidig yw i'r grŵp hwn gamddeall y 'deyrnas' gan fod angen addysg ddiwinyddol o ryw

fath er mwyn dechrau deall, ac yn y capel a'r eglwys y caiff y mwyafrif o bobl eu haddysg ddiwinyddol. Fodd bynnag, ni ddisgwylwyd iddynt gael y fath drafferth yn deall y ferf, yn enwedig y rhai a chanddynt Lefel A neu hyd yn oed radd yn y Gymraeg. Daeth ambell un yn go agos – 'Usher in your kingdom – dod â'r nefoedd i'r ddaear' – ond ar y cyfan ni welwyd llawer o ddealltwriaeth o'r ymadrodd gan y garfan hon, a'r broblem fwyaf oedd y ferf.

Carfan B: I'r garfan hon, roedd y ferf yn llai o broblem, yn enwedig felly yr amser. Llwyddodd y mwyafrif i nodi mai Gorchmynnol yw'r ferf trwy sôn am 'ofyn' i Dduw neu 'ddyhead' y sawl sy'n gweddïo, mwy na thebyg am eu bod wedi arfer gweddïo'r geiriau eu hunain. Roedd y ddealltwriaeth o'r deyrnas yn amrywio, weithiau oherwydd diwinyddiaeth amrywiol, o bosibl, ond weithiau hefyd oherwydd diffyg dealltwriaeth. Bu i ambell un sôn am ewyllys, sy'n ddiddorol o ystyried mai 'gwneler dy ewyllys' yw'r cymal sy'n dilyn yn y weddi. Mae'n bosibl na wnaethant feddwl rhyw lawer am eu hatebion, gan nodi'r peth cyntaf a ddaeth i'w meddyliau. Gydag ymadrodd sydd mor gyfarwydd, ac yn gyfarwydd mewn un cyd-destun yn unig, naturiol fyddai iddynt ymateb gyda'r geiriau sy'n dilyn. Fodd bynnag, nid yw'r ddau gymal yn gyfystyr â'i gilydd ac nid yw Iesu'n ailadrodd neu'n ei egluro ei hun wrth weddi'o'r ddau gymal, felly daeth y cyfeiriadau at gyflawni ewyllys Duw fel mymryn o syndod. Cyfeiriodd ambell un hefyd at ragluniaeth neu lywodraeth Duw, felly cais ar i Dduw reoli dros ei bobl. Pa beth bynnag yw dealltwriaeth rhywun o'r 'deyrnas', mae unrhyw wendid yn y ddealltwriaeth yn wendid o ran esbonio'r testun nid o ran y cyfieithu. Nid oes ffordd arall o gyfieithu 'teyrnas': defnyddir 'teyrnas' neu 'teyrnasu' ymhob cyfieithiad. Nid problem y cyfieithwyr yw hon, ond problem yr esbonwyr, yn bregethwyr ac yn awduron. Dangosodd rhai aelodau o Garfan B y math o ddealltwriaeth y byddid wedi ei ddisgwyl, megis yn y dyfyniad hwn:

Mae Duw yn teyrnasu dros yr holl bobl sydd wedi edifarhau a phlygu glin i Iesu Grist fel Brenin — dyma ydyw ei 'deyrnas'. Pan mae Iesu yn gweddïo 'deled dy deyrnas',



mae'n gweddio y bydd mwy o bobl yn plygu glin a chredu ynddo—wedi'r cyfan, dyna beth mae'n ei olygu i deyrnas Dduw 'ddod' i'r byd hwn.

Wrth grynhoi'r ymdriniaeth ag ymatebion y grŵp oedran hwn felly, gwelwyd bod ffurf gryno'r ferf Amherstonol Gorchmynnol yn rhwystr cyson i'r rhai nad oeddent yn mynychu capel nac eglwys yn gyson, gan awgrymu felly mai mwy addas ar eu cyfer yw berfau cwmpasog BNET. Fodd bynnag, cafodd y rhai sydd yn mynychu capel neu eglwys yn rheolaidd well hwyl ar ddeall y ferf, ond roedd eu dealltwriaeth o'r 'deyrnas' yn amrywio. Awgrymwyd eisoes nad problem i'r cyfieithwyr yw honno, ond yn hytrach i'r esbonwyr.

Yn y grŵp oedran nesaf i fyny, nid oedd y rhaniad mor glir. Cafwyd rhai ymatebion cryno a chywir, er enghraifft, 'Deisyf i Dduw deyrnasu fwy fwy yn fy nghalon, i ddod yn ôl yn fuan, ac hefyd i weld fwy o deyrnasiad Iesu yn torri allan yn ein byd heddiw.' Cafwyd ambell un eto yn sôn am lywodraethiant Duw, a rhai i'r gwrthwyneb yn dweud 'mae'r byd yn ein dwylo ni'. Gyda'r grŵp hwn, mae'r ferf yn parhau i fod yn broblem. Tybiai un mai berf ddibynnol yw hi, 'Pan ddaw teyrnas Dduw'. Mae'n bosibl felly mai eu dealltwriaeth nhw o'r adran ehangach yn y weddi yw, 'pan mae teyrnas Dduw yn dod, y gwneledy dy ewyllys megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd'. Dyma ddiffiniad gwahanol, diddorol, a chroes i'r ddealltwriaeth gyffredin, gan eto bwysleisio'r drafferth efo'r ferf. Ceir dryswch ynglŷn â'r 'deyrnas' eto hefyd, ond problem i'r esbonwyr yw hon o hyd. Ar y cyfan, mae ganddynt well dealltwriaeth na'r garfan flaenorol, o bosibl am iddynt dderbyn mwy o addysg Gristnogol. Ond amlygir y broblem hon ymhlith pob grŵp oedran, sef nad oes dealltwriaeth gyson o'r 'deyrnas'. Fel yn achos llawer o gysyniadau'r Beibl, efallai bod rhywun wedi clywed amdanynt, neu fod y Beibl a phregethwyr yn cyfeirio atynt mewn darlleniad neu bregeth neu weddi gan dybio fod pobl yn deall am beth y maent yn sôn. Ond mewn gwirionedd, mae'n bosibl nad ydynt yn deall, neu yn amlach na pheidio, mae pobl yn meddwl eu bod nhw'n eu deall, ond

mae dealltwriaeth pawb yn wahanol. Er enghraifft, gall cynulleidfa glywed cyfeiriadau sydyn at yr Ysbryd Glân bob dydd Sul gan bregethwr, ond heb erioed gael pregeth neu gyfres neu astudiaeth yn benodol ar natur yr Ysbryd. Felly i un person yn y gynulleidfa, bob tro y dywed y pregethwr 'yr Ysbryd Glân', mae'n golygu rhyw nerth sy'n caniatáu i rywun gyflawni gwyrthiau. I rywun arall, mae'n rhyw drosiad o gymdeithas; i rywun arall mae'n rhywbeth sy'n rhoi dealltwriaeth neu fewnwelediad arbennig i ddarn o destun ysgrythurol, ac i rywun arall mae'n rhywbeth arall. Mae pawb yn tybio eu bod nhw'n gwybod beth yw'r Ysbryd Glân, ond eto mae llawer o ddryswch ac anghysonder. Mae'n bosibl fod y 'deyrnas' yn gysyniad tebyg, ac mae hyn oll yn ganlyniad i ddirywiad ysbrydol a llai o fri ar bregethau swmpus a chyson.<sup>316</sup>

Ymhlith y rhai yn y ddau grŵp nesaf, 41-60 a 61+, roedd y ferf yn llai o broblem, ond er hynny, roedd ambell un yn dal i feddwl ei bod hi'n ferf Ddibynnol. O ran y 'deyrnas', roedd llywodraeth Duw yn dod i'r amlwg eto, yn enwedig ymhlith anghydfurfwyr ac anglicaniaid. Un ateb newydd a ymddangosodd, ac a ymddangosodd yn aml, oedd sôn am gymdeithas heddychlon sy'n hyrwyddo cyfiawnder ac mai dyna yw'r 'deyrnas' yr ydym yn gweddïo amdani. Geiriad arall, o bosibl, i ddeisyfiad o'r fath fyddai 'bydded i bawb ddilyn esiampl Iesu gan garu eraill'. Mae hynny yn sicr yn *ganlyniad* i ddyfod y deyrnas, ond nid hynny yw dyfod

---

<sup>316</sup> Gellir cynnig tri rheswm dros ddiffyg dealltwriaeth o gysyniadau diwinyddol:

1. Mae cynnal tri chwedd yr wythnos yn beth prin y dyddiau hyn (ac os oes cyfarfod canol wythnos, gan amlaf cymdeithas lenyddol sydd yn hytrach nag astudiaeth Feiblaidd neu gwrdd gweddi, neu seiat neu gyfeilliach fel a fu yn y gorffennol): R. Tudur Jones, 'Her yr Hydref' yn Euros Wyn Jones (gol.), *Blas ar Gristnogaeth Cymru* (Chwilog, 2018), t. 98.
2. Nid yw aelodau cyffredin o'r gynulleidfa bellach yn tueddu i ddarllen esboniadau, dim ond yn dibynnu ar ddarllen ychwanegol y gweinidog (unrhyw ddarllen Cristnogol ychwanegol yn y grŵp oedran hwn (26-40) yn cyfeirio yn bennaf at y papurau enwadol a llyfrau emynau, ond ymddengys fod darllen esboniadau a llyfrau defosiynol neu ddiwinyddol yn dod yn ôl yn boblogaidd ymysg Cristnogion ifainc);
3. Adlewyrcha bwyslais diweddar yr eglwys ar weithredu'n gymdeithasol yn hytrach na cheisio ffydd ddyfnach a gwell gwybodaeth ysgrythurol: Gwyn Davies, *Golau Gwlad – Cristnogaeth yng Nghymru 200-2000* (Pen-y-Bont ar Ogwr, 2002), t. 115.

y deyrnas. Ni welwyd yr un pwyslais ar deyrnasiad Duw mewn unigolion gan y grŵp oedran hwn, sy'n adlewyrchu tueddiadau diwinyddol pobl o'r oedran hwn a thwf Cristnogaeth ryddfrydol rhwng 1945 a 1990.<sup>317</sup>

I grynhoi'r ddealltwriaeth o'r ymadrodd hwn felly, y ferf oedd y prawf mewn gwirionedd gan fod y 'deyrnas' yn gyson ymhob cyfieithiad. Mater esboniadol yw dehongli'r 'deyrnas', ond rhaid yn gyntaf yw deall y ferf ac roedd hyn yn broblem, yn enwedig i'r rhai ieuengaf nad ydynt yn mynychu capel neu eglwys, ac felly nad ydynt yn gyfarwydd â gweddiö Gweddi'r Arglwydd. Ar sail hyn, gellir dadlau yn sicr mai BNET yw'r mwyaf addas ar gyfer y garfan hon o bobl yn hyn o beth, gan fod y berfau cwmpasog a geir yn y cyfieithiad hwnnw yn llawer eglurach.

### *Adran Salm 23*

Yn yr adran hon o'r holiadur, cyflwynwyd tri chyfieithiad gwahanol o'r un darn o'r Beibl, sef darn o Salm 23. Mae'r Salm hon yn un hynod gyfarwydd, ac mae llawer iawn o Gymry wedi ei dysgu ar eu cof ers blynyddoedd, yn bennaf o gyfieithiad William Morgan. Penderfynais beidio â chynnwys yr adnod gyntaf, 'Yr ARGLWYDD yw fy mugail...' gan ei fod yn rhy gyfarwydd, o bosibl. Hyd yn oed i'r rhai nad ydynt yn gyfarwydd â'r Salm nac â'r Beibl yn gyffredinol, y mae'n debygol eu bod wedi clywed y cymal agoriadol hwnnw o'r Salm; ac mae'n bosibl o

---

<sup>317</sup> R. Tudur Jones, 'Her yr Hydref' yn Euros Wyn Jones (gol.) *Blas ar Gristnogaeth Cymru* (Chwilog, 2018), t. 100.

ddarllen cyfieithiad BNET, 'Yr ARGLWYDD ydy fy mugail i...', y byddant yn sylwi ar y mân wahaniaeth, ac er mor fân yw'r gwahaniaeth, y byddant yn diystyru'r fersiwn dieithr ac yn ystyried y ddau gyfieithiad hŷn fel y rhai 'cywir'. Yna mae adnodau 2 a 3 yn dilyn yr adnod gyntaf yn naturiol a theimlid mai'r lle mwyaf addas i ddechrau'r dyfyniad yn yr holiadur felly oedd dechrau adnod 4. Dim ond chwe adnod sydd yn y Salm gyfan, ond maent yn adnodau cymharol hir, a phenderfynwyd y byddai'r tair adnod olaf yn ddyfyniad rhy hir i'r sawl a oedd yn llenwi'r holiadur ei ddarllen a'i ddeall o dri chyfieithiad gwahanol. Penderfynais felly beidio â chynnwys yr adnod olaf, felly'r dyfyniad yn y pen draw oedd adnodau 4 a 5. Penderfynais hefyd beidio â rhoi teitlau'r cyfieithiadau uwch ben y dyfyniadau, ond yn hytrach roi 'Cyfieithiad 1, 2 a 3'. Yr unig reswm dros hynny oedd rhag ofn fod gan ryw unigolyn ragfarn benodol yn erbyn rhyw gyfieithiad, heb wybod dim amdanynt, er ni ddisgwylid i hynny fod yn broblem. Cyfieithiad 1 felly oedd BWM, Cyfieithiad 2 oedd y BCND a Chyfieithiad 3 oedd BNET. Dyma'r dyfyniadau fel ag yr oeddent yn yr holiadur felly:

#### Cyfieithiad 1

Ie, pe rhodiwn ar hyd glyn cysgod angau, nid ofnaf niwed: canys yr wyt ti gyda mi; dy wialen a'th ffon a'm cysurant.

Ti a arlwyi ford ger fy mron yng ngŵydd fy ngwrthwynebwy: irait fy mhen ag olew; fy ffiol sydd lawn.

#### Cyfieithiad 2

Er imi gerdded trwy ddyffryn tywyll du,  
nid ofnaf unrhyw niwed,

oherwydd yr wyt ti gyda mi,

a'th wialen a'th ffon

yn fy nghysuro.

Yr wyt yn arlwyo bwrdd o'm blaen

yng ngŵydd fy ngelynion;

yr wyt yn eneinio fy mhen ag olew;

y mae fy nghwpan yn llawn.

### Cyfieithiad 3

Hyd yn oed mewn ceunant tywyll dychrynlyd,

fydd gen i ddim ofn, am dy fod ti gyda mi.

Mae dy ffon a dy bastwn yn fy amddiffyn i.

Rwyt ti'n paratoi gwledd i mi

ac mae fy ngelynion yn gorfod gwylio.

Rwyt ti'n tywallt olew ar fy mhen.

Mae gen i fwy na digon!

Roedd pedwar cwestiwn ynglŷn â'r adnodau hyn, tri yn gwestiynau caeth ac un yn gwestiwn penagored. Dyma'r cwestiynau, gyda'r tri chynaf yn gwestiynau ticio blychau a'r pedwerydd yn cynnig cyfle i deipio ateb:

- Pa gyfieithiad ydych chi'n tybio sy'n rhoi'r ddealltwriaeth orau o'r testun i chi?
- Pa gyfieithiad sy'n cyfleu teimladau'r Salmydd orau yn eich barn chi?
- Pa gyfieithiad fyddech chi'n fwyaf tebygol o allu ei gofio?

- A oes gennych unrhyw sylwadau ychwanegol ar yr adnodau hyn?

Trafodir yr ymateb i bob cwestiwn dan bedwar pennawd isod.

### *Dealladwyedd*

Ystyriaeth dra phwysig wrth lunio cyfieithiad o'r Beibl yw pa mor ddealladwy ydyw, wedi'r cyfan, dyma'r rheswm y mae angen cyfieithiadau o'r Beibl o gwbl. Ni fwriadwyd wrth lunio'r un cyfieithiad o'r Beibl geisio gwella ar y fersiynau yn yr ieithoedd gwreiddiol gan y byddai hynny'n awgrymu fod gwendid yn y gwreiddiol. Y bwriad yw, gyda phob cyfieithiad, mynegi'r testun gwreiddiol mewn iaith sy'n ddealladwy gan y gynulleidfa darged. Y mae rhai cyfieithwyr yn fodlon cyfaddawdu mwy nag eraill ar yr ystyr(on) neu'r arddull er mwyn sicrhau ei fod yn ddealladwy. Mae rhai eraill yn ceisio sicrhau ffyddlondeb o ran ystyr gan olygu efallai nad yw mor hygyrch yn yr iaith darged.<sup>318</sup> Fel y trafodir mewn man arall yn y traethawd hwn, rhaid yw i gyfieithwyr wneud penderfyniadau mawr sylfaenol a mabwysiadu egwyddorion. Ond yr hyn sy'n rhaid ei bwysleisio yw hyn, os yw cyfieithiad yn gwbl annealladwy i rywun, i'r person hwnnw mae'r cyfieithiad yn ddi-werth. Dealladwyedd yw'r unig beth sy'n gryfder gan gyfieithiadau dros y gwreiddiol, hynny yw dealladwyedd i ryw garfan o bobl sy'n siarad yr iaith honno; ymhob agwedd arall, y mae'r gwreiddiol yn rhagori. Gan gofio hynny, mae'n rhaid ystyried pa mor ddealladwy yw'r cyfieithiadau Cymraeg o'r Beibl. Geiriad y cwestiwn hwn, felly, oedd, 'pa gyfieithiad ydych chi'n tybio sy'n rhoi'r ddealltwriaeth orau o'r testun i chi?' Noder fod y gair 'tybio' wedi ei gynnwys, a hynny oherwydd mae'n bosibl fod rhywun wedi cael rhyw ddealltwriaeth o'r testun, ond efallai nad y ddealltwriaeth a fwriadwyd gan Dafydd,


---

<sup>318</sup> Gweler y drafodaeth ar egwyddorion cyfieithu yn y Cyflwyniad.

awdur y Salm, dan ysbrydoliaeth yr Ysbryd Glân. Ymatebodd un cyfranogwr yn benodol i hyn yn y blwch ar gyfer sylwadau ychwanegol, gan ddweud:


O ran ateb y cwestiwn am 'ddealltwriaeth' mae hi'n anodd gwneud hynny heb fod y testun gwreiddiol (a dealltwriaeth ohono) ar gael. Mae ystyr y tri darn rhyw fymryn yn wahanol hefyd – o'm rhan i tydi 'yng ngŵydd fy ngelynion' ddim yn cyfieithu'n union i 'ac mae fy ngelynion yn gorfod gwylio' er enghraifft. Yn yr un modd tydi 'dyffryn tywyll du' a 'ceunant tywyll dychrynlyd' ddim yn cyfateb chwaith, felly fedr y naill ddim rhoi darlun fwy eglur na'r llall i ddarllenwyd, dim ond un gwahanol. Anodd ydi ateb pa ddarn sy'n rhoi'r dealltwriaeth orau o'r testun i mi felly gan fod y tri darn yn cynnig ystyron gwahanol.

Cydnabyddir y gall gwahanol gyfieithiadau roi dealltwriaeth wahanol o'r un testun, ac y mae darnau eraill o'r Beibl, lle mae cyfieithwyr wedi gorfod gwneud mwy o ddehongli, lle mae hynny'n amlycach. Ond er bod rhai mân ystyron yn amrywio yn y dyfyniadau hyn efallai, casglu maint dealltwriaeth gyffredinol oedd yr hyn a fwriadwyd. Byddai llawer o'r cyfranogwyr wedi darllen un neu ddau o'r cyfieithiadau, heb wneud na phen na chynffon ohonynt, cyn dod at un arall a dechrau deall. Dyna pam y mae'r gair 'tybio' mor bwysig yng ngeiriad y cwestiwn, er mwyn cael gweld pa gyfieithiad y mae pobl yn teimlo y maent yn ei ddeall orau. Cafwyd ymatebion amrywiol, gyda'r BCND yn fwyaf dealladwy gan y nifer fwyaf, fel a welir yn y siart bar hwn.



Nid oedd yn syndod gennyf weld BWM ar ei hôl hi yn yr agwedd hon, gan mai'r feirniadaeth amlycaf o'r cyfieithiad hwnnw yw ei fod yn anodd i'w ddeall. Fodd bynnag, roedd carfan sylweddol, sef dros chwarter y cyfranogwyr, yn dal i feddwl mai hwnnw yw'r cyfieithiad sy'n rhoi'r ddealltwriaeth orau iddynt. Mae'r graff nesaf yn dangos dealladwyedd yn ôl oedran, er mwyn gweld a yw oedran y cyfranogwr (neu yn hytrach yr oes y'u magwyd ynddi) yn effeithio ar ei ateb.






Gwelir amrywiadau mawr yn y graff uchod. Yn y grŵp oedran hynaf (61+), roedd yr ymatebion yn rhyfeddol o agos. BWM yw'r mwyaf dealladwy (36.5%), gyda'r BCND yn ail agos (34.7%) a BNET heb fod ymhell ar eu hól (28.7%). Ymhob grŵp oedran arall, BWM yw'r lleiaf dealladwy, gyda'r BCND yn arwain y blaen ymhob un, a BNET yn ail. Mae'r canrannau sy'n nodi BWM fel y mwyaf dealladwy yn lleihau wrth i'r oedrannau ostwng ac mae'r canrannau sy'n nodi BNET fel y mwyaf dealladwy yn cynyddu wrth i'r oedrannau ostwng. Yr hyn sy'n sefyll allan, fodd bynnag, yw fod y BCND yn parhau i fod y mwyaf dealladwy gan y to ifanc, sef y grŵp 18-25. Yn y grŵp hwn, dewisodd hanner y cyfranogwyr y BCND fel y mwyaf dealladwy gyda 40.5% yn dewis BNET. Ond mae'n rhaid nodi hefyd fod BWM yn parhau i fod yn ddealladwy gan rai yn y ddau grŵp ifanc hefyd, gyda 16.1% yn y grŵp 26-40 a 9.5% yn y grŵp 18-25 yn dewis BWM fel yr un mwyaf dealladwy. Mae'r ffigur 9.5% yn y grŵp 18-25 yn cyfateb i 4 unigolyn,

a diddorol yw nodi hefyd nad yw dau ohonynt yn mynychu capel nac eglwys yn gyson, nac yn darllen y Beibl yn rheolaidd. Roedd y ddau arall yn mynychu eglwys yn gyson ac yn perthyn i'r traddodiad Efengylaidd. Ar y cyfan felly, y boblogaeth hŷn sy'n ffafrio BWM o ran dealladwyedd ar gyfer y dyfyniad hwn, gyda'r BCND yn arwain y blaen gyda phawb arall.

Grŵp arall y mae dealladwyedd yn bwysig iddynt yw dysgwyr neu siaradwyr ail iaith. Mae BNET yn ei werthu ei hun fel cyfieithiad addas ar gyfer dysgwyr, felly credaf ei bod yn bwysig ystyried ymatebion siaradwyr ail iaith i'r cwestiwn hwn. Un o'r cwestiynau yn adran agoriadol yr holiadur oedd 'a ydych yn ystyried eich hunan yn siaradwr Cymraeg iaith gyntaf?' Yn y graff isod felly, dim ond atebion y rhai a atebodd 'Nac ydw' i'r cwestiwn hwnnw sydd ynddo.



Syndod oedd gweld poblogrwydd BWM o ran dealladwyedd ymhlith y grŵp hwn, gyda 26.8% ohonynt yn ei ddewis. Disgwyliais weld BNET ymhell ar y blaen ond dim ond yn ail y daeth y cyfieithiad hwnnw, a dim ond 2.5% yn fwy poblogaidd ydoedd na BWM. Y BCND yw'r mwyaf dealladwy ganddynt felly, ac mae'r ymatebion hyn yn llawer tebycach i rai'r sampl cyfan nag yr oeddwn wedi ei ddisgwyl.

Ar y cyfan, felly, roedd yr ymateb i'r cwestiwn hwn yn cadarnhau fy rhagfynegiadau. Mae BWM yn dod yn llai dealladwy gyda phob cenhedlaeth ond eto, hyd yn oed ymhlith y genhedlaeth ieuengaf yn yr holiadur, roedd canran fechan yn parhau i'w ddeall. Ar y llaw arall, yn achos y dyfyniad hwn a'r sampl hwn, mae BNET yn dod yn fwy dealladwy gyda phob cenhedlaeth, ond nid yw eto wedi dal i fyny gyda'r BCND gyda'r grŵp ieuengaf yn y sampl (18-25). Gyda'r boblogaeth bresennol felly, os yw'r sampl yn gynrychioladol o'r boblogaeth, y BCND yw'r mwyaf dealladwy, ac mae hynny yn ymestyn, yn annisgwylidig efallai, i'r siaradwr ail iaith hefyd.

### *Mynegiant*

Am lyfr y Salmau, dywed Thomas Charles:

Am gynnwysiad y Psalmu, y maent yn ddyfyriad, neu grynodedb, o'r hyn sydd yn gynnwysedig yn yr holl ysgrythurau, ac y maent yn berthynol i bob cyflyrau ac achosion. Traethant am fawrion weithredoedd Duw, mewn iaith ac ymadrodd mwyaf addas, addurnedig, gorchestol, ac ardderchog, o ddim a ysgrifenydd erioed mewn unrhyw iaith yn y byd [*sic*].<sup>319</sup>

Os yw Charles yn gywir yn hyn o beth, sef mai'r Salmau yw'r llenyddiaeth ardderchocaf i'r byd ei weld erioed, gellir dychmygu nad oes her fwy i'w chael na cheisio cyfieithu'r Salmau hyn.<sup>320</sup>

Barddoniaeth ydyw'r Salmau, caneuon neu emynau i'w canu gydag offerynnau. Mae'r cynnwys yn amrywiol, ond Charles eto sy'n crynhoi orau, 'Caniadau wedi eu cyfansoddi er buddioldeb ysbrydol i Israel Duw, ac er mawl i Dduw Israel.'<sup>321</sup>

---

<sup>319</sup> Charles, 'Psalm', *Geiriadur Ysgrythurol*, t. 753.


<sup>320</sup> Canolbwyntir yn y traethawd hwn ar gyfieithiadau lle blaenoriaethir cyfieithu'r testun ar draul y mesur. Ceir mydryddiadau o Lyfr y Salmau, a'r ddau gasgliad mwyaf cyfarwydd yw Salmau Cân Edmwnd Prys (1621) a Salmau Cân Newydd Gwynn ap Gwilym (2008). Ceir astudiaeth o Salmau Cân Prys yn ogystal â chefnidir mydryddu'r Salmau yn Adrian Morgan, 'Astudiaeth o Salmau Cân (1621) Edmwnd Prys' (Ph.D., Prifysgol Aberystwyth, 2011): gw. [https://pure.aber.ac.uk/portal/files/10477232/Cyfrwl\\_1\\_Cyflawn.pdf](https://pure.aber.ac.uk/portal/files/10477232/Cyfrwl_1_Cyflawn.pdf).

<sup>321</sup> Charles, 'Psalm', *Geiriadur Ysgrythurol*, t. 752.

Mae'n diffinio 'mawl' fel a ganlyn:

Y mae mawl, neu foli yr Arglwydd, yn arwyddo cydnabyddiaeth orfoleddus o'i ragoriaethau a'i rinweddau, a'n rhwymedigaethau anfeidrol iddo; ac yn cynnwys gwybodaeth wirioneddol ohono, cymod ag ef, cariad tuag ato, hyfrydwch a gorfoledd ynddo... Y mae moli Duw yn gyhoeddus yn rhan ardderchog o addoliad dwyfol; gan hynny dylem ofalu fod ein mawl yn cael ei fynegi mewn geiriau a fyddont yn gweddu i'r Drindod a'i rinweddau anfeidrol; a'n hysbryd yn dyrchafu at Dduw gyda'r geiriau; a'n llais ac ystum ein cyrff yn cyfateb i hynny.<sup>322</sup>

Rhodddwyd pwys mawr ar ddefnyddio geiriau i fynegi mawl ac addoliad y Salmydd yn y gwreiddiol felly, a dyna pam y mae cwestiwn yn yr holiadur: 'pa gyfieithiad sy'n cyfleu teimpladau'r Salmydd orau yn eich barn chi?' Y mae nifer yn dadlau fod natur urddasol a blodeuog BWM yn rhagori ar y cyfieithiadau symlach, diweddar. Cynhwyswyd y cwestiwn hwn felly er mwyn gweld a yw'r farn honno'n un gyffredin.



Fel y gwelir yn y graff uchod, cadarnhawyd fod y farn hon yn un gyffredin yn wir, gyda thros hanner y sampl yn credu mai BWM sy'n mynegi teimpladau'r Salmydd orau. O'r 231 o bobl a

---

<sup>322</sup> Thomas Charles, 'Mawl', *Geiriadur Ysgrythurol*, t. 629

ddewisodd BWM fel yr un sy'n cyfleu'r mynegiant orau, roedd 122 yn dweud eu bod yn darllen y Beibl yn bersonol, ac yn ddiddorol iawn dim ond 72 ddywedodd eu bod yn darllen BWM.<sup>323</sup> Rhyfedd yw fod 50 o'r cyfranogwyr felly yn credu mai BWM sy'n mynegi teimladau'r Salmydd orau ond eto nid ydynt yn defnyddio'r cyfieithiad hwnnw, ond yn hytrach yn defnyddio rhai eraill. A yw hynny felly yn arwyddo fod cred ymhlith rhai nad yw'r mynegiant yn bwysig? Mae'n bosibl fod hynny'n wir mewn rhai achosion, ond ni chredaf fod hynny'n dybiaeth gyffredin iawn. Mae'n rhaid cofio fod y cwestiynau ar ddefnydd o'r cyfieithiadau yn cyfeirio at y Beibl cyfan, ac er bod llawer o'r Beibl yn farddoniaeth (yn enwedig yn y llyfrau doethineb a llawer o'r proffwydoliaethau), eu bod wrth ateb y cwestiynau hynny yn meddwl am ddefnydd cyffredinol o'r Beibl. Mae'n bosibl, wrth gwrs, eu bod yn troi at BWM neu hyd yn oed at y Salmau Cân pan fyddant yn darllen y Salmau, ond na chawsant gyfle digonol i nodi hynny wrth ymateb i'r holiadur. Un sylw diddorol a dderbyniwyd ar y thema hon oedd hwn:

Gan gofio mae eu "canu" megis mae y Salmau fod, er fod beibl.net yn esbonio yr ystyr yn fwyaf clir i mi - mae y cyfieithiadau hyn yn "canu" yn well. Erys y cwestiwn felly beth sydd bwysicaf? Deall yr ystyr? Neu canu'n dda i'r glust? Tebyg fod ateb gwahanol yn dderbyniol yn dibynnu ar pa lyfr o'r Beibl mae rhywun yn myfyrio arno?[sic]

Mae'n bosibl iawn felly, fod pobl yn ffafrio gwahanol gyfieithiadau yn ddibynnol ar y rhan o'r Ysgrythur sy'n cael ei darllen. Efallai y byddent yn fwy tebygol, gan hynny, o ddefnyddio BNET wrth ddarllen yr efengylau, gan fod llawer o'r efengylau yn gofnodion o ddigwyddiadau ac o eiriau Iesu Grist, yn sgysiau ac yn bregethau; ac y byddent yn fwy tebygol o ddefnyddio BWM gyda'r rhannau hynny o'r Ysgrythur y maent yn tybio fod urddas ac iaith flodeuog yn bwysig, megis y Salmau. Mae'n bosib y meddir esbonio'r 50 hefyd trwy ystyried y posibilrwydd nad

---

<sup>323</sup> 65 wedi ticio'r blwch BWM a 7 arall wedi ei nodi fel 'cyfieithiad arall' gan nad oeddent wedi deall fod modd ticio mwy nag un blwch yn y cwestiwn blaenorol.

oeddent yn cofio neu'n sylwi mor gyfoethog yw BWM yn yr agwedd hon. Nid yw pawb yn rhoi llawer o ystyriaeth i ba gyfieithiad y maent yn ei ddefnyddio, ac efallai y byddant, o gael eu hatgoffa o gryfder mynegiannol BWM trwy lenwi'r holiadur, yn ailafael yn y cyfieithiad hwnnw.

Ystyriaethau diddorol yw'r rhain, a'r gwir amdani yw fod pobl sy'n gyfarwydd â mwy nag un o'r cyfieithiadau yn aml yn defnyddio sawl un yn rheolaidd.<sup>324</sup> Mae rhai adnodau sy'n gryf mewn un cyfieithiad ac adnodau eraill sy'n gryf mewn cyfieithiad arall. Yr hyn sy'n sicr yw fod y sampl yn cefnogi'r farn fod BWM yn mynegi teimladau'r Salmydd yn effeithiol yn y ddwy adnod dan sylw yn Salm 23.

### *Cofiadwyedd*

Wrth drafod y Salmu, ac yn arbennig Salm 23, un frawddeg sy'n codi ei phen yn aml yw 'dysgais y Salm hon yn yr ysgol Sul pan oeddwn i'n blentyn ac rwy'n ei chofio hyd heddiw.' Yn y gorffennol, arferai mwyafrif y boblogaeth Gymraeg ei hiaith fynychu capel neu eglwys ac felly byddai'r plant wrth gwrs wedi cael eu magu yn yr ysgol Sul. Ond hanerodd yr aelodau eglwysig yng Nghymru yn y tri chwarter canrif rhwng 1905 a 1980, a hanerodd eto rhwng 1980 a 2010.<sup>325</sup> Er nad yw'r arfer o fynychu oedfa ar ddydd Sul yn parhau i'r un graddau heddiw, mae ffrwyth yr hen draddodiad yn dal i fod yn amlwg, gyda rhai o'r genhedlaeth hyn yn arbennig yn gwybod Salmu a nifer o adnodau eraill o'r Beibl ar eu cof. Nid yw pob Cristion

---

<sup>324</sup> Fel y gwelir ar dudalen 183.

<sup>325</sup> Jones, *Blas ar Gristnogaeth Cymru*, tt. 90, 101.

yn rhoi yr un pwys ar ddysgu adnodau, yn enwedig eu dysgu i blant. Byddai rhai yn dweud ei fod yn faich sy'n gyrru plant oddi wrth yr ysgol Sul a bywyd yr eglwys, ei fod yn hen ffasiwn efallai. Ond ar y llaw arall, byddai rhai yn dweud nad oes paratoad gwell ar gyfer taith bywyd na thrwy sicrhau fod Gair Duw ei hun ar y cof, gan gyfeirio, efallai, at ddarlun y morgrug yn llyfr y Diarhebion:

Y mae pedwar peth ar y ddaear sy'n fach,  
ond yn eithriadol o ddoeth:  
y morgrug, creaduriaid sydd heb gryfder,  
ond sy'n casglu eu bwyd yn yr haf.<sup>326</sup>


Beth bynnag sy'n wir am y pwys a roddir arno, i Gristion sydd wedi ymrwymo i ddilyn Crist gydol ei oes, nid oes un anfantais i gael Gair Duw ar ei gof. Yn llythyr yr Apostol Paul at aelodau'r eglwys yn Effesus, dywedir wrthynt, 'Cyfarchwch eich gilydd â salmau ac emynau a chaniadau ysbrydol; canwch a phynciwch o'ch calon i'r Arglwydd.'<sup>327</sup> Nid cyfeiriad yn unig at y lyfr y Salmau fel y'i ceir yn y Beibl yw hwn ond yn hytrach, mae'n ehangach, a'r man gorau i ddechrau'r fath arfer wrth gyfarch yw gyda geiriau o'r Beibl ei hun. Mae'n llesol i'r Cristion gael darnau o'r Ysgrythur ar ei gof. Y trydydd cwestiwn ar Salm 23 felly oedd hwn: 'pa gyfieithiad fyddech chi'n fwyaf tebygol o allu ei gofio?' Y mae'n rhaid cydnabod fod gwendid yma, nid yn y cwestiwn ei hun ond yn y dyfyniad dan sylw. Y rheswm am hynny yw am fod y dyfyniad yn un sydd eisoes ar gof cymaint o bobl, a thynnwyd sylw (yn ddisgwyliedig) at y ffaith honno yn y blwch ar gyfer sylwadau ychwanegol, ac mae'n bosibl mai gwell fyddai fod wedi dewis dyfyniad llai cyfarwydd ar gyfer y cwestiwn hwn. Fodd bynnag, gan fod yn rhaid

---

<sup>326</sup> Diarhebion 30:24-25.

<sup>327</sup> Effesiaid 5:19.


cadw'r holiadur yn gymharol fyr er mwyn i bobl ei lenwi, ni fyddai rhoi tri darlleniad arall iddynt ei ddarllen wedi bod yn ymarferol nac yn deg ar y cyfranogwyr, a oedd yn rhoi yn hael o'u hamser i lenwi'r holiadur. Y gobaith oedd y byddent yn medru rhoi heibio'r ffaith eu bod eisoes yn gwybod y Salm ar eu cof, o bosibl, ac ystyried pa un fyddai hawsaf i'w ddysgu petaent yn gwneud hynny o'r newydd. Mae'n bosibl hefyd fod y ffaith fod y tair adnod gyntaf heb eu cynnwys yn helpu yn hyn o beth, gan ein bod wrth natur yn tueddu i gofio cerddi, emynau ac adnodau fel un ffrwd hir, di-dor, a bod dechrau yn y canol yn medru bod yn anos. Ni cheisiwyd cuddio'r ffaith mai Salm 23 oedd dan sylw, ond nid oedd y dechrau yno i brocio eu hatgofion o'r Salm chwaith. Fel y gwelir yn y graff isod, barn gyffredin iawn yw mai BWM yw'r hawsaf o'r dyfyniadau i'w cofio, gyda 304 (dros 70%) o'r farn honno. Nid yw hynny'n syndod, o achos rhythmau barddonol naturiol ac unigryw y cyfieithiad, sydd wedi eu colli'n rhannol yn y BCND ac yn llwyr yn BNET.



Yn gyson yn y cyfieithiadau hefyd, defnyddia BNET nifer fwy o eiriau na BWM, mae 54 gair yn y dyfyniad dan sylw o BNET, a 43 gair yn BWM. Nid yn unig y mae'n rhaid dysgu 11 gair



ychwanegol yn BNET, ond mae'r ffaith fod berfau'n gwmpasog ac ati yn golygu nad yw'n llifo yn y fath ffordd sy'n ei wneud yn hawdd i'w ddysgu ar y cof. Mae'n ddiddorol edrych ar y dosbarthiad oedran gyda'r maes hwn hefyd. Fel y gwelir oddi wrth y graff isod, mae BNET yn hynod o amhoblogaidd fel un i'w wybod ar y cof ymysg y tri grŵp hynaf, gyda dim ond 2.4% yn y grŵp 61+, a 4.5% yn y grŵp 41-60. Fodd bynnag, mae'n fwy poblogaidd gan y grŵp ieuengaf, 18-25, gyda thraean ohonynt yn dweud mai BNET yw'r hawsaf i'w gofio. Mae BWM ar y llaw arall yn fwy cofiadwy wrth i'r grwpiau fynd yn hŷn. Y mae ymhell ar y blaen gan y grŵp hynaf, gyda 90.4% ohonynt yn dweud mai'r dyfyniad o BWM yw'r hawsaf i'w gofio, a 74.2% o'r grŵp 41-60. Mae BWM a'r BCND yn gyfartal yn y grŵp 26-40, gyda'r ddau yn fwyaf cofiadwy gan 45.2% ohonynt yr un. Diddorol hefyd yw mai'r BCND yw'r mwyaf cofiadwy yn nhyb y grŵp ieuengaf, dyma'r grŵp sydd o bosibl, heb ddysgu'r adnodau ar eu cof o BWM.



Yn gyffredinol, felly, mae'r ddau gyfieithiad diweddaraf yn tueddu yn araf am i lawr (y llinellau oren a llwyd yn y graff) tra bo BWM yn tueddu yn gyflym am i fyny (y llinell las), yn mynd yr

holl ffordd o 19% gan y rhai ieuengaf i 90.4% gan y rhai hynaf. Y mae'n werth nodi fod dwbl y ganran o'r grŵp ieuengaf a ddewisodd BWM fel yr un hawsaf i'w ddeall wedi ei ddewis fel yr un mwyaf cofiadwy, felly er bod y ffigwr cofiadwyedd yn isel o'i gymharu â'r grwpiau eraill, mae'n parhau i fod yn gofiadwy mewn cymhariaeth â'i ddealladwyedd. Rhaid nodi fod cynifer o sylwadau a gafwyd yn y blwch ar gyfer sylwadau ychwanegol yn cyfeirio'n ôl at y drafodaeth ar gofiadwyedd. Dyma un enghraifft:

Er bod y cyfieithiadau mwy diweddar yn haws i'w deall, mae rhythmau'r hen gyfieithiad yn help mawr i'r cof. Mae beibl.net yn anobeithiol o ran dysgu ar y cof (cymharer dysgu barddoniaeth a dysgu darnau o ryddiaith!)

Mae un arall yn tynnu sylw at y tebygrwydd i'r gwreiddiol, gan ddweud, 'Mae cyfieithiad 1 yn fwy barddonol a mydryddol (fel yr Hebraeg gwreiddiol) ac o'r herwydd yn haws i'w gofio.'

### *Sylwadau Ychwanegol*

Gan mai cwestiynau ticio blychau oedd y tri chwestiwn blaenorol ar y Salm, teimlid ei bod hi'n bwysig rhoi'r cyfle i'r cyfranogwyr gynnig unrhyw sylwadau pellach oedd ganddynt ar y Salm. Profodd hyn yn werthfawr gyda nifer o sylwadau diddorol a theg, gan agor y drws i ddeall mwy ar farn y cyfranogwyr ar y cyfieithiadau o'r Salm. Cafwyd sawl cyfiawnhad i atebion y cwestiynau blaenorol, wrth reswm. Un enghraifft o hyn yw'r sylw canlynol:

Yn fwy cyfarwydd â chyfieithiad 1. Yn teimlo bod yr iaith yn fwy persain a barddonol na'r ddau arall felly'n fwy addas ar gyfer salm. Y ddau arall yn haws i'w deall ond y mynegiant yn fwy clogyrnaidd. Efallai oherwydd y defnydd o ffurf gwmpasog y ferf?

Dyma sylwadau teg iawn, cynrychioladol iawn o sylwadau cyfranwyr eraill hefyd, ond mae'n ddiddorol fod cyfeiriad at BNCD fel cyfieithiad clogyrnaidd, yn ogystal â BNET. Cyfeiria at y berfau cwmpasog, ac mae BCND yn cynnwys llawer o ferfau cwmpasog yn ogystal â berfau

cryno. Yn y dyfyniad hwn, er enghraifft, ceir ‘nid ofnaf’<sup>328</sup> yn ogystal ag ‘yr wyt yn arlwyo’<sup>329</sup>. Diddorol fyddai gwybod a fyddai’n well gan awdur y sylwadau uchod weld ‘arlwyi’ yn y BCND yn hytrach nag ‘yr wyt yn arlwyo’. Yn fy marn i, yn yr achos hwn, nid yw’r BCND ddim mwy clogyrnaidd na BWM: wrth ddarllen mae ‘yr wyt yn arlwyo’ yn dod yn dri gair sy’n llifo’n naturiol, ‘rwyf yn arlwyo’, ac mae tri gair yn BWM hefyd, ond nad ydynt yn llifo mor rhwydd gan fod tair sillaf mewn tri gair yn dilyn ei gilydd heb unrhyw gytsain yn eu gwahanu, ‘Ti a arlwyi’. Mentrir dweud hefyd fod rhai sy’n anghyfarwydd ag adrodd y Salm yn baglu’n aml iawn ar y ferf ‘arlwyi’ wrth ei darllen ar lafar. Fodd bynnag, mae’r sylw hwn gan y cyfranogwr yn un diddorol, ac yn sicr mae’n crynhoi barn llawer ar y cyfieithiadau cyfan. Sylw arall sy’n crynhoi agwedd nifer yw’r un hwn:

Er bod cyfieithiad dau a thri yn rhai symlach i’w dilyn/yn iaith fwy cyfoes, credaf bod y cyfieithiad cyntaf yn fwy llenyddol, ac yn swnio’n well. Fodd bynnag, nid yw’n hygyrch efallai i rai sydd heb ddod ar draws llawer o Gymraeg llenyddol/ffurfiol. Mae hi’n bwysig cael cydbwysedd rhwng iaith lenyddol “ffansi” fel petai, a iaith sydd yn cyfleu y neges yn syml, am mai nod y testun yw i gyfleu ideoleg i’r niferoedd.[sic]

Ceir yn y sylw hwn gyfeiriad at y dynfa rhwng ceisio naill ai cadw at ystyr ynteu cadw at fynegiant, a cheisio cyfleu’r ystyr honno yn eglur ac yn ddealladwy.

Cafwyd sylwadau gan nifer lle’r oeddent yn mynegi eu hoffter personol o un neu ddau gyfieithiad penodol, gan gydnabod y byddai rhyw gyfieithiad arall yn fwy addas ar gyfer cynulleidfa wahanol. Dywed un:

Er fy mod yn credu mai cyfieithiad rhif 3 fyddai’r rhwyddaf i rywun heb fagwraeth yn y Capel a’r Ysgol Sul ei ddeall, nid wyf yn ei hoffi fy hun, gan nad oes ynddo’r urddas o ran mynegiant sy’n gweddu i’r Beibl yn fy marn i.

---

<sup>328</sup> Salm 23:4 BCND.

<sup>329</sup> Salm 23:5 BCND.

Dyma enghraifft o rywun yn cydnabod y gall cyfieithiad nad yw ef neu hi ei hunan yn hoff ohono fod yn fuddiol i rywun arall. Dyma feddylfryd iach, yn fy marn i, ond dyma feddylfryd hefyd y mae'n rhaid gweithredu arno yn ymarferol – hynny yw, os yw arweinydd mewn clwb ieuenctid yn hoff o BWM, ai dyna'r cyfieithiad i'w ddefnyddio yn y clwb, ynteu a yw'r arweinydd yn fodlon defnyddio cyfieithiad gwahanol yn y sefyllfa honno?

Cafwyd un sylw diddorol iawn yn trafod rhywfaint ar oblygiadau diwinyddol cyfieithu gair mewn ffyrdd gwahanol:

Gallaf weld bod y gystrawen yn fwy cyfarwydd yn 2 a 3 ond ydy pobl yn fwy cyfarwydd a pastwn [sic] na gwialen, ceunant na dyffryn? Rhaid deall eneinio hyd yn oed os nad yw'r gair yn cael ei ddefnyddio. Onid ydy'r gair angau yn bwysig? Onid ydy glyn cysgod angau yn cyfeirio at farwolaeth a bod hyn yn clymu gyda'r adnod olaf sy'n cyfeirio at y gefnogaeth mewn bywyd ac, yn y cymal olaf at dragwyddoldeb.

Yn gyntaf, mae'n cwestiynu dewisiadau geiriau yng nghyfieithiad BNET, er enghraifft, 'ceunant' yn hytrach na'r 'dyffryn' a geir yn y BCND, a dyna bwynt diddorol oherwydd gellir tybio bod 'dyffryn' yn air llawer mwy cyfarwydd, yn arbennig ar lafar. Mae'r pwynt nesaf yn un hynod o dda, gan ystyried pwysigrwydd y gair 'angau'. Mae angau a bywyd tragwyddol yn themâu canolog gydol y Beibl ac maent yn codi eu pennau yma hefyd, ar ddau achlysur fel y cyfeiria'r sylw. Caiff hyn sylw manylach mewn man arall o'r traethawd, ond yn sicr ceir awgrym cliriach a chysonach o hyn yn BWM nag yn y cyfieithiadau diweddarach: 'efe a ddychwel fy enaid,' 'pe rhodiwn ar hyd glyn cysgod angau,' 'a phreswyliaf yn nhŷ yr Arglwydd yn dragwydd'. Sylw arall, tebyg, a gafwyd oedd hwn:

Rwy'n deall y cyntaf (BWM) yn hollol iawn, ond mae'n debyg taw fy ngraddau yn y Gymraeg sy'n gyfrifol am hynny. Pe na bawn â'r graddau hynny, byddai ambell air yn ddieithr i mi, a'r [g]ystrawen yn anoddach ei dilyn. Ond fel y mae mae'n well gen i'r cyntaf, am ei fod yn fwy cryno a llenyddol.

Ond i mi yr ail yw'r mwyaf hygyrch, o ran cadw'r ystyr a'r llif. Yr olaf yw'r mwyaf hygyrch yn llythrennol o safbwynt symrlwydd yr iaith, ond nid yw'[n] taro cystal tant i mi, am fod hepgor y priod-ddulliau yn dileu'r cysylltiadau a'r cyfeiriadau bwriadol.

Y mae'n bryder gan sawl un, felly, fod cyfeiriadau cynnil sydd i'w cael, mwy na thebyg, yn y gwreiddiol a hefyd, eto yn gynnil, yn BWM, ddim i'w cael o gwbl yn y cyfieithiadau eraill. Eto, mae hyn yn adleisio trafodaeth a geir yn y bennod ar y Salmau. Dyma sylw arall:

Mae diffygion yn yr ail a'r trydydd darn sy'n tueddu i nodweddu trosiadau cyfoes - wrth dueddu i fod yn fwy llythrennol (e.e. dyffryn cul / ceunant; pastwn) mae symbolaeth, metaffor (Glyn Cysgod Angau, ffon/gwialen) a chysylltiadau eraill yn y Gair (e.e. nid 'pastwn' oedd gan Moses o flaen Pharo, wrth daro'r graig yn yr anialwch, na chwaith yn nwylo Aaron uwch ei ben tra llwyddai llu Israel neu'n blodeuo'n wyrthiol!).

Ceir yr un math o bryder yn y sylw uchod, a derbynir y gall y math hwn o beth fod yn wir ar adegau. Fodd bynnag, rhaid yw cywiro'r sylw hwn gan mai 'ffon' a 'phastwn' sydd yn y Salm yn BNET, ac mai 'ffon' a ddefnyddir i ddisgrifio'r offeryn a ddefnyddiodd Moses ac Aaron yn yr amryw sefyllfaoedd y cyfeirir atynt. Y mae'r wialen neu'r ffon yn gyfeiriadaeth bwysig, ac mae'n symbol o awdurdod. Ond y mae'n wir, os ydym wedi arfer ag un cyfieithiad, nad yw cyfeiriadaeth rhwng gwahanol ddarnau o'r Ysgrythur mor amlwg wrth ddarllen cyfieithiad llai cyfarwydd, ond yn yr achos hwn, rhaid yw achub cam BNET a nodi fod y gair a ddefnyddir yn hytrach na 'gwialen' yn gyson, sef 'ffon'. O fod yn ddarllenydd cyson ar BNET felly, efallai y medrir gwneud y cysylltiad yn haws.

Cafwyd ambell sylw gan rai a oedd heb ystyried pa gyfieithiad yr oeddent yn ei ddarllen o'r blaen, ac iddynt gael eu procio i feddwl am y peth gan yr holiadur. Un a safai allan oedd hwn:

Ond, am Salm 23: roedd BWM ar fy nghof erbyn fy mod yn 15 oed; dim ond rwan, heddiw, yr wyf wedi gweld fersiwn Beibl.net. (A rhaid dweud fy mod yn hoffi - "sioc y newydd" - "...dy ffon a dy bastwn // yn f'amddiffyn i." A dechrau ystyried wedyn: "cysuro" versus "amddiffyn"!)

Dyma arddangos gwerth darllen amrywiaeth o gyfieithiadau, gan i'r cyfranogwr hwn gael bendith annisgwyl o droi at fersiwn dieithr. Dyma enghraifft o ddisgrifiadau syml y medrwn

uniaethu â nhw yn ein hiaith lafar, sy'n gallu dod â'r Beibl yn fyw ar adegau, a thafllu goleuni newydd ar hen adnod cyfarwydd. Mae'n pwysleisio hefyd werth yr ymchwil hwn, a gwerth cynnal trafodaeth o'r fath ar gyfieithiadau o'r Beibl. Llawer iawn sy'n darllen rhyw gyfieithiad gan mai dyna y maent wedi arfer gwneud, neu gan mai copi o hwnnw sydd ganddynt ers iddynt fod yn ifanc neu ers iddynt gael eu bedyddio neu eu derbyn yn aelod o eglwys. Eto, mae Cristnogion a phobl sydd ynghlwm â bywyd yr eglwys nad ydynt yn gwybod am y gwahanol fersiynau, ac nad ydynt yn gwybod am y gwahaniaethau rhyngddynt a'u cryfderau unigryw i gyd.

Cafwyd sylwadau hefyd yn gyffredinol ar bwysigrwydd parhau i geisio siarad a dysgu'r genhedlaeth nesaf i siarad a darllen ac ysgrifennu Cymraeg graenus. Un o'r enghreifftiau hynny oedd hwn:

'Sdim byd tebyg i Feibl WM. Mae'r rithmau a'r ymadroddion yn hyfryd! Pan yn blentyn, wên i'n gallu amgyffred ystyr y geiriau yn eitha da er yn ddiarth. Heddi, mae popeth yn cal ei 'lurgunio' a'i symleiddio i'r gradde fel bod y Gwmrâg yn colli ei chyfoeth. Gwelir hyn yn yr ysgolion cynradd. Eithriad yw i blant gyfuri yn y dull traddodiadol. Gofynnwch iddyn nhw yr amser a chi gewch rywbeth fel 11.25 yn lle pum munud ar hugen wedi unarddeg.

Dyna agor trafodaeth enfawr arall, ond mae'n bosibl hefyd fod y sylw yn ei wrth-ddweud ei hun. Gellir dadlau, os yw popeth arall yn symud yn ei flaen, ac os yw'r Gymraeg a ddysgir mewn ysgolion yn wahanol i'r hyn a ddysgwyd yn y gorffennol, oni ddylai cyfieithiadau cyfoes o'r Beibl adlewyrchu'r newid hwnnw, fel eu bod yn parhau i fod yn ddealladwy?

Fodd bynnag, dyma un sylw syml i grynhoi a chloi'r adran hon, 'mae rhagoriaethau gwahanol ym mhob un o'r tri.'

## Adran Sylwadau Cyffredinol

I gloi'r holiadur, rhoddwyd y cyfle i'r cyfranogwyr gynnig unrhyw sylwadau eraill ar y pwnc na chawsant gyfle i'w mynegi mewn man arall yn yr holiadur. Cafwyd nifer o ymatebion cynhwysfawr, gyda nifer yn amlwg yn ymddiddori yn y pwnc ac yn credu'n gryf mewn egwyddorion ynglŷn â'r pwnc.

Cafwyd sawl sylw yn amddiffyn y cyfieithiadau hŷn a'u defnydd o eiriau nad ydynt yn gyfarwydd, neu yn arferedig ar lafar y dyddiau hyn. Dywed un cyfranogwr:

[Rwyf] yn meddwl bod angen bod yn ofalus gyda geirfa. Ar brydiau mae'r Beibl yn cyfeirio at arferion sy'n anghyfarwydd i ni ac felly ni fydd yr eirfa angenrheidiol yn gyfarwydd ac ar brydiau mae'n cyflwyno syniadau anodd a chymhleth sy'n gofyn am fwy na darlleniad, rhaid astudio i ddeall.

Mae gan y cyfranogwr hwn bwynt dilys yn dweud fod y Beibl yn cyfeirio at syniadau sy'n benodol ar gyfer y cyd-destun hwnnw, ac felly fod yn rhaid cael geirfa benodol ar eu cyfer.

Ceir sylwadau tebyg gan y cyfranogwr hwn:

Dwi'n gweld gwerth beibl.net fel cyfrwng i gyrraedd yr ifainc sydd heb fantais Ysgol Sul na hyd yn oed gwasanaeth ysgol i'w cyfarwyddo â'r Beibl, a hefyd rheiny sydd wedi gadael ysgol heb fawr o hyder darllen yn Gymraeg. Ond, dwi'n meddwl nad yw'n addas i ddysgeidiaeth a phregethu (am y rhesymau bras yn f'ateb blaenorol [i'r cwestiwn ar ras] ac am resymau mwy penodol, megis y duedd i ddisodli 'iawn' fel term) ac rwy'n meddwl mai rheitiach i'r ifainc sy'n mynychu achosion ac ysgolion Sul sy'n ffyddlon i'r Gair barhau i ymgysgu â'r BCN (D). Dwi'n cydnabod bod y genhedlaethau [sic] nesaf yn gyffredinol anghyfarwydd â rhychwant iaith BWM, ond gresynaf yn fawr at hynny, oherwydd mae'n eu hamddifadu (a [chenedlaethau'r] dyfodol) o gyfoeth ac amrywiaeth iaith sy'n bont i gyfoeth gwirioneddol unigryw ein hemynau a thestunau dysg Anghydfurfiaeth Gymraeg. Gan amlaf, nid oes digon o gyfiawnhad dros golli'r fath gyfoeth.

Mae gan y cyfranogwr hwn eto sylwadau teg ar werth BNET ond hefyd werth y BCND i bobl ifainc sydd wedi eu magu yn swm y Beibl. Cyfeiria hefyd at ddisodli geiriau pynciol, megis 'gras' ac 'yr iawn'. Diddorol hefyd yw'r sylw am gryfder BWM a'i iaith, 'sy'n bont i gyfoeth

gwirioneddol unigryw ein hemynau a thestunau dysg Anghydfurfiaeth Gymraeg.' Dyma amddiffyniad cyffredin o BWM, ac mae'n sicr yn wir fod y mwyafrif o'n gweithiau llenyddol ar y Beibl, yn emynau a thestunau dysg, yn seiliedig ar yr hen gyfieithiad. Mewn emynau, ceir adleisiau eglur o adnodau BWM, ond nid mor hawdd yw gwneud y cysylltiad â chyfieithiadau diweddarach. Dyma egwyddor deg iawn, sy'n cael sylw mewn man arall yn y traethawd hwn. Wedi dweud hynny, rhaid cofio mai dealltwriaeth o'r Beibl sy'n dod gyntaf (mae'r cyfranogwr yn cydnabod hynny, a bod yn deg iddo, yn rhan gyntaf ei sylw): dylem feddwl fod unrhyw weithiau ychwanegol, er enghraifft emynau, ein helpu i ddeall y Beibl, yn hytrach na bod y Beibl yn ein helpu i ddeall emynau. Rhaid cofio hefyd nad yw pob eglwys yng Nghymru yn canu cymaint o emynau traddodiadol y dyddiau hyn, gyda thwf mewn poblogrwydd caneuon cyfoes mewn rhai cylchoedd. Yn yr achosion hynny, ni fyddai'r cyfieithiadau hyn yn cael eu hadleisio mor glir, siŵr o fod, yn enwedig gan mai cyfieithiadau o'r Saesneg yw llawer o'r caneuon diweddar hyn yn hytrach na ffrwyth myfyrio yn uniongyrchol ar y Beibl yn Gymraeg.

Un pwnc a gododd ei ben eto yn y blwch hwn oedd cyfraniad BWM at yr iaith Gymraeg, a phwysigrwydd parhau i ddefnyddio'r cyfieithiad er mwyn cadw safonau'r Gymraeg. Er enghraifft:

[Mae] iaith glasurol BWM mor ganolog i safon y Gymraeg. I mi, merch y mans agnostig sydd wedi rhoi'r gorau i fynychu'r capel (er yn parhau ag aelodaeth), mae Beibl fy magwraeth wedi cyfoethogi fy iaith, fy ymadroddi, fy nealltwriaeth o deithi a phosibilrwydd fy mamiaith.

Fel y trafodir yn y bennod ar y cefndir hanesyddol, y mae dylanwad y Beibl ar y Gymraeg wedi bod yn enfawr, ni ellir dadlau â hynny, ac mae nifer yn dweud fod darllen y Beibl, neu glywed y Beibl yn cael ei ddarllen, wedi eu cynorthwyo i ddatblygu Cymraeg naturiol a graenus eu hunain. Cydnabyddir gwerth y Beibl yn hyn o beth, ond pwysleisir hefyd o safbwynt crefydd



nad dyma brif bwrpas y Beibl, ac mai Duw a fwriadwyd i fod yn wrthrych ein sylw wrth ddarllen y Beibl, nid y Gymraeg na'r cyfieithiad ei hun.

Yn olaf, cafwyd un sylw gwerthfawr a diddorol, ac annisgwyl o bosibl, gan ddysgwyr, yn enwedig o ystyried bwriad cyfieithwyr BNET i fod yn hygyrch yn benodol i ddysgwyr:

Fel llawer i ddysgwr arall (Saesneg yw fy mamiaith a chefais fy nghodi mewn ardal [g]wbl hesb o'r Gymraeg, er hynny Cymraeg yw fy 'iaith gyntaf' bellach) nid oedd dysgu'r iaith glasurol yn fyrdwn - addasu i deithi'r tafodieithoedd ar lafar oedd yr her! Dwi'n ofni bod gormod o Gymry'n rhy swil / rhy ddi-addysg / rhy ddiog / yn rhy ddibris o'u hetifeddiaeth i wneud yr ychydig ymdrech i ehangu eu geirfa'n ddigonol i ymdopi â hyd yn oed BCN, heblaw am BWM!

Beth bynnag yw ein barn ar ein gwerthfawrogiad o'n hetifeddiaeth a'n hiaith lenyddol, mae'r pwynt cyntaf yn un hynod o ddiddorol, gan ddysgwr. Mae BNET yn gyfieithiad mewn iaith lafar, wrth gwrs, ac wrth fod yn dafodieithol, ymddengys y gall hynny fod yn rhwystr i ddysgwyr. Dywed y 'Rhagair' i BNET y defnyddiwyd y ffurfiau llafar a ddefnyddir ar gyrsiau Wlpan. Ond yr awgrym yma yw mai haws yw i ddysgwr ddysgu'r ffurfiau llenyddol, a bod yn rhaid iddynt allu darllen Cymraeg llenyddol cyn ceisio darllen amrywiadau tafodieithol.

I raddau helaeth iawn, crynhoi'r ymateb i'r holiadur yn ei gyfanrwydd a wneir yn yr adran hon ar gyfer y sylwadau ychwanegol. Yn gryno felly, y mae gwerthfawrogiad o BWM yn uwch ymysg y grwpiau oedran hynaf, ac y mae'n ddewis poblogaidd gan y genhedlaeth hŷn. Fodd bynnag, gan y cenedlaethau iau, y BCND yw'r dewis poblogaidd, gyda nifer yn defnyddio BNET a BWM hefyd. Cafwyd ymatebion amrywiol i'r gwestiynau lle gofynnwyd am ddiffiniadau i ymadroddion, a daeth yn amlwg fod pobl ifanc nad ydynt yn mynychu capel nac eglwys yn cael trafferth deall geiriau y BCND hyd yn oed, heb esboniad arno, ond bod y bobl ifanc sydd yn mynychu capel neu eglwys yn arddangos gwell dealltwriaeth. Ymysg y genhedlaeth hŷn, ni ellir gwahaniaethu mor eglur rhwng dealltwriaeth y mynychwyr eglwysig a'r rhai nad ydynt

yn mynychu, a hynny oherwydd cefndir ysgol Sul a gwersi Ysgrythur y rhai nad ydynt yn mynychu, a Christnogaeth nomalaidd, hynny yw mewn enw yn unig, llawer sydd yn mynychu. Yr hyn sy'n gwbl amlwg yn yr ymateb i'r holiadur yw fod lle i bob un o'r tri chyfieithiad yn ein cymdeithas heddiw, a bod gan y tri waith gwerthfawr i'w gyflawni.

## 8. Casgliad

Yn yr astudiaeth hon, defnyddiwyd dwy dechneg yn bennaf er mwyn ymateb i'r cwestiwn a roddwyd yn deitl: chwilio am eiriau a chywair addas ar gyfer y Gair i Gymry'r unfed ganrif ar hugain.

Yn gyntaf, aethpwyd ati i ddadansoddi'r iaith yn uniongyrchol, gan gymryd pum llyfr o'r Beibl fel sampl a chraffu ar adnodau penodol a'r amrywiadau yn y ffordd y cawsant eu cyfieithu. Golygai hynny ystyried y ddau brif gam wrth gyfieithu, sef dod i ddealltwriaeth o'r testun gwreiddiol, ac yna mynegi'r ddealltwriaeth honno yn yr iaith darged. Gellir ystyried y cam cyntaf, yn achos cyfieithu'r Beibl, yn gam sy'n perthyn yn bennaf i faes diwinyddiaeth, tra bo'r ail yn gam sy'n ymwneud yn fwy â'r defnydd o'r iaith Gymraeg. Gwelwyd sut y bu i gyfieithwyr ar adegau gyd-weld wrth ymgymryd â'r cam cyntaf, cyn mynd ati mewn ffyrdd gwahanol i wneud yr ail gam; ond gwelwyd hefyd sut i y bu iddynt ddod i ddealltwriaeth wahanol o'r testun gwreiddiol a barodd, yn ei dro, i'r cyfieithiadau fod yn wahanol iawn i'w gilydd. Gwelwyd sut y bu i gyfieithwyr ar adegau geisio cynnwys pob rhyw fanylyn a phob awgrym cynnil sydd yn y testun gwreiddiol yn eu cyfieithiad eu hunain, ond dro arall iddynt fodloni ar gyfleu'r brif neges. Yn ail, dosbarthwyd holiadur er mwyn gweld beth oedd ymateb sampl o'r boblogaeth gynrychioladol o ddarllenwyr y Beibl heddiw i'r gwahanol gyfieithadau, ac ystyried a oedd ffactorau megis oedran, addysg ac arferion crefyddol yn effeithio ar eu dealltwriaeth o destunau.

Yn gyntaf oll, dylid nodi'r amlwg, sef bod y tri chyfieithiad yn wahanol ac yn amrywiol. Nid oes angen darllen llawer o'r cyfieithiadau yn gyfochrog cyn dod i'r casgliad hwnnw wrth gwrs, ond eto mae tuedd gan ddarllenwyr i gwestiynu pam eu bod yn wahanol. Os yw darllenydd yn hoff o un cyfieithiad o adnod ond yn anhoff o un arall, ei duedd yw gofyn pam na ddilynodd yr ail gyfieithydd batrwm neu egwyddorion tebyg i'r cyntaf. Fodd bynnag, onid pwrpas llunio cyfieithiad newydd yw llunio un sy'n wahanol, hynny yw, yn bodloni rhyw ofynion gwahanol? Os nad hynny, mae'r cyfieithydd yn mynd i ormod o drafferth o lawer a chael yn y pen draw rywbeth sy'n bodoli eisoes. Wrth gwrs, mae diwygio cyfieithiad sydd eisoes wedi ei gyhoeddi yn fater gwahanol ac wedi bod yn rhan sylweddol o luniad dau o'r cyfieithiadau a ystyrir yn y traethawd hwn, BWM a'r BCND, fel yr eglurwyd yn y Cyflwyniad. Mae diwygio achlysurol yn arfer dda, yn gyfle i gywiro unrhyw wallau yn y fersiwn blaenorol ond hefyd i adlewyrchu unrhyw newidiadau ieithyddol a fu yn y cyfamser. Ond yn sylfaenol, mae'n rhaid i'r cyfieithiadau gwahanol fod yn wahanol, ac mae hynny'n sicr yn wir.

Canlyniad y pwynt uchod a chasgliad arall yr astudiaeth hon yw nad oes yr un cyfieithiad yn rhagori yn gyffredinol ar y llall; mae i bob un ei gryfderau ond hefyd ei wendidau. Pe bai rhywun yn dymuno llunio cyfieithiad newydd gan gymryd cryfderau pob cyfieithiad a hepgor y gwendidau, byddai'n dod yn amlwg iddo fod hynny'n amhosibl gan mai cryfder cyfieithiad, yn amlach na pheidio, yw ei wendid hefyd. Gwelwyd gydol y traethawd y modd y mae BWM, ar y cyfan, yn cynnig cyfieithiad go lythrennol. Golyga hynny ei fod yn cyfleu'r mynegiant gwreiddiol yn ei holl lawnder, neu yn go agos beth bynnag. Ond golyga hefyd fod ymadroddion Hebreig a Groeg wedi eu cyfieithu'n llythrennol a heb rhyw fath o esboniad, mae'n anodd iawn i'r darllenydd o Gymro ddeall unrhyw beth o ystyr yr ymadroddion gwreiddiol. Ar y llaw arall, gwelwyd mai tuedd BNET yw blaenoriaethu cyfleu'r ystyr ar ei lefel

fwyaf sylfaenol oll gan ddefnyddio dull mwy deinamig o gyfieithu. Golyga hyn fod y testun yn haws i'w ddeall, yn arbennig felly i ddarllenwyr newydd ac amhrofiadol, ond golyga hefyd y gall rhai ystyron llai amlwg ddiflannu'n llwyr. Golyga y gall testun amwys gael ei gyflwyno heb fod yn amwys, gan ddefnyddio dehongliad y cyfieithydd ar draul unrhyw ddeongliadau posibl eraill; ond golyga hefyd y gall ddefnyddio ymadroddion sy'n fwy naturiol i'r Gymraeg a chyfarwydd i'r darllenwyr yn hytrach na cheisio cadw at idiomau'r ieithoedd gwreiddiol. Un enghraifft y tynnwyd sylw ati yw ymdriniaeth y cyfieithiadau â'r gair Hebraeg am 'arennau', megis yn llyfr y Salmu, lle mae BWM wedi ei gyfieithu'n llythrennol ond y cyfieithiadau eraill yn ddeinamig, i 'calon', 'meddyliau', ac yn y blaen, gan nad yw 'aren' yn golygu unrhyw beth yn drosiadol yn niwylliant cyfoes y Cymry, yn wahanol i'r diwylliant Hebreig. Mae nifer o'r egwyddorion hyn a'u canlyniadau hefyd ar eu hamlycaf yn y drafodaeth ar y llythyr at y Rhufeiniaid, yn arbennig wrth drafod geirfâu pwnc y gwahanol gyfieithiadau gan ddefnyddio 'iawn', 'gras', a 'chariad' fel enghreifftiau. Sylwyd hefyd nad yw cyfieithwyr yn glynu at yr un egwyddorion ymhob achos chwaith, a gwelwyd hynny ar ei amlycaf yn Mathew. Er y duedd gan feirniaid i gyffredinoli, mae'n wir fod y cyfieithwyr o bryd i'w gilydd yn cydnabod nad yw'r egwyddorion y tueddant i'w dilyn yn briodol ar gyfer ambell achos penodol, a bryd hynny maent yn fwy hyblyg eu hegwyddorion. Cofier am BWM yn cyfieithu berf y gwynfydau yn ddeinamig i 'Gwyn eu byd' er mwyn manteisio ar ddweud cryf a chynhenid Gymraeg, a BNET yn cyfieithu'r un ferf yn llythrennol, 'wedi'u bendithio'n fawr' er mwyn sicrhau eglurder a symlrwydd.<sup>330</sup> Gwelwyd yr un math o beth yn Salm 73:26, wrth i BWM gyfieithu'n ddeinamig, 'nerth fy nghalon', a BNET yn llythrennol, '[c]raig ddiogel'. Gall yr hyblygrwydd hwn o bryd i'w

---

<sup>330</sup> Mathew 5:3.

gilydd olygu bod y cyfieithiad yn fwy cywir, neu'n fwy naturiol, neu hyd yn oed yn fwy cyson â naws y llenyddiaeth wreiddiol. Wrth ystyried y naws, gwelwyd sut y mae cyfieithwyr yn troi at wahanol gyweiriau iaith ac yn manteisio ar eu cryfderau. Tra bo cywair iaith y tri chyfieithiad yn wahanol iawn, mae cryfderau pob un i'w gweld mewn gwahanol fannau. Mae naws farddonol a blodeuog BWM yn cyfrannu at gyfieithiad go unigryw o'r Salmu, tra bo arddull lafar BNET yn cyfrannu at naws storiol yr efengylau. Gwelwyd sut y mae cysondeb y cyfieithu llythrennol yn BWM yn datgelu llinynnau cyson a chysgodion o rai rhannau o'r Beibl mewn rhannau eraill, a sut mae'r hen ymadroddion cyfarwydd yn creu cysylltiad unigryw â'r traddodiad emynyddol cyfoethog Cymreig. Ond gwelwyd hefyd sut y mae cyfieithiad newydd ac anghyfarwydd o hen destun cyfarwydd yn gallu bwrw rhyw oleuni newydd arno, a chyfleu rhyw wirionedd yn amrwd iawn.

Roedd yr holiadur yn gyfle i brofi ac i gadarnhau damcaniaethau a gweld beth yw ymateb Cymry'r unfed ganrif ar hugain i'r gwahanol gyfieithiadau. Cafwyd ymatebion amrywiol, ond aethpwyd ati i'w dadansoddi a gwelwyd bod rhai patrymau yn bod gan gynnwys rhai nad oeddent yn annisgwyl. Yr hyn a oedd yn drawiadol ynglŷn â'r ymateb i'r eirfa bwnc oedd bod mwy o agendor rhwng dealltwriaethau'r cenedlaethau ieuengaf na'r cenedlaethau hŷn. Rhoedd rhaniad go amlwg ar gyfer y grwpiau oedran o dan 40, a dealltwriaeth mynychwyr rheolaidd mewn eglwysi o eiriau megis 'gras' yn dra gwahanol i'r rhai nad ydynt yn mynychu, a diffiniad y rhai hynny o dermau megis 'gras' yn wahanol iawn i sut fyddai'r Beibl ei hun yn eu disgrifio, yn ogystal â rhywun fel Thomas Charles. Ar y llaw arall, nid oedd rhaniad mor amlwg ar gyfer y cenedlaethau hŷn, ac roedd diffiniadau mynychwyr a rhai nad ydynt yn mynychu eglwysi yn gymharol debyg. Nid yw'r canfyddiadau hyn yn dod o reidrwydd fel syndod, o ystyried bod cymaint o'r boblogaeth dros 40 oed wedi mynychu

eglwys yn rheolaidd ar ryw adeg yn eu bywydau, yn arbennig efallai fel plant, a bod yr addysg honno wedi aros gyda hwy. Cafodd y cenedlaethau hynaf wersi Ysgrythur yn yr ysgol hefyd wrth gwrs, yn wahanol i'r gwersi addysg grefyddol mwy cyffredinol a ddaeth yn eu lle. Mae goblygiadau i hyn o ran yr ystyriaethau wrth gyfieithu'r Beibl i'r dyfodol, gan fod rhaid ystyried yn ofalus pa fath o dermau a ddefnyddir, fel ag y gwnaethpwyd wrth lunio BNET. Mae'n debyg y byddai llawer o'r farn fod cael cyfieithiad da sy'n ffyddlon i'r testun gwreiddiol heb fod yn annealladwy yn bwysig os yw'r ffydd Gristnogol am barhau a ffynnu yng Nghymru. Wrth ddweud '[nad] yw'r cyfieithiad mwy modern hwn [y BCN] wedi llwyddo hyd yma i atal y trai ysbrydol',<sup>331</sup> awgryma Gwyn Davies mai ei obeithion ef o'r cyfieithiad hwnnw oedd y byddai'n wir wedi newid yr hinsawdd ysbrydol. Tra bo sawl ffactor arall y tu ôl i unrhyw drai ysbrydol, mae cael cyfieithiad addas ar gyfer ei oes yn hollbwysig, ac mae ystadegau'r holiadur yn dangos bod gallu pobl ifanc nad ydynt yn mynychu capel neu eglwys i ddeall termau diwinyddol yn gyfyng. Os yw'r 'trai ysbrydol' hwn yn mynd i gael ei wyrddroi, does bosib nad yw'r bobl ifanc hyn nad ydynt yn mynychu capel neu eglwys yn mynd i orfod dod i ddeall rhai o'r cysyniadau diwinyddol a ddisgrifir gan dermau megis 'iawn' a 'gras', boed trwy ddefnyddio'r termau hynny neu rai eraill.

Mae'n debyg mai rhesymau tebyg sydd dros ffafriaeth y genhedlaeth hyn o BWM dros y cyfieithiadau newydd, sef eu haddysg yn yr Ysgrythur ac yn iaith BWM. Gofynnwyd i'r sampl pa gyfieithiad oedd fwyaf dealladwy ar gyfer Salm 23, ac ar gyfer y grwpiau oedran hyd at 60, BWM a nodwyd fel y cyfieithiad lleiaf dealladwy. Ond ar gyfer y grŵp oedran dros 60, BWM a nodwyd fel y cyfieithiad mwyaf dealladwy. Roedd perfformiad BWM yn well mewn meysydd

---

<sup>331</sup> Gwyn Davies, *Golau Gwlad* (Pen-y-Bont ar Ogwr, 2002), t. 111. Ysgrifennodd hyn cyn cyhoeddi BNET, a chyn cyhoeddi BCND hyd yn oed.

eraill hefyd, megis cofiadwyedd. BWM a nodwyd fel y cyfieithiad mwyaf cofiadwy o bell ffordd i'r grwpiau dros 40 oed, ac roedd yn perfformio cystal â'r BCND ac yn well na BNET ar gyfer y rhai dros 25 hefyd. Tybir bod dau ffactor yn esbonio hyn o beth; yn gyntaf bod yr arferiad o ddysgu adnodau yn perthyn i oes pan mai BWM oedd yr unig gyfieithiad ar gael ac felly mae pobl yn cysylltu BWM â bod yn gofiadwy, ond hefyd mae cystrawen a rhythm BWM yn eu cynnig eu hun yn ardderchog iddo gael ei gofio, gan mor gryno ac mor gelfydd yw'r dweud. Wedi dweud hynny, BWM oedd y lleiaf cofiadwy gan y grŵp ieuengaf, a hynny mae'n debyg am mai BWM oedd y lleiaf dealladwy ganddynt hefyd. Mae synnwyr yn dweud bod testun dealladwy yn fwy tebygol o fod yn gofiadwy hefyd. Yn ogystal â'r ffaith i'r holiadur dderbyn dros 400 o ymatebion, cafwyd nifer fawr o sylwadau ychwanegol gan gyfranogwyr hefyd gan adlewyrchu maint y diddordeb yn y pwnc. Daeth i'r amlwg fod y diddordeb yn tarddu o wahanol safbwyntiau hefyd, rhai â diddordeb o safbwynt crefyddol, eraill o safbwynt ieithyddol ac eraill o safbwynt diwylliannol. Cafwyd sawl sylw yn mynegi rhywbeth fel bod angen cadw rhyw elfen o eirfa bwnc er mwyn disgrifio'r cysyniadau dan sylw mor llawn â phosib, gan gydnabod mai testun i'w astudio ac i fyfyrno arno yw'r Beibl, nid llyfr i'w ddarllen o'i ddechrau unwaith ac unwaith yn unig, a hynny mor gyflym â phosib. Ar y llaw arall, cafwyd sylwadau am ffafriaeth cyfrannwr o gyfieithiadau hŷn dros gyfieithiadau modern megis BNET at eu dibenion eu hunain, ond eu bod yn gweld gwerth mawr i'r rhai modern ar gyfer cyrraedd cynulleidfaoedd newydd. Nid sylwadau annisgwyl yw'r rhain; maent yn gyson â llawer o ganfyddiadau'r traethawd hwn, ond maent yn sicr yn brawf o bwysigrwydd cyfoes astudiaeth fel hon gan fod pobl ar lawr gwlad eisoes yn trafod ac yn meddwl am y peth.

O gyfuno'r hyn a gasglwyd rhwng y ddau ddull o ymchwilio, gellir dod i rai casgliadau ynglŷn ag addasrwydd y cyfieithiadau ar gyfer gwahanol sefyllfaoedd yn y Gymru gyfoes. Nid



yw'n syndod bellach i'r darllenydd ddarllen bod gwerth i bob un o'r cyfieithiadau, nid yn unig o safbwynt ieithyddol neu ddiwylliannol, ond o ran eu cyfraniad parhaus i fywyd crefyddol yng Nghymru. Mae nodweddion unigryw'r cyfieithiadau yn eu gwneud yn addas ar gyfer cyd-destunau gwahanol, ac mae'n werth nodi rhai ohonynt yma.

Mae'r BCND yn gyfieithiad poblogaidd, ac mae'n hawdd gweld pam. Mae'r ffaith iddo ddilyn confensiynau ieithyddol a golygyddol safonol yr oes yn golygu ei fod yn ddarllenadwy iawn, ar y cyfan, ac y gall apelio at gynulleidfa eang. Mae'n deg dweud nad yw pobl yn gwirioni arno yn yr un modd ag y maent yn gwirioni ar y rhai eraill, ac mae hynny o bosibl am nad oes unrhyw nodweddion eithriadol ynddo o ran yr iaith. Mae hynny, mewn ffordd, yn gryfder ac yn cynnig cyfrwng effeithiol i gyfleu'r ystyr wreiddiol. Nid yw'n dilyn egwyddorion cyfieithu llythrennol yn ormodol ond yn mabwysiadu egwyddorion amrywiol a'u gweithredu'n briodol yng ngolwg y cyfieithydd. Canlyniad hynny yw bod carfanau yn debygol o hoffi rhai rhannau o'r cyfieithiad ond nid rhannau eraill, tra bo carfanau eraill yn debygol o ymagweddu i'r gwrthwyneb tuag at yr un rhannau. Mae'r nodweddion hyn yn golygu ei fod yn ddewis poblogaidd o bulpudau, ac yn wir mewn unrhyw gyfarfod lle mae pobl yn darllen neu'n gwranddo neu'n astudio'r Beibl gyda'i gilydd. Mae hynny'n synhwyrol, gan fod ei apêl yn debygol o fod yn fwy eang, tra bo'r cyfieithiadau eraill yn fwy tebygol o apelio at garfanau mwy penodol. Mae'n ddidafodiaith, gan olygu y dylai apelio at bobl o bob ardal fel ei gilydd, ond eto mae rhai sy'n gweld ei iaith yn chwithig ac yn hen ffasiwn.

Mae BWM, wrth gwrs, yn ffeffryn gan sawl un o'r genhedlaeth hŷn, ac mae'n hawdd brysio i'r casgliad eu bod yn ei ffafrio am eu bod yn gyfarwydd ag ef ac yn gwrthod newid a symud gyda'r oes. Camgymeriad, fodd bynnag, fyddai tybio hynny ynglŷn â llawer ohonynt gan fod eu rhesymeg, yn aml, yn well ac yn ffrwyth meddwl mwy synhwyrol na hynny. Er bod

rhai cefnogwyr styfnig ac anhyblyg i BWM mae'n siŵr, mae BWM yn parhau i fod yn boblogaidd gan ei fod yn gyfieithiad ardderchog, sy'n rhoi i'w ddarllenwyr brofiadau a chyfeiriadau na all y cyfieithiadau eraill ei wneud. Mae'n wir, i'r darlennydd newydd, ei fod yn gyfieithiad heriol i'w ddarllen, ond nid yw hynny'n golygu y dylai'r defnydd ohono farw allan gyda'r genhedlaeth sy'n ei ffafrio'n bresennol, oherwydd mae ganddo lawer i'w gynnig eto i'r dyfodol. Mae'r cyfieithu llythrennol yn golygu ei fod yn hynod o addas i'r rhai sy'n dymuno mynd â'u hastudiaeth a'u defosiwn yn ddyfnach. Nid yw hynny'n ei gyfyngu i ddiwinyddion academiaidd; wedi'r cyfan holl bwrpas llafur y cyfieithwyr a'r diwygwyr oedd dod â Gair Duw i'r Cymro cyffredin. Ond nid yw dysgu darllen yn sgil i'w meithrin hyd at oedran gadael addysg, mae'n sgil i'w meithrin gydol oes, yn arbennig felly yn y cyd-destun crefyddol. Dylid annog Cristnogion, felly, yn eu defosiwn personol ac mewn cyfarfodydd bychain, i barhau i droi at y cyfieithiad hynod hwn ac i fanteisio ar gryfder y dweud ac ar helaethrwydd y drysorfa sydd i'w hastudio. Mae ymgyfarwyddo â'r cyfieithiad hwn hefyd yn agor y drws i werthfawrogiad llawn o gyfoeth y traddodiad emynyddol Cymraeg: ystyrier adnod fel 'Fy anwylyd sydd wyn a gwrldog, yn rhagori ar ddengmil',<sup>332</sup> adnod a adleisir yn emyn Ann Griffiths, 'Wele'n sefyll rhwng y myrtwydd'.<sup>333</sup> Pwysleisir mai'r emyn a ddylai gyfoethogi'r profiad o fyfyrion ar y Beibl, nid i'r gwrthwyneb, ond mae cysylltiad rhwng y ddau yn cyfoethogi profiad yr addolwr. Nid yw,

'Mae nghariad yn ffit ac yn iach;

mae'n sefyll allan yng nghanol y dyrfa',<sup>334</sup>

---

<sup>332</sup> Caniad Solomon 5:10, BWM.

<sup>333</sup> 319 yn *Caneuon Ffydd* (2001).

<sup>334</sup> Caniad Solomon 5:10, BNET.

yn rhoi'r cyfle i ddarllenwydd werthfawrogi llinellau fel,

Rhosyn Saron yw ei enw,  
gwyn a gwridog, teg o bryd;  
ar ddeng mil y mae'n rhagori  
o wrthrychau penna'r byd,

yn yr un modd ag y gwna cyfieithiad William Morgan. Mae cystrawen BWM yn annaturiol, yn ddiau, ond daw darllenwydd i arfer â'i chlywed gydag amser a phwy a wŷr, efallai y daw diwygiad arall o'r cyfieithiad hwn yn hwyr neu'n hwyrach, gan gadw at hanfod y cyfieithiad ond wedi diweddarau pethau fel y gystrawen ac ambell ferf hynafol? Mae'n wir hefyd fod y cyfieithu llythrennol yn golygu bod rhai ystyron yn aneglur yn ôl yr olwg gyntaf a bod ceisio esboniad, boed ar lafar neu yn ysgrifenedig, yn debygol o fod yn angenrheidiol o bryd i'w gilydd. Am hynny, wrth ateb y cwestiwn a geir mewn adrannau 'hawl i holi' cylchgronau poblogaidd, tybed nad BWM fyddai'r cyfieithiad delfrydol fel unig lyfr am oes ar ynys anghysbell i'r mwyafrif o bobl? Ond tra bo darllen unigol a phreifat yn parhau i ddigwydd, y gwir yw nad yw darllenwyr mor ynysig y dyddiau hyn, yn cael eu cyfyngu i un llyfr neu gyfieithiad, heb fynediad i esboniad. Mae'r We yn golygu bod unrhyw un yn medru cael mynediad at unrhyw gyfieithiad o'r Beibl, ac at nifer fawr o esboniadau ar bob rhan o'r Beibl pryd bynnag y mae'n dymuno, a gall hyn gyfrannu at barhad poblogrwydd BWM.

Tra gwahanol i'r ddau arall yw BNET, ac mae ei apêl yn eang, o bosibl yn ehangach na'r disgwyl. Wrth ymateb i'r holiadur, dywedodd 38.6% o'r darllenwyr eu bod yn troi at BNET, yn ail agos iawn i'r BCND (39.4%). Gall fod pobl yn cael eu denu at y newydd a'r gwahanol, ac mae'r cyfieithiad wedi cael ei farchnata yn effeithiol fel cyfieithiad syml, hawdd ei ddeall ac addas ar gyfer pobl ifanc a dysgwyr. Mae'n anodd gweld gostyngiad yn ei boblogrwydd hefyd, ac ni all ond dod yn rhan amlycach o fywyd Cristnogol Cymru dros y degawdau nesaf. Mae'r ymlyniad naturiol y mae cenedlaethau penodol yn ei deimlo tuag at gyfieithiadau penodol yn

newid gydag amser, ac fel y nodwyd, mae oes y Gymru hyddysg ei Beibl, hyd yn oed y Gymru seciwlar hyddysg ei Beibl, yn prysur ddirwyn i ben.<sup>335</sup> Dros y blynyddoedd nesaf, bydd cyfran gynyddol o'r boblogaeth wedi cael eu magu heb glywed sŵn y Gair yn rheolaidd, a bydd eglwysi a sefydliadau, yn ogystal ag unigolion, yn troi fwyfwy at y cyfieithiad newydd, hygyrch hwn, sy'n cynnig llwybr addas i'r rhai sy'n dechrau darllen y Beibl am y tro cyntaf. Mae'n gyfieithiad ardderchog i'w gynnwys mewn tractiau, ar bosteri neu ar y gwefannau cymdeithasol; y manau hynny lle na fydd y gynulleidfa darged yn debygol o geisio esboniad pellach yn y fan a'r lle. Mae dysgwyr y Gymraeg hefyd yn garfan sydd yn tyfu yn gyflym, gyda mwy o fri nag erioed yn cael ei roi ar ddysgu'r iaith fel ail iaith, a chan fod cyfieithwyr BNET yn fwriadol wedi dilyn canllawiau ysgrifennu ar gyfer dysgwyr, mae hynny eto yn siŵr o olygu y daw BNET yn fwy canolog i fywyd crefyddol Cymru. Ni ddylai Cristnogion sy'n ffafrio'r cyfieithiadau eraill yn bersonol ymwrthod â'r cyfieithiad hwn chwaith, wedi'r cyfan mae'n debyg fod y mwyafrif o athrawon ysgol Sul Cymru wedi hen arfer defnyddio BWM; ond mae troi at BNET wrth baratoi ac wrth gynnal ysgol Sul yn syniad ardderchog. Mae'n wir hefyd y gall yr athrawon ysgol Sul hynny gael budd personol o droi ato, gan fod darllen y neges wedi'i eirio'n wahanol yn aml yn datguddio rhyw wedd arall i wirionedd y testun. Yn yr un modd, dylid annog y rhai sydd wedi dechrau eu pererindod ysbrydol wrth ddarllen BNET, boed fel pobl ifanc, oedolion, dysgwyr neu bwy bynnag, i ddod i'r arfer o droi at gyfieithiadau hyn hefyd, yn gyfochrog o bosibl. Nid anogaeth yw hon i bobl roi BNET i lawr am byth, ond i beidio â chyfyngu eu golygon ar un cyfieithiad yn unig, i brofi o ddarllen sawl cyfieithiad, mewn sawl

---

<sup>335</sup> Ar bryder Cyngor Ysgolion Sul Cymru ynghylch dyfodol yr ysgolion Sul yn sgil lleihad yn eu nifer oherwydd pandemig, gw. <https://www.bbc.co.uk/cymrufyw/58682744> (Cyrchwyd 08/08/2022).

iaith o bosibl, ac i ddod o hyd i batrwm neu arferion sy'n gweddu i'r darllenydd unigol a'r amryw sefyllfaoedd y caiff ei hun ynddynt.

Mae gan y Beibl bwrpas penodol ac nid yw'r pwrpas hwnnw wedi ei gyfyngu i unrhyw oes yn y gorffennol. Mae tuedd i'w drin fel rhywbeth sy'n perthyn i'r gorffennol, ac i ddefnyddio BWM yn arbennig fel rhyw ddrych i iaith rhyw Gymru a fu. Clywyd cyn heddiw am eglwysi yn methu ag addasu eu hen adeiladau i fodloni gofynion cyfoes gan eu bod yn adeiladau rhestredig, bron fel pe bai arteffacteiddio'r adeiladau a'u cadw i'r dyfodol mor allweddol, hyd yn oed ar draul y gymdeithas fyw sy'n bodoli y tu mewn iddynt. Mae perygl i'r Gymru gyfoes ymagweddu'n debyg tuag at y Beibl, y syniad ohono yn gyffredinol, ond yn arbennig efallai, yr hen gyfieithiad.<sup>336</sup> Ond mae ganddo bwrpas byw hyd heddiw, hyd yn oed Beibl 1620 a'i wreiddiau yn Nhestament Newydd Salesbury yn 1567, a dyna'n wir sydd wedi golygu bod y Beibl ar gof cynifer o bobl ac ar silffoedd cynifer o gartrefi. Mae pobl wedi cael eu gyrru i gyfieithu, argraffu, dosbarthu a phregethu'r Beibl ar hyd y canrifoedd; ac esgorodd tystiolaeth un ferch ifanc o Lanfihangel-y-Pennant a'i dyhead am Feibl ar sefydliad a wnaeth waith trawsnewidiol ledled y byd, sef Cymdeithas y Beibl. Yn y Beibl ei hun, disgrifir yr Ysgrythur yn yr Hen Destament fel 'lusern' i draed a 'llewyrch' i lwybr.<sup>337</sup> Yn y Testament Newydd, dywedir,

---

<sup>336</sup> Dylid nodi nad oes argraffiad wedi bod o BWM er 1955 ac nad yw ar gael yn y mwyafrif o siopau llyfrau. Er bod darllen y Beibl ar y We ac ar apiau arbennig yn gyfleus ac yn boblogaidd, a bod digon o gopïau ar gael mewn siopau ail law, nid yw'n syndod nad yw'n ennill llawer o ddarllenwyr newydd gan nad oes modd prynu copi newydd a glân ohono, fel gyda'r ddau gyfieithiad arall.

<sup>337</sup> Salm 119:105, BWM.

Y mae pob Ysgrythur wedi ei hysbrydoli gan Dduw ac yn fuddiol i hyfforddi, a cheryddu, a chywirow, a disgyblu mewn cyfiawnder. Felly y darperir pob un sy'n perthyn i Dduw â chyflawn ddarpariaeth ar gyfer pob math o weithredoedd da.<sup>338</sup>

Crynhoa'r emynydd,

Dyma Feibil annwyl Iesu,  
dyma rodd deheulaw Duw;  
dengys hwn y ffordd i farw,  
dengys hwn y ffordd i fyw;  
dengys hwn y golled erchyll  
gafwyd draw yn Eden drist,  
dengys hwn y ffordd i'r bywyd  
drwy adnabod Iesu Grist.<sup>339</sup>

Dyma gred Cristnogion heddiw, a dyma pam mae ystyried iaith ac addasrwydd y cyfieithiadau i gyflawni eu pwrpas yn hollbwysig. Wedi'r cyfan, mae iaith yn hollbwysig i ledaeniad y neges, dyna'r cyfrwng a roddwyd i ddynion gyfathrebu pob math o negeseuon, gan gynnwys negeseuon o'r Ysgrythur. Mae'n wir fod Cristnogion yn credu nad gallu ymenyddol a'u gallu i ddeall y testun sy'n datguddio gwir neges y Beibl iddynt ond bod yna seliad dwyfol. Dyna pam y gweddïa Dyfed,

Ysbryd Sanctaidd, dyro'r golau  
ar dy eiriau di dy hun;  
agor inni'r Ysgrythurau,  
dangos inni Geidwad dyn.<sup>340</sup>

Nid yw hynny'n golygu na ddylid gwneud yr Ysgrythur a'i hiaith yn hygyrch i bobl; maent hwythau yn gyfryngau cyfrannol at 'ddangos inni Geidwad dyn.' Bydd ystyriaethau megis y rhai a welwyd yn y traethawd hwn yn parhau eto i'r dyfodol felly, bydd Cristnogion yn parhau

---

<sup>338</sup> 2 Timotheus 3:16.

<sup>339</sup> Priodolir i Richard Davies, 198 yn *Caneuon Ffydd*.

<sup>340</sup> Dyfed, 590 yn *Caneuon Ffydd*.

i ystyried ffyrdd o ledaenu neges y Beibl ac o sicrhau ei fod yn bodloni gofynion cyfoes pob oes. Bydd trafodaethau ynglŷn â llunio cyfieithiadau newydd, yn wir maent eisoes wedi dechrau,<sup>341</sup> ac mae'n bwysig bod yr ystyriaethau hyn yn parhau. Mewn gwirionedd, nid sylwi ar y modd y cafodd unrhyw destun ei gyfieithu yw nod y rhan fwyaf o ddarllenwyr, gan fod unrhyw sylw a roddir ar hynny yn tynnu oddi ar gynnwys a neges y testun ei hun. Clywyd pregethwyr cyn hyn yn gresynu at glywed canmol i'w pregethu gan eu bod yn dymuno i'r clod gael ei gyfeirio at wrthrych y bregeth, nid y pregethwr, ac at hynny fe'u clywir yn aml yn cloi gyda'r geiriau, 'er mwyn Ei enw'. Dylai egwyddor debyg berthyn i gyfieithiadau mewn ffordd, gan nad astudiaeth o'r grefft o gyfieithu ddylai darllen y Beibl fod, ond astudiaeth o Dduw. Derbynnir y gall hyn swnio fel sylw eironig mewn traethawd o'r fath a phwysleisir eto fod y drafodaeth ar gyfieithu yn un bwysig i'w chael wrth i'r cenedlaethau fynd heibio. Ond dylid cadw mewn cof mai cyfrwng yw'r cyfieithiad i gyflawni rhywbeth pwysicach, ac felly mae'n debyg mai eiddo Gwenallt yw'r geiriau mwyaf priodol i gloi'r traethawd hwn, 'Gwae inni wybod y geiriau heb adnabod y Gair'.<sup>342</sup>

---

<sup>341</sup> Gweler Carwyn Graves, 'Ymgynghoriad ar 'Y Beibl i'r Dyfodol'', E. Wyn James, 'Beibl Cymraeg i'r Dyfodol: Rhai Materion Sylfaenol', ac Arfon Jones, 'Cyfieithu'r Beibl a Gweledigaeth beibl.net' yn *Y Cylchgrawn Efengylaidd*, 55:2 (2018). Sefydlwyd gwefan hefyd er mwyn bod yn ganolfan i'r drafodaeth ar lunio cyfieithiad newydd i'r dyfodol: <https://www.beibligymru.com/> (cyrchwyd 08/08/2022).

<sup>342</sup> Gwenallt, 'Ar Gyfeiliorn' yn Christine James (gol.), *Cerddi Gwenallt: Y Casgliad Cyflawn*, (Llandysul, 2001), t. 72.

## Atodiad A – Copi o'r Holiadur



# Ymchwil ar gyfieithiadau Cymraeg o'r Beibl

Annwyl ddarlleneydd,

Yr wyf yn ymchwilio ar hyn o bryd i ddefnyddioldeb y gwahanol gyfieithiadau Cymraeg o'r Beibl. Ffocws yr ymchwil yw argraffiadau diweddaraf Beibl William Morgan, y Beibl Cymraeg Newydd Diwygiedig a [beibl.net](http://beibl.net). Gwerthfawrogwn petaech yn medru fy nghynorthwyo â'm hymchwil trwy gwblhau'r holiadur di-enw hwn mor onest â phosibl erbyn y 5ed o Orffennaf. Gofynnaf i chwi beidio â llenwi'r holiadur os ydych o dan 18 oed os gwelwch yn dda. Os hoffech gysylltu i gael rhagor o wybodaeth, gellir gwneud hynny trwy yrru e-bost at [grd7@aber.ac.uk](mailto:grd7@aber.ac.uk). Bwriedir cadw'r data yn ddiennw at ddibenion yr ymchwil hwn yn ogystal ag unrhyw ymchwil tebyg gennyf yn y dyfodol. Diolch o galon i chi.

Gruffydd Rhys Davies  
Ymgeisydd MPhil, Prifysgol Aberystwyth, 2020.

O.N./P.S. Should you be a learner and need help understanding a question, please don't hesitate to contact me by email at [grd7@aber.ac.uk](mailto:grd7@aber.ac.uk) and I can provide English translations of questions. The responses of learners are very much appreciated.

\* Required



1. Beth yw eich oedran? \*

- 18-25
- 26-40
- 41-60
- 61+
- Byddai'n well gennyf beidio â dweud

2. Ym mha ran o Gymru y'ch magwyd? \*

- Y Gogledd Orllewin
- Y Gogledd Ddwyrain
- Y Canolbarth
- Y De Orllewin
- Y De Ddwyrain
- Y tu allan i Gymru
- Byddai'n well gennyf beidio â dweud

3. Ble'r ydych yn byw yn awr? \*

- Gogledd Orllewin Cymru
- Gogledd Ddwyrain Cymru
- Canolbarth Cymru
- De Orllewin Cymru
- De Ddwyrain Cymru
- Y tu allan i Gymru
- Byddai'n well gennyf beidio â dweud

4. A ydych yn ystyried eich hunan yn siaradwr Cymraeg iaith gyntaf? \*

- Ydw
- Nac ydw

5. Beth yw'r lefel uchaf i chi dderbyn addysg ar yr iaith Gymraeg? (Mae Lefel O yn cyfateb i TGAU) \*

- Dim addysg
- Gwersi i ddysgwyr
- TGAU ail iaith
- TGAU iaith gyntaf
- Lefel A
- Gradd neu radd uwch
- Byddai'n well gennyf beidio a dweud

6. A ydych yn mynychu capel neu eglwys yn rheolaidd? \*

- Ydw
- Nac ydw

7. Ers faint ydych chi'n mynychu capel neu eglwys yn rheolaidd? \*

- Llai na blwyddyn
- 1-5 mlynedd
- 5-15 mlynedd
- 15+ mlynedd

8. A oes gennych swydd neu ddyletswydd o fewn yr eglwys? (e.e. gweinidog, henuriad, diacon, athro/athrawes ysgol Sul) \*

- Oes
- Nac oes

9. Beth yw eich swydd neu ddyletswydd o fewn yr eglwys?

10. I ba draddodiad(au) mae eich eglwys yn perthyn? \*

- Catholig Rhufeinig
- Anglicanaidd
- Enwadol anghydfurfiol
- Efengylaidd
- Carismataidd
- Arall

11. Pa gyfieithiad o'r Beibl a ddefnyddir yn bennaf o'r pulpod yn eich eglwys? \*

- Beibl William Morgan
- Y Beibl Cymraeg Newydd (1988)
- Y Beibl Cymraeg Newydd Diwygiedig (2004)
- [beibl.net](http://beibl.net)
- Nid ydym yn defnyddio Beibl Cymraeg

12. Pa gyfieithiad mewn iaith arall mae eich eglwys yn ei ddefnyddio yn bennaf?

13. A ydych yn darllen y Beibl yn bersonol? \*

- Ydw
- Nac ydw

14. Pa gyfieithiad(au) ydych chi'n tueddu i'w defnyddio wrth ddarllen yn bersonol? \*

- Beibl William Morgan
- Y Beibl Cymraeg Newydd (1988)
- Y Beibl Cymraeg Newydd Diwygiedig (2004)
- [beibl.net](http://beibl.net)
- The King James Version / New King James Version
- The New International Version
- The English Standard Version
- The Good News Bible
- Arall

15. Pa gyfieithiad(au) eraill ydych chi'n eu defnyddio?

16. Yn gryno, disgrifiwch eich arferion wrth ddarllen y Beibl. \*

17. A ydych yn darllen unrhyw ddeunydd Cristnogol ychwanegol? (megis llyfrau defosiynol, emynau, esboniadau) \*

Ydw

Nac ydw

18. Yn gryno, nodwch pa fath o ddeunydd ychwanegol ydych chi'n ei ddarllen. Byddai'n ddefnyddiol gwybod pa iaith ydyw'r deunydd ac o ba gyfnod maent yn tueddu i ddod.

19. Nodwch, yn gryno, eich dealltwriaeth o'r gair 'gras'. \*

20. Nodwch, yn gryno, eich dealltwriaeth o'r ymadrodd adnabyddus hwn o Weddi'r Arglwydd: 'Deled dy deyrnas'. (Os nad ydych yn deall ei ystyr, ceisiwch ai aralleirio yn eich iaith bob dydd) \*

Dyma dri chyfieithiad gwahanol o'r un dair adnod o Salm 23.

Cyfieithiad 1:

Ie, pe rhodiwn ar hyd glyn cysgod angau, nid ofnaf niwed: canys yr wyt ti gyda mi; dy wialen a'th ffon a'm cysurant.

Ti a arlwyi ford ger fy mron yng ngŵydd fy ngwrthwynebwy: iraiſt fy mhen ag olew; fy ffiol sydd lawn.

Cyfieithiad 2:

Er imi gerdded trwy ddyffryn tywyll du,  
nid ofnaf unrhyw niwed,  
oherwydd yr wyt ti gyda mi,  
a'th wialen a'th ffon  
yn fy nghysuro.

Yr wyt yn arlwyio bwrdd o'm blaen  
yng ngŵydd fy ngelynion;  
yr wyt yn eneinio fy mhen ag olew;  
y mae fy nghwpan yn llawn.

Cyfieithiad 3:

Hyd yn oed mewn ceunant tywyll dychrynlyd,  
fydd gen i ddim ofn, am dy fod ti gyda mi.  
Mae dy ffon a dy bastwn yn fy amddiffyn i.  
Rwyt ti'n paratoi gwledd i mi  
ac mae fy ngelynion yn gorfod gwyllo.  
Rwyt ti'n tywallt olew ar fy mhen.  
Mae gen i fwy na digon!

21. Pa gyfieithiad ydych chi'n tybio sy'n rhoi'r ddealltwriaeth orau o'r testun i chi? \*

- Cyfieithiad 1
- Cyfieithiad 2
- Cyfieithiad 3



22. Pa gyfieithiad sy'n cyfleu teimladau'r Salmydd orau yn eich barn chi? \*

- Cyfieithiad 1
- Cyfieithiad 2
- Cyfieithiad 3

23. Pa gyfieithiad fyddech chi'n fwyaf tebygol o allu ei gofio? \*

- Cyfieithiad 1
- Cyfieithiad 2
- Cyfieithiad 3

24. A oes gennych unrhyw sylwadau ychwanegol ar yr adnodau hyn?

25. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar y cyfieithiadau Cymraeg o'r Beibl?

---

This content is neither created nor endorsed by Microsoft. The data you submit will be sent to the form owner.



## *Atodiad B – Llyfr Numeri*

Er bod achresi yn cael sylw mewn mannau eraill yn y traethawd, ceir yn yr atodiad hwn drafodaeth yn benodol ar ddulliau unigryw BNET o gyflwyno'r wybodaeth a geir yn llyfr Numeri. Fel llyfr Genesis, perthyna Numeri i Bumlyfr Moses a cheir ynddo lawer o achresi. Ond yn ogystal â'r achresi hyn, ceir llawer o wybodaeth o fathau eraill yn y llyfr, llyfr sydd â'i enw, yn llythrennol, yn golygu rhifau. Esbonia Thomas Charles:

Y mae y gair yn arwyddo *rhifedi*, am fod rhan fawr o'r llyfr, yn enwedig yn y dechrau, yn cynnwys rhifedi meibion Israel, a'u teithiau o'r Aifft i Ganaan.<sup>343</sup>

Ceir yn y llyfr felly, yn ogystal â naratif, lawer o enwau a rhifau, yr hyn a elwir yn gyffredin heddiw yn ddata. Tra bo BWM a BCND yn dilyn y confensiwn, ac yn dilyn trefn yr Hebraeg a chofnodi'r data hwn mewn naratif, defnyddia BNET ddulliau amgen i'w gyflwyno, yn rhestrau, yn dablau ac yn bwyntiau bwled. Dylid nodi, cyn mynd ymhellach, y ceir dyfyniadau go hir o'r cyfieithiadau yn yr atodiad hwn, gan nad geiriau unigol a chymalau penodol yw testun y sylwadau, ar y cyfan, ond yn hytrach y modd y cyflwynir gwybodaeth ar raddfa fawr. Ni ellir llawn werthfawrogi canlyniadau'r penderfyniadau golygyddol a wnaethpwyd heb weld dyfyniad go sylweddol. Hefyd, gan fod BWM a BCND wedi'u hargraffu gyda dwy golofn ar bob tudalen, digon rhwydd yw eu cyfosod mewn tabl ac felly gwneir hynny yn aml yma. Ond oherwydd bod BNET ar y llaw arall wedi ei argraffu gydag un bloc o destun ar bob tudalen, mae'r cyfieithiad hwnnw yn dilyn y ddau arall yn hanner cyntaf yr atodiad hwn, gan ddefnyddio holl led y dudalen. Er y ceisiwyd atgynhyrchu diwyg yr argraffiadau print o'r tri

---

<sup>343</sup> Thomas Charles, *Geiriadur Ysgrythurol* (Wrecsam, 1885), t. 689.

chyfieithiad mor gywir â phosib yn yr atodiad hwn, argymhellir cael copïau o'r tri wrth law er mwyn gallu gwerthfawrogi eu diwyg yn llawn.

Gwelir yn y tabl isod ddull BWM a BCND o gyflwyno'r set cyntaf o ddata a geir ym mhennod gyntaf y llyfr, wrth i Dduw ddweud wrth Moses pwy fyddai arweinyddion 12 o lwythau Israel.

BWM	BCND
5 ¶ A dyma enwau'r gwŷr a safant gyda chwi. O lwyth Reuben; Elisur mab Sedeur.	<sup>5</sup> "Dyma enwau'r dynion a fydd gyda chwi. O Reuben: Elisur fab Sedeur; <sup>6</sup> o Simeon:
6 O lwyth Simeon; Selumiel mab Surisadai.	Selumiel fab Surisadai; <sup>7</sup> o Jwda: Nahson fab
7 O lwyth Jwda; Nahson mab Aminadab.	Amminadab; <sup>8</sup> o Issachar: Nethanel fab Suar;
8 O lwyth Issachar; Nethaneel mab Suar.	<sup>9</sup> o Sabulon: Eliab fab Helon. <sup>10</sup> O feibion
9 O lwyth Sabulon; Eliab mab Helon.	Joseff: o Efraim, Elisama fab Ammihud, ac o
10 O feibion Joseff: dros Efraim, Elisama mab Ammihud; dros Manasse, Gamaliel mab Pedasur.	Manasse, Gamaliel fab Pedasur; <sup>11</sup> o Benjamin: Abidan fab Gideoni; <sup>12</sup> o Dan: Ahieser fab Ammisadai; <sup>13</sup> o Aser: Pagiell fab
11 O lwyth Benjamin; Abidan mab Gideoni.	Ocran; <sup>14</sup> o Gad: Eliasaff fab Reuel; <sup>15</sup> o Nafftali: Ahira fab Enan." <sup>16</sup> Dyma'r rhai a
12 O lwyth Dan; Ahieser mab Ammisadai.	ddewiswyd o'r cynulliad yn arweinwyr
13 O lwyth Aser; Pagiell mab Ocran.	llwythau eu hynafiaid ac yn benaethiaid ar
14 O lwyth Gad; Elisaff mab Deuel.	dylwythau Israel.
15 O lwyth Nafftali; Anira mab Enan.	

16 Dyma rai enwog y gynulleidfa,  
 tywysogion llwythau eu tadau,  
 penaethiaid miloedd Israel oeddynt hwy.

Gwelir, fodd bynnag, fod dull BNET yn gwbl wahanol:

**BNET**

<sup>5-15</sup> “Dyma enwau’r dynion sydd i’ch helpu chi:

Llwyth	Arweinydd
Reuben	Eliswr fab Shedeŵr
Simeon	Shelwmiel fab Swrishdai
Jwda	Nachson fab Aminadab
Issachar	Nethanel fab Tswár
Sabulon	Eliab fab Chelon
Yna meibion Joseff:	
Effraim	Elishama fab Amihwd
Manasse	Gamaliel fab Pedatswr
Wedyn,	
Benjamin	Abidan fab Gideoni
Dan	Achieser fab Amishadai
Asher	Pagiel fab Ochran
Gad	Eliasaff fab Dewel
Nafftali	Achira fab Enan.”

<sup>16</sup> Dyna’r arweinwyr gafodd eu dewis o bob llwyth yn benaethiaid ar bobl Israel.

Yr hyn sydd fwyaf trawiadol ynghylch yr enghraifft hon yw bod BWM a BCND yn cynnig un frawddeg hir yr un, gyda nifer fawr o gymalau. Y mae i hynny dri chanlyniad:

1. Yn BWM, mae'r enw 'llwyth' yn rhagflaenu deg o'r enwau (sef y 10 llwyth a enwir yn ôl enwau meibion uniongyrchol Jacob) sydd yn ailadroddus dros ben. Ni ddefnyddia BCND y gair o gwbl, gan ei wneud fymryn yn llai ailadroddus, er bod patrwm y cymalau fel arall yn dal i gael ei ailadrodd. Oherwydd ffurf tabl BNET, dim ond unwaith y defnyddir y gair 'llwyth'.
2. Ar gyfer y ddau enw arall, Effraim a Manasse (sydd wedi eu henwi yn ôl wyrion Jacob,<sup>344</sup> sef meibion Joseff), ni cheir yr enw 'llwyth' o'u blaenau yn BWM gan eu gosod rywfaint ar wahân. Llwydda'r tri chyfieithiad i'w gosod ar wahân, y tri yn gwneud cyfeiriad at y ffaith mai meibion Joseff oedd y ddau, ond mae absenoldeb y gair 'llwyth' yn BWM yn drawiadol. Yn BNET, mae eu henwau'n ymddangos yn y golofn â'r pennawd, 'Llwyth'.
3. Oherwydd nad yw 'llwyth' yn ymddangos yn y BCND oni bai am yn y frawddeg o gyflwyniad yn adnod 4, hawdd yw drysu ymhlith yr holl enwau pa rai sy'n cynrychioli llwythau a pha rai sy'n cynrychioli eu harweinwyr. Yr arddodiad 'o' yw'r unig gliw, ac mewn rhestr ailadroddus o bron i ddeugain o enwau, hawdd iawn yw drysu.

Ymhellach ymlaen yn yr un bennod, ceir rhagor o wybodaeth am y 12 llwyth, wrth i gyfrifiad gael ei gynnal. Defnyddia'r cyfieithiadau hynaf ddull naratif eto:

---

<sup>344</sup> Er mai wyrion oedd Effraim a Manasse i Jacob, cawsent eu cyfrif yn feibion llawn iddo.

BWM	BCND
<p>20 ¶ A meibion Reuben, cyntaf-anedig Israel, wrth eu cenedl eu hun, yn ôl eu teuluoedd, o dŷ eu tadau, dan rif eu henwau, erbyn eu pennau, pob gwryw o fab ugain mlwydd ac uchod, pob un a'r a allai fyned i ryfel;</p> <p>21 Y rhai a rifwyd ohonynt, sef o lwyth Reuben, oedd chwe mil a deugain a phum cant.</p> <p>22 ¶ O feibion Simeon, wrth eu cenedlaethau yn ôl eu teuluoedd, o dŷ eu tadau, eu rhifedigion oedd, dan rif eu henwau, erbyn eu pennau, pob gwryw o fab ugain mlwydd ac uchod, sef pob un a'r a allai fyned i ryfel;</p> <p>23 Eu rhifedigion hwynt, o lwyth Simeon, oedd onid un fil trigain mil a thri chant.</p> <p>24 ¶ O feibion Gad, wrth eu cenedlaethau yn ôl eu lluoedd, o dŷ eu tadau, dan rif eu henwau, o fab ugain mlwydd ac uchod, pob un a allai fyned i ryfel;</p>	<p><sup>20</sup> O dylwyth Reuben, cyntafanedig Israel, rhestrwyd fesul un, yn ôl cenedlaethau eu tylwythau a'u teuluoedd, enw pob gwryw ugain oed a throsodd ac yn abl i fynd i ryfel.</p> <p><sup>21</sup> Nifer llwyth Reuben oedd pedwar deg chwech o filoedd a phum cant.</p> <p><sup>22</sup> O dylwyth Simeon, rhestrwyd fesul un, yn ôl cenedlaethau eu tylwythau a'u teuluoedd, enw pob gwryw ugain oed a throsodd ac yn abl i fynd i ryfel. <sup>23</sup> Nifer llwyth Simeon oedd pum deg naw o filoedd a thri chant.</p> <p><sup>24</sup> O dylwyth Gad, rhestrwyd fesul un, yn ôl cenedlaethau eu tylwythau a'u teuluoedd, enw pob gwryw ugain oed a throsodd ac yn abl i fynd i ryfel. <sup>25</sup> Nifer llwyth Gad oedd pedwar deg pump o filoedd chwe chant a phum deg.</p> <p><sup>26</sup> O dylwyth Jwda, rhestrwyd fesul un, yn ôl cenedlaethau eu tylwythau a'u teuluoedd, enw pob gwryw ugain oed a throsodd ac yn abl i fynd i ryfel. <sup>27</sup> Nifer</p>

25 Eu rhifedigion hwynt, o lwyth Gad,  
oeddynt bum mil a deugain a chwe chant a  
deg a deugain.

26 ¶ O feibion Jwda, wrth eu cenedlaethau  
yn ôl eu teuluoedd, o dŷ eu tadau, dan rif  
eu henwau, o fab ugain mlwydd ac uchod,  
pawb a'r a oedd yn gallu myned i ryfel;

27 Eu rhifedigion hwynt, o lwyth Jwda,  
oedd bedair mil ar ddeg a thrigain a chwe  
chant.

28 ¶ O feibion Issachar, wrth eu  
cenedlaethau, yn ôl eu teuluoedd, o dŷ eu  
tadau, dan rif eu henwau, o fab ugain  
mlwydd ac uchod, pob un a'r a oedd yn  
gallu myned i ryfel;

29 Eu rhifedigion hwynt, o lwyth Issachar,  
oedd bedair mil ar ddeg a deugain a  
phedwar cant.

30 ¶ O feibion Sabulon, wrth eu  
cenedlaethau, yn ôl eu teuluoedd, o dŷ eu  
tadau, dan rif eu henwau, o fab ugain  
mlwydd ac uchod, pob un a'r a ydoedd yn  
gallu myned i ryfel;

llwyth Jwda oedd saith deg pedair o filoedd  
a chwe chant.

<sup>28</sup> O dylwyth Issachar, rhestrwyd fesul un,  
yn ôl cenedlaethau eu tylwythau a'u  
teuluoedd, enw pob gwryw ugain oed a  
throsodd ac yn abl i fynd i ryfel. <sup>29</sup> Nifer  
llwyth Issachar oedd pum deg pedair o  
filoedd a phedwar cant.

<sup>30</sup> O dylwyth Sabulon, rhestrwyd fesul un,  
yn ôl cenedlaethau eu tylwythau a'u  
teuluoedd, enw pob gwryw ugain oed a  
throsodd ac yn abl i fynd i ryfel. <sup>31</sup> Nifer  
llwyth Sabulon oedd pum deg saith o  
filoedd a phedwar cant.

<sup>32</sup> O dylwyth Joseff, rhestrwyd fesul un, yn  
ôl cenedlaethau eu tylwythau a'u  
teuluoedd, enw pob gwryw ugain oed a  
throsodd ac yn abl i fynd i ryfel. <sup>33</sup> Nifer  
llwyth Effraim oedd pedwar deg o filoedd a  
phum cant.

<sup>34</sup> O dylwyth Manasse, rhestrwyd fesul un,  
yn ôl cenedlaethau eu tylwythau a'u  
teuluoedd, enw pob gwryw ugain oed a



31 Eu rhifedigion hwynt, o lwyth Sabulon, oedd ddwy fil ar bymtheg a deugain a phedwar cant.

32 ¶ O feibion Joseff, sef o feibion Effraim, wrth eu cenedlaethau, yn ôl eu teuluoedd, o dŷ eu tadau, dan rif eu henwau, o fab ugain mlwydd ac uchod, pob un a'r a ydoedd yn gallu myned i ryfel;

33 Eu rhifedigion hwynt, o lwyth Effraim, oedd ddeugain mil a phum cant.

34 ¶ O feibion Manasse, wrth eu cenedlaethau, yn ôl eu teuluoedd, o dŷ eu tadau, dan rif eu henwau, o fab ugain mlwydd ac uchod, pob un a'r a oedd yn gallu myned i ryfel;

35 Eu rhifedigion hwynt, o lwyth Manasse, oedd ddeuddeng mil ar hugain a dau gant.

36 ¶ O feibion Benjamin, wrth eu cenedlaethau, yn ôl eu teuluoedd, o dŷ eu tadau, dan rif eu henwau, o fab ugain mlwydd ac uchod, pob un a'r a oedd yn gallu myned i ryfel;

throsodd ac yn abl i fynd i ryfel.<sup>35</sup> Nifer llwyth Manasse oedd tri deg dwy o filoedd a dau gant.

<sup>36</sup> O dylwyth Benjamin, rhestrwyd fesul un, yn ôl cenedlaethau eu tylwythau a'u teuluoedd, enw pob gwryw ugain oed a throsodd ac yn abl i fynd i ryfel.<sup>37</sup> Nifer llwyth Benjamin oedd tri deg pump o filoedd a phedwar cant.

<sup>38</sup> O dylwyth Dan, rhestrwyd fesul un, yn ôl cenedlaethau eu tylwythau a'u teuluoedd, enw pob gwryw ugain oed a throsodd ac yn abl i fynd i ryfel.<sup>39</sup> Nifer llwyth Dan oedd chwe deg dwy o filoedd a saith gant.

<sup>40</sup> O dylwyth Aser, rhestrwyd fesul un, yn ôl cenedlaethau eu tylwythau a'u teuluoedd, enw pob gwryw ugain oed a throsodd ac yn abl i fynd i ryfel.<sup>41</sup> Nifer llwyth Aser oedd pedwar deg un o filoedd a phum cant.

<sup>42</sup> O dylwyth Nafftali, rhestrwyd fesul un, yn ôl cenedlaethau eu tylwythau a'u

37 Eu rhifedigion hwynt, o lwyth Benjamin, oedd bymtheg mil ar hugain a phedwar cant.

38 ¶ O feibion Dan, wrth eu cenedlaethau, yn ôl eu teuluoedd, o dŷ eu tadau, dan rif eu henwau, o fab ugain mlwydd ac uchod, pob un a'r a oedd yn gallu myned i ryfel;

39 Eu rhifedigion hwynt, o lwyth Dan, oeddynt ddwy fil a thrigain a saith gant.

40 ¶ O feibion Aser, wrth eu cenedlaethau, yn ôl eu teuluoedd, o dŷ eu tadau, dan rif eu henwau, o fab ugain mlwydd ac uchod, pob un a'r a oedd yn gallu myned i ryfel;

41 Eu rhifedigion hwynt, o lwyth Aser, oeddynt un fil a deugain a phum cant.

42 ¶ O feibion Nafftali, wrth eu cenedlaethau, yn ôl eu teuluoedd, o dŷ eu tadau, dan rif eu henwau, o fab ugain mlwydd ac uchod, pob un a'r a ydoedd yn gallu myned i ryfel;

43 Eu rhifedigion hwynt, o lwyth Nafftali, oedd dair mil ar ddeg a deugain a phedwar cant.

teuluoedd, enw pob gwryw ugain oed a throsodd ac yn abl i fynd i ryfel. <sup>43</sup> Nifer llwyth Nafftali oedd pum deg tair o filoedd a phedwar cant.

<sup>44</sup> Dyma'r rhai a gyfrifwyd gan Moses ac Aaron gyda chymorth arweinwyr Israel, deuddeg ohonynt, pob un yn cynrychioli tŷ ei hynafiaid. <sup>45</sup> Gwnaed cyfrif o bobl Israel, yn ôl eu teuluoedd, gan gynnwys pawb oedd yn ugain oed a throsodd ac yn abl i fynd i ryfel; <sup>46</sup> y cyfanswm oedd chwe chant a thair o filoedd pum cant a phum deg.

<p>44 Dyma’r rhifedigion, y rhai a rifodd Moses, ac Aaron, a thywysogion Israel; sef y deuddengwr, y rhai oedd bob un dros dŷ eu tadau.</p> <p>45 Felly yr ydoedd holl rifedigion meibion Israel, wrth dŷ eu tadau, o fab ugain mlwydd ac uchod, pob un a’r a ydoedd yn gallu myned i ryfel yn Israel;</p> <p>46 A’r holl rifedigion oedd chwe chan mil a thair mil a phum cant a deg a deugain.</p>	
--	--

Ar y llaw arall, defnyddia BNET ffurf tabl:

BNET	
<sup>20-43</sup> A dyma’r canlyniadau, sef nifer y dynion dros ugain oed allai ymuno â’r fyddin, gan ddechrau gyda Reuben (mab hynaf Israel):	
Llwyth	Nifer
Reuben	46,500
Simeon	59,300
Gad	45,650
Jwda	74,600
Issachar	54,400
Sabulon	57,400
Yna meibion Joseff:	

Effraim	40,500
Manasse	32,200
Wedyn,	
Benjamin	35,400
Dan	62,700
Asher	41,500
Nafftali	53,400

<sup>44</sup> Dyma niferoedd y dynion gafodd eu cyfri gan Moses, Aaron, a'r deuddeg arweinydd (pob un yn cynrychioli llwyth ei hynafiad). <sup>45</sup> Cawson nhw eu cyfrif yn ôl eu teuluoedd – pob un dyn oedd dros ugain oed ac yn gallu ymuno â'r fyddin. <sup>46</sup> A'r cyfanswm oedd 603,550.

Y tro hwn, nid brawddeg neu gyfres o frawddegau hirion sydd yn y cyfieithiadau hŷn, ond yn hytrach gyfres o frawddegau ailadroddus gyda'r un cymalau yn cael eu hailadrodd dro ar ôl tro. Llwydda BNET ar y llaw arall i grynhoi'r holl wybodaeth gan osgoi ailadrodd y cymalau hynny, gan eu cynnwys mewn un frawddeg o gyflwyniad, cyn nodi niferoedd pob llwyth mewn tabl. Nid yn unig y ffafria BNET dablau dros naratif yn yr enghreifftiau hyn, ond y mae'r ffordd y cyflwynir y ffigurau yn wahanol hefyd, wrth i'r cyfieithiadau hŷn ddefnyddio geiriau i gyfleu'r niferoedd, tra defnyddia BNET ffigurau. Ceir gwahaniaeth ymhellach rhwng BWM a BCND wrth fod BWM yn defnyddio'r dull mwyaf safonol o nodi rhifau, tra bo BCND yn defnyddio dull mwy llafar. Cymharer dull rhifo llwyth Gad, er enghraifft, yn y tabl isod.

BWM	BCND	BNET
pum mil a deugain a chwe chant a deg a deugain	pedwar deg pump o filoedd chwe chant a phum deg	45,650

Dull safonol, traddodiadol y Gymraeg o gyfrif yw mewn ugeiniau, wrth gwrs, a dilynir y patrwm hwnnw yn BWM. Fodd bynnag, nid naturiol yw'r dull hwn o gyfrif i'r mwyafrif o bobl erbyn hyn, yn enwedig wrth ymdrin â rhifau yn y miloedd. Llai safonol, ond mwy dealladwy yw dull BCND, tra bo dull BNET yn gliriach byth i'r darllenydd unigol. Y gwir amdani yw bod cynulleidfa'r unfed ganrif ar hugain yn fwy cyfarwydd â darllen rhifau yn ôl dull BNET, yn enwedig wrth ymdrin â rhifau mawrion. Rhydd y dull hwn hefyd ddewis i'r sawl a'i darllena ar lafar sut i eirio'r rhifau – mae gan bawb ei ddull naturiol o wneud hynny. Coda hyn gwestiwn mwy cyffredinol am ddulliau cyflwyno gwybodaeth BNET: sut y dylid ei ddarllen ar lafar? Mae'r Beibl yn rhywbeth sy'n cael ei ddarllen yn uchel, o bulpudau ac mewn astudiaethau Beiblaidd; wrth ddarllen pennod fel hon o BNET, tybir y byddai'n rhaid i'r darllenydd lunio'r cymalau sy'n cysylltu gwahanol eitemau'r tabl. Yn sicr, nid yw llyfr Numeri yn un y darllenir ohono mewn pulpud yn aml, ond eto, cyfrifir ef yn Ysgrythur yn y traddodiad Cristnogol ac felly mae'n llyfr priodol i'w ddarllen mewn addoliad cyhoeddus.

Daw'r enghraifft olaf o'r gwahaniaeth hwn o'r ail bennod, wrth i'r 12 llwyth gael eu rhannu'n bedair carfan a thri llwyth ymhob un. Eto, yn gyntaf ceir ddulliau BWM a BCND o gyflwyno'r data, ar gyfer y garfan gyntaf yn unig:

BWM	BCND
3 ¶ A'r rhai a wersyllant o du'r dwyrain tua chodiad haul, fydd gwŷr lluman gwersyll	<sup>3</sup> Ar ochr y dwyrain, tua chodiad haul, bydd minteioedd gwersyll Jwda yn gwersyllu o

<p>Jwda, yn ôl eu lluoedd: a chapten meibion</p> <p>Jwda fydd Nahson mab Aminadab.</p> <p>4 A'i lu ef, a'u rhai rhifedig hwynt, fyddant bedair mil ar ddeg a thrigain a chwe chant.</p> <p>5 A llwyth Issachar a wersyllant yn nesaf ato: a chapten meibion Issachar fydd Nethaneel mab Suar.</p> <p>6 A'i lu ef, a'i rifedigion, fyddant bedair mil ar ddeg a deugain a phedwar cant.</p> <p>7 Yna llwyth Sabulon: ac Eliab mab Helon fydd capten meibion Sabulon.</p> <p>8 A'i lu ef, a'i rifedigion, fyddant ddwy fil ar bymtheg a deugain a phedwar cant.</p> <p>9 Holl rifedigion gweryll Jwda fyddant yn ôl eu lluoedd, yn gan mil a phedwar ugain mil a chwe mil a phedwar cant. Yn flaenaf y cychwyn y rhai hyn.</p>	<p>dan eu baner. <sup>4</sup> Nahson fab Amminadab fydd arweinydd pobl Jwda, a nifer ei lu yn saith deg pedair o filoedd a chwe chant.</p> <p><sup>5</sup> Llwyth Issachar fydd yn gweryll yn nesaf ato. Nethanel fab Suar fydd arweinydd pobl Issachar, <sup>6</sup> a nifer ei lu yn bum deg pedair o filoedd a phedwar cant. <sup>7</sup> Yna llwyth Sabulon; Eliab fab Helon fydd arweinydd pobl Sabulon, <sup>8</sup> a nifer ei lu yn bum deg saith o filoedd a phedwar cant. <sup>9</sup> Cyfanswm gweryll Jwda, yn ôl eu minteioedd, fydd cant wyth deg chwech o filoedd a phedwar cant. Hwyl fydd y rhai cyntaf i gychwyn ar y daith.</p>
--	--

BNET, ar y llaw arall:

BNET		
<sup>3-9</sup> Ar yr ochr ddwyreiniol, bydd adrannau'r tri llwyth yma yn gweryll dan eu fflag:		
Llwyth	Arweinydd	Nifer
Jwda	Nachson fab Aminadab	74,600

Issachar	Nethanel fab Tswár	54,400
Sabulon	Eliab fab Chelon	57,400
	Cyfanswm:	186,400

Y milwyr ar ochr Jwda i'r gwersyll fydd yn arwain y ffordd pan fydd pobl Israel yn symud.

Mae dau beth yn nodedig am y tabl hwn. Yn gyntaf, ceir colofn ychwanegol, gan fod tri manylyn ar gyfer pob llwyth y tro hwn, sef enw'r llwyth, enw'r arweinydd, a nifer y dynion. Gellir dadlau bod y manylyn ychwanegol hwn yn gwneud tabl hyd yn oed yn fwy priodol ar gyfer cyflwyno'r wybodaeth. Yn ail, er y cafwyd cyfanswm yn yr enghraifft flaenorol o'r bennod gyntaf, fel rhan o'r naratif y'i cyflwynwyd y tro hwnnw, hyd yn oed yn BNET. Y tro hwn, fodd bynnag, cyflwynir y cyfanswm ar waelod y golofn 'Nifer', yn union fel a wneir mewn taenlen neu fantolen ariannol.

Ar gyfer pob un o'r enghreifftiau uchod hefyd, mae un gwahaniaeth sylweddol rhwng BNET a'r cyfieithiadau hŷn. Ar y cyfan, ni chynhwysir rhifau'r adnodau mewn dyfyniadau yn y traethawd hwn, rhag drysu rhwng cyfeiriadau at droednodiadau a rhifau'r adnodau. Fodd bynnag, fe'u cynhwysir yn y cyfieithiadau i gyd, a chydag eithriadau prin iawn, maent yn cyfateb â'i gilydd (ac â chyfieithiadau mewn ieithoedd eraill). Un o'r eithriadau hynny yw gyda'r tablau hyn yn BNET, gan mai yn ôl y naratif y rhennir penodau yn adnodau. Tra bo'r cyfieithiadau i gyd, ar y cyfan, yn cyfieithu adnod wrth adnod, dyma enghraifft o BNET yn rhoi heibio i'r arfer honno ac yn mabwysiadu dull arall, sef nodi'r ystod o adnodau a gyfleir mewn tabl. Gwelir ym mhennod gyntaf Numeri fod adnodau 5-15 ac 20-43 yn cael eu cyflwyno yn y fath fodd, ac felly nid oes modd nodi beth yw cynnwys unrhyw adnod benodol yn BNET heb gyfieithiad arall wrth law. Gall hyn achosi rhai problemau ymarferol, megis wrth wneud cyfeiriadau at y bennod. Ceir troednodyn ym mhennod 2 BNET a gyfeiria at Numeri 1:14, ond

nid yw Numeri 1:14 yn bodoli fel adnod unigol yn BNET! Fel y mae'n digwydd, nid oes llawer o werth i'r troednodyn dan sylw ac nid yw'n broblem fawr. Fodd bynnag, dengys yr eironi a berthyn i'r sefyllfa, yn ogystal â'r problemau ymarferol a ddeillia o'r fath system. Mae pregethwyr ac esbonwyr yn aml yn cyfeirio at adnodau penodol, a dyna un anfantais, er yn fechan, i ddarllenwyr BNET yma.

Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae'r dull amgen hwn o gyflwyno'r holl wybodaeth yn hwyluso'r gwaith i'r darlennydd personol, a hefyd i'r sawl sy'n casglu gwybodaeth yn gefndir i hanesion y gwahanol lwythau mewn manau eraill yn yr Ysgrythur. Llwydda i gyfleu llawer o wybodaeth heb ddefnyddio gormodaeth o eiriau, a cheir enghraifft o bennod 7, adnodau 12-83, ble mae BWM yn defnyddio 1,176 o eiriau, BNCD yn defnyddio 1,242, a BNET yn defnyddio 167 i gyflwyno yr un wybodaeth yn union. Ceir y geiriau isod yn y BCND 12 o weithiau (a rhai tebyg yn BWM), ond unwaith yn unig y'u ceir yn BNET:

BCND	BNET
<p>... offrymodd _____ ei offrwm yntau: plât arian yn pwyso cant tri deg o siclau, a chawg arian yn pwyso saith deg o siclau, yn ôl sicl y cysegr, a'r ddau yn llawn o beilliaid wedi ei gymysgu ag olew ar gyfer y bwydoffrwm; dysgl aur yn pwyso deg sicl ac yn llawn o aroglarth; bustach ifanc, hwrdd ac oen gwryw ar gyfer y poethoffrwm; bwch gafr ar gyfer yr aberth dros bechod;</p>	<p><u>Roedd offrwm pawb yr un fath: Plât arian yn pwyso cilogram a hanner a phowlen arian yn pwyso tri chwarter cilogram; roedd y ddau yn llawn o'r blawd gwenith gorau wedi'i gymysgu gydag olew olewydd i'w gyflwyno fel offrwm o rawn. Padell aur yn pwyso can gram; roedd hon yn llawn aroglarth. Un tarw ifanc, un hwrdd, ac un oen gwryw blwydd oed, yn offrwm i'w losgi'n llwyr. Un bwch gafr yn offrwm puro.</u></p>



dau ych, pum hwrdd, pum bwch a phum oen gwryw ar gyfer aberth yr heddoffrwm.	A dau ych, pum hwrdd, pum bwch gafr, a phum oen gwryw blwydd oed yn offrwm i gydnabod daioni'r Arglwydd.
---	--

Tra bo hyn yn arbed dros fil o eiriau, dylid ystyried i ba raddau y mae hwn yn parhau i fod yn gyfieithiad, yn enwedig y frawddeg uchod sydd wedi ei thanlinellu. Er mai cywir yw nodi bod offrymau'r holl arweinwyr yr un fath, nid yw'r Ysgrythur ei hun yn nodi hynny. Diddorol yw nodi sylw'r *ESV Study Bible*,

The exact repetition of the donations of each tribe underlines that all the tribes were equally committed to supporting the tabernacle.<sup>345</sup>

Efallai nad yw'n eithriadol o eglur pam y cynhwysir yr union fanylion ddeuddeg o weithiau, ond eto, dyna a wneir yn y gwreiddiol, ac o ystyried mai cyfieithu yw'r dasg, hwyrach mai gwell fyddai fod wedi ei drin fel ag y mae yn y gwreiddiol. Gyda thwf ym mhoblogrwydd Beiblau â nodiadau (megis y Beibl Canllaw yn Gymraeg, yr *ESV Study Bible* Saesneg), mae modd llunio cyfieithiad cyflawn yn brif gorff, yn *ogystal* â chyflwyno'r un wybodaeth ar ffurf tabl fel nodyn ar waelod neu ymyl y dudalen. Mae dulliau cyfoes o ddarllen gan ddefnyddio technoleg hefyd yn cynnig opsiynau o'r fath, ac y mae'n haws nag erioed neidio yn ôl ac ymlaen rhwng gwahanol gyflwyniadau o'r un wybodaeth.

Dylid nodi nad BNET yw'r cyfieithiad cyntaf i fabwysiadu dulliau o'r fath o gyflwyno gwybodaeth, ac mae'r berthynas yn amlwg iawn yn llyfr Numeri rhwng BNET a'r GNB<sup>346</sup> Saesneg, a gyhoeddwyd yn gyfan yn gyntaf yn 1976. Mae'r cyfieithiad hwnnw wedi dod yn boblogaidd iawn, yn wir dyna'r cyfieithiad mwyaf poblogaidd yn y Deyrnas Unedig yn ôl

<sup>345</sup> Nodyn ar Numeri 7:10-88 yn *ESV Study Bible* (Wheaton, Illinois, 2008), t. 275.

<sup>346</sup> *Good News Bible – Second Edition* (1994).

Cymdeithas y Beibl,<sup>347</sup> a defnyddiwyd ef yn helaeth yn ymgyrchoedd Billy Graham. Dywed

Cymdeithas y Beibl am y cyfieithiad:

Through the plain language, the Bible's message is made easily accessible to everyone, and according to recent research it is the preferred translation of those who do not read the Bible.<sup>348</sup>

Nid yw'n syndod felly bod tebygrwydd rhwng egwyddorion y cyfieithiad hwnnw a BNET, gan mai pwyslais y ddau yw cyrraedd cynulleidfa newydd a dieithr.

Yn ogystal â thablau, ceir enghreifftiau eraill o gyflwyno gwybodaeth mewn ffyrdd ychydig yn fwy creadigol na'r arfer. Ceir enghreifftiau o baragraffu mwy amrywiol, yn ogystal â defnydd o bwyntiau bwled. Gan ddychwelyd at y bennod a drafodir uchod, sef pennod 7, wedi nodi aberth unfath arweinwyr y 12 llwyth, dychwel y naratif i grynhoi'r holl aberthau. Unwaith eto, cymharer BCND a BNET:

BCND	BNET
<sup>84</sup> Dyma oedd yr offrwm gan arweinwyr Israel ar gyfer cysegru'r allor ar y dydd yr eneiniwyd hi: <u>deuddeg</u> plât arian, <u>deuddeg</u> cawg arian a <u>deuddeg</u> dysgl aur, <sup>85</sup> a phob plât arian yn pwyso <i>cant tri deg o siclau</i> , pob cawg arian yn pwyso <i>saith deg o</i>	<sup>84-88</sup> Felly cyfanswm yr offrymau gyflwynodd arweinwyr Israel pan gafodd yr allor ei heneinio oedd: – un deg dau plât arian yn pwyso cilogram a hanner yr un – un deg dwy powlen arian yn pwyso tri chwarter cilogram yr un

<sup>347</sup> <https://www.biblesociety.org.uk/products/bibles/english-bibles/gnb/> (cyrchwyd 21/02/2022).

<sup>348</sup> Ibid.

<p>siclau, a'r holl llestri arian yn  pwyso dwy fil pedwar cant o  siclau, yn ôl sicl y cysegr; <sup>86</sup> hefyd,  <u>deuddeg</u> dysgl aur yn llawn o  arogldarth, pob un yn pwyso deg  sicl, yn ôl sicl y cysegr, a'r holl  ddysglau aur yn pwyso cant ac  ugain o siclau; <sup>87</sup> hefyd, gwartheg  ar gyfer y poethoffrwm, yn  gyfanswm o <u>ddeuddeg</u> bustach,  <u>deuddeg</u> hwrdd, <u>deuddeg</u> oen  gwryw gyda'r bwydoffrwm; yr  oedd <u>deuddeg</u> bwch gafr ar gyfer  yr aberth dros bechod;  <sup>88</sup> gwartheg ar gyfer aberth yr  heddoffrwm, yn gyfanswm o  <u>bedwar</u> ar hugain o fustych,  <u>trigain</u> hwrdd, <u>trigain</u> bwch, a  <u>thrigain</u> oen gwryw. Dyma oedd  yr offrwm ar gyfer cysegru'r allor,  wedi ei heneinio.</p>	<p>(felly roedd y llestri arian i gyd yn pwyso dau ddeg  saith cilogram, yn ôl pwysau safonol y cysegr)  – un deg dwy badell aur yn llawn o aroglarth, yn  pwyso can gram yr un  (felly roedd y padellau aur i gyd yn pwyso un cilogram  a dau gan gram yn ôl pwysau safonol y cysegr)  – un deg dau tarw ifanc, un deg dau hwrdd ac un deg  dau oen gwryw blwydd oed yn offrymau i'w llosgi'n  llwyr – pob un gyda'i offrwm o rawn  – un deg dau bwch gafr yn offrymau puro  – dau ddeg pedwar tarw ifanc, chwe deg hwrdd,  chwe deg bwch gafr a chwe deg oen gwryw blwydd  oed yn offrymau i gydnabod daioni'r Arglwydd.  Dyna'r rhoddion gafodd eu cyflwyno pan oedd yr  allor yn cael ei chysegru a'i heneinio.</p>
---	---

Dyma ddull effeithiol iawn yn BNET o gyflwyno gwybodaeth, gyda'r pwyntiau bwled yn rhestru cyfanswm yr aberthau yn eglur iawn. Diddorol yw nodi'r uned a ddefnyddir i bwysu'r

llestri hefyd, gyda BNET, yn synhwyrol iawn, yn defnyddio unedau cyfoes. Tra bo gwerth cadw rhai unedau heb eu newid (ni fyddai ceisio trosi'r 30 darn arian a dderbyniodd Jwdas Iscariot yn arian cyfoes yn briodol), mae rhai unedau y medrir eu newid, yn enwedig rhai sy'n mesur priodoleddau ffisegol gwrthrychau, fel y sicl a'r cufydd. Nid yw'r sicl na'r cufydd yn unedau cyfarwydd yn yr oes gyfoes, tra bo unedau metrig fel y cilogram yma, a medrau a chentimedrau mewn mannau eraill,<sup>349</sup> yn unedau sy'n prysur ennill eu plwyf. Mae'r rhifeiriau yn drawiadol unwaith eto hefyd, gan y'u defnyddir yn BNET yn yr achos hwn yn ogystal â'r cyfieithiadau hŷn. Yn yr enghraifft flaenorol, defnyddia BWM y sustem ugeiniol, BCND y sustem ddegol, a BNET symbolau'r rhifau. Y tro hwn, defnyddia BCND gyfuniad o'r sustem ugeiniol a'r sustem ddegol (ugeiniol wedi eu tanlinellu uchod, degol mewn print italig), tra bo BNET yn defnyddio'r sustem ddegol. Mae'r defnydd o'r sustem ugeiniol ar gyfer rhif fel 'deuddeg' yn naturiol iawn, tra bo defnyddio'r system ddegol ar gyfer 'saith deg' yn naturiol iawn. Amrywio o berson i berson fyddai naturioldeb 'trigain', mae'n debyg, ond disgwylir y defnydd o'r rhifair hwnnw ar gyfer cyfieithiad mewn cywair o'r fath. Defnydd BNET o'r sustem ddegol yn unig sydd fwyaf trawiadol, fodd bynnag, yn arbennig felly 'un deg dau' ac 'un deg dwy' gan mor naturiol yw 'deuddeg' i amrediad eang iawn o siaradwyr.

Eto, diwyg y paragraffu sy'n drawiadol yn Numeri 3:17-37, ble dilyna BWM<sup>350</sup> ei arfer gyffredinol o beidio â pharagraffu o gwbl, ond defnyddia BNET ddulliau golygu rhywfaint yn fwy creadigol:

---

<sup>349</sup> Genesis 6:15, BNET.

<sup>350</sup> Argraffiad 1955.

BWM	BNET
17 A'r rhai hyn oedd feibion Lefi wrth eu henwau; Gerson, a Cohath, a Merari.	<sup>17</sup> Enwau meibion Lefi oedd Gershon, Cohath a Merari.
18 ¶ A dyma enwau meibion Gerson, yn ôl eu teuluoedd; Libni a Simei.	<sup>18</sup> Enwau claniau meibion Gershon oedd Libni a Shimei.
19 A meibion Cohath, yn ôl eu teuluoedd; Amram, Ishar, Hebron, ac Ussiel.	<sup>19</sup> Enwau claniau meibion Cohath oedd Amram, Its'har, Hebron ac Wssiel.
20 A meibion Merari, yn ôl eu teuluoedd; Mahli a Musi. Dyma deuluoedd Lefi, wrth dŷ eu tadau.	<sup>20</sup> Enwau claniau meibion Merari oedd Machli a Mwshi. Y rhain oedd teuluoedd Lefi yn ôl eu claniau.
21 O Gerson y daeth tylwyth y Libniaid, a thylwyth y Simiaid: dyma deuluoedd y Gersoniaid.	<sup>21</sup> Disgynyddion Gershon oedd claniau Libni a Simei – <sup>22</sup> sef 7,500 o ddynion a
22 Eu rhifedigion hwynt, dan rif pob gwryw o fab misyriad ac uchod, eu rhifedigion, meddaf, oedd saith mil a phum cant.	bechgyn oedd dros fis oed. <sup>23</sup> Roedd teuluoedd y Gershoniaid i wersylla tu ôl i'r Tabernacl, i'r gorllewin. <sup>24</sup> Ac arweinydd y
23 Teuluoedd y Gersoniaid a wersyllant ar y tu ôl i'r tabernacl tua'r gorllewin.	Gershoniaid oedd Eliasaff fab Laël. <sup>25</sup> Cyfrifoldeb y Gershoniaid oedd pabell y
24 A phennaeth tŷ tad y Gersoniaid fydd Eliasaff mab Lael.	Tabernacl, y gorchudd, y sgrîn o flaen y fynedfa i babell presenoldeb Duw, <sup>26</sup> llenni'r
25 ¶ A chadwraeth meibion Gerson, ym mhabell y cyfarfod, fydd y tabernacl, a'r	iard oedd o gwmpas y Tabernacl a'r allor, y sgrîn o flaen y fynedfa i'r iard, y rhaffau, a

<p>babell, ei tho hefyd, a chaeadlen drws pabell y cyfarfod,</p> <p>26 A llenni'r cynteddfa, a chaeadlen drws y cynteddfa, yr hwn sydd ynghylch y tabernacl, a'r allor o amgylch, a'i rhaffau i'w holl wasanaeth.</p> <p>27 Ac o Cohath y daeth tylwyth yr Amramiaid, a thylwyth yr Ishariaid, a thylwyth yr Hebroniaid, a thylwyth yr Ussieliad: dyma dylwyth y Cohathiaid.</p> <p>28 Rhifedi yr holl wrywiaid, o fab misyriad ac uchod, oedd wyth mil a chwe chant, yn cadw cadwraeth y cysegr.</p> <p>29 Teuluoedd meibion Cohath a wersyllant ar ystlys y tabernacl tua'r deau.</p> <p>30 A phennaeth tŷ tad tylwyth y Cohathiaid fydd Elisaffan mab Ussiel.</p> <p>31 A'u cadwraeth hwynt fydd yr arch, a'r bwrdd, a'r canhwylbren, a'r allorau, a llestri'r cysegr, y rhai y gwasanaethant â hwynt, a'r gaeadlen, a'i holl wasanaeth.</p> <p>32 ¶ A phennaf ar benaethiaid y Lefiaid fydd Eleasar mab Aaron yr offeiriad; a</p>	<p>phopeth arall oedd ag unrhyw beth i'w wneud â'r rhain.</p> <p><sup>27</sup> Disgynyddion Cohath oedd claniau Amram, Its'har, Hebron ac Wssiel – <sup>28</sup> sef 8,600 o ddynion a bechgyn oedd dros fis oed. Nhw oedd yn gyfrifol am y cysegr.</p> <p><sup>29</sup> Roedd teuluoedd y Cohathiaid i wersylla i'r de o'r Tabernacl. <sup>30</sup> Ac arweinydd y Cohathiaid oedd Elitsaffan fab Wssiel.</p> <p><sup>31</sup> Nhw oedd yn gyfrifol am yr Arch, y bwrdd, y menora (sef y stand i'r lampau), yr allorau, unrhyw offer oedd yn cael ei ddefnyddio yn y cysegr, y gorchudd mewdol, a phopeth arall oedd ag unrhyw beth i'w wneud â'r rhain.</p> <p><sup>32</sup> Eleasar, mab Aaron oedd pennaeth arweinwyr y Lefiaid. Roedd ganddo gyfrifoldeb arbennig i oruchwylio'r rhai oedd yn gyfrifol am y cysegr.</p> <p><sup>33</sup> Disgynyddion Merari oedd claniau Machli a Mwshi – <sup>34</sup> sef 6,200 o ddynion a bechgyn oedd dros fis oed. <sup>35</sup> Arweinydd y Merariaid oedd Swriel fab Afichail.</p>
---	--

<p>llywodraeth ar geidwaid cadwraeth y cysegr fydd iddo ef.</p> <p>33 O Merari y daeth tylwyth y Mahliaid, a thylwyth y Musiaid: dyma dylwyth Merari.</p> <p>34 A'u rhifedigion hwynt, wrth gyfrif pob gwryw, o fab misyriad ac uchod, oedd chwe mil a deucant.</p> <p>35 A phennaeth tŷ tad tylwyth Merari fydd Suriel mab Abihael. Ar ystlys y tabernacl y gwersyllant tua'r gogledd.</p> <p>36 Ac yng nghadwraeth meibion Merari y bydd ystyllod y tabernacl, a'i drosolion, a'i golofnau, a'i forteisiau, a'i holl offer, a'i holl wasanaeth,</p> <p>37 A cholofnau'r cynteddfa o amgylch, a'u morteisiau, a'u hoelion, a'u rhaffau.</p>	<p>Roedden nhw i wersylla i'r gogledd o'r Tabernacl. <sup>36</sup> Cyfrifoldeb y Merariaid oedd fframiau'r Tabernacl, y croesfarrau, y polion, y socedi, y llestri i gyd, a phopeth arall oedd ag unrhyw beth i'w wneud â'r rhain. <sup>37</sup> Hefyd, polion yr iard i gyd, gyda'i socedi, pegiau a rhaffau.</p>
--	--

Cryfder y dull hwn o osod y testun yw bod brawddeg gyntaf pob paragraff megis pennawd, a gwna waith unrhyw un sy'n cyrchu gwybodaeth yn rhwyddach o lawer. Ni cheir unrhyw ddryswch rhwng cyfrifoldebau y gwahanol arweinwyr, tra bo hynny yn risg gyda chyfieithiad BWM. Y mae hefyd yn llawer haws i'w ddarllen, ar lafar hyd yn oed, gan fod y darlennydd yn gwybod pa frawddegau y dylid eu pwysleisio yng nghyd-destun y paragraff, a lle i orffwys a mynegi diwedd paragraff gan ddefnyddio tŷn y llais. Ceir defnydd o'r dull golygu hwn mewn manau eraill yn y cyfieithiad hefyd, nid yw'n unigryw i lyfr Numeri. Fodd bynnag, mae

gweddill yr amrywiadau a geir yn BNET yn yr atodiad hwn yn unigryw i lyfr Numeri, ac felly y tybiwyd y byddai'n werth eu trafod yn ychwanegol i'r pum llyfr a drafodir ym mhrif gorff y traethawd.

Yn olaf ar y llyfr hwn, nodir rhestr arall a geir ym mhennod 33 ble mae BNET eto yn sefyll allan. Gwyddys bod BWM yn dechrau pob adnod ar linell newydd, tra bo BCND a BNET yn paragraffu. Ym mhennod 33, ceir rhestr arall yn BNET ble mae pob adnod yn dechrau ar linell newydd, ond yr hyn sydd fwyaf trawiadol ynghylch y rhestr yw absenoldeb berfau.

BCND	BNET
<p><sup>5</sup> Aeth yr Israeliaid o Rameses, a gweryllu yn Succoth. <sup>6</sup> Aethant o Succoth a gweryllu yn Etham, sydd ar gwr yr anialwch. <sup>7</sup> Aethant o Etham a throi'n ôl i Pihahiroth, sydd i'r dwyrain o Baal-seffon, a gweryllu o flaen Migdol. <sup>8</sup> Aethant o Pihahiroth a mynd trwy ganol y môr i'r anialwch, a buont yn cerdded am dridiau yn anialwch Etham cyn gweryllu yn Mara.</p> <p><sup>9</sup> Aethant o Mara a chyrraedd Elim, lle yr oedd deuddeg o ffynhonnau dŵr a saith deg o balmwydd, a buont yn</p>	<p><sup>5</sup> Ar ôl gadael Rameses, dyma bobl Israel yn gweryllu yn Swccoth.</p> <p><sup>6</sup> Yna gadael Swccoth a gweryllu yn Etham, sydd ar ymyl yr anialwch.</p> <p><sup>7</sup> Gadael Etham a mynd yn ôl i gyfeiriad Pi-hachiroth, sydd i'r dwyrain o Baal-tseffon, a gweryllu wrth ymyl Migdol.</p> <p><sup>8</sup> Gadael Pi-hachiroth, a mynd drwy ganol y môr i'r anialwch yr ochr draw. Yna teithio am dri diwrnod yn anialwch Etham, a gweryllu yn Mara.</p> <p><sup>9</sup> Gadael Mara a gweryllu yn Elim, lle roedd deuddeg ffynnon a saith deg coeden balmwydd.</p> <p><sup>10</sup> Gadael Elim a gweryllu wrth y Môr Coch...</p>



gwersyllu yno.<sup>10</sup> Aethant o Elim a

gwersyllu wrth y Môr Coch...

Mae'n ddealladwy y byddai BNET am osgoi defnyddio ffurfiau cryno'r ferf, 'gadawodd' a 'gadawasant'. Ym mrawddeg gyntaf BNET, gweithreda 'dyma' fel berf wrth iddo ragflaenu berfenw ac mae hynny'n berffaith dderbyniol, ac yn naturiol iawn ar lafar. Noda *Geiriadur Prifysgol Cymru* fod hynny'n digwydd mor gynnar â'r unfed ganrif ar bymtheg.<sup>351</sup> Yn yr adnodau sy'n dilyn mae absenoldeb berf yn fwy nodedig, gan ddefnyddio berfenwau'n unig yn yr holl frawddegau sy'n dilyn. Tra bo hyn yn ansafonol, ac yn anarferol hyd yn oed, mewn cyfres o frawddegau, ni fyddai'n ansafonol nac yn anarferol mewn cyfres o gymalau neu bwyntiau bwled. Y mae'n rhyfedd felly na fabwysiadodd BNET batrwm tebycach i'r isod:

#### Addasiad o BNET

<sup>5</sup> Ar ôl gadael Rameses, dyma bobl Israel:

- yn gwersylla yn Swccoth;
- <sup>6</sup> yna'n gadael Swccoth a gwersylla yn Etham, sydd ar ymyl yr anialwch;
- <sup>7</sup> yna'n gadael Etham a mynd yn ôl i gyfeiriad Pi-hachiroth, sydd i'r dwyrain o Baal-tseffon, a gwersylla wrth ymyl Migdol;
- <sup>8</sup> yna'n gadael Pi-hachiroth, a mynd drwy ganol y môr i'r anialwch yr ochr draw;
- yna'n teithio am dri diwrnod yn anialwch Etham, a gwersylla yn Mara;
- <sup>9</sup> yna'n gadael Mara a gwersylla yn Elim, lle roedd deuddeg ffynnon a saith deg coeden balmwydd;
- <sup>10</sup> yna'n gadael Elim a gwersylla wrth y Môr Coch...

<sup>351</sup> 'Dyma', *Geiriadur Prifysgol Cymru* (Caerdydd, 1950–), t. 1138.

Manteisia'r patrwm uchod ar ddau gryfder cyffredinol BNET, sef ei fod yn cyflwyno gwybodaeth yn eglur ar bapur (mae pwyntiau bwled yn hawdd i'w darllen), ac yn cyflwyno gwybodaeth gan ddefnyddio arddull lafar (byddai modd adrodd y dyfyniad uchod i gyd fel un frawddeg hir, amlgymalog yn ddigon hawdd).

I gloi felly, BNET yw'r un a saif allan o blith y tri chyfieithiad o ran ei ymdriniaeth â llyfr unigryw Numeri. Yn aml iawn, llwydda i gyfleu llawer o wybodaeth mewn ffordd hwylus a chyfleus i'r darllenydd, gan fanteisio ar amryw ffurfiau cyflwyno gwybodaeth. Ar y cyfan, mae'r penderfyniadau a wnaed wrth lunio cyfieithiad BNET yn unigryw i lyfr Numeri, a gellir cwestiynu pam na ddefnyddir tablau, er enghraifft, yn yr holl fannau eraill yn yr Ysgrythur lle ceir cyfres hir o enwau a dyddiadau. Gwelwyd eisoes yn llyfr Genesis fod ynddo achresi hir, gydag enwau a dyddiadau; os yw tablau yn briodol yn llyfr Numeri, onid ydynt yn llawn mor briodol mewn rhannau o lyfr Genesis yn ogystal? Y gwir amdani yw bod Cymry'r unfed ganrif ar hugain yn tueddu i ddarllen rhestrau o rifau oddi ar daenlenni a thablau, nid paragraffau. Fodd bynnag, wrth lunio cyfieithiad, rhaid yw sicrhau mai cyfieithiad ydyw'r gwaith yn y pen draw, nid ailgyflwyniad o'r un wybodaeth. Gyda'r opsiynau diddiwedd i ychwanegu tablau fel troednodiadau, neu fel dolen neu hypergyswllt ar ddyfais gyfrifiadurol, gellir manteisio ar gryfder cyflwyniad rhwyddach y dulliau amgen, a sicrhau cyfieithiad ochr yn ochr â hynny.

## *Llyfryddiaeth*

### *Beiblau*

1. Beibl William Morgan (1588).
2. Y Beibl Cysegr-Lân (1620, Argraffiad 1955).
3. Y Beibl Sanctaidd gyda Nodiadau a Sylwadau ar bob Pennod gan y Parch Peter Williams (1770).
4. Y Beibl Cymraeg Newydd (1988).
5. Y Beibl Cymraeg Newydd, Argraffiad Diwygiedig (2004).
6. *Y Beibl Canllaw* (Bangor, 2015).
7. beibl.net (2015).
8. *beibl.net i bobl ifanc* (Swindon, 2020).
9. The English Standard Version (2001).
10. *ESV Study Bible* (Wheaton, Illinois, 2008).
11. The Greek-English Interlinear ESV New Testament (Wheaton, Illinois, 2018).
12. Good News Bible – Second Edition (1994).
13. Good News Bible – The Youth Edition (2018).
14. The King James Version (1611).
15. Life Application Study Bible – New International Version (Eastbourne, 2000).
16. The New King James Version (1982).
17. The New International Version (1979).
18. The New Revised Standard Version (1989).

19. Salmau Cân Edmwnd Prys (1621).
20. Salmau Cân Newydd, Gwynn ap Gwilym (2008).

### *Yr Iaith Gymraeg*

21. Cymraeg Busnes : Llawlyfr Safonol I Ddysgwyr Ar Bob Lefel, Acen (Caerdydd, 1992).
22. Ffurfiâu Ysgrifenedig Cymraeg Llafar, CBAC (1991).
23. Rhiannon Ifans, *Y Golygiadur* (Aberystwyth, 2006).
24. Dafydd Glyn Jones, *lawn Bob Tro* (Bangor, 2016).
25. R. E. Jones, *Llyfr o Idiomau Cymraeg* (Abertawe, 1975).
26. D. Geraint Lewis, *Y Treigludur* (Llandysul, 1993).
27. D. Geraint Lewis, *Y Llyfr Berfau* (Llandysul, 1995).
28. D. Geraint Lewis, *Pa Arddodiad?* (Llandysul, 2000).
29. Henry Lewis, *Datblygiad yr Iaith Gymraeg* (Llandysul, 1931).
30. Orgraff yr Iaith Gymraeg (Caerdydd, 1928).
31. Peter Wynn Thomas, *Gramadeg y Gymraeg* (Caerdydd, 1996).

### *Geiriaduron*

32. Thomas Charles, *Geiriadur Ysgrythyrol* (Y Bala, 1805).
33. Geiriadur Prifysgol Cymru (Caerdydd, 1950–).
34. *Y Geiriadur Mawr* (Llandysul, 1958).
35. Geiriadur yr Academi (Caerdydd, 1995).
36. D. Geraint Lewis, *Geiriadur Gomer i'r Ifanc* (Llandysul, 1994).

37. D. Geraint Lewis a Nudd Lewis, *Geiriadur Cymraeg Gomer* (Llandysul, 2016).
38. *Y Termiadur* (Bangor, 2006).
39. [termau.cymru](http://termau.cymru)
40. Jac L. Williams, *Geiriadur Termau* (Caerdydd, 1973).

### *Astudiaethau Cyfieithu*

41. Kirsten Malmkjær, *Linguistics and the Language of Translation* (Caeredin, 2005).
42. Jeremy Munday, *Introducing Translation Studies* (Abingdon, 2016).
43. Eugene Nida, *Toward a Science of Translating* (Leiden, 1964).
44. Delyth Prys a Robat Trefor (gol.), *Ysgrifau a Chanllawiau Cyfieithu* (Caerfyrddin, 2015).
45. Ben Screen, *Sylfeini Cyfieithu Testun* (Caerdydd, 2021).
46. Lawrence Venuti, *The Translator's Invisibility* (Llundain, 2008).

### *Myngeiriau*

47. Owen E. Evans a David Robinson, *Mynegair i'r Beibl Cymraeg Newydd* (Caerdydd, 1998).
48. Owen Jones, *Mynegair Ysgrythyrol* (Dinbych, 1860).

### *Y Gymraeg a'r Beibl, a'r Cyfieithwyr*

49. Charles Ashton, *Bywyd ac Amserau yr Esgob Morgan* (Treherbert, 1891).
50. [www.beibligymru.com](http://www.beibligymru.com)
51. *Y Bywgraffiadur Cymreig* (Llundain, 1953).

52. Carwyn Graves, 'Grym a nerth y Gair' yn *Y Cylchgrawn Efengylaidd*, 55:1 (2018).
53. Carwyn Graves, 'Ymgynghoriad ar 'Y Beibl i'r Dyfodol'' yn *Y Cylchgrawn Efengylaidd*, 55:2 (2018).
54. R. Geraint Gruffydd, *Y Gair ar Waith* (Caerdydd, 1988).
55. R. Geraint Gruffydd, 'Yr Esgob William Morgan (1545-1604) a Beibl Cymraeg 1588' yn Geraint H. Jenkins (gol), *Cof Cenedl III* (Llandysul, 1988).
56. R. Geraint Gruffydd, E. Wyn James gol., *Y Ffordd Gadarn* (Pen-y-Bont ar Ogwr, 2008).
57. E. Wyn James, 'Beibl Cymraeg i'r Dyfodol: Rhai Materion Sylfaenol' yn *Y Cylchgrawn Efengylaidd*, 55:2 (2018).
58. Arfon Jones, 'Cyfieithu'r Beibl a Gweledigaeth beibl.net' yn *Y Cylchgrawn Efengylaidd*, 55:2 (2018).
59. Huw Jones, *Y Geir yn ei Bryd* (Caernarfon, 1994).
60. Iwan Rhys Jones, 'Y Beibl Cymraeg Newydd' yn *Y Cylchgrawn Efengylaidd*, 26:4 (1989).
61. Iwan Rhys Jones, 'Egwyddorion a dulliau cyfieithu Y Beibl Cymraeg Newydd gyda sylw arbennig i'r rhannau meseianaidd' (Bangor, 2000).
62. Iwan Rhys Jones, 'Diwinydda yn 'Y Beibl Cymraeg Newydd'' yn *Y Traethodydd*, 162 (2007).
63. Iwan Rhys Jones, 'Y Beibl Cymraeg Newydd: Cyfraniad y Gweithgor Efengylaidd' yn Iwan Rhys Jones gol., *Diwinydda Ddoe a Heddiw* (Pen-y-Bont ar Ogwr, 2012).
64. Iwan Rhys Jones, 'Ai'r hen sydd orau bob tro? : Diwygio'r Beibl Cymraeg' yn *Y Cylchgrawn Efengylaidd*, 49:1 (2012).
65. Iwan Rhys Jones, *Geiriau Bywyd* (Bangor, 2017).
66. R. Tudur Jones, Euros Wyn Jones (gol.), *Blas ar Gristnogaeth Cymru* (Chwilog, 2018).

67. Thomas Levi, *Hanes y Bibl Cymraeg* (Llundain, 1875).
68. Adrian Morgan, 'Astudiaeth o Salmau Cân (1621) Edmwnd Prys' (Ph.D., Prifysgol Aberystwyth, 2011), yn Llyfrgell Prifysgol Aberystwyth.
69. Derec Llwyd Morgan, *Y Beibl a Llenyddiaeth Gymraeg* (Llandysul, 1998).
70. Prys Morgan, *Beibl i Gymru* (Aberystwyth, 1988).
71. John Parry a J. Ogwen Jones gol., *Y Gwyddoniadur Cymreig* (Dinbych, 1856-79).
72. John Peter a Gweirydd ap Rhys, *Enwogion y Ffydd* (Llundain, 1878-84).
73. Bleddyn J. Roberts, *Patrymau Llenyddol y Beibl* (Lerpwl, 1950).
74. Isaac Thomas, 'Iaith y Testament Newydd' yn John Gwyn Griffiths gol., *Cefndir y Testament Newydd* (Llandysul, 1966).
75. Isaac Thomas, *William Salesbury a'i Destament* (Caerdydd, 1967).
76. Isaac Thomas, *Y Testament Newydd Cymraeg* (Caerdydd, 1976).
77. Isaac Thomas, *William Morgan a'i Feibl* (Caerdydd, 1988).
78. Alun Tudur, *Pobl y Ffordd* (Bangor, 2005).

### *Diwinyddiaeth Cyfieithu'r Beibl*

79. John Beekman a John Callow, *Translating the Word of God* (Grand Rapids, Michigan, 1974).
80. Dave Brunn, *One Bible, Many Versions* (Nottingham, 2013).
81. D. A. Carson, *The King James Version Debate* (Grand Rapids, Michigan, 1979).
82. D. A. Carson, *The Inclusive Language Debate* (Caerlŷr, 1998).
83. D. A. Carson, *The Enduring Authority of the Christian Scriptures* (Llundain, 2016).

84. Lewis Edwards, 'Ysbrydoliaeth yr Ysgrythyr' yn *Traethodau Duwinyddol* (Wrecsam, 1867).
85. Wayne Grudem, Leland Ryken, C. John Collins, Vern S. Poythress a Bruce Winter, *Translating Truth* (Wheaton, Illinois, 2005).
86. R. Tudur Jones, *Yr Ysbryd Glân* (Caernarfon, 1972).
87. Stanley E. Porter a Richard S. Hess gol., *Translating the Bible* (Sheffield, 1999).

### *Diwinyddiaeth yn gyffredinol*

88. Cyfres *Bara'r Bywyd* (Pen-y-Bont ar Ogwr, 1980–2016).
89. Louis Berkhof, *Systematic Theology* (Caeredin, 1958).
90. D. A. Carson (et al.) (gol.), *The New Bible Commentary* (Caerlŷr, 1994).
91. Leslie F. Church (gol.), *Matthew Henry's Commentary on the Whole Bible in One Volume* (Llundain, 1960).
92. Wayne Grudem, *Systematic Theology* (Caerlŷr, 1994).
93. James Hughes, *James Hughes ar y Testament Newydd* (Treffynnon, 1835).
94. James Hughes, *James Hughes ar yr Hen Destament* (Treffynnon, 1860).
95. Leon L. Morris (gol. cyff.) Cyfres *Tyndale New Testament Commentaries* (Caerlŷr a Nottingham, 1957–).
96. John R. W. Stott a J. A. Motyer (gol. cyff.), Cyfres *The Bible Speaks Today* (Caerlŷr a Nottingham, 1968–).
97. James Strong, *The Exhaustive Concordance of the Bible* (McLean, Virginia, 1890).
98. Donald J. Wiseman (gol. cyff.) Cyfres *Tyndale Old Testament Commentaries* (Caerlŷr a Nottingham, 1969–).



## *Llyfrau Emynau*

99. Llyfr Emynau y Methodistiaid Calфинаidd a Wesleidd (1929).
100. Llawlyfr Moliant Newydd y Bedyddwyr (Abertawe, 1956).
101. *Y Caniedydd* (Abertawe, 1960).
102. E. Wyn James (gol.), *Trysorau Gras* (Pen-y-Bont ar Ogwr, 1979).
103. Caneuon Ffydd (2001).